# Cod Ymarfer
# Cyfraith Bwyd
## (Cymru)

---

## Awst 2018

# Cod Ymarfer
# Cyfraith Bwyd
## (Cymru)

**Wedi'i osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag Adran 40 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 a Rheoliad 6 o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009**

## Tabl o Adrannau a Phenodau

**Pennod 1 – Cyflwyniad……………………………………………………. 1**

**Pennod 2 – Cyfathrebu……………………………………………………. 3**

2.1 – Materion Rhwng yr Awdurdodau…………………………………………………… 3

2.2 – Rheoli digwyddiadau a rhybuddion ........................................................................ 7

2.3 – Mynd i'r afael â Throseddau Bwyd ......................................................................... 13

2.4 – Cyfathrebu rhwng Awdurdodau Cymwys ................................................................ 15

2.5 – Ymholiadau i Wledydd eraill y DU ac Aelod-wladwriaethau eraill ............................. 20

**Pennod 3 – Gweinyddu.................................................................................24**

3.1 – Gofynion i Gyflawni Rheolaethau……………………………………………………22

3.2 – Cofrestru sefydliadau busnes bwyd ........................................................................ 28

3.3 – Cyflwyno Manylion i'w Cymeradwyo gan Sefydliad Busnes Bwyd....................... 34

3.4 – Gwybodaeth am Fusnes Bwyd ............................................................................... 42

3.5 – Monitro Mewnol....................................................................................................... 45

**Pennod 4 – Cymwysterau a Phrofiad.................................................... 47**

4.1 – Cyflwyniad…......................................................................................................... 47

4.2 – Rheolaeth Swyddogol/Math o Rôl........................................................................... 53

**Pennod 5 – Trefnu'r Rheolaethau Swyddogol…………………………69**

5.1 – Cynlluniau Gwasanaeth Bwyd ............................................................................... 59

5.2 – Cyflenwi Rheolaethau Swyddogol ac Ymyriadau ................................................... 60

**Pennod 6 – Samplu a dadansoddi……………………………………86**

6.1 – Cyflwyniad .............................................................................................................. 88

**Pennod 7 – Sancsiynau a chosbau samplu………………………………90**

7.1 – Ymdrin ag achosion o ddiffyg cydymffurfio ............................................................ 92

7.2 – Dull Anffurfiol........................................................................................................... 94

7.3 – Cosbau Ffurfiol ....................................................................................................... 95

**Pennod 8 – Materion sy'n Ymwneud â Molysgiaid Dwygragennog Byw 109**

8.1 – Cyflwyniad............................................................................................................. 111

**Atodiadau…………………………………………………………………....111**

Atodiad 1 – Geirfa ........ 115

Atodiad 2 – Diagram Llif Digwyddiadau Bwyd ........ 125

Atodiad 3 – Ffurflen Rhoi Gwybod am Ddigwyddiad Bwyd / Bwyd Anifeiliaid (Awdurdodau Bwyd) ........ 126

Atodiad 4 – Ffurflen Gais Enghreifftiol ar gyfer Cofrestru Sefydliad Busnes Bwyd ........ 132

Atodiad 5 – Cynlluniau Sgorio Ymyriadau'r Sefydliad Bwyd ........ 134

# Pennod 1 – Cyflwyniad

Cyhoeddir y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cod) hwn o dan adran 40(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 (y Ddeddf), Rheoliad 24 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006[1], a Rheoliad 6 o'r Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009[2], sy'n rhoi grym i Weinidogion Cymru gyhoeddi codau ymarfer sy'n ymwneud â gweithredu a gorfodi'r ddeddfwriaeth honno gan Awdurdodau Bwyd. Mae'n ymwneud â Chymru yn unig.

Mae deddfwriaeth sy'n ymwneud â Rheolaethau Swyddogol yn ei gwneud yn ofynnol i'r "Awdurdod Cymwys" gyflawni'r swyddogaethau Rheoli Swyddogol hyn. At ddibenion y Cod hwn, caiff y term "Awdurdod Bwyd" ei ddefnyddio yn hytrach nag Awdurdod Cymwys, oni bai y cyfeirir at Awdurdod Cymwys, ar wahân i'r awdurdodau lleol, fel yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB). O dan yr amgylchiadau hyn, mae'r term a ddefnyddir yn cael ei nodi yn y Rhestr Termau yn Atodiad I. Dylid ystyried cyfeiriadau at deddfwriaeth yn gyfeiriad at y ddeddfwriaeth honno yn ei ffurf bresennol (oni bai y nodir fel arall). Mae'r ddeddfwriaeth y cyfeirir ati uchod yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Bwyd ystyried y Cod hwn wrth gyflawni eu dyletswyddau.

Gallai penderfyniadau neu weithrediadau Awdurdodau Bwyd nad ydynt yn ystyried darpariaethau perthnasol y Cod hwn gael eu herio yn llwyddiannus, a gall llys ddyfarnu bod tystiolaeth a gasglwyd yn ystod ymchwiliad troseddol yn annerbyniol.

Yn ogystal, gall yr ASB, ar ôl ymgynghori â Gweinidogion Cymru, roi cyfarwyddyd i Awdurdod Bwyd lle mae'n rhaid iddynt gymryd unrhyw gamau penodol er mwyn cydymffurfio â'r Cod hwn.

Os bydd Awdurdod Bwyd, trwy gydymffurfio â'r Cod hwn, yn canfod bod iechyd y cyhoedd neu ddiogelwch bwyd yn debygol o gael ei beryglu, rhaid iddynt drafod y mater gyda'r ASB cyn gynted â phosibl.

Mae gan Awdurdodau Bwyd ddyletswyddau statudol i orfodi deddfwriaeth sy'n ymwneud â bwyd, gan gynnwys cynhyrchu bwyd cynradd a bwyd wedi'i fewnforio naill ai o du allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) neu fwyd sydd wedi dod i'r Deyrnas Unedig (DU) o Aelod-wladwriaeth arall yr Undeb Ewropeaidd (UE).

Diben gorfodi yw sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth sy'n ymwneud â bwyd yn ardal pob Awdurdod Bwyd yng Nghymru. Felly mae'n rhaid i bob Awdurdod Bwyd gyflawni ei ddyletswydd mor effeithiol â phosibl, gan ddefnyddio'r dulliau sydd fwyaf priodol i'r amgylchiadau.

Mae cyflawni'r ddyletswydd hon yn effeithiol yn golygu bod gofyn i swyddogion awdurdodedig fod yn gyfarwydd â'r gyfraith y maent yn cael eu penodi i'w gorfodi; gan gyfeirio at y gyfraith ei hun yn ogystal â'r Cod hwn, y Canllaw Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau eraill; deall yr hyn a nodir yn y gyfraith a'r hyn sy'n ofynnol o

[1] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2006/31/contents/made
[2] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2009/3376/contents/made

dan y gyfraith; a gofyn am arweiniad pan fydd ansicrwydd.

Bydd yr ASB yn cyhoeddi Canllawiau Ymarfer ar gyfer Awdurdodau Bwyd a fydd yn cael eu diweddaru o dro i dro. Rhaid i Awdurdodau Bwyd ystyried canllawiau o'r fath, yn ogystal ag unrhyw ganllawiau priodol eraill a gyhoeddir gan yr ASB neu'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'n rhaid i Awdurdodau Bwyd hefyd ystyried y Cytundeb Fframwaith ar Orfodi Cyfraith Bwyd gan Awdurdodau Lleol (y Cytundeb Fframwaith)[3], sy'n adlewyrchu gofynion y Cod hwn. Mae'r Cytundeb Fframwaith hefyd yn gyson ag egwyddorion Cod y Rheoleiddwyr[4].

Mae'r rhan fwyaf o gyfraith y DU sy'n ymwneud â bwyd wedi'i chynnwys yn Neddf Diogelwch Bwyd 1990 ac mewn Rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf honno neu o dan Ddeddf Cymunedau Ewropeaidd 1972[5]; mae'r Rheoliadau hyn, ar y cyfan, yn rhoi effaith i ofynion cyfraith bwyd yr UE naill ai drwy weithredu Cyfarwyddebau neu ddarparu mecanweithiau gorfodi ar gyfer Rheoliadau'r UE sy'n uniongyrchol berthnasol. Fodd bynnag, dylai Awdurdodau Bwyd fod yn ymwybodol o ddeddfwriaeth arall sy'n effeithio ar gynhyrchu a marchnata bwyd i raddau mwy neu lai, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981[6], Deddf Diogelu Defnyddwyr 1987[7] a Rheoliadau Diogelu Defnyddwyr rhag Masnachu Annheg 2008.

Dylai Awdurdodau Bwyd hefyd nodi bod Erthygl 8(5) o Reoliad (CE) Rhif 852/2004 ar hylendid bwydydd yn darparu ar gyfer canllawiau ar arfer da a luniwyd yn unol â Chyfarwyddeb 93/43/EEC ar hylendid bwydydd[8] (a adnabyddir yn y DU fel "Canllawiau'r Diwydiant ar Ymarfer Hylendid Da") yn parhau i fod yn berthnasol cyn belled â'u bod yn gydnaws â'i amcanion.

Yn y Cod hwn, mae cyfeiriadau at folysgiaid dwygragennog byw hefyd yn cynnwys ecinodermiaid, tiwnigogion byw a boldroediaid y môr byw, yn unol ag Atodiad III, Adran VII(1) o Reoliad (CE) Rhif 853/2004[9] sy'n gosod rheolau hylendid penodol ar gyfer bwyd sy'n dod o anifeiliaid ac eithrio'r rhannau o'r Cod hwn sy'n ymdrin â phuro molysgiaid dwygragennog byw.

Oni nodir yn wahanol, mae’r cyfeiriadau at Benodau ac Atodiadau yn cyfeirio at rannau perthnasol y Cod hwn.

---

[3] https://signin.riams.org/files/display_inline/45532/frameworkagreementno5-18122017

[4] https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/300126/14-705- rheoleiddwyr-code.pdf. Yng Nghymru, mae hyn yn berthnasol i swyddogaethau rheoleiddiol penodol sy'n cael eu harfer gan awdurdodau lleol Cymru. Mae'r rhain yn ymwneud â materion y DU ac i reoleiddwyr penodol y DU sy'n gweithredu yng Nghymru. Heb y Cytundeb Fframwaith, ni fyddai'r Cod Rheoleiddwyr yn berthnasol gan nad yw'n cwmpasu swyddogaethau rheoli bwyd.

[5] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1972/68/contents

[6] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1981/22/contents

[7] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1987/43/contents

[8] http://eur-lex.europa.eu/LexUriServ/LexUriServ.do?uri=OJ:L:1993:175:0001:0011:EN:PDF Cyfarwyddeb y Cyngor 93/43/CEE ar hylendid bwyd. Cyfnodolyn Swyddogol L175, 19.7.1993, t1-11. Mae wedi’i ddirymu erbyn hyn

[9] http://eur-lex.europa.eu/LexUriServ/LexUriServ.do?uri=OJ:L:2004:226:0022:0082:EN:PDF Rheoliad (CE) Rhif 853/2004 sy'n gosod rheolau hylendid penodol ar gyfer bwyd sy'n dod o anifeiliaid. Cyfnodolyn Swyddogol L226 25.6.2004, t22-82.

# Pennod 2 – Cyfathrebu

## 2.1 – Materion Rhwng yr Awdurdodau

Dylai Awdurdodau Bwyd rannu gwybodaeth am gydymffurfiaeth a risgiau posibl i ddefnyddwyr sy'n gysylltiedig â sefydliadau busnesau bwyd gydag Awdurdodau Bwyd eraill, ac ymateb i unrhyw gyfathrebu rhesymol gan Awdurdodau Cymwys eraill sy'n gofyn am wybodaeth neu gymorth.

Dyma enghreifftiau o adegau y gall Awdurdodau Bwyd ofyn am wybodaeth neu gymorth gan Awdurdodau Bwyd/Awdurdodau Cymwys eraill e.e. Yr ASB (nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr)

- cyfeirio materion gorfodi neu bryderon trawsffiniol;
- cyfeirio cwynion bwyd a hysbysir i Awdurdod Bwyd;
- cydlynu gwaith gorfodi/gweithgareddau rheoli clefydau heintus; a,
- sicrhau bod cofrestri sefydliadau busnesau bwyd anifeiliaid yn gyflawn ac yn gywir o ran busnesau bwyd sy'n cynhyrchu neu'n gosod cynhyrchion i'w defnyddio mewn bwyd anifeiliaid ar y farchnad.

Ar ôl cael cais neu gyfeiriad, dylai Awdurdod Bwyd gymryd y camau canlynol:

- cydnabod ei fod wedi cael yr ohebiaeth a chynghori'r Awdurdod Bwyd gwreiddiol ei fod yn mynd i'r afael â'r mater;
- ymchwilio a/neu gymryd camau gorfodi priodol, os oes angen;
- hysbysu'r awdurdod bwyd gwreiddiol o unrhyw gamau a gymerwyd.
- sicrhau bod ymatebion i geisiadau yn agored, yn dryloyw ac yn cael eu darparu heb oedi gormodol; a,
- diweddau'r parti gwreiddiol ar y cynnydd, yn enwedig pan fo camau'n mynd rhagddynt, ac na fydd y canlyniad yn hysbys am beth amser.

Os yw'r digwyddiad yn ddigwyddiad bwyd, dylid ei gyfeirio at yr ASB.

Rhaid i Awdurdodau Bwyd basio'r wybodaeth maent yn ei chael sy'n nodi newid yn y gweithrediadau o fewn sefydliad busnes bwyd, a gwybodaeth os yw cymeradwyaeth sefydliad wedi'i dynnu'n ôl, ei atal neu ei adfer, i Awdurdodau Bwyd perthnasol eraill o fewn 28 diwrnod.

Ystyrir bod sefydliadau ar lefel cynhyrchu cynradd sydd wedi'u cofrestru â Thaliadau Gwledig Cymru (RPW) cyn 1 Rhagfyr 2006 wedi'u cofrestru at ddibenion Erthygl 6(2) o Reoliad (CE) Rhif 852/2004.

### 2.1.1 Cyswllt rhwng Awdurdodau Bwyd dwy-haen

Dylid nodi, mewn rhannau o'r DU lle mae dwy haen o lywodraeth leol ac mae'r ddwy yn Awdurdodau Bwyd, nid yw'r ASB wedi nodi a yw ymchwiliadau a chamau gorfodi mewn perthynas â swyddogaethau penodol e.e. cynhyrchu cynradd yn cael eu cynnal ar lefel Dosbarth neu Sir.

Yng Nghymru, mae pob awdurdod lleol yn Awdurdod Unedol ac nid yw'r gwahaniaethau rhwng Cynghorau Dosbarth a Sir yn gymwys.

### 2.1.2 Egwyddor y Prif Awdurdod

Mae egwyddorion y Prif Awdurdod wedi'u hamlinellu yn Neddf Gorfodi Rheoleiddiol a Chosbau 2008, a chânt eu goruchwylio gan yr adran Gweithredu Rheoliadau ar ran Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS). Mae'r ASB yn gweithio'n agos gyda'r Adran Gweithredu Rheoliadau yn ei gwaith i weithredu'r Prif Awdurdod ar gyfer rheoliadau bwyd.

Mae'r cynllun yn caniatáu i fusnesau ffurfio partneriaeth statudol gydag un neu ragor o awdurdodau lleol, sydd wedyn yn darparu cyngor cadarn a dibynadwy i awdurdodau eraill wrth gynnal arolygiadau neu ddelio ag achosion o ddiffyg cydymffurfio. Gall Prif Awdurdod gefnogi ei fusnes partner wrth gydymffurfio â rheoliadau trwy roi cyngor sicr, trwy gydlynu camau gorfodi, a thrwy ddatblygu cynllun arolygu ar gais y busnes.

Rhaid i Awdurdodau Bwyd a swyddogion unigol roi sylw i Gynllun y Prif Awdurdod yn eu gweithrediadau a'u cynllunio; er enghraifft, trwy ddefnyddio system TG ddiogel y cynllun fel mater o drefn i bennu a oes gan fusnesau maent yn ymwneud â nhw bartneriaethau Prif Awdurdod.

Mae'r ASB yn disgwyl i Awdurdodau Bwyd gyflawni eu rhwymedigaethau statudol o dan gynllun y Prif Awdurdod: drwy roi gwybod i Brif Awdurdod am gamau gorfodi, naill ai cyn cymryd y camau neu, lle caniateir hynny, ar ôl iddynt wneud hynny; a thrwy ystyried y gofynion mewn perthynas â chynlluniau arolygu sydd wedi'u cyhoeddi.

Mae rhagor o wybodaeth a chanllawiau statudol y cynllun ar gael drwy http://www.bis.gov.uk/brdo/primary-authority.

### 2.1.3 Egwyddor yr Awdurdod Cartref

Mae'r ASB yn hyrwyddo Egwyddor yr Awdurdod Cartref, sy'n cael ei lywodraethu gan Ddatganiad Ymrwymiad ar y Cyd (JSoC) wedi'i lofnodi gan BRDO (Swyddfa Diogelwch a Safonau Cynhyrchion), y Sefydliad Safonau Masnach (TSI) (Sefydliad Safonau Masnach Siartredig (CTSI ) erbyn hyn a Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd (CIEH) erbyn hyn), ym mis Mehefin 2011. Dylai Awdurdodau Bwyd, lle bo modd, fabwysiadu a gweithredu ei ddarpariaethau.

Mae Egwyddor yr Awdurdod Cartref yn gynllun a sefydlwyd i helpu awdurdodau lleol i weithio gyda busnesau i ddarparu safonau masnach a gwasanaethau gorfodi bwyd cyson wedi'u cydgysylltu ar draws y DU. Mae'n cynorthwyo busnesau sydd â siopau mewn mwy nag un awdurdod lleol ac sy'n dosbarthu nwyddau a/neu wasanaethau y tu hwnt i ffiniau un awdurdod lleol. Mae Egwyddor yr Awdurdod Cartref yn hwyluso cyfathrebu effeithiol rhwng awdurdodau a busnesau ac yn sicrhau bod deddfwriaeth a chyngor yn cael eu cymhwyso'n gyson.

Mae Awdurdodau Cartref yn gweithredu mewn sefyllfaoedd pan nad oes gan fusnes bartneriaeth Prif Awdurdod ar waith (e.e. os yw busnes yn dewis peidio â mynd i mewn i bartneriaeth neu os nad yw'n gyfreithiol iddo gael un), ond lle mae

angen clir o hyd i gydlynu gweithgarwch rheoleiddio mewn perthynas â'r busnes hwnnw. Er enghraifft, achosion o ddiffyg cydymffurfio a allai fod yn ddaearyddol eang, a allai arwain at ymyriadau rheoleiddio tebyg, ond heb eu cysylltu, gan nifer o awdurdodau lleol.

Mae Awdurdodau Cartref yn hwyluso'r broses o rannu gwybodaeth ymhlith Awdurdodau Cymwys ac yn ceisio sicrhau cydymffurfiaeth busnes yn bennaf mewn diogelwch bwyd a hylendid, a safonau bwyd. Yn aml, mae'r Awdurdod Bwyd sydd wedi'i leoli yn yr un ardal â phrif swyddfa busnes (neu'r Awdurdod Bwyd lle caiff y nwyddau neu'r gwasanaethau eu cynhyrchu) yn y sefyllfa orau i weithredu fel Awdurdod Cartref ar gyfer y busnes hwnnw.

Mae Egwyddor yr Awdurdod Cartref yn disgwyl i awdurdod lleol roi pwyslais arbennig ar nwyddau a gwasanaethau sy'n deillio o fusnes yn ei ardal ei hun, mewn ymdrech i reoleiddio'r busnes yn y ffynhonnell, gan arwain at effeithlonrwydd yn y system reoleiddio yn ei chyfanrwydd.

Mae Egwyddor yr Awdurdod Cartref yn galluogi rheoleiddwyr i ganolbwyntio ar ddiogelu dinasyddion, gweithwyr a'r amgylchedd, tra hefyd yn cydymffurfio ag egwyddorion rheoleiddio da (cymesuredd, atebolrwydd, cysondeb, tryloywder a thargedu). Mae Egwyddor yr Awdurdod Cartref yn gynllun gwirfoddol i 'hyrwyddo dulliau effeithlon ac effeithiol o arolygu a gorfodi rheoleiddiol sy'n gwella canlyniadau rheoleiddiol heb osod beichiau diangen ar fusnes, y Trydydd Sector ac endidau eraill a reoleiddir’.

Mae'n rhaid i Awdurdodau Bwyd sy'n ystyried rhoi cyngor neu gymryd camau gorfodi mewn perthynas â busnesau bwyd sydd ag Awdurdod Cartref ystyried a oes angen iddynt gysylltu â'r Awdurdod Cartref cyn gwneud hynny. Efallai bod hyn yn angenrheidiol, er enghraifft, lle mae'r cyngor neu'r camau gorfodi yn ymwneud â pholisïau neu weithdrefnau busnes bwyd y cytunwyd arnynt yn ganolog. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn yn angenrheidiol lle mae camau gweithredu o'r fath yn ymwneud â materion o natur leol yn unig. Mae'r gronfa ddata ddiogel ar gyfer Awdurdodau Cartref yn cael ei chynnal trwy TS Interlink[10].

### 2.1.4 Grwpiau Cyswllt Rhanbarthol a Lleol

Rhaid i Awdurdodau Bwyd gael eu cynrychioli ar lefel briodol o wybodaeth a chymhwysedd, fel arfer gan y swyddog neu swyddogion bwyd arweiniol perthnasol, mewn cyfarfodydd grwpiau cyswllt bwyd rhanbarthol neu leol, i gynnal cysondeb gorfodi gydag Awdurdodau Bwyd eraill.

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau bod grwpiau cyswllt rhanbarthol neu leol yn cynnwys cynrychiolaeth briodol o bob Awdurdod Bwyd a phob Archwiliwr Bwyd a Dadansoddwr Cyhoeddus. Rhaid ystyried cynrychiolaeth gan yr ASB, Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd, yr Ymgynghorydd Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy/ Ymgynghorydd mewn Meddygaeth Iechyd y Cyhoedd (Clefydau Trosglwyddadwy/Iechyd yr Amgylchedd) ac arbenigwyr eraill wrth i'r angen godi.

---

10 https://secure.tslinkonline.co.uk/

Rhaid trafod materion o ddehongli a chysondeb cyfreithiol gyda chydweithwyr yn y grŵp cyswllt bwyd lleol neu ranbarthol a'r Prif Awdurdod, yr Awdurdod Cartref neu'r Awdurdod Gwreiddiol os yw'n briodol. Rhaid i Awdurdodau Bwyd osgoi gwneud penderfyniadau unochrog ar ddehongliadau heb ofyn am farn Awdurdodau Bwyd eraill.

Rhaid i grwpiau o Brif Awdurdodau neu Awdurdodau Cartref sy'n gwasanaethu busnesau bwyd sy'n masnachu yn yr un sector o'r diwydiant drafod yn rheolaidd i sicrhau bod y cyngor a roddir gan Brif Awdurdodau neu Awdurdodau Cartref ar draws sector penodol yn gyson.

Mewn ardaloedd lle mae gweithgarwch cynaeafu pysgod cregyn masnachol, mae'n rhaid i Awdurdodau Bwyd gyfeirio at Bennod 8.1.1 ar gyfer trefniadau trafod.

## 2.2 – Rheoli digwyddiadau a rhybuddion

Mae'r adran hon yn trafod digwyddiadau bwyd a rhybuddion bwyd a nodir yn gyntaf gan Awdurdodau Bwyd.

Mae canllaw ar ffurf darlun o'r broses y dylai Awdurdodau Bwyd ei dilyn wrth ymdrin â digwyddiad neu berygl bwyd a Ffurflen Rhoi Gwybod am Ddigwyddiadau wedi'u cynnwys yn Atodiad II ac Atodiad III y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd hwn. Mae'r ffurflen rhoi gwybod am ddigwyddiadau bwyd hefyd ar gael ar-lein drwy:

https://www.food.gov.uk/cy/about-us/awdurdodau-lleol

### 2.2.1 Gweithdrefn Gofnodedig

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sefydlu a gweithredu gweithdrefn gofnodedig ar gyfer ymdrin â digwyddiadau bwyd a pheryglon a nodir yn eu hardal.

### 2.2.2 Digwyddiadau bwyd

#### 2.2.2.1 Diffiniadau

Digwyddiad bwyd:

Diffinnir "digwyddiad bwyd" at ddibenion y Cod fel unrhyw ddigwyddiad lle mae pryderon, yn seiliedig ar yr wybodaeth sydd ar gael, ynglŷn â bygythiadau gwirioneddol neu dybiedig i ddiogelwch neu ansawdd bwyd a allai olygu bod gofyn ymyrryd i ddiogelu buddiannau defnyddwyr.

Dylid ystyried ansawdd i gynnwys safonau bwyd, dilysrwydd a chyfansoddiad. Mae Digwyddiadau Bwyd wedi'u rhannu'n 3 chategori ar wahân, a allai orgyffwrdd:

- Peryglon bwyd – digwyddiad sy'n gysylltiedig â bwyd sy'n cynnwys (neu amheuir ei fod yn cynnwys) asiant biolegol, cemegol a/neu ffisegol mewn bwyd, neu gyflwr unrhyw fwyd gyda'r potensial i achosi effaith andwyol ar iechyd neu ddiogelwch defnyddwyr [gan gynnwys achosion o glefyd a gludir gan fwyd ac afiechyd coluddyn heintus].
- Twyll bwyd a throseddau bwyd – Gweler 2.3.
- Digwyddiadau nad ydynt yn beryglus a all effeithio ar y gadwyn gyflenwi bwyd. Gallai'r rhain gynnwys materion yn ymwneud ag ansawdd, tarddiad, dilysrwydd, cyfansoddiad a labelu.

Perygl bwyd:

Dylai Awdurdodau Bwyd gategoreiddio peryglon bwyd yn ôl y meini prawf canlynol:

- Perygl bwyd lleol – un lle nad yw bwyd wedi'i ddosbarthu y tu hwnt i ffiniau'r Awdurdod Bwyd ac nad yw'n cael ei ystyried yn berygl bwyd lleol difrifol. Dylid ymdrin â'r rhain yn lleol ar y cyd ag asiantaethau perthnasol eraill ac ni ddylai'r Awdurdod Bwyd roi gwybod i'r ASB amdanynt.
- Perygl bwyd lleol difrifol – un lle nad yw bwyd yn cael ei ddosbarthu y tu hwnt

i ffiniau'r Awdurdod Bwyd ond sy'n cynnwys, neu fe all gynnwys: alergenau, E. coli O157 neu Escherichia coli arall sy'n cynhyrchu Verocytotoxin (VTEC), Clostridium botulinum, Salmonela typhii neu Salmonela paratyphi, neu mae'r Awdurdod Bwyd yn ei ystyried i fod yn sylweddol. Er enghraifft, gallai hyn fod oherwydd natur fregus y boblogaeth sy'n debygol o gael ei effeithio, y niferoedd dan sylw neu unrhyw farwolaethau sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad. Dylai'r Awdurdod Bwyd hysbysu'r ASB ac asiantaethau perthnasol eraill o'r rhain cyn gynted â phosibl, drwy'r dulliau cyflymaf sydd ar gael a'u cadarnhau'n ysgrifenedig ar y ffurflen rhoi gwybod am ddigwyddiad.
- Perygl bwyd nad yw'n lleol – digwyddiad lle mae bwyd yn cael ei ddosbarthu y tu hwnt i ffiniau'r Awdurdod Bwyd. Dylai'r Awdurdod Bwyd hysbysu'r ASB ac asiantaethau perthnasol eraill am y rhain cyn gynted â phosibl, drwy'r dulliau cyflymaf sydd ar gael a'u cadarnhau'n ysgrifenedig ar y ffurflen rhoi gwybod am ddigwyddiad (gweler y ddolen ym Mhennod 2.2).

Dylai Awdurdod Bwyd geisio cyngor yr ASB os oes amheuaeth a yw digwyddiad bwyd yn gyfystyr â pherygl bwyd.

#### 2.2.2.2 Halogi bwriadol ac ymyrryd maleisus

Gall bwyd fod wedi'i halogi'n fwriadol. Os bydd digwyddiad o'r fath yn codi, dylai Awdurdodau Bwyd ddilyn y trefniadau yn yr adran hon, ac eithrio lle credir bod yr halogiad bwriadol o ganlyniad i ymyrraeth faleisus. At ddibenion y Cod, mae "ymyrraeth faleisus" yn golygu halogiad bwyd yn fwriadol gan weithgaredd terfysgol, neu gyda'r nod o flacmelio ac ati.

Sefydlwyd trefniadau ar gyfer ymdrin â digwyddiadau ymyrryd maleisus rhwng yr ASB, Safonau Bwyd yr Alban a'r Heddluoedd ledled y DU ac, os oes angen, bydd yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol yn rhan o'r ymchwiliad.

Dylai Awdurdodau Bwyd gysylltu ag Uned Diogelu Defnyddwyr yr ASB drwy anfon e-bost at wales.foodincidents@food.gov.uk cyn gynted â phosibl os ydynt yn amau ymyrraeth faleisus a throsglwyddo cyfrifoldeb dros ymdrin â digwyddiadau o'r fath i'r Heddlu os gofynnir iddynt wneud hynny.

Dylai Awdurdodau Bwyd gydweithredu'n llawn gydag ymchwiliadau'r Heddlu i ddigwyddiadau o ymyrryd maleisus a pharchu ceisiadau'r Heddlu am gyfrinachedd lle bo modd.

#### 2.2.2.3 Peryglon bwyd sy'n gysylltiedig ag achosion o salwch a gludir gan fwyd

Os yw perygl bwyd wedi arwain at achos o salwch a gludir gan fwyd, rhaid i'r Awdurdod Bwyd ystyried, gyda'u Ymgynghorydd mewn Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy/Ymgynghorydd mewn Meddygaeth Iechyd y Cyhoedd (Clefyd Trosglwyddadwy/Iechyd yr Amgylchedd), roi eu Cynllun Rheoli Achosion ar waith.

Rhaid hysbysu Uned Diogelu Defnyddwyr yr ASB yn syth am achosion difrifol lleol drwy anfon e-bost at wales.foodincidents@food.gov.uk ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Rhaid i Awdurdodau Bwyd drefnu gyda'u Dadansoddwr Cyhoeddus a'u Harchwilydd Bwyd i gael eu hysbysu'n brydlon os ydynt yn nodi perygl bwyd wrth ddadansoddi neu archwilio sampl o fwyd.

#### 2.2.2.4 Camau gweithredu gan yr Awdurdod Bwyd – peryglon bwyd

Unwaith y bydd perygl bwyd wedi'i nodi, rhaid i'r Awdurdod Bwyd gynnal asesiad ar unwaith i benderfynu ar raddfa, graddau a difrifoldeb tebygol y risg mae'r perygl yn ei beri i iechyd neu ddiogelwch y cyhoedd, gan gynnwys asiantaethau eraill fel sy'n briodol.

Gallai'r asiantaethau eraill hyn gynnwys Prif Awdurdodau, Awdurdodau Cartref, Awdurdodau Gwreiddiol a rhai cyfagos, Arbenigwyr Meddygol, Archwilwyr Bwyd, Dadansoddwyr Cyhoeddus a Microbiolegwyr.

Rhaid i Awdurdodau Bwyd fod â gweithdrefnau ar waith i ddwyn yr asiantaethau priodol ynghyd ar fyr rybudd, i weithredu mesurau rheoli brys pryd bynnag y bydd eu hangen ac i nodi awdurdod arweiniol lle bo angen.

Rhaid i'r asesiad hwn gynnwys y canlynol:

- natur y perygl;
- pa mor wenwynig yw'r halogydd, pa mor alergenig yw cynhwysyn nas datganwyd, neu pa mor enbyd a phathogenaidd yw'r organeb;
- lledaeniad daearyddol y perygl;
- y math o anaf a allai gael ei achosi gan halogwr ffisegol;
- y boblogaeth y mae'n debygol o effeithio arni, a pha mor agored i niwed yw'r boblogaeth honno;
- faint o'r bwyd sy'n debygol o fod yn y gadwyn fwyd, ac ym mha ran, hyd at ei fwyta;
- gallu a pharodrwydd y cynhyrchwr neu'r dosbarthwr i weithredu proses effeithiol o dynnu'r cynnyrch yn ôl;
- y gallu i adnabod yn gywir y swp (sypiau) neu'r llwyth(i) dan sylw;
- cywirdeb a manylder cofnodion y cynhyrchwyr neu'r dosbarthwr;
- effeithiolrwydd tebygol tynnu’r cynnyrch yn ôl ym mhob cam o'r gadwyn fwyd;
- y cam(au) lle mae'r diffyg yn debygol o fod wedi digwydd (er enghraifft wrth brosesu, pecynnu, trin, storio neu ddosbarthu) ac arwyddocâd tebygol hynny i'r broblem;
- p'un a effeithiwyd o bosibl ar unrhyw gynhyrchion eraill a gynhyrchir yn yr un sefydliad;
- p'un a yw'r bwyd wedi'i fewnforio;
- p'un a yw'r bwyd wedi'i allforio;
- p'un a oes goblygiadau ehangach i eraill yn yr un diwydiant neu i sefydliadau sy'n defnyddio prosesau tebyg mewn diwydiannau bwyd eraill;
- y posibilrwydd bod y gŵyn neu'r broblem wedi cael ei achosi gan weithred maleisus;
- p'un a yw gwreiddiau'r digwyddiad neu'r perygl yn hysbys, a chymryd camau cywiro er mwyn osgoi ailadrodd.

Pan fydd Awdurdod Bwyd yn cael gwybod am berygl bwyd, rhaid cymryd camau i

ddiogelu iechyd a diogelwch y cyhoedd cyn gynted â phosibl, gan gynnwys, os oes

angen, cadw neu atafaelu'r bwyd dan sylw os yw wedi'i leoli o fewn Awdurdod Bwyd, gweler Pennod 7.3.7 Atafael a Chadw).

Rhaid i Awdurdodau Bwyd hefyd ystyried defnyddio pwerau eraill o dan Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 neu Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 fel sy'n briodol, yn berthnasol i'r amgylchiadau dan sylw.

Pan ddaw Awdurdod Bwyd yn dod yn ymwybodol bod gweithredwr busnes bwyd yn eu hardal wedi tynnu neu alw cynnyrch yn ôl o'r farchnad yn unol ag Erthygl 19 Rheoliad (CE) Rhif 178/2002, oherwydd nad yw'n cydymffurfio â gofynion diogelwch bwyd y Rheoliad hwnnw, dylai'r Awdurdod Bwyd gadarnhau bod yr ASB wedi cael gwybod am hyn. Gellir gwneud hyn trwy gysylltu ag Uned Diogelu Defnyddwyr yr ASB yng Nghymru yn uniongyrchol neu drwy wefan yr ASB.

Bydd yr Awdurdod Bwyd yn parhau i fod yn gyfrifol am weithredu ar lefel leol oni bai a hyd nes bydd yr ASB yn rhoi gwybod i'r Awdurdod Bwyd yn ysgrifenedig fel arall.

#### 2.2.2.5 Peryglon bwyd lleol – cysylltiadau â’r cyfryngau

Mewn achos o berygl bwyd lleol, mae'n debygol y bydd Awdurdod Bwyd yn dymuno cyhoeddi negeseuon ar gyfer y cyfryngau priodol neu ymateb i ddatganiadau i'r wasg lleol fel sy'n briodol i rybuddio'r cyhoedd o berygl. Rhaid ymgynghori â'r gweithredwyr busnesau bwyd perthnasol cyn trafod hunaniaeth busnes a enwir neu fwyd wedi'i frandio gyda'r cyfryngau, neu ei ryddhau i'r cyfryngau. Rhaid anfon datganiadau o’r fath at yr ASB yn ddi-oed. Rhaid i'r Awdurdod Bwyd roi gwybod i'r ASB ar unwaith os yw'r gweithredwr busnes bwyd yn gwrthwynebu rhyddhau gwybodaeth o'r fath.

#### 2.2.2.6 Gweithredu gan yr Awdurdod Bwyd – Digwyddiadau Bwyd nad ydynt yn beryglus

Fel rheol, rhaid i'r Awdurdod Bwyd a'r gweithredwr busnes bwyd ddatrys y digwyddiadau bwyd sy'n groes i gyfraith bwyd ond nad ydynt yn beryglon bwyd, drwy'r Prif Awdurdod, yr Awdurdod Cartref neu'r Awdurdod Gwreiddiol os yw'n briodol.

Dylid rhoi gwybod i'r ASB am ddigwyddiadau bwyd sylweddol nad ydynt yn beryglon bwyd ar unwaith. Wrth bennu arwyddocâd y digwyddiad bwyd, dylid ystyried y ffactorau canlynol:

- torri cyfraith bwyd;
- gofyniad posibl am ymateb cydgysylltiedig;
- yr anfantais i ddefnyddwyr;
- effaith anghymesur ar sector o'r boblogaeth;
- dosbarthu y tu hwnt i'r DU;
- difrod i enw da Cymru (neu'r DU);
- pryder i'r cyhoedd;
- tebygolrwydd o ddiddordeb y cyfryngau.

Pan fo Awdurdod Bwyd yn ansicr ynghylch a oes angen rhoi gwybod am ddigwyddiad bwyd 'nad yw'n beryglus' i'r ASB, dylid trafod y mater gyda'r ASB i gael eglurhad.

### 2.2.3 Rhybuddion bwyd

#### 2.2.3.1 Diffiniadau

Mae'r ASB yn defnyddio'r ffyrdd canlynol o gyfathrebu i godi ymwybyddiaeth o ddigwyddiadau bwyd:

- Mae 'Rhybudd Bwyd – Angen Gweithredu' *(Food Alert For Action)* yn gyfathrebiad gan yr ASB i Awdurdodau Bwyd sy'n ymwneud â pherygl bwyd neu ddigwyddiad bwyd, lle mae'n rhaid i'r Awdurdod Bwyd weithredu/ymateb. Dylid darllen "Diweddariad ar Rybudd Bwyd" yn unol â hynny.
- Hysbysiad Galw Cynnyrch yn Ôl – cynghori bod cynnyrch bwyd wedi'i alw'n ôl, lle nad oes angen i'r Awdurdod Bwyd weithredu'n benodol. Mae galw yn ôl yn golygu galw bwyd yn ôl o'r defnyddiwr.
- Rhybudd Alergedd – yn cael ei gyhoeddi gan yr ASB i gyfathrebu risgiau alergenau yn gyflym ac yn uniongyrchol i'r defnyddiwr. Mae Awdurdodau Bwyd yn cael copïau o'r Rhybuddion Alergedd hyn er gwybodaeth yn unig.

#### 2.2.3.2 Ymateb i Rybuddion Bwyd

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau bod eu gweithdrefn gofnodedig ar gyfer ymdrin â digwyddiadau bwyd a pheryglon yn cynnwys yr ymateb effeithiol i Rybuddion Bwyd a gyhoeddir gan yr ASB. Rhaid datblygu'r weithdrefn gofnodedig hon mewn ymgynghoriad ag:

- Aelodau'r Grŵp Cyswllt Bwyd perthnasol;
- Iechyd Cyhoeddus Cymru;
- Dadansoddwr Cyhoeddus;
- Ymgynghorydd mewn Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy (CCDC);
- Swyddogion perthnasol yr Awdurdod Bwyd, e.e. Swyddog Cynllunio Brys.

Rhaid i'r weithdrefn gofnodedig gynnwys, ar y lleiaf:

- manylion, gan gynnwys manylion cyswllt, y Swyddog Arweiniol ar gyfer materion o'r fath; trefniadau cyswllt rhwng Adrannau Safonau Masnach ac Iechyd yr Amgylchedd;
- unrhyw drefniadau i dderbyn Rhybuddion ac ymateb iddynt y tu allan i oriau gwaith;
- trefniadau i sicrhau bod Rhybuddion Bwyd a diweddariadau'n dod i sylw swyddog a chanddo awdurdod i roi camau priodol ar waith heb oedi gormodol;
- trefniadau i gysylltu â chyrff perthnasol eraill, gan gynnwys Awdurdodau Bwyd cyfagos, yn ystod oriau gwaith arferol a'r tu allan iddynt;
- trefniadau i ddarparu adnoddau staff digonol i ymateb yn effeithiol i rybuddion;
- trefniadau i ddarparu offer digonol, gan gynnwys mynediad at Swyddfeydd y

Cyngor y tu allan i oriau gwaith, i sicrhau bod modd ymateb yn effeithiol.

#### 2.2.3.3 Cyfleusterau ar gyfer derbyn Rhybuddion Bwyd a Diweddariadau

Rhaid i Awdurdodau Bwyd fod â chyfleusterau i gael Rhybuddion Bwyd a Diweddariadau gan yr ASB trwy system post electronig sy'n dderbyniol i'r ASB. Rhaid i Awdurdodau Bwyd roi systemau ar waith i sicrhau y gellir ymateb i'r Rhybuddion Bwyd y tu allan i oriau gwaith arferol.

Rhaid i Awdurdodau Bwyd roi gwybod i'r ASB am eu cyfeiriad post electronig ac unrhyw newidiadau i'r manylion hyn cyn gynted â phosibl trwy e-bostio lasupportwales@food.gov.uk.

#### 2.2.3.4 Camau gweithredu gan Awdurdodau Bwyd

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau bod unrhyw gamau gweithredu a nodir gan yr ASB mewn Rhybudd Bwyd yn cael eu rhoi ar waith yn brydlon, ac yn unol ag unrhyw asesiad risg a gynhelir gan yr ASB. Os yw Awdurdodau Bwyd yn bwriadu cymryd camau eraill, rhaid iddynt gytuno'r rhain gyda'r ASB cyn eu gweithredu. Pan fo Awdurdod Bwyd yn rhagweld anawsterau wrth gydymffurfio â chais i weithredu a roddir mewn Rhybudd, rhaid iddynt gysylltu ag Uned Diogelu Defnyddwyr yr ASB ar unwaith.

#### 2.2.3.5 Cysylltiadau â’r cyfryngau – Rhybuddion Bwyd

Gall Awdurdodau Bwyd sy'n dymuno gwella cyhoeddusrwydd lleol, lle y caniateir gan yr ASB, ddefnyddio datganiad i'r wasg/cyfryngau a gyhoeddir gan yr ASB fel sail ar gyfer datganiad i'r wasg lleol. Mewn achosion o'r fath, rhaid i'r Awdurdod Bwyd sicrhau bod y datganiad lleol yn gywir, yn berthnasol ac yn gyson â datganiad yr ASB.

Os yw Awdurdodau Bwyd yn dymuno arddangos Rhybuddion Bwyd ar eu gwefannau, mae'n rhaid iddynt sicrhau bod unrhyw ddeunydd o Rybuddion Bwyd yr ASB neu ddatganiadau i'r wasg/cyfryngau yn cael ei olygu i nodi pa gamau lleol sydd wedi'u cymryd mewn ymateb i'r Rhybudd. Rhaid cynnwys manylion cyswllt lleol hefyd.

## 2.3 – Mynd i'r afael â Throseddau Bwyd

### 2.3.1 Troseddau Bwyd a Thwyll Bwyd

At ddibenion y Cod hwn, mae troseddau bwyd yn golygu anonestrwydd difrifol sy'n cael effaith andwyol ar ddiogelwch neu ddilysrwydd bwyd, diod neu fwyd anifeiliaid. Gellir ystyried troseddau bwyd i fod yn dwyll bwyd difrifol.

Mae 'difrifoldeb' yn brawf goddrychol sy'n seiliedig ar ffeithiau'r senario unigol. Fel arfer, bydd yn seiliedig ar y lefel debygol o niwed i fuddiant pwysig fel y cyhoedd, busnes bwyd neu ddiwydiant bwyd y DU. Gellir barnu senario benodol i fod yn ddifrifol hefyd yn rhinwedd ei sgôp daearyddol, graddfa, sensitifrwydd cyfryngau/gwleidyddol neu fudd cyffredinol y cyhoedd. Dylai Awdurdodau Bwyd drafod unrhyw amheuon am anonestrwydd gydag Uned Cydgysylltu Twyll Bwyd Cymru (WFFCU), waeth pa mor fach mae'n nhw'n ymddangos. Efallai na fydd maint ac effaith llawn troseddau bwyd yn amlwg ar unwaith pan ddaw gwybodaeth i law.

Yn gyffredinol, bydd anonestrwydd yn cynnwys rhyw fath o dwyll, ffugio (*forgery*), cam-gynrychioli neu guddio ffeithiau yn fwriadol.

Fel rheol, bydd troseddau bwyd yn cael eu herlyn o dan Ddeddf Twyll 2006 neu fel cynllwyn i dwyllo o dan y Gyfraith Gyffredin. Yn achlysurol iawn, efallai y bydd yn briodol erlyn troseddau bwyd o dan ddeddfwriaeth neu reoliadau bwyd eraill.

Mae'r gwahaniaeth rhwng y termau twyll bwyd a throseddau bwyd yn un o raddfa, effaith neu gymhlethdod. Gallai hyn olygu bod y troseddau bwyd yn fwy tebygol o gael cyrhaeddiad traws-ranbarthol, cenedlaethol neu ryngwladol, bod risg sylweddol i ddiogelwch y cyhoedd, neu fod colled ariannol sylweddol i ddefnyddwyr neu fusnesau.

### 2.3.2 Rôl yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd

Uned gwybodaeth (*intelligence*) yw Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd yr ASB sy'n gweithio gyda phartneriaid i ddiogelu defnyddwyr rhag gweithgarwch troseddol difrifol sy'n effeithio ar ddiogelwch neu ddilysrwydd y bwyd a'r diod y maent yn ei fwyta a'i yfed.

### 2.3.3 Rôl Uned Cydgysylltu Twyll Bwyd Cymru (WFFCU)

Mae WFFCU yn gweithio gyda'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd a phartneriaid eraill i gasglu, cofnodi a lledaenu gwybodaeth yng Nghymru. Yn ogystal, mae WFFCU yn cydlynu, cefnogi a chynghori Awdurdodau Bwyd yng Nghymru ar faterion sy'n ymwneud ag ymchwilio i dwyll bwyd a throseddau bwyd. Mae gan WFFCU y gallu i gynnal ymchwiliadau ariannol mewn perthynas â gwyngalchu arian (*money laundering*) ac atafaelu asedau troseddol o dan ddarpariaethau Deddf Elw Troseddau 2002. Mae'r gwasanaeth hwn ar gael i holl Awdurdodau Lleol Cymru.

### 2.3.4 Rhoi gwybod am Amheuon o Dwyll Bwyd i'r Uned

Dylai Awdurdodau Bwyd yng Nghymru rannu unrhyw amheuon o dwyll bwyd gyda

WFFCU, gan gynnwys achosion hanesyddol. Dylid rhoi gwybod i WFFCU am amheuon neu wybodaeth yn ymwneud â thwyll bwyd neu droseddau bwyd trwy e-

bostio Adroddiad Gwybodaeth llawn at foodfraudwales@ceredigion.gcsx.gov.uk neu drwy gyflwyno Adroddiad i Swyddog Cyswllt Gwybodaeth Safonau Masnach eich Awdurdod Lleol a'i farcio i'w rannu ag WFFCU. Os oes angen cymorth arnoch i'w gwblhau, gellir cysylltu â'r Uned yng Nghymru ar 0207 276 8787.

## 2.4 – Cyfathrebu rhwng Awdurdodau Cymwys

### 2.4.1 Gwybodaeth a gyflenwir i'r ASB

#### 2.4.1.1 Peryglon Bwyd

Rhaid i Awdurdodau Bwyd hysbysu'r ASB cyn gynted ag y dônt yn ymwybodol o:

- berygl bwyd lleol difrifol;
- perygl bwyd difrifol nad yw'n lleol;
- achosion difrifol lleol o salwch a gludir gan fwyd; a,
- gweithredwr busnes bwyd yn tynnu neu alw bwyd yn ôl gan nad yw'n cydymffurfio â gofynion diogelwch bwyd Rheoliad 178/2002 (Erthygl 19)[11];
- amheuon o dwyll bwyd/troseddau bwyd;
- digwyddiadau bwyd arwyddocaol 'nad ydynt yn beryglus'.

#### 2.4.1.2 Manylion Sefydliadau Cymeradwy

Rhaid i Awdurdodau Bwyd hysbysu'r ASB trwy anfon e-bost at lasupportwales@food.gov.uk pan fydd:

- sefydliad wedi'i gymeradwyo neu wedi'i gymeradwyo'n amodol;
- sefydliad cymeradwy yn rhoi'r gorau i weithgareddau sy'n destun cymeradwyaeth neu gymeradwyaeth amodol;
- cymeradwyaeth neu gymeradwyaeth amodol wedi'i thynnu'n ôl neu ei hatal;
- canolfan puro molysgiaid neu gynnig addasu canolfan bresennol (Pennod 8.1.4)

#### 2.4.1.3 Awdurdodau Bwyd ar Bwyntiau Mynediad

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sydd â phwynt mynediad e.e. porthladdoedd neu feysydd awyr, Cyfleusterau Storio Allanol Dros Dro neu orsaf drenau derfynol ryngwladol gysylltu a chyfathrebu'n rheolaidd â'r sefydliadau lleol perthnasol ar gyfer cyfnewid gwybodaeth gyffredinol ar fewnforion bwyd ac ar gyfer ymdrin â digwyddiadau yn effeithiol. Mae'r cysylltiadau hyn yn cynnwys, lle bo'n briodol:

- Awdurdodau Bwyd cyfagos, yn arbennig ar gyfer meysydd awyr a phorthladdoedd ar y cyd, sy'n dod o dan awdurdodaeth mwy nag un awdurdod lleol;
- Timau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC), Llu'r Ffiniau a thimau Confensiwn ar Fasnach Ryngwladol mewn Rhywogaethau sydd mewn Perygl (CITES);
- Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA);
- Iechyd Cyhoeddus Cymru;
- Cyfoeth Naturiol Cymru;
- Llywodraeth Cymru;

[11] http://eur-lex.europa.eu/LexUriServ/LexUriServ.do?uri=OJ:L:2002:031:0001:0024:EN:PD

- Asiantaeth Ymchwil Bwyd a'r Amgylchedd (FERA);
- Gweithredwr porthladd; asiantau mewnforio; ITSF – Cyfleusterau Storio Mewnol Dros Dro (siediau cludo' gynt) \ gweithredwyr ETSF;
- Asiantaeth Morwrol a Gwylwyr y Glannau (MCA);
- Yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA).

#### 2.4.1.4 Rhoi gwybod am Beryglon neu Ddigwyddiadau Bwyd mewn perthynas â Bwyd wedi'i Fewnforio

Rhwydwaith sy'n cael ei reoli gan y Comisiwn Ewropeaidd yw'r System Rhybuddio Cyflym ar gyfer Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (RASFF) i hwyluso cyfathrebu rhwng aelodau'r rhwydwaith wrth ymateb yn gyflym i risgiau uniongyrchol neu anuniongyrchol difrifol i iechyd dynol sy'n ymwneud â bwyd a bwyd anifeiliaid. Mae'r aelodau'n cynnwys pwyntiau cyswllt a nodwyd yn glir yn y Comisiwn, Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (EFSA), Awdurdod Arolygu Cymdeithas Masnach Rydd Ewrop (Norwy, Liechtenstein, Gwlad yr Iâ a'r Swistir) a 28 Aelod-wladwriaeth yr UE.

Mae'r sail gyfreithiol ar gyfer y rhwydwaith wedi'i nodi yn Rheoliad (CE) Rhif 178/2002 a Rheoliad (UE) Rhif 16/2011. Yr ASB yw'r pwynt cyswllt cenedlaethol ar gyfer RASFF yn y DU ac mae'n ymgymryd â'r holl gyfrifoldebau penodedig, gan gynnwys y tu allan i oriau swyddfa. Ar gyfer hysbysiadau rhybudd RASFF, lle mae risg wedi'i nodi sy'n gofyn am gamau cyflym mewn aelod wlad arall, bydd aelodau'r rhwydwaith yn anfon hysbysiadau rhybudd i bwynt cyswllt y Comisiwn heb oedi gormodol, ac o fewn 48 awr o'r funud y maent yn cael gwybod am y risg.

Rhaid i'r holl Awdurdodau Bwyd anfon manylion unrhyw fewnforion nad ydynt yn cydymffurfio, naill ai ar y pwynt mynediad neu'r tir mewndirol, lle mae risg ddifrifol uniongyrchol neu anuniongyrchol i iechyd at Uned Diogelu Defnyddwyr yr ASB gan ddefnyddio'r Ffurflen Rhoi Gwybod am Ddigwyddiadau sydd ar gael yn Atodiad III.

Bydd hyn yn cynnwys mewnforion a wrthodir am resymau megis halogiad corff cemegol, microbiolegol neu eitemau estron neu fewnforion o wlad nad yw wedi'i hawdurdodi i allforio'r categori hwnnw o gynhyrchion i'r UE. Ar gyfer cynhyrchion sy'n cynnwys lefelau uwch o blaladdwyr na'r lefelau uchaf a ganiateir, dylai'r Awdurdodau Bwyd hysbysu Uned Diogelu Defnyddwyr yr ASB o'r lefelau a ganfyddir fel y gall benderfynu, yn seiliedig ar asesiad risg, a oes angen hysbysiad RASFF.

At hynny, o ran profi am weddillion meddyginiaethau milfeddygol o dan Reoliad (CE) Rhif 470/2009, (megis nitrofuran a chloramphenicol) neu'r rhai nad ydynt wedi'u cymeradwyo i'w defnyddio, rhaid anfon manylion yr holl ganlyniadau andwyol i'r Uned Diogelu Defnyddwyr gan ddefnyddio'r ffurflen hysbysu RASFF. Lle mae ar gael, dylid anfon copïau o'r dystysgrif iechyd a'r bil llwybr hedfan neu'r bil glanio i'r Uned Diogelu Defnyddwyr.

Gall awdurdodau gael mynediad at wefan yr ASB, a lawrlwytho copïau o dempled y ffurflen hysbysu RASFF drwy: http://www.food.gov.uk/foodindustry/incidents/report/. Rhaid i'r Awdurdod Bwyd/Awdurdod Iechyd Porthladd hefyd hysbysu tollau lleol o'r penderfyniad gwrthod a chyrchfan y llwyth os caniateir iddo gael ei ail-allforio cyn gynted â phosibl.

### 2.4.1.5 Manylion y Swyddog Arweiniol

Rhaid i Awdurdodau Bwyd roi gwybod i'r ASB drwy e-bostio lasupportwales@food.gov.uk beth yw enw eu swyddog arweiniol penodedig sy'n sicrhau bod yr awdurdod yn bodloni ei rwymedigaethau o dan Reoliad (CE) Rhif 882/2004, y Cod hwn a'r Cytundeb Fframwaith ar Reolaethau Swyddogol ar Fwyd a Bwyd Anifeiliaid, a rhoi gwybod am unrhyw newidiadau i'r manylion hyn.

### 2.4.1.6 Swyddog Enwebedig ar gyfer Bwyd wedi'i Fewnforio

Mae'n rhaid i bob Awdurdod Bwyd sydd â phwynt mynediad[12] benodi swyddog enwebedig gyda'r gallu priodol mewn rheolaethau bwyd wedi'i fewnforio i fod yn bwynt cyswllt â'r ASB ar faterion yn ymwneud â bwyd sy'n cael ei fewnforio. Rhaid hysbysu'r ASB am fanylion y swyddog enwebedig neu newidiadau i'r swyddog enwebedig drwy anfon e-bost at lasupportwales@food.gov.uk o fewn tri diwrnod gwaith.

### 2.4.1.7 Gwasanaeth tu allan i oriau arferol

Rhaid i Awdurdodau Bwyd roi gweithdrefnau ar waith i sicrhau y gellir cysylltu â swyddogion cyfrifol os oes argyfwng. Rhaid i'r awdurdod roi gwybod i'r ASB am rif ffôn neu rifau argyfwng er mwyn gallu cysylltu y tu allan i oriau swyddfa arferol yr Awdurdod Bwyd. Rhaid darparu gwybodaeth am gysylltiadau y tu allan i oriau yn y modd ac ar yr amlder sy'n ofynnol gan yr ASB (dwywaith y flwyddyn fel arfer). Rhaid i'r Awdurdod Bwyd hefyd roi gwybod i'r ASB yn rhagweithiol drwy wales.foodincidents@food.gov.uk o unrhyw newidiadau i'r manylion hyn cyn gynted â phosibl.

### 2.4.1.8 Cyfeiriadau e-bost gorfodi

Rhaid i Awdurdodau Bwyd hysbysu'r ASB drwy lasupportwales@food.gov.uk o'u cyfeiriad post electronig a rhoi gwybod am unrhyw newidiadau i'r manylion hyn.

### 2.4.1.9 Ansawdd Ardaloedd Cynhyrchu Molysgiaid Dwygragennog

Mae'n rhaid i Awdurdodau Bwyd sy'n gyfrifol am ardaloedd neu ailosod cynhyrchu molysgiaid dwygragennog byw, hysbysu'r ASB lle mae canlyniadau samplu rheolaethau swyddogol yn dangos dirywiad mewn safonau hylendid/ansawdd dŵr.

Dylid anfon hysbysiad at food.policy.wales@food.gov.uk.

### 2.4.1.10 Dirprwyo'r Rheolaethau Swyddogol

Mae'n rhaid i Awdurdodau Bwyd sy'n gyfrifol am ddirprwyo tasgau penodol i drydydd partïon annibynnol (cyrff rheoli)[13] ddarparu'r ASB â manylion y corff rheoli a'r tasgau

[12] Adeg ysgrifennu'r Cod hwn, nid oedd unrhyw Arolygfeydd Ffin/Mannau Cyrraedd Dynodedig yng Nghymru
[13] Fel y'i diffinnir yn Erthygl 2(5) o Reoliad (CE) Rhif 882/2004

a ddirprwyir iddo.

### 2.4.2 Cysylltu ag Aelod-wladwriaethau eraill – Cymorth a Chydweithrediad Gweinyddol (AAC)

Yr ASB yw'r corff cyswllt dynodedig at ddibenion Erthygl 35 Rheoliad (CE) Rhif 882/2004 ac, fel y cyfryw, mae'n gyfrifol am gynorthwyo a chydlynu cyfathrebu rhwng Awdurdodau Cymwys a throsglwyddo a derbyn ceisiadau am gymorth. Fodd bynnag, nid yw hyn yn atal staff awdurdodau rheoli bwyd mewn gwahanol Aelod-wladwriaethau rhag cysylltu'n uniongyrchol, cyfnewid gwybodaeth a chydweithredu.

Mae'r ASB yn ymdrin â materion trawsffiniol a allai fod â goblygiadau polisi, materion sy'n ymwneud ag achosion o salwch a gludir gan fwyd a materion sy'n gysylltiedig â pheryglon bwyd. Felly mae'n rhaid i Awdurdodau Bwyd roi gwybod i'r ASB am bob mater o'r fath cyn gynted â phosibl.

Mae darpariaethau manwl ar Gymorth Gweinyddol a Chydweithrediad ag Aelod-wladwriaethau eraill wedi'u gosod yn Erthyglau 34 i 40 o Reoliad (CE) Rhif 882/2004.

#### 2.4.2.1 Diffinio materion trawsffiniol

Mae materion trawsffiniol yn perthyn i dri chategori bras:

- materion trawsffiniol y mae angen eu cyfeirio'n uniongyrchol at yr ASB;
- materion trawsffiniol y rhoddir gwybod i'r ASB amdanynt ar ôl i'r cyswllt ddigwydd;
- cyswllt rheolaidd Awdurdodau Bwyd yn y DU gydag Aelod-wladwriaethau eraill.

#### 2.4.2.2 A. Materion trawsffiniol i'w cyfeirio'n uniongyrchol at yr ASB

- nodi bwydydd sy'n ymddangos eu bod yn peri risg i iechyd neu ddiogelwch y cyhoedd;
- ymholiadau am gynnyrch penodol a archwiliwyd y mae ei gyflwr microbiolegol yn destun pryder;
- nodi bwydydd sy'n ymwneud â rhybuddion bwyd, achosion o dwyll neu beryglon a nodwyd yn y gorffennol;
- achosion lle drwgdybir yr ymyrrwyd â bwyd yn faleisus;
- Amgylchiadau lle tynnwyd cynhyrchion bwyd yn ôl o farchnad y DU gyda neu heb gytundeb y manwerthwr neu'r cyflenwr;
- achosion lle mae'r swyddog awdurdodedig yn amau bod materion polisi arwyddocaol eraill dan sylw (cenedlaethol neu'r UE), gan gynnwys rheolaethau swyddogol ar fwyd wedi'i fewnforio;
- lle nodwyd diffyg cydymffurfiaeth barhaus mewn cysylltiad â sypiau (*batches*), lotiau neu lwythi (*consignments*) gwahanol o'r un ffynhonnell.

#### 2.4.2.3 B. Materion trawsffiniol y rhoddir gwybod i'r ASB amdanynt ar ôl i'r cyswllt ddigwydd

- unrhyw fater pan fydd yr amgylchiadau a nodir yn 2.4.2.2 uchod yn

berthnasol, ar ôl ymchwilio, cysylltu neu ymholi;

- achosion sy’n cynnwys awdurdodau gorfodi mewn Aelod-wladwriaethau eraill lle ceir oedi neu amwysedd gormodol neu lle gwrthodir cymryd camau sy'n ymddangos yn gyfiawn;
- amgylchiadau lle mae’n ymddangos bod elfennau o gyfraith bwyd genedlaethol un Aelod-wladwriaeth yn gwrthdaro â chyfraith bwyd Aelod-wladwriaeth arall;
- unrhyw fater a restrwyd er gwybodaeth sydd, yn dilyn ymchwiliad, cyswllt neu ymholiad, yn ymddangos bod ganddo oblygiadau, neu sydd o natur mor ddifrifol, y mae'n rhaid hysbysu'r ASB.

### 2.4.2.4 C. Cysylltiad arferol rhwng Awdurdodau Bwyd Lleol Aelod-wladwriaethau

Dim ond materion "Er Gwybodaeth" yn unig y dylai Awdurdodau Bwyd ymdrin â nhw yn uniongyrchol. Rhaid cyfeirio materion eraill y mae angen gweithredu arnynt at yr ASB yn ddi-oed. Mae'n rhaid i Awdurdodau Bwyd geisio cyngor gan yr ASB os oes amheuaeth ynghylch y weithdrefn briodol ar gyfer ymdrin â mater trawsffiniol penodol.

Mae materion cyswllt rheolaidd rhwng awdurdodau cymwys lleol Aelod-wladwriaethau o dan Gategori C yn cynnwys:

- ymholiadau am gynnyrch penodol a ddadansoddwyd a chanfod nad oes iddo unrhyw oblygiadau o ran diogelwch bwyd;
- ymholiadau am label neu ddisgrifiad cynnyrch sy’n ymddangos ei fod yn troseddu yn erbyn gofynion;
- ymholiadau am cofnodion samplu, hanes cwmni neu systemau rheoli sy’n debygol o gefnogi camau cyfreithiol;
- ymholiadau i sefydlu cywirdeb dogfennau, ffynhonnell problem, ac i osgoi dyblygu samplau neu arolygiadau;
- ymholiadau i amgylchiadau penodol sy’n ymwneud â gwrthod cynnyrch bwyd penodol i’r DU, neu achos dros orfodi camau sy’n ymwneud â chynnyrch bwyd penodol i’r DU;
- hysbysiad o namau a throseddau eraill sy’n annhebygol o angen gweithredu yn eu cylch yn y DU, ond sydd i’w nodi neu i’w gweithredu yn eu cylch mewn Aelod-wladwriaeth arall.

## 2.5 – Ymholiadau i Wledydd eraill y DU ac Aelod-wladwriaethau eraill

### 2.5.1 Ymholiadau i Aelod-wladwriaethau eraill

Rhaid i Awdurdodau Bwyd fynd i'r afael ag ymholiadau am faterion gorfodi cyfraith bwyd mewn Aelod-wladwriaethau eraill i'r corff neu'r awdurdod cyswllt priodol yn yr Aelod-wladwriaeth dan sylw drwy'r ASB. Gall yr ASB gynorthwyo'r Awdurdodau Cymwys i bennu'r corff neu'r awdurdod cyswllt perthnasol os oes angen.

Mae Rheoliad (CE) Rhif 882/2004 yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau ddarparu cymorth gweinyddol i'w gilydd, i gydweithredu ac i gyfnewid gwybodaeth er mwyn sicrhau bod camau dilynol ar achosion trawsffiniol o ddiffyg cydymffurfio â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid yn cael eu gweithredu yn effeithiol.

Mae gan y Comisiwn rwymedigaeth i gydlynu'r camau a gymerir gan Aelod-wladwriaethau lle mae achosion o ddiffyg cydymffurfio yn gyffredin neu'n rheolaidd, neu lle mae Aelod-wladwriaethau yn methu â chytuno ar sut i fynd i'r afael ag achosion o ddiffyg cydymffurfio. Mae'r system Cymorth a Chydweithredu Gweinyddol (AAC) yn system TG a grëwyd i alluogi'r Awdurdodau Cymwys a ddynodwyd ym mhob Aelod-wladwriaeth a'r EEA i gyflawni'r ddyletswydd hon.

Mae'r system hon yn gweithio mewn ffordd debyg i RASFF, ond bydd yn gweithredu ar gyfer achosion o ddiffyg cydymffurfio nad ydynt yn ymwneud â diogelwch, gan gynnwys materion twyll bwyd.

Ar gyfer materion sy'n ymwneud â diffyg cydymffurfiaeth, mae'n rhaid i Awdurdodau Bwyd hysbysu Uned Diogelu Defnyddwyr yr ASB.

Ar gyfer materion sy'n gysylltiedig â thwyll bwyd, mae gofyn i Awdurdodau Bwyd hysbysu Uned Cydgysylltu Twyll Bwyd Cymru.

Rhaid i Awdurdodau Bwyd gynnal ymchwiliad llawn cyn cyfeirio mater at yr ASB gyda dogfennaeth ategol lawn.

### 2.5.2 Ymholiadau gan Aelod-wladwriaethau eraill

Rhaid i Awdurdodau Bwyd gydymffurfio ag unrhyw gais rhesymol am wybodaeth neu gymorth gweinyddol gan Awdurdod Bwyd arall, corff rheoli bwyd, Aelod-wladwriaeth arall (neu'r ASB). Wrth wneud hynny, rhaid iddynt gymryd y camau canlynol:

- cydnabod y derbyniwyd y cais a chynghori'r corff gwreiddiol fod yr Awdurdod Bwyd yn ymdrin ag ef;
- ymchwilio i'r mater os oes angen;
- cymryd camau gorfodi priodol os oes angen;
- hysbysu'r parti gwreiddiol o ganlyniadau unrhyw ymholiadau, arolygiadau, neu gamau gorfodi eraill, naill ai'n uniongyrchol neu drwy'r ASB;
- sicrhau bod ymatebion i geisiadau yn agored, yn gynorthwyol ac yn cael eu rhoi heb oedi gormodol;

- rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd â'r corff gwreiddiol pan fydd camau'n cael eu cymryd ac na fydd y canlyniad yn hysbys am gryn amser.

Rhaid i unrhyw gais am wybodaeth sydd, o ganlyniad i ymchwiliad, cyswllt neu ymholiad, yn ymddangos i fod o natur ddifrifol, gael ei gyfeirio at yr ASB.

### 2.5.3 Datgelu Gwybodaeth i Aelod-wladwriaethau

Mae Erthygl 7 Rheoliad (CE) Rhif 882/2004 yn nodi'r gofynion cyffredinol mewn perthynas â thryloywder a chyfrinachedd. Mae darpariaethau manwl ar Gymorth Gweinyddol a Chydweithrediad ag Aelod-wladwriaethau eraill wedi'u gosod yn Erthyglau 34 i 38 o Reoliad (CE) Rhif 882/2004.

Mae Erthygl 34 yn nodi na ddylai Erthyglau 35 i 40 o'r Rheoliad hwnnw, sy'n ymdrin â Chymorth Gweinyddol a Chydweithrediad rhwng Aelod-wladwriaethau a chydlyniad gan y Comisiwn (yn yr iaith wreiddiol) "*shall not prejudice national rules applicable to the release of documents which are the object of, or are related to, court proceedings, or rules aimed at the protection of natural or legal persons' commercial interests*".

Felly mae'n rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau bod unrhyw wybodaeth sy'n cael ei rhyddhau yn cyd-fynd â deddfwriaeth genedlaethol, gan gynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â Diogelu Data a Rhyddid Gwybodaeth.

### 2.5.4 Cyfathrebu â Safonau Bwyd yr Alban

Sefydlwyd corff bwyd yn yr Alban, Safonau Bwyd yr Alban, ar 1 Ebrill 2015 ac mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi'i sefydlu i sicrhau bod trefniadau cyswllt yn parhau er mwyn cynnig ymateb ar y cyd i ddigwyddiadau ar draws Cymru, yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon

# Pennod 3 – Gweinyddu

## 3.1 – Gofynion i Gyflawni Rheolaethau Swyddogol

### 3.1.1 Gwrthdaro Buddiannau

Mae'r Bennod hon yn ymdrin â materion sydd i'w hystyried wrth sicrhau bod Awdurdodau Bwyd a'u swyddogion awdurdodedig yn ddiduedd ac yn rhydd o unrhyw wrthdaro buddiannau.

#### 3.1.1.1 Osgoi Gwrthdaro Buddiannau

Yn unol â gofynion Erthygl 4(2)(b) o Reoliad (CE) Rhif 882/2004, rhaid i staff sy'n cyflawni rheolaethau swyddogol fod yn rhydd o unrhyw wrthdaro buddiannau.

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau bod eu swyddogion yn ymwybodol o'r gwrthdaro buddiannau posibl a all weithiau godi mewn sefyllfa orfodi trwy hyrwyddo gwasanaethau'r Awdurdod Bwyd.

Ni ddylai swyddogion ddarparu eu gwasanaethau eu hunain, e.e. darparu hyfforddiant neu gyngor i fusnesau bwyd, yn eu hamser eu hunain o fewn ardal yr Awdurdod Bwyd y maent wedi'u cyflogi ynddo.

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau nad oes gwrthdaro buddiannau posibl neu wirioneddol yn codi o ganlyniad i gyfrifoldebau'r Prif Awdurdod, yr Awdurdod Cartref neu'r Awdurdod Gwreiddiol ac wrth gontractio gwasanaethau at ddibenion gorfodi.

Rhaid i Awdurdodau Bwyd a'u swyddogion osgoi hyrwyddo gwasanaethau'r Awdurdod Bwyd yn unig os oes eraill yn darparu'r gwasanaethau hynny yn yr ardal, neu mae'r gwasanaethau'n cael eu cynnig gan sefydliad penodol.

Pan fo Awdurdodau Bwyd yn darparu gwasanaethau megis cyngor pwrpasol neu hyfforddiant am ffi, rhaid bod gwahaniaeth clir a thryloyw rhwng darparu'r gwasanaethau hynny a rôl orfodi'r Awdurdod Bwyd.

Pan fo Awdurdod Bwyd yn dirprwyo gwaith gorfodi i drydydd parti annibynnol (corff rheoli) yn unol ag Erthygl 2(5) o Reoliad (CE) Rhif 882/2004, rhaid i'r Awdurdod Bwyd fod yn fodlon bod y corff rheoli yn ddiduedd ac yn rhydd o unrhyw wrthdaro buddiannau o ran y tasgau a ddirprwyir iddo.

#### 3.1.1.2 Gorfodi mewn sefydliadau a reolir gan Awdurdodau Lleol

Rhaid i Bolisi Gorfodi cyfraith bwyd yr Awdurdod Bwyd (gweler Pennod 5.1.1) nodi manylion ei drefniadau ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd mewn sefydliadau lle mai'r Awdurdod Bwyd ei hun yw gweithredwr y busnes bwyd. Hefyd, rhaid cymryd camau i sicrhau bod penderfyniadau gorfodi yn rhydd o unrhyw wrthdaro buddiannau.

Lle canfyddir unrhyw achos difrifol o dorri cyfraith bwyd mewn sefydliad o'r fath, rhaid dwyn y rhain i sylw'r Prif Weithredwr yn ddi-oed.

Dylid asesu arlwywyr contract sy'n gweithredu o fewn sefydliadau Awdurdod Bwyd yn unol ag Atodiad V a dylid pennu'r amlder ymyrryd yn unol â hynny.

### 3.1.2 Pwerau Mynediad

#### 3.1.2.1 Pwerau Mynediad o dan Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006

Caniateir defnyddio’r pwerau mynediad o dan Reoliad 14 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 o ran safleoedd y Goron.

Rhaid i Awdurdodau Bwyd fabwysiadu'r un dull o orfodi Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 mewn perthynas â safleoedd y Goron fel y maent yn ymwneud â Deddf Diogelwch Bwyd 1990 (gweler Pennod 3.1.2.2 isod).

#### 3.1.2.2 Pwerau Mynediad dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990

Dylai Awdurdodau Bwyd ymdrin â materion safonau bwyd o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990. Mae hyn yn cynnwys y rhai sy'n trin bwyd i'w werthu neu ei gyflenwi sydd, yn rhinwedd Adolygiad (9) ac Erthygl 1(2) o Reoliad (CE) Rhif 852/2004, yn dod y tu allan i gwmpas y Rheoliad hwnnw ac yn parhau i fod yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliad (CE) Rhif 178/2002.

Mae'r pwerau mynediad o dan adran 32 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 yn galluogi mynediad gan swyddog awdurdodedig o'r Awdurdod Bwyd i ymchwilio i achosion honedig o fynd yn groes i ddeddfwriaeth safonau bwyd. Mae'r adran hon hefyd yn caniatáu i Ynad Heddwch gael mynediad os yw'n fodlon bod sail resymol a nad yw mynediad arferol drwy rybudd yn ddewis ymarferol am un neu ragor o'r rhesymau a amlinellir.

#### 3.1.2.3 Pwerau Mynediad o dan Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd a Bwyd Anifeiliaid (Cymru) 2009

Gall swyddogion awdurdodedig ddefnyddio'r pwerau mynediad o dan reoliad 39 o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) er mwyn pennu a fu unrhyw achos o fynd yn groes i Ddarpariaethau Mewnforio y Rheoliadau hyn mewn perthynas â bwyd. Diffinnir y 'Darpariaethau Mewnforio' gan Reoliad 2(1) y Rheoliadau hyn.

#### 3.1.2.4 Pwerau Mynediad o dan Reoliadau Masnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Cysylltiedig (Cymru) 2011

Gall swyddogion awdurdodedig ddefnyddio'r pwerau mynediad o dan Reoliad 33 o Reoliadau Masnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Cysylltiedig (Cymru) 2011[14] at ddibenion gorfodi'r Rheoliadau hyn; ac yn y Rheoliadau hyn, mae "*premises*" (*safle*) yn cynnwys unrhyw le, cerbyd, trelar, cynhwysydd, stondin, strwythur symudol, llong neu awyren.

[14] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2379/contents/made

### 3.1.2.5 Gweithredu mewn Awdurdod Cymwys neu Ardal Awdurdod Bwyd arall

Fel rheol, mae Awdurdod Bwyd yn ymdrin â materion sy'n codi o fewn ardal ei awdurdodaeth, ond gall archwilio sefydliadau mewn ardaloedd awdurdodau lleol eraill i gael tystiolaeth o ddiffyg cydymffurfio yn eu hardaloedd nhw.

Wrth arfer y pwerau hyn, rhaid i swyddogion awdurdodedig gysylltu â'r Awdurdod Cymwys neu'r Awdurdod Bwyd perthnasol ar gyfer yr ardal y maent yn ymweld â hi, ymlaen llaw lle bynnag y bo modd. Mae hyn yn gymwys p'un a yw'r busnes yr ymwelir ag ef yn fusnes bwyd ai peidio. Os nad yw'n bosibl rhoi rhybudd ymlaen llaw i'r Awdurdod Cymwys neu'r Awdurdod Bwyd lle mae'r busnes wedi'i leoli, er enghraifft mewn argyfwng neu allan o oriau, rhaid ei hysbysu cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl hynny.

Ni ddylai swyddogion awdurdodedig sy'n arfer y pwerau hyn roi cyngor neu argymell newidiadau i systemau neu weithdrefnau cwmni. Rhaid trosglwyddo materion o'r fath i Awdurdod Cymwys neu Awdurdod Bwyd yr ardal er mwyn gweithredu'n briodol.

Gall mwy nag un awdurdod awdurdodi swyddogion i gynnal arolygiadau neu ymyriadau ar ran awdurdodau cyffiniol.

Gall Prif Awdurdod ymweld ag ardal Awdurdod Bwyd arall ar gais y busnes y mae y mae ganddo Gytundeb Prif Awdurdod ag ef. Gellir cynnal yr ymweliadau hyn fel rhan o ymarfer casglu gwybodaeth heb ddefnyddio unrhyw bwerau. Pe bai'r Prif Awdurdod yn cynnal ymweliad gan ddefnyddio pwerau i gael tystiolaeth o ddiffyg cydymffurfio, rhaid hysbysu'r Awdurdod Bwyd perthnasol ymlaen llaw lle bo modd.

### 3.1.2.6 Pwerau Chwilio ac Atafael (*Seizure*) dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (PACE) a Deddf Hawliau Dynol 1998

Mae’r hawl i breifatrwydd a pharch at eiddo personol yn egwyddorion allweddol yn Neddf Hawliau Dynol 1998[15].

Rhaid cyfiawnhau pwerau mynediad, chwilio ac atafael yn llawn ac yn glir cyn eu defnyddio oherwydd fe allant ymyrryd yn sylweddol â phreifatrwydd y meddiannydd. Rhaid i swyddogion ystyried a oes modd cyflawni'r amcanion angenrheidiol drwy ddulliau llai ymwthiol.

Mae Adran 32(4) Deddf Diogelwch Bwyd 1990 a Rheoliad 16(5) Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 yn caniatáu i swyddog awdurdodedig fynd â’r fath bersonau eraill, y mae’n eu hystyried yn angenrheidiol, gydag ef. Byddai hyn yn cynnwys, er enghraifft, unrhyw berson sydd â sgiliau neu gymwysterau addas, neu arbenigwr mewn maes penodol y mae ei bresenoldeb yn angenrheidiol. Nid yw'r darpariaethau hyn yn rhoi unrhyw un o bwerau'r swyddog awdurdodedig i'r person sy'n cyd-fynd ag ef, ond maen nhw'n rhoi hawl i'r person hwnnw fod ar y safle yn ystod ymweliad y swyddog awdurdodedig heb ganiatâd y meddiannydd.

[15] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/42/contents

Mae Adran 32(6) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 yn dweud y gall swyddog (o'i gyfieithu) 'atafael a chadw unrhyw gofnodion y mae ganddo reswm i gredu y bydd eu hangen fel tystiolaeth mewn achosion'.

Ym mhob achos mae'n rhaid i swyddogion awdurdodedig:

- arfer eu pwerau'n gwrtais gan barchu unigolion ac eiddo;
- mewn amgylchiadau lle cafwyd gwarant a lle mae'n briodol, defnyddio grym rhesymol dim ond pan ystyrir bod hynny'n angenrheidiol ac yn gymesur â'r amgylchiadau.

### 3.1.2.7 Hysbysiadau Pwerau a Hawliau Cod B PACE

Nid oes rhwymedigaeth ar swyddogion awdurdodedig i gyhoeddi hysbysiad Cod B PACE yn rheolaidd wrth ymgymryd â'u dyletswyddau statudol mewn sefydliadau bwyd i wirio cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd.

Dylid defnyddio hysbysiad Cod B PACE mewn amgylchiadau lle mae swyddogion awdurdodedig yn mynd i mewn i safle at ddibenion ymchwiliad i achosion honedig o dorri cyfraith bwyd.

Yn y pen draw, bydd penderfyniad i gyflwyno hysbysiad Cod B PACE yn dibynnu ar amgylchiad unigol y mater dan sylw. Dylai swyddogion ofyn am arweiniad pellach gan gynghorwyr cyfreithiol yr Awdurdod Bwyd os oes angen eglurhad pellach.

Nid yw hysbysiadau a gyhoeddir o dan Ddeddf Gwarchod Rhyddid 2012 ar gyfer materion sy'n ymwneud â masnachu annheg a diogelu defnyddwyr yn berthnasol i gyfraith bwyd.

### 3.1.2.8 Pwerau Mynediad ac Ymyriadau yn Sefydliadau'r Goron

Yn adeiladau'r Goron, mae'n rhaid i Awdurdodau Bwyd fabwysiadu'r un dull o orfodi Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 ag y maent mewn perthynas â Deddf Diogelwch Bwyd 1990. Gellir defnyddio'r pwerau mynediad o dan adran 32 Deddf Diogelwch Bwyd 1990 a Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014 mewn perthynas â materion safonau bwyd (yn amodol ar eithriadau i rai aelodau o'r Teulu Brenhinol sy'n gweithredu yn eu capasiti preifat).

Fodd bynnag, gall Ysgrifennydd Gwladol fod wedi rhoi tystysgrif diogelwch cenedlaethol i ardystio na ellir arfer pwerau mynediad o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990. Os yw swyddog awdurdodedig yn ceisio mynediad i adeiladau'r Goron, ac yn cael ei hysbysu bod tystysgrif o'r fath wedi'i dyfarnu, mae gan y swyddog yr hawl i weld y dystysgrif neu gopi ohoni.

At ddibenion cael mynediad, mae adeiladau'r Goron yn perthyn yn fras i dri chategori, er y gall safleoedd symud o un categori i'r llall rhwng arolygiadau.

**Grŵp 1** – sy'n cynnwys safleoedd a leolir ar dir y Goron lle na cheir unrhyw oblygiadau diogelwch fel arfer, e.e. bwytai mewn amgueddfeydd neu Barciau Brenhinol. Rhaid trin y safleoedd hyn fel unrhyw fusnes bwyd arall a rhaid iddynt ymweld â nhw heb drefniant blaenorol.

**Grŵp 2** – cynnwys safleoedd â mynediad sy'n cael ei reoli ond lle nad oes llawer o oblygiadau diogelwch fel arfer. Mae'r rhan fwyaf o safleoedd y llywodraeth a'r heddlu'n perthyn i'r categori hwn. Maent yn debyg i lawer o fusnesau â systemau a phrosesau diogelwch sy'n golygu bod ymweliadau cyntaf yn cael eu trefnu ymlaen llaw. Efallai y bydd ymweliadau yn y dyfodol yn ddirybudd, yn ddibynnol ar gytundeb ysgrifenedig yn dilyn yr arolygiad cyntaf.

**Grŵp 3** – sy'n cynnwys safleoedd lle nad oes modd cael mynediad heb roi gwybod ymlaen llaw, a hynny oherwydd goblygiadau diogelwch a/neu er diogelwch personol y swyddog awdurdodedig, e.e. Lluoedd Arfog EM, sefydliadau amddiffyn a diogelwch gwladol, carchardai a chanolfannau cadw, a rhannau o safleoedd yr heddlu sy'n cadw carcharorion. Rhaid ymweld â'r safleoedd hyn bob amser trwy drefniant ymlaen llaw gyda'r cyswllt priodol yn y sefydliad dan sylw. Er enghraifft, swyddog diogelwch y sefydliad amddiffyn, y swyddog gorchymyn neu gynrychiolwyr enwebedig sefydliad Lluoedd EM, Llywodraethwr sefydliad gwasanaeth carchardai, neu'r swyddog sy'n gyfrifol am eiddo'r Heddlu. Bydd hyn yn golygu y gall y swyddog awdurdodedig gael mynediad heb oedi gormodol. Gellir atgoffa'r person cyswllt o'r pŵer i gael mynediad os yw swyddog awdurdodedig o'r farn fod yr apwyntiad a gynigir yn rhy bell ymlaen llaw.

Efallai y bydd swyddogion awdurdodedig nad ydynt wedi cael cliriad diogelwch yn destun gweithdrefnau rheoli ymwelwyr, gan gynnwys archwilio bagiau a gwirio hunaniaeth, a chael eu hebrwng bob amser. Rhaid i swyddogion gario cerdyn adnabod sy'n cynnwys llun a chofio y gall fod adegau lle na fydd yn bosibl cynnal neu barhau ag arolygiad ar y safleoedd hyn. Ni ddylid ystyried unrhyw gyfyngiad rhesymol o'r fath fel rhwystr.

Rhaid i swyddogion awdurdodedig fod yn ymwybodol o faterion cyfrinachedd wrth ymweld â'r rhannau hynny o safle lle mae carcharorion yn byw. Gellir trafod y fath faterion pan drefnir yr ymweliad.

Os bydd digwyddiad fel achos o wenwyn bwyd yn codi, gall fod yn ofynnol i swyddog ymweld â safle ar fyr rybudd, er ei bod fel arfer yn ofynnol rhoi rhybudd ymlaen llaw. Mae'n hanfodol ffonio safleoedd Grŵp 3 i roi gwybod iddynt fod y swyddog ar y ffordd, a gall arbed amser o ran cael mynediad i safleoedd Grŵp 2.

Rhaid cyfyngu ar arolygiadau ac ymyriadau i ardaloedd a ddefnyddir gan y busnes bwyd, neu'r mannau lle caiff cofnodion yn ymwneud â hynny eu cadw, oni bai fod yr ymweliad yn gysylltiedig ag ymchwiliad i achosion o salwch a gludir gan fwyd ac mae gofyn, fel rhan o'r ymchwiliad, i archwilio ardaloedd eraill.

Ni ddylai ymweliad rwystro neu ymyrryd â gweithgareddau milwrol.

Os nad yw Awdurdod Bwyd yn siŵr sut i ddosbarthu safle penodol sy'n dod o dan y Bennod hon, rhaid ei drin fel safle Grŵp 3 a'i adolygu yn ddiweddarach, os oes angen.

Ffotograffau

Cyn cymryd unrhyw ffotograffau, gwneud unrhyw frasluniau (*sketches*) neu gymryd mesuriadau ar safleoedd Grŵp 3, dylai'r swyddog awdurdodedig drafod y fath faterion â'r swyddog sy'n ei hebrwng a chymryd unrhyw ofynion eraill i ystyriaeth.

Oni bai ei fod yn gwbl angenrheidiol er mwyn darlunio achos posibl o dorri gofynion y ddeddfwriaeth, ni ddylai ffotograffau ar safleoedd Grŵp 3 gynnwys unigolion. Ni ddylai fod yn bosibl adnabod unrhyw unigolyn o unrhyw ffotograff a dynnwyd mewn carchar neu sefydliad cadw.

Cysylltu â'r Awdurdod Cartref/yr Asiantaeth

Dylai Awdurdodau Bwyd roi gwybod am unrhyw anawsterau a wynebir wrth orfodi cyfraith bwyd mewn safleoedd y mae'r Bennod hon yn eu trafod i'r Awdurdod Cartref priodol neu, os nad oes Awdurdod Cartref, i'r ASB.

## 3.2 Cofrestru sefydliadau busnes bwyd

### 3.2.1 Beth yw sefydliad busnes bwyd?

O dan Erthygl 2(c) Rheoliad (CE) Rhif 852/2004, mae 'sefydliad' yn golygu unrhyw uned busnes bwyd. Ystyr 'busnes bwyd' fel y'i diffinnir yn Rheoliad (CE) Rhif 178/2002 ar gyfraith bwyd cyffredinol yw unrhyw ymgymeriad *(undertaking)*, boed er elw neu beidio neu p'un a yw'n gyhoeddus neu'n breifat, sy'n cyflawni unrhyw un o'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag unrhyw gam cynhyrchu, prosesu a dosbarthu bwyd. Mae rheolau'r UE yn berthnasol i '*undertakings*' (ymgymeriadau) yn unig, sy'n cynnwys rhywfaint o drefnu a pharhad penodol gweithgareddau bwyd.

### 3.2.2 Pwy sy'n Weithredwr Busnes Bwyd?

Gweithredwr busnes bwyd fel y'i diffinnir gan Reoliad (CE) Rhif 178/2002 yw'r personau naturiol neu gyfreithiol sy'n gyfrifol am sicrhau bod gofynion cyfraith bwyd yn cael eu bodloni o fewn y busnes bwyd dan eu rheolaeth. Gweler adran berthnasol y Canllaw Ymarfer Cyfraith Bwyd i gael arweiniad pellach.

### 3.2.3 Gofyniad i gofrestru sefydliad busnes bwyd

O dan Erthygl 6(2) Rheoliad (CE) Rhif 852/2004, rhaid i weithredwyr busnesau bwyd gofrestru'r sefydliad(au) dan eu rheolaeth gyda'r Awdurdod Bwyd priodol drwy'r dulliau a ddisgrifir ym Mhennod 3.2.9.3.

### 3.2.4 Eithriadau o gofrestru

Nid yw sefydliadau sy'n ymgymryd â gweithgareddau bwyd nad oes angen rhyw fath o drefnu arnynt ac nad ydynt yn weithgareddau parhaus yn bodloni'r diffiniad o sefydliad busnes bwyd, ac felly maent yn dod y tu allan i gwmpas Rheoliad (CE) Rhif 852/2004. Mae sefydliadau o'r fath wedi'u heithrio rhag gofynion cofrestru ond, fodd bynnag, maent yn parhau i fod yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Deddf Diogelwch Bwyd 1990 a Rheoliad (CE) Rhif 178/2002.

Mae Erthygl 4(1)(b) o Reoliad (CE) Rhif 853/2004 yn nodi nad oes gofyn i sefydliadau bwyd sy'n destun cymeradwyaeth o dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004 hefyd gofrestru gyda'r awdurdod bwyd o dan Reoliad (CE) Rhif 852/2004 (gweler Pennod 3.3 ar sefydliadau sy'n destun cymeradwyaeth).

Mae Datganiad 9, ac Erthygl 1(2), o Reoliad (CE) Rhif 852/2004 yn gosod yr amgylchiadau y byddai'r Rheoliad, ac felly'r gofyniad i gofrestru o dan Erthygl 6(2), yn gymwys, sef:

- cynhyrchu cynradd ar gyfer defnydd domestig preifat;
- paratoi, trin neu storio bwyd yn y cartref at ddefnydd domestig preifat; a,
- cynhyrchydd yn cyflenwi symiau bach o gynnyrch cynradd yn uniongyrchol i'r defnyddiwr terfynol neu i sefydliadau manwerthu lleol sy'n cyflenwi'r defnyddiwr terfynol yn uniongyrchol.

### 3.2.5 Gweithrediadau aml-safle a lloeren

#### 3.2.5.1 Aml-safleoedd sy'n cyfrif fel sefydliad busnes bwyd unigol

Mae sefydliadau'n bodoli sy'n cyflenwi bwyd i un neu fwy o unedau manwerthu sydd wedi'u cysylltu'n agos o dan yr un berchenogaeth. Efallai y bydd amgylchiadau lle mae swyddogion awdurdodedig yn dymuno ystyried y safleoedd ar wahân fel rhan o sefydliad ehangach ac felly fel 'sefydliad sengl' at ddibenion cofrestru o dan Reoliad (CE) Rhif 852/2004 ac ar gyfer sgorio risg yn unol ag Atodiad V.

Dim ond pan fo prif ffocws gweithgareddau'r sefydliad yn rhai busnes manwerthu, (h.y. pan fo bwyd yn cael ei gyflenwi'n uniongyrchol i'r defnyddiwr terfynol) y gellir defnyddio'r hyblygrwydd hwn. Dylai awdurdodau lleol ystyried busnesau o'r fath fesul achos er mwyn sicrhau bod y tri maen prawf canlynol yn cael eu bodloni:

1. Mae'r sefydliad o dan un 'meddwl rheoli', hynny yw, y person(au) naturiol neu gyfreithiol sy'n gyfrifol am weithredu gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd yn seiliedig ar egwyddorion HACCP ar gyfer pob safle.
2. Un set o weithdrefnau rheoli diogelwch bwyd yn seiliedig ar egwyddorion HACCP sy'n cwmpasu pob cam ac uned o fewn y sefydliad ehangach.
3. Mae'r holl weithgareddau a gynhelir yn yr amrywiol unedau o fewn y sefydliad 'ehangach' yn ddigon agos at ei gilydd fel y gellir disgwyl yn rhesymol y gallai'r un 'meddwl rheoli' reoli'r rheolaethau rheoli diogelwch bwyd yn effeithiol ar bob safle.

Lle mae'r holl feini prawf yn cael eu bodloni, ond mai prif weithgarwch y sefydliad yw cyflenwi cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid i fusnesau eraill, mae angen cymeradwyaeth (oni bai ei fod yn bodloni'r eithriadau a ganiateir yn Erthygl 1 Rheoliad (CE) Rhif 853/2004). Dylai awdurdodau bwyd gyfeirio at ac ystyried y ddogfen ganllaw ar weithredu darpariaethau penodol Rheoliad (CE) Rhif 853/2004 ar hylendid bwyd sy'n dod o anifeiliaid.

Lle na ellir bodloni un neu ragor o'r meini prawf a nodir uchod, dylai'r Awdurdod Bwyd ofyn am gofrestriad bwyd ar gyfer pob sefydliad bwyd unigol a nodir yn y gweithrediad ehangach (oni bai fod y sefydliad yn destun cymeradwyaeth).

### 3.2.6 Sefydliadau Bwyd Symudol

Mae'r adrannau canlynol yn cyfeirio at sefydliadau bwyd sy'n symud rhwng lleoliadau sefydlog ac fel arfer trwy lwybrau wedi'u trefnu.

Er bod llongau môr, awyrennau, trenau a bysus sy'n teithio'n bell yn destun darpariaethau Rheoliad (CE) Rhif 852/2004, mae eu natur symudol yn golygu nad yw hi fel arfer yn ymarferol cofrestru cerbydau unigol gydag Awdurdodau Bwyd y DU, gan nad ydynt bob amser yn bresennol yn yr un ardal o awdurdodaeth.

Mae'r adrannau canlynol yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer cofrestru sefydliadau symudol pan fo'r rhain wedi'u lleoli o fewn rheolaeth Awdurdod Bwyd.

#### 3.2.6.1 Llongau ac ati

Rhaid i weithredwyr busnesau bwyd gofrestru llongau o dan eu rheolaeth sy'n bodloni'r diffiniad o sefydliad busnes bwyd (Pennod 3.2.1) oni bai bod gofyn eu cymeradwyo (h.y. llongau rhewi a ffatri). Mae hyn yn cynnwys llongau sydd wedi'u hangori'n barhaol yn y DU (bwytai sy'n arnofio), llongau sy'n ymwneud â dosbarthu bwyd a llongau teithwyr sy'n masnachu ar ddyfrffyrdd mewndirol ac yn teithio'r un llwybrau, a byth yn gadael dyfroedd tiriogaethol e.e. fferi a llong bleser. Os yw'r llong yn galw'n rheolaidd mewn mwy nag un porthladd yn y DU, yr 'awdurdod cofrestru' fel arfer yw'r awdurdod iechyd porthladd lle mae gan y llong ei 'borthladd cartref' fel llong cofrestredig gyda'r MCA.

#### 3.2.6.2 Awyrennau

Dylai cwmniau ac arlwywyr awyrennau sy'n fusnesau bwyd gofrestru gyda'r Awdurdod Bwyd mwyaf priodol. Fel arfer, hwn fydd yr Awdurdod Bwyd yn yr ardal lle caiff penderfyniadau polisi a rheoli'r cwmni ar ddiogelwch bwyd eu gwneud.

#### 3.2.6.3 Trenau a Bysus

Dylai cwmnïau gweithredu trenau a bysus sy'n fusnesau bwyd gofrestru gyda'r Awdurdod Bwyd mwyaf priodol. Fel arfer, hwn fydd yr Awdurdod Bwyd yn yr ardal lle caiff penderfyniadau polisi a rheoli'r cwmni ar ddiogelwch bwyd eu gwneud.

#### 3.2.6.4 Peiriannau gwerthu

Mae darpariaethau perthnasol yn Rheoliad 852/2004 yn berthnasol i beiriannau gwerthu. Fodd bynnag, nid yw hi'n ymarferol iawn cofrestru peiriannau gwerthu unigol na'r safleoedd lle maen nhw wedi'u lleoli os yw'r unig weithgaredd bwyd sy'n digwydd ar y safleoedd hynny'n gysylltiedig â pheiriannau gwerthu. Fodd bynnag, dylid cofrestru canolfannau dosbarthu lle cedwir bwyd i lenwi peiriannau gwerthu a/neu lle cludir bwyd i lenwi peiriannau gwerthu oddi yno, a hynny gyda'r Awdurdod Bwyd perthnasol. Dylid cynnwys cerbydau dosbarthu a ddefnyddir i gludo bwyd ar gyfer stocio peiriannau gwerthu yn yr ymyriadau mewn sefydliadau o'r fath.

#### 3.2.6.5 Marchnadoedd

Yn achos cerbydau a stondinau (p'un a yw'r cyfleusterau hyn yn cael eu darparu gan reolwr y farchnad ai peidio) a ddefnyddir ar gyfer cludo, paratoi neu werthu bwyd i ddefnyddwyr o fewn ardal marchnad, dylai gweithredwr y busnes bwyd gofrestru'r sefydliad gyda'r Awdurdod Bwyd lle mae eu stociau bwyd yn cael eu storio fel arfer.

### 3.2.7 Busnesau Bwyd Symudol

Mae'r adrannau canlynol yn cyfeirio at sefydliadau bwyd sydd â'r symudedd i fasnachu mewn mwy nag un lleoliad, ac eithrio'r sefydliadau bwyd symudol hynny a ddisgrifir ym Mhennod 3.2.6.

Dylai gweithredwyr sefydliadau bwyd symudol gofrestru'r busnesau hynny gyda'r Awdurdod Bwyd lle mae'r sefydliad yn cael ei gadw neu ei ddychwelyd fel rheol, sef 'yr Awdurdod Bwyd sy'n cofrestru' fel y cyfeirir ato yn yr adrannau nesaf.

#### 3.2.7.1 Busnesau Bwyd Symudol gyda Nifer o Sefydliadau

Pan fo busnes bwyd yn gweithredu mwy nag un sefydliad symudol, dylid ystyried a yw'n briodol cofrestru'r busnes fel un sefydliad unigol h.y. lle mae un 'meddwl rheoli', neu gofrestru pob sefydliad symudol unigol. Wrth wneud y penderfyniad hwn, dylai Awdurdodau Bwyd benderfynu a yw'r busnes bwyd yn bodloni'r meini prawf ym Mhennod 3.2.5.1. Dim ond pan fydd y tri maen prawf yn cael eu bodloni y dylid cofrestru busnes bwyd unigol.

Mae rhagor o wybodaeth am gofrestru mathau eraill o sefydliadau i'w gweld yn y Canllaw Ymarfer Cyfraith Bwyd.

#### 3.2.7.2 Cyfrifoldebau'r Awdurdod Bwyd

Mae Awdurdodau Bwyd yn gyfrifol am arolygu sefydliadau symudol sy'n gweithredu yn eu hardal.

Pan fo sefydliad symudol yn masnachu y tu allan i ardal yr Awdurdod Bwyd sy'n cofrestru, lle bo modd, dylai'r Awdurdod Bwyd sy'n arolygu wirio a oes ymyriad yn ddyledus ac os felly, y math o ymyriad a allai fod yn briodol. Gellir canfod hyn trwy gysylltu â'r Awdurdod Bwyd sy'n cofrestru a/neu, drwy ddulliau eraill megis gwybodaeth am yr uned symudol ei hun neu wefan y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (oni bai bod materion diogelwch bwyd amlwg lle mae gofyn ymyrryd ar unwaith).

#### 3.2.7.3 Sgôr Risg Sefydliadau Symudol

Dylai Awdurdodau Bwyd fynd ati i roi sgôr risg Atodiad V i sefydliadau symudol sydd wedi'u cofrestru gyda nhw pan fyddant yn ddyledus. Dylai hyn fod yn seiliedig ar eu harolygiad eu hunain ac ar ôl ystyried gwybodaeth a ddarperir gan Awdurdodau Bwyd sy'n arolygu lle mae ymyriad priodol wedi digwydd. Dylai'r sgôr risg ddod yn sgil ymyriad sydd wedi cynnwys arsylwadau o fusnes sydd wrthi'n gweithredu lle bo modd.

#### 3.2.7.4 Cyfnewid Gwybodaeth

Os yw awdurdod sy'n cofrestru, ar ôl cael gwybodaeth, yn ymwybodol bod sefydliad fel arfer yn gweithredu y tu allan i'w ardal, rhaid iddynt rannu'r wybodaeth hon gyda'r Awdurdod Bwyd perthnasol.

Dylai awdurdodau bwyd sy'n arolygu hefyd basio digon o wybodaeth i Awdurdodau Bwyd sy'n cofrestru i'w galluogi i roi sgôr risg i'r sefydliad. Dylid trosglwyddo gwybodaeth o'r fath o fewn 14 diwrnod gwaith yn dilyn ymyriad neu'n gynt gan ddibynnu ar natur a difrifoldeb unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio â nodir.

### 3.2.8 Sefydliadau Anfasnachol

Rhaid cofrestru gweithgareddau bwyd a gynhelir ar safle nad yw'n cael ei ddefnyddio'n bennaf at ddibenion masnachol, ond sy'n bodloni'r diffiniad o 'fusnes bwyd' yn adran 3.2.1, fel sefydliad busnes bwyd. Gall hyn gynnwys, er enghraifft, busnes bwyd sy'n gweithredu o safle a ddefnyddir yn bennaf fel annedd ddomestig.

### 3.2.9 Y broses gofrestru

#### 3.2.9.1 Cais

O dan Erthygl 31(1)(a) o Reoliad (CE) Rhif 882/2004, mae'n ofynnol i'r Awdurdod Bwyd sefydlu gweithdrefnau i weithredwyr busnesau bwyd eu dilyn wrth wneud cais i gofrestru eu sefydliadau. Mae'r adrannau canlynol yn amlinellu'r gweithdrefnau a awgrymir.

#### 3.2.9.2 Amserlen ar gyfer cofrestru

Dylai Awdurdodau Bwyd sicrhau bod cyngor ar gael i ddarpar weithredwyr busnesau bwyd, o'r angen i gofrestru sefydliad bwyd o leiaf 28 diwrnod cyn i'r busnes ddechrau masnachu neu cyn i'r gweithrediadau bwyd ddechrau.

#### 3.2.9.3 Dulliau Cofrestru

Dylai Awdurdodau Bwyd ei gwneud yn ofynnol bod gweithredwyr busnesau bwyd yn darparu'r manylion llawn am y gweithgareddau a gynhelir ganddynt yn y sefydliad(au). Dylai ffurflen gofrestru fod ar gael i weithredwyr busnesau bwyd ar gyfer pob sefydliad o dan eu rheolaeth, a dylent eu llenwi a'u cyflwyno i'r Awdurdod Bwyd perthnasol. Mae ffurflen enghreifftiol ar gyfer cofrestru sefydliad busnes bwyd i'w gweld yn Atodiad IV.

O dan Reoliadau Darparu Gwasanaethau 2009, mae'n rhaid i Awdurdodau Bwyd hefyd gynnig dull electronig i weithredwyr busnesau bwyd allu cofrestru eu sefydliad(au). Mae'n bosibl cofrestru'n electronig a chyflwyno'r wybodaeth i'r Awdurdod Bwyd perthnasol ar-lein gan ddefnyddio gwefan Gov.uk[16].

#### 3.2.9.4 Camau i'w cymryd ar ôl i ffurflen gofrestru ddod i law

Ar ôl i gais cofrestru ddod i law, dylai Awdurdodau Bwyd gofnodi'r dyddiad y daeth i law. Pan fo unrhyw weithgareddau a nodir ar y ffurflen y tu allan i'w gylch gorchwyl o ran gorfodi, dylid hysbysu'r Awdurdod Bwyd perthnasol yn ddi-oed.

Dylai Awdurdodau Bwyd roi gwybodaeth berthnasol o'r ffurflen gofrestru ar y gronfa ddata (gweler Pennod 3.2.9.5) a'u rhestrau o sefydliadau bwyd cofrestredig. Yna dylid gosod y ffurflen gofrestru ar ffeil (electronig neu fel arall) sydd wedi'i pharatoi mewn cysylltiad â'r sefydliad bwyd hwnnw.

Os yw sefydliad yn ymgymryd ag unrhyw weithgaredd a allai beri risg uchel, dylid ystyried hyn wrth flaenoriaethu arolygiadau cychwynnol.

Dylai Awdurdodau Bwyd gadw ffurflenni cais sefydliadau mewn fformat sy'n golygu bod modd eu defnyddio fel tystiolaeth os oes angen.

[16] www.gov.uk

Os bydd unrhyw wybodaeth yn cael ei hepgor o ffurflen gofrestru, dylai'r Awdurdod Bwyd naill ai gysylltu â'r gweithredwr busnes bwyd i gael yr wybodaeth sydd ar goll, neu os oes llawer iawn o wybodaeth ar goll, dychwelyd y ffurflen i'r gweithredwr busnes bwyd i'w llenwi'n llawn.

Ar ôl i ffurflen gais lawn ddod i law, dylai Awdurdodau Bwyd roi sylw i Bennod 5.2.2.2 mewn perthynas â chynnal unrhyw arolygiad os oes angen.

### 3.2.9.5 Cofnodion Awdurdod Bwyd

Mae Erthygl 31(1)(b) o Reoliad (CE) Rhif 882/2004 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod cymwys priodol lunio rhestr o sefydliadau bwyd sydd wedi'u cofrestru, ac mae'n caniatáu defnyddio rhestrau presennol i wneud hyn. Rhaid i awdurdodau bwyd gynnal eu rhestr yn unol â gofynion Erthygl 31(1) (b).

Rhaid i Awdurdodau Bwyd gadw rhestr gyfredol o sefydliadau busnes bwyd sydd wedi'u cofrestru gyda nhw. Dylai'r rhestr gynnwys yr wybodaeth ganlynol am bob busnes bwyd:

- enw'r sefydliad bwyd;
- cyfeiriad y sefydliad bwyd;
- natur y busnes bwyd.

### 3.2.9.6 Cydnabod Cais i Gofrestru

Ni ddylid rhoi tystysgrifau cofrestru ar gyfer sefydliadau bwyd i weithredwyr busnesau bwyd oherwydd fe allant gamarwain defnyddwyr i gredu bod gan sefydliad bwyd "gymeradwyaeth swyddogol". Fodd bynnag, fe all Awdurdodau Bwyd ddewis cadarnhau bod ffurflenni cofrestru wedi eu cyrraedd yn ddiogel a bod sefydliad wedi'i ychwanegu at y rhestr o sefydliadau bwyd cofrestredig.

Dylai unrhyw gadarnhad o'r fath atgoffa gweithredwyr busnesau bwyd i roi gwybod i'r Awdurdod Bwyd am unrhyw newidiadau dilynol i'r busnes, yn unol ag Erthygl 6(2) o Reoliad (CE) Rhif 852/2004.

### 3.2.10 Newidiadau i Weithrediadau Sefydliad Bwyd

O dan Erthygl 6(2) o Reoliad (CE) Rhif 852/2004, rhaid i weithredwyr busnesau bwyd sicrhau bod gan yr Awdurdod Bwyd priodol yr wybodaeth ddiweddaraf am eu sefydliad(au) bwyd ar bob adeg a rhaid iddynt hysbysu'r Awdurdodau Bwyd sydd wedi'u cofrestru am unrhyw newidiadau sylweddol i'w gweithrediadau. Gall y rhain gynnwys (heb fod yn gyfyng i) newidiadau mewn gweithgarwch bwyd neu roi'r gorau i weithgarwch bwyd, newid enw masnachu neu os yw'r busnes yn rhoi'r gorau i fasnachu.

Ar ôl cael gwybod am newidiadau, dylai'r Awdurdod Bwyd ddiweddaru ei restrau o sefydliadau bwyd cofrestredig fel sy'n briodol, yn ogystal â'r cofnod ffeil sy'n ymwneud â'r sefydliad hwnnw. Pan hysbysir Awdurdod Bwyd bod gweithredwr busnes bwyd wedi newid, dylai hyn arwain at gofrestru'r busnes bwyd o'r newydd.

## 3.3 – Cyflwyno Manylion i'w Cymeradwyo gan Sefydliad Busnes Bwyd

Mae'r Bennod hon yn ymwneud â'r sefydliadau sy'n destun cymeradwyaeth o dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004, y mae Awdurdodau Bwyd yn gyfrifol am eu gorfodi.

### 3.3.1 Pryd mae Angen Cymeradwyaeth?

Mae Rheoliad (CE) Rhif 853/2004 yn golygu bod yn rhaid i Awdurdod Cymwys neu Awdurdod Bwyd gymeradwyo sefydliadau busnes bwyd sy'n trin bwyd a ddaw o anifeiliaid ac sy'n dod o dan y categorïau lle caiff gofynion eu hamlinellu yn Atodiad III y rheoliadau hynny, gyda rhai eithriadau cyfyngedig. Mae angen cydymffurfio â gofynion perthnasol Rheoliad (CE) Rhif 853/2004 yn ogystal â chydymffurfio'n llawn â Rheoliad (CE) Rhif 852/2004 a deddfwriaeth berthnasol arall.
Nid oes gofyn i sefydliadau sy'n destun cymeradwyaeth gofrestru o dan Erthygl 6(2) o Reoliad (CE) Rhif 852/2004.

### 3.3.2 Rhannu Cyfrifoldebau rhwng Awdurdodau Bwyd a'r ASB

Mae Awdurdodau Bwyd yn gyfrifol am gymeradwyo a gorfodi sefydliadau sy'n ddarostyngedig i'r gofynion o dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004 lle nad yw'r rheolaeth yn perthyn i Filfeddyg Swyddogol. Bydd y sefydliadau "cynhyrchion-benodol" hyn yn cynhyrchu un, neu gyfuniad, o'r canlynol: cig wedi'i friwio (*minced meat*); paratoadau cig; cig wedi'i wahanu'n fecanyddol; cynhyrchion cig; molysgiaid dwygragennog byw; cynhyrchion pysgodfeydd; llaeth amrwd (ar wahân i laeth buwch amrwd); cynnyrch llaeth; wyau (nid cynhyrchu cynradd) a chynhyrchion wyau; coesau brogaod a malwod; brasterau anifail wedi'u rendro a chriwsion (*greaves*); stumogau wedi'u trin; pledrennau a coluddion; gelatin a cholagen; a bydd yn cynnwys rhai sefydliadau ail-lapio/ail-becynnu, storfeydd oer a marchnadoedd cyfanwerthu penodol.
Mae Awdurdodau Bwyd hefyd yn gyfrifol am orfodi mewn perthynas â chanolfannau casglu a thanerdai (*tanneries*) sy'n cyflenwi deunydd crai er mwyn cynhyrchu gelatin neu golagen i'w fwyta gan bobl.

Mae'r ASB yn gyfrifol am gymeradwyo ac, yn dilyn hynny, gorfodi mewn sefydliadau sy'n ddarostyngedig i'r gofynion o dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004 lle mae rheolaeth yn perthyn i Filfeddyg Swyddogol yn unol ag Erthygl 4(7) o Reoliad (CE) Rhif 854/2004. Mae'r rhain yn cynnwys lladd-dai, sefydliadau trin helgig (*game*), marchnadoedd cyfanwerthu cig a ffatrioedd torri sy'n gosod cig ffres ar y farchnad. Mae'r ASB hefyd yn gyfrifol am sefydliadau sydd wedi'u lleoli ar y cyd â'r sefydliadau hyn lle caiff cig wedi'i friwio (*minced*), paratoadau cig, cig wedi'i wahanu'n fecanyddol, cynhyrchion cig, brasterau anifail wedi'u rendro a chriwsion, stumogau wedi'u trin, pledrennau a choluddion, gelatin a/neu golagen hefyd eu cynhyrchu.

Gall yr ASB, fesul achos a gyda chytundeb yr Awdurdod Bwyd, gymryd cyfrifoldeb dros orfodi gweithrediadau bwyd mewn sefydliadau sydd wedi'u lleoli ar y cyd, y mae naill ai Rheoliad (CE) Rhif 852/2004 neu Reoliad (CE) Rhif 853/2004 yn berthnasol iddynt, ac eithrio lle mae'r sefydliadau hyn yn manwerthu. Mae hyn yn cynnwys unrhyw gynnyrch arall sy'n dod o anifail ac unrhyw gynnyrch nad yw'n dod o anifail. Mae angen i Awdurdodau Bwyd gyfeirio ceisiadau i'r ASB gymryd cyfrifoldebau gorfodi at yr ASB i gytuno a phenderfynu arnynt cyn y gellir trosglwyddo.

Mae'r ASB hefyd yn gyfrifol am orfodi mewn perthynas â'r materion a reoleiddir gan Atodlen 6 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, i'r graddau y mae'n gymwys o ran llaeth buwch amrwd i'w yfed yn uniongyrchol gan bobl.

Pan fo busnes bwyd yn ymgymryd ag unrhyw weithgarwch sy'n destun cymeradwyaeth o dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004 (gan gynnwys busnesau y mae gofyn eu cymeradwyo gan yr ASB, ond sydd heb eu cymeradwyo eto) heb y gymeradwyaeth amodol neu lawn, mae'r busnesau yn torri'r gyfraith a chyfrifoldeb yr Awdurdod Bwyd perthnasol yw cymryd camau gorfodi. Mae awdurdodau bwyd hefyd yn gyfrifol am ddiogelwch bwyd a gorfodi troseddau wrth gludo bwyd, gan gynnwys o sefydliadau a gymeradwywyd gan yr ASB.

### 3.3.3 Eithriadau Cymeradwyo

Mae Erthygl 1 o Reoliad (CE) Rhif 853/2004 yn nodi cwmpas y Rheoliad hwnnw. Mae'r paragraffau canlynol yn ymdrin yn benodol ag eithriadau o'r Rheoliad o dan Erthygl 1(2) ac o dan Erthygl 1(5)(b)(ii). Mae canllawiau ychwanegol wedi'u cynnwys o fewn y Canllaw Ymarfer Cyfraith Bwyd.

Ar ôl cael cais cymeradwyo neu wrth ddarparu cyngor i weithredwyr busnesau bwyd, bydd angen i Awdurdodau Bwyd ystyried a oes angen cymeradwyo'r gweithgareddau arfaethedig neu a ellid eithrio'r gweithredwr busnes bwyd. Os oes angen cymeradwyaeth ar y gweithgareddau, rhaid i Awdurdodau Bwyd ymweld â'r safle.

Mae'r eithriadau perthnasol o'r gofynion cymeradwyo, o dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004, yn perthyn i dri chategori:

- cyflenwad uniongyrchol o symiau bach o gynnyrch cynradd; Rheoliad (CE) Rhif 853/2004, Erthygl 1(3) (c), (d) ac (e);
- eithriadau manwerthu; Rheoliad (CE) Rhif 853/2004, Erthygl 1 (5) (b) (ii);
- bwyd sy'n cynnwys cynhyrchion sy'n dod o blanhigion a chynhyrchion wedi'u prosesu sy'n dod o anifeiliaid (Cynhyrchion Cyfansawdd); Rheoliad (CE) Rhif 853/2004, Erthygl 1(2).

Rhaid i sefydliadau sydd wedi'u heithrio rhag cymeradwyaeth oherwydd eu bod yn gosod, yn cynhyrchu neu'n ymdrin â chynhyrchion cyfansawdd ddangos i'r Awdurdod Bwyd bod y cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid wedi'u cynhyrchu a'u trin yn unol â'r gofynion penodol yn Rheoliad (CE) Rhif 852/2004 a Rheoliad (CE) Rhif 853/2004. Mae hyn wedi'i bennu yn Erthygl 1(2) o Reoliad (CE) Rhif 853/2004.

Mae rhagor o gyngor yn nogfen yr ASB: Cymeradwyo Sefydliadau – Canllawiau i Swyddogion Awdurdodedig Awdurdod Lleol.

### 3.3.4 Canolfannau casglu a thanerdai sy'n cyflenwi deunydd crai ar gyfer cynhyrchu gelatin neu golagen i'w fwyta gan bobl

Gall canolfannau casglu a thanerdai gyflenwi deunydd crai ar gyfer cynhyrchu gelatin a cholagen i'w bwyta gan bobl. Nid ydynt yn ddarostyngedig i ofynion Rheoliad (CE) Rhif 852/2004, ac nid ydynt yn destun cymeradwyaeth o dan Reoliad

(CE) Rhif 853/2004. Fodd bynnag, bydd yn rhaid iddynt gael eu hawdurdodi'n benodol gan yr Awdurdod Bwyd perthnasol yn unol ag Atodiad III, Adran XIV, Pennod I (5) o Reoliad (CE) Rhif 853/2004 (gelatin) ac Adran XV, Pennod I (5) o Reoliad (CE) Rhif 853/2004 (colagen), a rhaid iddo hefyd fodloni gofynion eraill Atodiad III, Adran XIV (gelatin) ac Atodiad III, Adran XV (colagen) o Reoliad (CE) Rhif 853/2004.

### 3.3.5 Cais am Gymeradwyaeth

Mae Erthygl 31(2) (a) o Reoliad (CE) Rhif 882/2004, fel y'i darllenir gyda rheoliad 3 (3) a (6) o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009, yn gorfodi'r ASB[17] ac Awdurdodau Bwyd i sefydlu gweithdrefnau ar gyfer gweithredwyr busnesau bwyd i'w dilyn wrth wneud cais i gymeradwyo eu sefydliadau yn unol â Rheoliad (CE) Rhif 853/2004. Rhaid i'r ASB ac Awdurdodau Bwyd sicrhau eu bod nhw, a gweithredwyr busnesau bwyd, yn dilyn y gweithdrefnau hyn fel sy'n briodol. Rhaid cofnodi unrhyw wyriadau o'r gweithdrefnau hyn a lle bo modd, rhaid cytuno â'r Awdurdod Bwyd a'r Awdurdod Bwyd ymlaen llaw. Rhaid ymdrin ag unrhyw gais am gymeradwyaeth gan weithredwr busnes bwyd yn brydlon.

### 3.3.6 Enghraifft o Ffurflen Gymeradwyo

Er mwyn sicrhau cysondeb, rhaid i Awdurdodau Bwyd ofyn i weithredwyr busnesau bwyd gyflwyno ceisiadau cymeradwyo yn y fformat priodol fel y'u nodir yn y Canllaw Ymarfer Cyfraith Bwyd.

Ceir cyfres o ffurflenni templed yn y Canllaw Ymarfer Cyfraith Bwyd i gynorthwyo Awdurdodau Bwyd wrth weinyddu'r cymeradwyaethau. Er bod yn rhaid ystyried cynnwys y dogfennau hyn fel yr isafswm sy'n ofynnol, gallai Awdurdodau Bwyd eu haddasu fel bo'r angen i fodloni amgylchiadau lleol.

### 3.3.7 Ffyrdd o Gymeradwyo

O dan Reoliadau Darparu Gwasanaethau 2009, mae'n rhaid i Awdurdodau Bwyd gynnig dull electronig i weithredwyr busnesau bwyd geisio cymeradwyaeth ar gyfer eu sefydliadau bwyd. Gellir cwblhau ceisiadau am gymeradwyaeth yn electronig a'u cyflwyno i'r Awdurdod Bwyd perthnasol ar-lein gan ddefnyddio gwefan Gov.uk[18].

### 3.3.8 Camau Gofynnol ar ôl i gais am gymeradwyaeth ddod i law

Dim ond gan weithredwyr busnesau bwyd sy'n bwriadu cymryd rhan mewn gweithgareddau y byddai angen cymeradwyaeth yn unol â Rheoliad (EC) Rhif 853/2004 y mae'n rhaid cael ceisiadau am gymeradwyaeth sefydliadau.

Wrth ystyried ceisiadau i'w cymeradwyo, rhaid i'r ASB ac Awdurdodau Bwyd sicrhau eu bod yn ystyried yn llawn unrhyw eithriad a all fod ar gael i'r ymgeisydd a roddir gan Erthygl 1 a 4 o Reoliad (CE) Rhif 853/2004.

[17] Mewn perthynas â lladd-dai
[18] www.gov.uk

Ar ôl cael ffurflen gais ar gyfer sefydliad y mae angen ei gymeradwyo, rhaid i'r ASB neu'r Awdurdod Bwyd ymweld â'r safle i wirio a yw'r gweithredwr busnes bwyd yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol perthnasol ac os ellir rhoi cymeradwyaeth neu gymeradwyaeth amodol.

Mae rhagor o gyngor ar gael yn nogfen yr ASB: Cymeradwyo Sefydliadau – Canllawiau i Swyddogion Awdurdodedig Awdurdod Lleol.

### 3.3.8.1 Gwybodaeth Ategol/Gwybodaeth sy'n Cyd-fynd

Rhaid i'r ASB neu'r Awdurdod Bwyd sicrhau bod y gweithredwr busnes bwyd yn cyflenwi'r holl wybodaeth berthnasol cyn penderfynu ar gais cymeradwyaeth. Dylid darparu'r wybodaeth hon gyda'r cais neu ei chael yn ystod yr ymweliad dilynol i safle'r sefydliad fel sy'n ofynnol gan Erthygl 31(2) (b) o Reoliad (CE) Rhif 882/2004 (gweler Pennod 3.3.4). Mater i'r ASB neu'r Awdurdod Bwyd yw penderfynu ar ba gam o'r cais y mae'n rhaid darparu'r wybodaeth hon.

### 3.3.8.2 Penderfyniad Cymeradwyo

Cyn dod i benderfyniad ar gais cymeradwyaeth, rhaid i'r ASB neu'r Awdurdod Bwyd sicrhau bod ymweliad â'r safle yn digwydd yn unol ag Erthygl 31 (2) (b) o Reoliad (CE) Rhif 882/2004.

Rhaid i hyn fod ar ffurf arolygiad o'r sefydliad (gweler Pennod 5.2.2), i wirio, pan fo angen, bod yr holl systemau, gweithdrefnau a dogfennau yn bodloni gofynion perthnasol Rheoliad (CE) Rhif 852/2004 a Rheoliad (CE) Rhif 853/2004.

Rhaid cynnal yr arolygiad yn unol â'r ffurflen arolygu berthnasol ar gyfer y busnes dan sylw a chynnwys pob agwedd ar y ffurflen honno. Rhaid iddo hefyd ystyried pob mater sy'n gofyn am ganiatâd yr ASB neu'r Awdurdod Bwyd fel y'i nodir gan Reoliad (CE) Rhif 853/2004. Rhaid bodloni holl ofynion cyfraith bwyd sy'n berthnasol i'r busnes hwnnw cyn rhoi cymeradwyaeth lawn, yn unol ag Erthygl 31(2) o Reoliad (CE) Rhif 882/2004.

### 3.3.8.3 Mwy nag un math o gynnyrch

Wrth ystyried cais i gymeradwyo sefydliad, rhaid i'r ASB neu'r Awdurdod Bwyd ystyried pob gweithgaredd a gynhelir yn y sefydliad.

Bydd sefydliadau lle mae dau gynnyrch neu fwy o darddiad anifeiliaid sy'n ddarostyngedig i ofynion Rheoliad (CE) Rhif 853/2004 yn berthnasol, e.e. sefydliad sy'n cynhyrchu cynhyrchion cig a chynhyrchion pysgodfeydd. Mewn achosion o'r fath, bydd y darpariaethau perthnasol yn gymwys i ardaloedd y sefydliad lle mae pob un math o gynnyrch yn cael ei gynhyrchu. Bydd holl ddarpariaethau perthnasol y Rheoliad yn gymwys i'r ardaloedd hynny yn y sefydliad lle rhennir y cyfleusterau.

### 3.3.8.4 Cymeradwyaeth amodol

Os nad yw sefydliad yn bodloni gofynion Rheoliad (CE) Rhif 853/2004 yn llawn yn dilyn ymweliad â'r safle, rhaid i'r ASB neu'r Awdurdod Bwyd ystyried a yw

cymeradwyaeth amodol yn briodol.

Mae Erthygl 31(2) (d) o Reoliad (CE) Rhif 882/2004 yn caniatáu rhoi cymeradwyaeth amodol i sefydliad, nad yw'n cydymffurfio'n llawn â gofynion cyfraith bwyd, os yw'r sefydliad yn bodloni'r holl ofynion seilwaith a chyfarpar (gweler yr adran berthnasol o'r Canllaw Ymarfer Cyfraith Bwyd).

Rhaid i'r ASB neu'r Awdurdod Bwyd gofio gall gweithredwr busnes bwyd ond wneud cais cymeradwyaeth ar gyfer sefydliadau dan ei reolaeth. Yr Awdurdod Cymwys perthnasol sy'n penderfynu a ddylid rhoi cymeradwyaeth amodol i sefydliad. Rhaid defnyddio barn broffesiynol wrth benderfynu a fyddai'n briodol rhoi cymeradwyaeth amodol, fesul achos.

Os rhoddir cymeradwyaeth amodol, bydd hyn yn ddilys am dri mis, lle mae'n rhaid cynnal ymweliad pellach fel arolygiad (Pennod 5.2.2) yn unol ag Erthygl 31(2) (d) o Reoliad (CE) Rhif 882/2004.

Mewn amgylchiadau priodol, gellir estyn cymeradwyaeth amodol, ond mae hyn wedi'i gyfyngu i uchafswm o chwe mis o'r dyddiad y rhoddwyd y caniatâd amodol cychwynnol. Rhaid defnyddio barn broffesiynol wrth benderfynu a fyddai'n briodol ymestyn cymeradwyaeth amodol, fesul achos.
Fodd bynnag, ni ddylid ymestyn unrhyw gymeradwyaeth amodol i fwy na chwe mis o dan unrhyw amgylchiadau, fel y'i nodir yn Erthygl 31 (2) (d) o Reoliad (CE) Rhif 882/2004.

### 3.3.8.5 Cymeradwyaeth lawn

Gall yr ASB neu'r Awdurdod Bwyd roi cymeradwyaeth lawn o fewn tri mis neu o fewn chwe mis lle mae cymeradwyaeth amodol wedi'i hymestyn fel y disgrifir yn 3.3.6.4. Rhaid i hyn gynnwys y sefydliad sy'n cael ei arsylwi a'r gweithredwr busnes bwyd yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol mewn cyfraith bwyd gan gynnwys y gofynion sy'n benodol i gynnyrch yn Rheoliad (CE) Rhif 853/2004. Rhaid pennu hyn mewn ymweliad rheoli swyddogol newydd i'r sefydliad fel y'i nodir yn Erthygl 31(2)(d) o Reoliad (CE) Rhif 882/2004. Fodd bynnag, ni all cymeradwyaeth amodol fod yn fwy na chwe mis.

### 3.3.8.6 Gwrthod cymeradwyaeth

Pan fydd yr ASB neu'r Awdurdod Bwyd wedi penderfynu gwrthod cais cymeradwyaeth, rhaid iddo hysbysu'r ymgeisydd yn ysgrifenedig o'r penderfyniad cyn gynted â phosibl. Rhaid i'r ASB neu'r Awdurdod Bwyd hefyd roi rhesymau dros wrthod yn ysgrifenedig, y materion sy'n angenrheidiol i fodloni gofynion y Rheoliad, a'i gwneud yn glir nad oes rhaid ymgymryd â gweithgareddau sydd angen cymeradwyaeth oni bai bod caniatâd neu gymeradwyaeth amodol yn cael ei roi. Rhaid i hysbysiad o'r fath hefyd sicrhau bod y gweithredwr busnes bwyd yn ymwybodol o'u hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad, a rhoi cyfeiriad y Llys Ynadon lle gellir gwneud apêl o'r fath.

Rhaid i'r ASB neu'r Awdurdod Bwyd gofio bod gan y gweithredwr busnes bwyd yr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad i wrthod cymeradwyaeth neu gymeradwyaeth amodol i Lys perthnasol. Mae hawliau apelio yn ddarostyngedig i Reoliadau Bwyd Anifeiliaid a Bwyd Swyddogol (Cymru) 2009. O’r dyddiad y caiff y

person perthnasol wybod am y penderfyniad, ni chaiff y sefydliad barhau i weithredu tra bod penderfyniad yn cael ei wneud ynghylch yr apêl.

### 3.3.8.7 Rhif cymeradwyo/Marc Adnabod (Gweler hefyd adran berthnasol y Canllaw Ymarfer Cyfraith Bwyd)

Rhaid i'r Awdurdod Bwyd roi rhif cymeradwyo i bob sefydliad bwyd y mae'n cymeradwyo, neu'n cymeradwyo'n amodol, yn unol ag Erthygl 3 (3) o Reoliad (CE) Rhif 854/2004. Rhaid i'r rhif cymeradwyo hwn fod yn rhif tri digid unigryw. Dylai'r rhif cymeradwyo fod yn rhan o god cymeradwyo sy'n cynnwys cod dwy lythyren yr Awdurdod Bwyd ac yna'r rhif cymeradwyo i ddilyn.

Rhaid ymgorffori'r cod cymeradwyo mewn marc adnabod, ac mae'n rhaid i sefydliadau cymeradwy gynnwys y marc ar eu cynhyrchion perthnasol, fel y bo'n briodol. Mae'r gofynion ar gyfer ffurf y marc adnabod yn cael eu nodi yn Atodiad II, Adran I A, B ac C o Reoliad (CE) Rhif 853/2004. Marc Adnabod Bwyd nad yw Rheoliad (CE) Rhif 853/2004 yn Gymwys

#### 3.3.8.7.1 Marc Adnabod Bwyd nad yw Rheoliad (CE) Rhif 8.53/2004 yn Berthnasol Iddo

Rhaid i Awdurdodau Bwyd gofio bod Atodiad II, Adran 1, B7 o Reoliad (CE) Rhif 853/2004 yn nodi, os yw sefydliad yn cynhyrchu bwyd y mae Rheoliad (CE) Rhif 853/2004 yn gymwys iddo a bwyd nad yw'n berthnasol iddo, gall y gweithredwr busnes bwyd gymhwyso'r marc adnabod i'r ddau fath o fwyd.

### 3.3.8.8 Hysbysu

Ar ôl rhoi cymeradwyaeth amodol neu gymeradwyaeth lawn, rhaid i'r Awdurdod Bwyd hysbysu'r ymgeisydd yn ysgrifenedig. Rhaid i hysbysiad o'r fath gynnwys manylion natur a chwmpas y gymeradwyaeth, unrhyw amodau neu gyfyngiadau sy'n berthnasol a'r cod cymeradwyo. Wrth roi cymeradwyaeth lawn yn dilyn cymeradwyaeth amodol, rhaid i'r hysbysiad hwn hefyd gynnwys cadarnhad y gellir parhau i ddefnyddio'r cod cymeradwyo a roddir i'r sefydliad.

Rhaid i'r Awdurdod Bwyd gadw copi o'r hysbysiadau uchod ar ffeil y sefydliad perthnasol a sicrhau bod yr ASB yn cael hysbysiad o'r gymeradwyaeth yn unol â Phennod 2.4.1.2.

### 3.3.9 Newid gweithgareddau, perchnogaeth neu fanylion

Mae'n ofynnol i weithredwyr busnesau bwyd hysbysu'r Awdurdod Bwyd perthnasol am unrhyw newidiadau i'w busnes fel y'u nodir yn Erthygl 6 (2) o Reoliad (CE) Rhif 852/2004. Mae hyn yn sicrhau bod gan yr Awdurdod Bwyd wybodaeth gyfredol am y sefydliadau bob amser, gan gynnwys newidiadau sylweddol mewn gweithgareddau a chau sefydliadau. Fodd bynnag, lle nad yw hyn yn digwydd ac os bydd Awdurdod Bwyd yn dod i wybod am unrhyw newidiadau sylweddol, er enghraifft, o ran perchnogaeth, rheolaeth neu weithgareddau sefydliad cymeradwy, rhaid iddynt gynnal arolygiad a chymryd unrhyw gamau angenrheidiol.

Mae cymeradwyo "sefydliad" yn berthnasol i'r safle a'r busnes sy'n gweithredu yn y safle. Os yw safle yn newid perchnogaeth, rhaid i'r gweithredwr busnes bwyd gyflwyno cais am gymeradwyaeth cyn y gall weithredu.

### 3.3.10 Gorfodi mewn Sefydliadau Cymeradwy

Yn ychwanegol at y pwerau gorfodi o dan y ddeddfwriaeth a nodir ym Mhennod 7 y cod hwn, mae gan swyddogion awdurdodedig hefyd bwerau o dan Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009.

Mae pwerau i dynnu'n ôl neu atal cymeradwyaeth neu gymeradwyaeth amodol sefydliad yn cael eu darparu yn Erthygl 31(2)(e) o Reoliad (CE) Rhif 882/2004.

Mae Rheoliad 3(3) ac Atodlen 5 o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009 yn dynodi Awdurdodau Bwyd fel Awdurdodau Cymwys at ddibenion Erthygl 31 o Reoliad (CE) Rhif 882/2004.

Wrth ddarganfod achosion o ddiffyg cydymffurfio mewn sefydliadau, rhaid i'r Awdurdod Bwyd, cyn ystyried atal neu dynnu'n ôl, archwilio opsiynau gorfodi eraill i reoli'r peryglon bwyd a gyflwynir gan y sefydliad heb beryglu diogelwch bwyd.

Ni ddylai diffyg cydymffurfio o reidrwydd gael ei ystyried yn ddigonol i gyfiawnhau atal neu ddileu cymeradwyaeth sefydliad neu gymeradwyaeth amodol yn syth. Dylid caniatáu cyfle rhesymol i sicrhau cydymffurfiaeth lle bo hyn yn briodol, o ystyried mai effaith atal neu dynnu cymeradwyaeth yn ôl yw bod gweithrediadau yn dod i ben yn ddarostyngedig i'r gymeradwyaeth honno.

#### 3.3.10.1 Atal cymeradwyaeth neu gymeradwyaeth amodol

Dim ond os ystyrir opsiynau gorfodi eraill, ac os yw amgylchiadau'n bodoli yn unol ag Erthygl 31 (2) (e) o Reoliad (CE) Rhif 882/2004 y dylai Awdurdodau Bwyd gychwyn gweithdrefnau i atal cymeradwyaeth neu gymeradwyaeth amodol.

Os yw'r Awdurdod Bwyd yn nodi diffygion difrifol neu os oes rhaid iddo roi'r gorau i gynhyrchu dro ar ôl tro mewn sefydliad, yna dylid ystyried atal cymeradwyaeth. Dim ond os bydd y gweithredwr busnes bwyd yn gallu gwarantu yn ysgrifenedig y bydd yn datrys diffygion o fewn amserlen resymol, gall Awdurdod Bwyd atal cymeradwyaeth yn unig. Mae'n rhaid i Awdurdodau Bwyd fod yn ymwybodol na allant fynnu hyn gan nad oes gofyniad yn y gyfraith i ddarparu gwarantau o'r fath.

Os na all gweithredwr busnes bwyd ddarparu gwarantau digonol ynglŷn â chynhyrchu yn y dyfodol, gall yr Awdurdod Bwyd gychwyn gweithdrefnau i dynnu cymeradwyaeth y sefydliad yn ôl.

#### 3.3.10.2 Tynnu cymeradwyaeth neu gymeradwyaeth amodol yn ôl

Fel rheol, ni ddylai Awdurdodau Bwyd ddechrau gweithdrefnau i dynnu cymeradwyaeth neu gymeradwyaeth amodol yn ôl os ystyriwyd opsiynau gorfodi

eraill, gan gynnwys atal y gymeradwyaeth (gweler Pennod 3.3.10.1), ac os oes

amgylchiadau yn bodoli yn unol ag Erthygl 31(2) ( e) o Reoliad (CE) Rhif 882/2004.

Gellir tynnu cymeradwyaeth neu gymeradwyaeth amodol sefydliad yn ôl mewn amgylchiadau lle na all y gweithredwr busnes bwyd warantu yn ysgrifenedig y bydd y diffygion a nodwyd yn cael eu cywiro a bydd safon dderbyniol yn cael ei gynnal yn y dyfodol. Efallai y bydd amgylchiadau lle gall tynnu cymeradwyaeth yn ôl yn syth fod yn briodol.

#### 3.3.10.3 Hysbysiadau atal neu dynnu yn ôl gymeradwyaeth neu gymeradwyaeth amodol

O dan Erthygl 54(3) (a) o Reoliad (CE) Rhif 882/2004, rhaid i'r Awdurdod Bwyd hysbysu'r gweithredwr busnes bwyd yn ysgrifenedig o'i benderfyniad i atal neu ddileu cymeradwyaeth sefydliad neu gymeradwyaeth amodol. Rhaid i'r Awdurdod Bwyd hefyd roi rhesymau dros atal neu dynnu'n ôl yn ysgrifenedig, y materion sy'n angenrheidiol i fodloni gofynion y Rheoliad, a'i gwneud yn glir nad oes modd ymgymryd â gweithgareddau sydd angen cymeradwyaeth. Rhaid i hysbysiad o'r fath hefyd sicrhau bod y gweithredwr busnes bwyd yn ymwybodol o'u hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad i dynnu'r gymeradwyaeth yn ôl a rhoi cyfeiriad y Llys Ynadon lle gellir gwneud apêl o'r fath.

Rhaid i Awdurdod Bwyd gadw copi o'r hysbysiadau ar eu ffeiliau. Rhaid i'r Awdurdod Bwyd hefyd hysbysu'r ASB drwy lasupportwales@food.gov.uk pan fo cymeradwyaeth sefydliad neu gymeradwyaeth amodol wedi'i atal neu ei dynnu'n ôl.

#### 3.3.10.4 Apeliadau yn erbyn atal neu dynnu yn ôl gymeradwyaeth neu gymeradwyaeth amodol

Mae gan y gweithredwr busnes bwyd yr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad i dynnu neu atal cymeradwyaeth neu gymeradwyaeth amodol yn ôl i Lys perthnasol . Mae hawliau apêl yn ddarostyngedig i Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009. Ni all y sefydliad barhau i weithredu, o'r dyddiad y cyflwynir hysbysiad o'r penderfyniad, tra bo'r apêl yn cael ei benderfynu waeth a yw'n ataliad neu'n cael ei dynnu yn ôl.

### 3.3.11 Cofnod o Sefydliad Busnes Bwyd Cymeradwy

Rhaid i Awdurdodau Bwyd gadw rhestrau diweddar o sefydliadau busnes bwyd cymeradwy yn eu hardal. Gellid rhannu'r data hwn at ddibenion sicrhau iechyd y cyhoedd a gorfodi cyfraith bwyd yn effeithiol.

### 3.3.12 Cronfa Ddata Sefydliadau Busnesau Bwyd Cymeradwy

Rhaid i Awdurdodau Bwyd gynnal cronfa ddata gyfoes o sefydliadau busnes bwyd sydd wedi'u cymeradwyo neu eu cymeradwyo'n amodol ganddynt. Rhaid i Awdurdodau Bwyd gysylltu yn ôl yr angen er mwyn sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r holl awdurdodau sydd ei hangen.

## 3.4 – Gwybodaeth am Fusnes Bwyd

### 3.4.1 Mynediad at Wybodaeth

Mae'n rhaid i Awdurdodau Bwyd roi manylion cofnodion sefydliadau busnesau bwyd perthnasol os bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru, yr Ymgynghorydd Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy/Ymgynghorydd mewn Meddygaeth Iechyd Cyhoeddus (CD/EH), yr ASB neu gyrff gorfodaeth neu oruchwylio tebyg eraill er mwyn hwyluso ymchwiliad i achos neu amheuaeth o glefyd, perygl bwyd neu ymchwiliad brys neu ymchwiliad troseddol arall sy'n ymwneud â bwyd. Rhaid ymdrin â cheisiadau o'r fath gan roi sylw dyledus i ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data (gweler hefyd y Canllaw Ymarfer Cyfraith Bwyd).

Rhaid hefyd ymdrin â cheisiadau am wybodaeth gan unrhyw un heblaw y cyrff uchod gan roi sylw dyledus i Ryddid Gwybodaeth a Diogelu Data mewn cysylltiad â cheisiadau am wybodaeth am sefydliadau busnesau bwyd cofrestredig.

### 3.4.2 Gofyniad Gwybodaeth

Mae'n rhaid diweddaru ffeiliau cofnod sefydliadau yr Awdurdod Bwyd, a allai fod ar gyfrifiadur, i adlewyrchu'r newidiadau a nodwyd ar ôl pob ymyriad, gan gynnwys:

- gwybodaeth am faint a graddfa’r busnes a’i sail cwsmeriaid;
- gwybodaeth am y math o weithgareddau bwyd y mae’r busnes yn ymgymryd â nhw, gan gynnwys unrhyw gyfarpar, prosesau neu nodweddion arbennig;
- copïau o unrhyw ohebiaeth â’r busnes, gan gynnwys dogfennaeth sy’n gysylltiedig â chymeradwyaethau neu awdurdodiadau a chopïau o ganlyniadau dadansoddi/archwilio samplau bwyd; a
- copïau o ganlyniadau dadansoddi/archwilio samplau bwyd
- system i fflagio materion sylweddol, gan gynnwys manylion unrhyw ddiffyg cydymffurfio i'w hadolygu mewn ymyriadau yn y dyfodol;

ac mewn perthynas â sefydliadau a arolygwyd at ddibenion hylendid bwyd,

- asesiad o gydymffurfiaeth y busnes â gweithdrefnau sy’n seiliedig ar egwyddorion HACCP lle y bo'n briodol;
- gwybodaeth am hyfforddiant hylendid y mae cyflogeion yn ymgymryd ag ef; gan gynnwys unrhyw hyfforddiant ar weithredu a defnyddio’r system rheoli diogelwch bwyd;
- gwybodaeth ynghylch p'un a yw'r busnes yn mewnforio bwyd a/neu ai'r busnes yw'r cyrchfan cyntaf ar y tir ar ôl ei fewnforio

ac, yn ogystal, mewn perthynas a safleoedd a arolygwyd at ddibenion safonau bwyd:

- bodolaeth unrhyw system ansawdd sydd wedi’i dogfennu ac asesiad ohoni; a manylion busnesau eraill sy'n cynhyrchu neu'n mewnforio ar gyfer y busnes.

### 3.4.3 Cadw ffeiliau cofnod sefydliadau

Rhaid cadw cofnodion sy'n ymwneud ag ymyriadau yn ffeil y sefydliad am o leiaf chwe blynedd[19] fel y nodir yn y Cytundeb Fframwaith. Fodd bynnag, efallai y bydd angen cadw cofnodion am gyfnod hirach oherwydd cyfreithiad (*litigation*) neu adolygiad gan Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, neu sy'n ofynnol gan bolisi rheoli dogfennau'r Awdurdod Bwyd, neu yn dilyn cyfarwyddyd gan yr ASB.

### 3.4.4 Cadw Dogfennau Mewnforio

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sydd â phwynt mynediad ar gyfer bwyd wedi'i fewnforio sicrhau bod gwybodaeth sy'n ymwneud â nifer a math y llwythi bwyd, lle bo ar gael, yn cael ei chynnal ynghyd â gwybodaeth berthnasol ar y gwiriadau a wneir i bennu cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol. Pan fo gwybodaeth yn cael ei chofnodi, rhaid i lefel yr wybodaeth am archwiliadau bwyd (gan gynnwys archwiliadau a gynhelir mewn Cyfleusterau Storio Dros Dro Allanol neu derfynfeydd rheilffyrdd rhyngwladol) ac archwiliadau gohiriedig ddarparu modd o olrhain llwyth a chaniatáu monitro mewnol effeithiol.

Rhaid i'r wybodaeth hon gynnwys unrhyw gyfeiriad adnabod ar gyfer y llwyth a archwiliwyd, y wlad wreiddiol, gwybodaeth am natur y bwyd a'r gwiriadau a gynhaliwyd, a lle bu unrhyw gamau gorfodi neu samplu, manylion yr asiant a/neu'r sawl sy'n trosglwyddo/traddodi. Rhaid cadw cofnodion o wiriadau samplu a chofnodion sy'n ymwneud â rheolaethau brys am dair blynedd.

Cofiwch nodi: Mae 'llwyth' yn swm o fwyd neu fwyd anifeiliaid o'r un math, dosbarth neu ddisgrifiad sy'n cael ei gwmpasu gan yr un ddogfen/dogfennau, a gludir gan yr un dull cludo ac sy'n dod o'r un drydedd wlad.

Dylid cadw copïau o'r wybodaeth ganlynol:

- y Ddogfen Mynediad Milfeddygol Gyffredin (CVED) neu'r Ddogfen Mynediad Gyffredin (CED) (ar ôl iddi gael ei stampio) am gyfnod o dair blynedd;
- tystysgrif iechyd wreiddiol trydydd gwledydd neu unrhyw ddogfen sy'n cyd-fynd â llwyth a allai gael ei gwirio e.e. canlyniadau dadansoddi, am gyfnod o dair blynedd;
- pob ffurflen gyflwyno ar gyfer anfon samplau at labordai i'w harchwilio a chofnod o ganlyniadau pob archwiliad o'r fath, am gyfnod o flwyddyn.

### 3.4.5 Adroddiad Ymyrryd

Rhaid hysbysu gweithredwr busnes bwyd am ganlyniad rheolaeth swyddogol yn ysgrifenedig bob amser yn syth ar ôl y rheolaeth swyddogol, cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol, neu o fewn 14 diwrnod o ddyddiad yr arolygiad, hyd yn oed os yw'r canlyniad yn foddhaol. Mae nifer y 'dyddiau' yn cynnwys penwythnosau a gwyliau banc. Mae'n dderbyniol cyfathrebu'r canlyniad yn electronig.

Lle'r oedd y rheolaeth swyddogol yn arolygiad, arolygiad rhannol neu archwiliad, rhaid cynnwys yr wybodaeth a nodir yn y Canllaw Ymarfer Cyfraith Bwyd yn yr adroddiad. Gallai adroddiadau gynnwys deddfwriaeth arall sy'n cael ei chynnwys yn ystod ymyriadau mewn sefydliadau bwyd, e.e. iechyd a diogelwch yn y gwaith,

[19] https://signin.riams.org/files/display_inline/45532/frameworkagreementno5-18122017.pdf

pwysau a mesurau ac ati, er mae'n rhaid i faterion sy'n ymwneud â chyfraith bwyd gael eu gwahaniaethu'n glir oddi wrth gyfraith arall.

Dylai'r cyfathrebiadau rhwng Awdurdodau Bwyd a busnesau bwyd aml-safle fod, lle bo'n berthnasol, yn unol ag Egwyddor y Prif Awdurdod neu'r Awdurdod Cartref.

Fel arfer, dylai cyfathrebu uniongyrchol rhwng Awdurdodau Bwyd a busnesau bwyd aml-safle fod â brif swyddfa’r busnes perthnasol, oni bai fod y busnes wedi rhoi cyfeiriad arall y dylid anfon gohebiaeth iddo.

Dylid copïo dogfennau sy'n cael eu gadael gyda phersonél ar y safle a'r rhai sy'n cael eu hanfon trwy ddulliau electronig i'r brif swyddfa berthnasol neu gyfeiriad arall, oni bai bod y busnes yn nodi fel arall.

## 3.5 – Monitro Mewnol

Mae'r adran hon yn ymdrin â phrosesau mewnol yr Awdurdod Bwyd ar gyfer monitro ei ymyriadau ei hun, a monitro gweithredoedd ymyrryd pob Awdurdod Cymwys gan yr ASB. Rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau bod ymyriadau'n cael eu cyflawni i safon yn gyson, a bod y rhaglen ymyrryd arfaethedig yn cael ei chynnal.

### 3.5.1 Gweithdrefnau Cofnodedig

Rhaid i Awdurdodau Bwyd gynnal gweithdrefnau wedi'u cofnodi ar gyfer monitro cynnydd y rhaglen ymyrryd arfaethedig ac ansawdd a chysondeb ymyriadau a gynhelir gan eu swyddogion, neu staff a gyflenwir dan gontract, er mwyn sicrhau, cyn belled ag y bo'n ymarferol, bod yr ymyriadau'n cael eu cynnal yn gymwys. Rhaid i'r gweithdrefnau nodi sut y bydd yr Awdurdod yn diwygio ei raglen er mwyn caniatáu newidiadau mewn blwyddyn, fel sefydliadau sydd newydd agor, sefydliadau sydd wedi cau, a sefydliadau lle mae'r sgôr ymyrryd wedi newid.

### 3.5.2 Gofynion y System Fonitro

Rhaid i'r system fonitro gynnwys mesurau i asesu:

- rhaglen ymyrryd arfaethedig yr Awdurdod Bwyd;
- cydymffurfiaeth â'r Cod hwn, y Canllaw Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau eraill yr ASB;
- asesiad cyson o'r sgoriau ymyrryd;
- defnydd priodol o'r ffurflenni arolygu perthnasol;
- cydymffurfiaeth â gweithdrefnau mewnol, polisïau a Pholisi Gorfodi'r Awdurdod Bwyd;
- bod y dehongliad a'r camau a gymerir gan swyddogion yn dilyn ymyriad yn gyson o fewn yr Awdurdod Bwyd hwnnw ac yn gyson â chanllawiau'r ASB a/neu canllawiau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC);
- bod swyddogion yn ymwybodol o godau ymarfer cyhoeddedig y diwydiant sy'n berthnasol i fusnesau yn ardal yr Awdurdod Bwyd, a bod ganddynt fynediad iddynt;

ac mewn perthynas ag ymyriadau hylendid bwyd:

- bod swyddogion yn talu sylw priodol i Ganllawiau Arferion Da a gyhoeddwyd yn y DU neu'r UE.

### 3.5.3 Gwiriadau Gwirio gan Awdurdodau Cymwys â Phwyntiau Mynediad ar gyfer Bwyd sy'n Cael ei Fewnforio

Mae Erthygl 8 Rheoliad (CE) Rhif 882/2004 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Bwyd gynnal rheolaethau swyddogol yn unol â gweithdrefnau cofnodedig. Bydd gan awdurdodau bwyd weithdrefnau ar waith i wirio effeithiolrwydd y rheolaethau swyddogol y maent yn eu cyflawni a sicrhau y caiff camau unioni eu cymryd pan fo angen a bod y gweithdrefnau cofnodedig yn cael eu diweddaru fel sy'n briodol (gweler Pennod 5.4)

### 3.5.4 Systemau Gwybodaeth Reoli Awdurdodau Bwyd

Rhaid i System Gwybodaeth Reoli yr Awdurdod Bwyd hefyd gofnodi manylion y safle, sgoriau ymyrryd, ymyriadau, samplu, lefelau cydymffurfio, sgorau risg ac ymchwiliadau i gwynion a chamau gorfodi sydd i'w hanfon at yr ASB trwy ei system fonitro sefydledig. Mae'n rhaid cynnal System Gwybodaeth Reoli'r Awdurdod Bwyd ac mae'n rhaid ei bod yn gallu darparu gwybodaeth i'r ASB.

# Pennod 4 – Cymwysterau a Phrofiad

Bydd gan Awdurdodau Bwyd hyd at fis Mawrth 2019 i weithredu'r gofynion yn y Bennod hon yn llawn. Bydd angen i swyddogion arweiniol a swyddogion awdurdodedig feddu ar y cymhwyster gwaelodlin perthnasol (neu gyfwerth) yn adran 4.1.3. Rhaid i Awdurdodau Bwyd ystyried y cymwyseddau perthnasol sydd eu hangen ar gyfer rolau swyddogion a rheolwyr, ac ymgorffori hynny yng nghylchoedd datblygu ac adrodd personol 2018/19, a ddylai olygu cydymffurfiaeth lawn ag adran 4.2 o 31 Mawrth 2019 ymlaen.

## 4.1 – Cyflwyniad

Mae'r Bennod hon yn ymwneud â chymwysterau swyddogion awdurdodedig Awdurdodau Bwyd sy'n cynnal ymyriadau (gan gynnwys rheolaethau swyddogol a gynhelir i wirio cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd).

Mae'n gweithredu darpariaethau cymwysterau a hyfforddiant Rheoliad (CE) Rhif 882/2004 ar reolaethau swyddogol.

Nid yw’r Bennod hon yn gymwys i staff a chanddynt gyfrifoldeb rheoli anuniongyrchol yn unig am wasanaeth gorfodi cyfraith bwyd yr Awdurdod Bwyd, fel Prif Weithredwyr, Cyfarwyddwyr neu Brif Swyddogion, nac i’r rheiny a gyflogir mewn rôl gefnogol fel staff gweinyddol a chyfreithiol.

Os oes angen i Awdurdod Bwyd ymgysylltu ag arbenigedd mewn maes a restrir ym Mhennod I o Atodiad II i Reoliad (CE) Rhif 882/2004, dylai sicrhau bod gan unrhyw arbenigwr y mae'n ei ddefnyddio gymhwyster cydnabyddedig a phrofiad perthnasol ar gyfer yr arbenigedd dan sylw.

Mae yna nifer o gymwysterau amgen y gellir eu hystyried yn gymhwyster cyfatebol i'r rhai a amlinellir ym Mhennod 4.1.3 a 4.2.6 isod.

### 4.1.1 Awdurdodiadau

Rhaid i swyddogion gael eu hawdurdodi i ymgymryd â swyddogaethau gorfodi. Os yw'r swyddogaethau wedi'u cynnwys mewn rheoliadau a wneir o dan Ddeddf Cymunedau Ewropeaidd 1972, rhaid i swyddogion gael eu hawdurdodi'n benodol o dan y Rheoliadau perthnasol. Rhaid disgrifio'r awdurdodiad hwn yn gywir yn y dogfennau awdurdodi a chymwysterau'r swyddogion.

Dylai awdurdodiadau nodi'n glir unrhyw gyfyngiadau a roddir ar awdurdodiad swyddog, lle bo'n briodol.

Mae angen awdurdodiadau penodol o'r fath ar swyddogion sy'n cyflawni dyletswyddau o dan Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 a Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009.

Mae Deddf Diogelwch Bwyd 1990 yn caniatáu awdurdodi swyddogion, yn

ysgrifenedig, naill ai'n gyffredinol neu'n arbennig i weithredu mewn materion sy'n codi o dan y Ddeddf neu'r Rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf. Felly, gall swyddogion gael eu hawdurdodi yn gyffredinol i ymgymryd â swyddogaethau gorfodi a ddarperir ar eu cyfer mewn rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf 1990.

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sefydlu a gweithredu gweithdrefn gofnodedig ar gyfer awdurdodi swyddogion sy'n cyflawni rheolaethau swyddogol. Dylai'r weithdrefn awdurdodi gynnwys:

- pwerau dirprwyedig – pwy sydd wedi'i awdurdodi i wneud beth a pha gymwysterau sy'n ofynnol;
- pwy sydd wedi'i awdurdodi i gymeradwyo achosion cyfreithiol;
- y trefniadau sydd ar waith ar gyfer hyfforddiant gloywi ac ymsefydlu;
- y broses asesu i sicrhau a dangos bod yr Awdurdod wedi asesu cymhwysedd y swyddog(ion) awdurdodedig yn unol â'r Cod hwn (Pennod 4)

Felly, mae'n rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau bod swyddogion y maent yn awdurdodi yn unol â'u gweithdrefn gofnodedig i orfodi o dan gyfraith bwyd fel a ganlyn:

- yn meddu ar gymwysterau addas;
- yn brofiadol;
- yn gymwys i gyflawni'r ystod o dasgau a dyletswyddau y mae'n ofynnol iddynt eu cyflawni.

Rhaid i'r swyddog bwyd arweiniol ystyried y canllawiau isod wrth awdurdodi swyddog i gyflawni rheolaethau swyddogol. Rhaid i benderfyniad y swyddog bwyd arweiniol i awdurdodi fod yn seiliedig ar y ffaith fod y swyddog yn meddu ar yr wybodaeth sylfaenol (cymhwyster), hyfforddiant ymarferol a chymwyseddau wedi'u hymgorffori, ynghyd â pharhau â'u gofynion Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP).

Rhaid i'r Awdurdod Bwyd sicrhau bod y broses awdurdodi wedi'i chofnodi ynghyd â thystiolaeth o gymhwysterau, hyfforddiant ymarferol a DPP. Mae hyn yr un mor gymwys i'r rheiny a gyflogir yn uniongyrchol, staff dros dro, a'r rheiny a gyflogir gan gontractwyr neu fel contractwyr.

### 4.1.2 Gofynion i'r rheiny sy'n cyflawni Rheolaethau Swyddogol

Mae'r Cod yn cydnabod dwy rôl ddiffiniedig sy'n darparu rheolaethau swyddogol ar gyfer hylendid a safonau:

- Swyddog Bwyd Arweiniol
- Swyddog Awdurdodedig

#### 4.1.2.1 Swyddog Bwyd Arweiniol

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sy'n gyfrifol am orfodi cyfraith bwyd benodi swyddog(ion) bwyd arweiniol addas a chymwys (efallai y bydd swyddogion arweiniol ar wahân ar gyfer hylendid bwyd, safonau bwyd a hylendid bwyd ar lefel cynhyrchu sylfaenol) i

gymryd cyfrifoldeb dros reoli materion cyfraith bwyd yn weithredol.

Rhaid i'r swyddog bwyd arweiniol penodedig:

- fod â gwybodaeth a dealltwriaeth dda o natur a'r math o sefydliadau bwyd sy'n gweithredu yn ardal yr awdurdod;
- deall y peryglon a'r risgiau cyffredin sy'n gysylltiedig â'r prosesau a'r technolegau bwyd sydd ar waith yn y sefydliadau hyn;
- gallu rhoi mesurau rheoli priodol ar waith, gan gynnwys cosbau gorfodi;
- rhoi gofynion y Cod hwn ar waith;
- cymryd rhan yn yr asesiad o gymhwysedd swyddog arall;
- cydymffurfio â'r gofynion cymhwysedd ar gyfer swyddogion bwyd arweiniol ym Mhennod 4.2 y Cod hwn.

Gall swyddog bwyd arweiniol Awdurdod Bwyd fod yn swyddog a gyflogir gan awdurdod arall cyn belled â'u bod yn bodloni'r gofynion cymhwysedd angenrheidiol ar gyfer yr ardal neu'r ardaloedd y cawsant eu penodi'n swyddog bwyd arweiniol ar eu cyfer. Bydd hyn yn hwyluso camau i weithio a rhannu gwybodaeth yn rhanbarthol. Mae'r cod hwn hefyd yn cydnabod y gall mwy nag un person ymgymryd â rôl y swyddog bwyd arweiniol.

Rhaid hysbysu'r ASB am enw(au) a manylion cyswllt yr unigolyn/unigolion sy'n cyflawni'r swyddogaeth hon ar ran yr awdurdod lleol. Dylid anfon unrhyw newidiadau i fanylion swyddogion bwyd arweiniol mewn e-bost at lasupportwales@food.gov.uk. Rhaid i swyddog bwyd arweiniol fod â chymhwyster gwaelodlin sy'n hafal i'r hyn a fanylir ym Mhennod 4.1.3.

#### 4.1.2.2 Swyddog Awdurdodedig

Mae'r rhain yn swyddogion sy'n asesu cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd a chamau gorfodi fel sy'n briodol. Rhaid i swyddog awdurdodedig:

- fod â lefel o wybodaeth a dealltwriaeth sy'n caniatáu iddynt gyflawni ymyriadau rheoli swyddogol;
- bod â dealltwriaeth o'r peryglon a'r risgiau yn y safle y mae gofyn iddynt eu harolygu;
- gwybod am bolisi gorfodi'r awdurdod, ac yn ei ystyried, a'r ystod lawn o gosbau gorfodi gan gynnwys rhoi cyngor yn briodol.

Dylai'r swyddogaeth hon gael ei chyflawni gan swyddog sydd â'r cymwyseddau perthnasol a nodir ym Mhennod 4.2. Dylai lefel yr awdurdodiad adlewyrchu lefel y cymhwysedd a aseswyd gan y swyddog arweiniol.

Cyn i Awdurdodau Bwyd awdurdodi swyddogion i gyflawni rheolaethau swyddogol (hylendid a safonau), rhaid i'r swyddog bwyd arweiniol sicrhau bod y swyddog yn:

- meddu ar y cymhwyster gwaelodlin a restrir ym Mhennod 4.1.3 y Cod NEU un o'r cymwysterau cyfwerth a restrir yn y Canllaw Ymarfer Cyfraith Bwyd;
- bodloni'r cymwyseddau perthnasol a restrir ym Mhennod 4.2.2 y Cod;
- dangos eu bod wedi cynnal eu Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) yn unol â Phennod 4.2.7 y Cod.

Rhaid i swyddog awdurdodedig fod â chymhwyster gwaelodlin sy'n gyfartal â'r hyn a fanylir ym Mhennod 4.1.3.

#### 4.1.2.3 Swyddogion Cymorth Rheoleiddio

Mae'r Cod hwn hefyd yn cydnabod bod ymyriadau amgen y gellir eu cynnal gan Swyddogion Cymorth Rheoleiddio. Dyma'r swyddogion a all gyflawni'r tasgau o ddydd i ddydd o fewn tîm bwyd sy'n cefnogi gwaith y swyddogion awdurdodedig.

Efallai y bydd modd i swyddogion cymorth rheoleiddio ymgymryd ag ymyriadau amgen, **nad ydynt yn rheolaethau swyddogol**, fel:

- casglu gwybodaeth;
- addysg a chyngor;
- samplu ac eithrio samplau rheoli swyddogol at ddibenion casglu gwybodaeth.

### 4.1.3 Cymhwyster Sylfaenol

Rhaid i'r swyddog bwyd arweiniol ystyried y canllawiau yn y bennod hon wrth awdurdodi swyddog i ymgymryd â rheolaethau swyddogol ac eithrio cynhyrchu cynradd (gweler adran 4.2.5).

Mae'r cymwysterau canlynol yn cynnwys yr wybodaeth sylfaenol sydd ei hangen i ymgymryd â'r ystod lawn o reolaethau swyddogol a chosbau gorfodi. Mae'r cymwysterau a restrir isod yn gofyn am gyfnod hyfforddi ymarferol. Ni ddylai'r swyddog arweiniol awdurdodi swyddogion na allant ddangos eu bod wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn.

Dyma'r cymwysterau sylfaenol ar gyfer swyddogion sy'n ymgymryd â rheolaethau hylendid swyddogol:

Swyddog Iechyd yr Amgylchedd cymwys, h.y. unigolyn sydd â:

- Thystysgrif Cofrestru Bwrdd Cofrestru Iechyd yr Amgylchedd (EHRB); neu
- Ddiploma mewn Iechyd yr Amgylchedd (neu ddiploma blaenorol) wedi'i ddyfarnu gan yr EHRB neu Sefydliad Brenhinol Iechyd yr Amgylchedd yr Alban (REHIS)

Neu berson sydd â:

- Y Dystysgrif Uwch neu Gyffredin mewn Arolygu Safleoedd Bwyd a all gael ei dyfarnu gan:
    - EHRB;
    - Bwrdd Cofrestru Swyddogion Diogelwch Bwyd yr Alban (SFSORB); neu
    - y Sefydliad Gwyddor a Thechnoleg Bwyd (IFST).

Mae'n ofynnol i bob swyddog sy'n arolygu gael cyfnod o hyfforddiant ymarferol strwythuredig fel rhan o'r broses o baratoi ar gyfer ennill y cymwysterau hyn.

Y cymhwyster sylfaenol ar gyfer swyddogion sy'n ymgymryd â rheolaethau safonau bwyd swyddogol yw naill ai:

Ar gyfer ymyriadau mewn Sefydliadau â Sgôr A, B neu C

- Tystysgrif Cofrestriad EHRB, Diploma EHRB neu REHIS mewn Iechyd yr Amgylchedd (neu ddiploma blaenorol);
- Gwobrau'r Fframwaith Cymwysterau Safonau Masnach (TSQF), sy’n cynnwys:
- Diploma mewn Materion Defnyddwyr a Safonau Masnach (DCATS) neu Uwch Ddiploma mewn Materion Defnyddwyr a Safonau Masnach (HDCATS) gyda modiwl darparu gwasanaeth Safonau Bwyd;
- Diploma mewn Safonau Masnach (DTS); neu
- Ddiploma mewn Materion Defnyddwyr (DCA Rhan II) ar yr amod ei fod yn cynnwys y Papur Bwyd ac Amaethyddiaeth, neu fersiynau blaenorol.
- Uwch Dystysgrif mewn Arolygu Safleoedd Bwyd a roddir gan yr EHRB neu'r IFST wedi'i harnodi i gynnwys Gorfodi Safonau Bwyd;
- Uwch Dystysgrif mewn Arolygu Safonau Bwyd a roddir gan SFSORB.

Ar gyfer ymyriadau mewn Sefydliadau â Sgôr B a C

- Gwobrau'r Fframwaith Cymwysterau Safonau Masnach (TSQF), sy’n cynnwys:
- Tystysgrif Cymhwysedd yn y modiwl darparu gwasanaeth Safonau Bwyd;
- Tystysgrif Sgiliau Craidd mewn Materion Defnyddwyr a Safonau Masnach gyda modiwl darparu gwasanaeth Safonau Bwyd (CSCATS gyda Modiwl Tystysgrif mewn Safonau Bwyd);
- Neu Ddiploma mewn Materion Defnyddwyr (DCA): Tystysgrif Cymhwysedd mewn Bwyd ac Amaethyddiaeth.

Ar gyfer safleoedd lle mae gofyn asesu systemau sicrhau ansawdd, dylai swyddogion feddu ar gymhwyster Sicrhau Ansawdd e.e. Archwilydd Arweiniol neu Uwch Ddiploma mewn Materion Defnyddwyr a Safonau Masnach, neu brofiad a chymhwysedd proffesiynol cyfatebol i’w galluogi i asesu systemau sicrhau ansawdd.

Mae'n ofynnol i bob swyddog sy'n arolygu gael cyfnod o hyfforddiant ymarferol strwythuredig fel rhan o'r broses o baratoi ar gyfer ennill y cymwysterau hyn.

#### 4.1.3.1 Cymwysterau Cyfartal a allai fod cyfwerth

Mae yna gymwysterau eraill y gellir eu hystyried yn gyfwerth â'r rhai sydd wedi'u hamlinellu'n benodol yn y Cod hwn ym Mhennod 4.1.3. Ystyrir bod y cymwysterau hyn yn cwmpasu'r un wybodaeth sylfaenol sy'n ofynnol fel y cymhwyster gwaelodlin ac yn mynnu'r hyfforddiant ymarferol angenrheidiol. Mae rhestr o'r cymwysterau hyn i'w gweld yn y Canllaw Ymarfer Cyfraith Bwyd.

Rhaid i swyddogion arweiniol sicrhau bod gan swyddog awdurdodedig naill ai'r cymhwyster gwaelodlin neu un sy'n gyfwerth cyn eu hawdurdodi i ymgymryd â rheolaethau swyddogol.

Lle nad yw cymwysterau'n cwmpasu'r holl feysydd gwybodaeth sylfaenol, dylai swyddogion arweiniol ystyried cyfyngu ar awdurdodiad y swyddog. Mae rhagor o fanylion am y cyfyngiadau hyn i'w gweld yn y Canllaw Ymarfer Cyfraith Bwyd.

#### 4.1.3.2 Sut mae Cymwysterau eraill yn cymharu

Gall fod gan swyddogion neu ddarpar swyddogion Awdurdod Bwyd ystod o gymwysterau, hyfforddiant a phrofiad ychwanegol hefyd sydd, gyda’i gilydd, yn dangos eu bod yn gymwys i gyflawni gweithgareddau gorfodi penodol a nodir yn y Cod hwn. Mewn achosion o'r fath dylid cyfeirio at y cyrff proffesiynol a dyfarnu perthnasol yn uniongyrchol. Dylai'r Awdurdod Bwyd cyflogi presennol neu ddarpar swyddog sy'n asesu a yw'r cymhwyster yn gyfwerth wneud hyn, ac mae'n rhaid i'r ASB gydnabod hynny wedyn. Mae gan wladolion o wledydd eraill yn yr UE/Ardal Economaidd Ewropeaidd hawl dan gyfraith yr UE i gydnabod cymwysterau a phrofiad a enillir y tu allan i'r DU. Efallai y bydd y sefyllfa hon yn codi os yw unigolyn yn ceisio cyflogaeth yn y DU fel Dadansoddwr Cyhoeddus, Archwiliwr Bwyd neu swyddog gorfodi'r gyfraith bwyd, ar ôl ennill cymwysterau a phrofiad gwaith perthnasol yn eu gwlad eu hunain. Dylai Awdurdodau Cymwys dderbyn cymwysterau a phrofiad addas nad ydynt yn y DU er mwyn gweithredu'r hawliau hyn.

Mae Canolfan Wybodaeth Genedlaethol Cydnabyddiaeth Academaidd y Deyrnas Unedig (NARIC UK) yn gallu pennu a yw cymwysterau nad ydynt yn rhai y DU yn gyfwerth at ddibenion Cyfarwyddeb Cydnabod Cydnabyddedig (CE) Rhif 2005/36 ar gydnabod cymwysterau proffesiynol. Dylai Awdurdodau Bwyd wneud ymholiadau â'r cyrff proffesiynol a dyfarnu perthnasol os oes ganddynt unrhyw amheuon yn y maes hwn cyn cadarnhau penodiad.

## 4.2 – Rheolaeth Swyddogol/Math o Rôl

### 4.2.1 Swyddog Bwyd Arweiniol

Mae angen y cymwyseddau canlynol ar swyddog neu swyddogion sy'n cyflawni rôl swyddog arweiniol yr Awdurdod Bwyd. Rhaid i swyddog(ion) allu dangos eu bod yn bodloni cymwyseddau 1 – 3 yn ychwanegol at y rhai sy'n ofynnol ar gyfer swyddog awdurdodedig.

| Rhif | Datganiad Cymhwysedd |
|---|---|
| 1 | Gwybodaeth leol ac arbenigol |
| 2 | Deddfwriaeth a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog |
| 3 | Cynllunio a monitro rhaglen rheolaeth swyddogol |

#### 4.2.1.1 Gwybodaeth leol ac arbenigol

| Rhif 1 | Datganiad Cymhwysedd – Swyddog arweiniol |
|---|---|
| 1.1 | • Gwybodaeth a dealltwriaeth o natur a math y busnesau sy'n gweithredu yn ardal yr awdurdod |
| 1.2 | • Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r peryglon a all ddigwydd mewn safleoedd o fewn ardal yr awdurdod a thechnegau rheoli risg. |
| 1.3 | • Gwybodaeth a dealltwriaeth o bryd y mae angen archwiliad arbenigol a sgiliau sicrhau ansawdd i gyflawni rheolaethau swyddogol. |

#### 4.2.1.2 Deddfwriaeth a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog

| Rhif 2 | Datganiad Cymhwysedd – Swyddog arweiniol |
|---|---|
| 2.1 | • Yn deall fframwaith cyfreithiol hylendid bwyd a/neu safonau bwyd perthnasol yr UE ac yn genedlaethol a gall gynghori ar weithredu'r ddeddfwriaeth hon yn ymarferol, a'r goblygiadau. |
| 2.2 | • Yn deall, dehongli a chymhwyso'r Cytundeb Fframwaith ar Orfodi Cyfraith Bwyd gydag Awdurdodau Lleol, y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a Chanllawiau Ymarfer cysylltiedig yn briodol. |
| 2.3 | • Yn deall ac yn gallu cynghori ar weithredu'r ystod lawn o gosbau gorfodi sydd ar gael, a gweithredu cyfraith bwyd yn gymesur. |

### 4.2.1.3 Cynllunio Rhaglen o Reolaethau Swyddogol

| Rhif 3 | Datganiad Cymhwysedd – Swyddog arweiniol |
|---|---|
| 3.1 | • Yn gallu cymhwyso blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn briodol i broffil sefydliadau busnes bwyd a phwyntiau mynediad yn ardal yr awdurdod lleol wrth gynllunio rhaglen o reolaethau bwyd swyddogol. |
| 3.2 | • Yn gallu adnabod bylchau mewn sgiliau neu wybodaeth mewn swyddogion sy'n darparu rheolaethau bwyd swyddogol. |
| 3.3 | • Yn deall y broses o godi a rheoli digwyddiadau bwyd fel y'u nodir yn y Cod Ymarfer, gan gynnwys ymatebion i achosion o glefydau heintus |
| 3.4 | • Yn deall sut mae trefniadau wrth gefn lleol yn berthnasol i'r broses o reoli digwyddiadau difrifol sy'n ymwneud â bwyd e.e. achosion o glefydau heintus. |
| 3.5 | • Yn deall rôl Awdurdodau Cartref a Phartneriaethau Prif Awdurdod wrth gydlynu'r broses o weithredu rheolaethau swyddogol ac yn sicrhau eu bod yn cael eu rhoi ar waith gan yr awdurdod. |
| 3.6 | • Yn deall sut i gydymffurfio â gofynion casglu data ac adrodd lleol a chenedlaethol. |
| 3.7 | • Yn cydgysylltu camau i roi'r rheolaethau swyddogol ar waith mewn modd cyson yn yr awdurdod, ac mewn modd sy'n gyson ag Awdurdodau Cymwys eraill. |

### 4.2.2 Swyddogion Awdurdodedig

Mae angen y cymwyseddau canlynol ar swyddog sy'n cyflawni rôl swyddog awdurdodedig i'r awdurdod cymwys. Rhaid i swyddog allu dangos eu bod yn bodloni'r cymwyseddau 4 - 8 perthnasol cyn iddynt gael eu hawdurdodi i ymgymryd â'r swyddogaeth hon.

**O ran 4.2.2.2, gall swyddogion naill ai gael eu hawdurdodi yn gyffredinol i ddefnyddio'r holl gosbau perthnasol neu yn unigol am gosb benodol yn dibynnu ar lefel cymhwysedd swyddogion unigol.**

| Rhif | Rheolaeth Swyddogol/Math o Rôl |
|---|---|
| 4 | Arolygu Sefydliadau Bwyd |
| 5 | Defnyddio Cosbau Gorfodi |
| 6 | Samplu |
| 7 | Rheolaethau Mewnforio ac Allforio |
| 8 | Ymchwiliadau adweithiol |

#### 4.2.2.1 Arolygu Sefydliadau Bwyd

| Rhif 4 | Datganiad Cymhwysedd – Swyddog Awdurdodedig |
|---|---|
| 4.1 | • Yn deall ac â gwybodaeth berthnasol o weithdrefnau sy'n seiliedig ar HACCP ac yn gallu nodi a phennu peryglon a risgiau sy'n digwydd mewn sefydliadau a chynhyrchion. |
| 4.2 | • Yn gallu cymhwyso'r wybodaeth honno gan ystyried egwyddorion hyblygrwydd yn Erthygl 5 o Reoliad (CE) Rhif 852/2004. |
| 4.3 | • Yn deall sut a pham y mae angen i risgiau sy'n deillio o wahanol fathau o fwyd, dulliau prosesu a chynhyrchion gorffenedig fod yn ddarostyngedig i ffyrdd o asesu risgiau i ddefnyddwyr. |
| 4.4 | • Yn deall y Canllawiau Cenedlaethol perthnasol, Deddfwriaeth Hylendid Bwyd a/neu safonau cenedlaethol yr UE ac yn gallu cynghori ar eu cais. |
| 4.5 | • Yn deall sut i asesu cydymffurfiaeth â gofynion deddfwriaeth hylendid bwyd a/neu safonau cenedlaethol yr UE gan gyfeirio ymhellach at Atodiad V y Cod a'r Canllaw Ymarfer. |
| 4.6 | • Yn gallu penderfynu ar y camau gweithredu priodol i wella achosion o ddiffyg cydymffurfio, gan gynnwys pryd y mae'n briodol cynyddu camau gorfodi. |
| 4.7 | • Yn gallu gwneud asesiad risg Sgorio'r Ymyrraeth Hylendid/Safonau Bwyd yn defnyddio Atodiad V y Cod. |

#### 4.2.2.2 Defnyddio Cosbau Gorfodi

| Rhif 5 | Datganiad Cymhwysedd – Swyddog Awdurdodedig |
|---|---|
| 5.1 | • Yn deall ac yn dangos defnydd priodol a chymesur o Gosbau Gorfodi sy'n gymesur â'r math o weithgarwch y mae ganddynt awdurdod i'w orfodi a'r pwerau y maent wedi'u hawdurdodi i'w defnyddio, gan gynnwys unrhyw gyfyngiadau ar bwerau o'r fath. |
| 5.2 | • Yn gallu gwahaniaethu'n glir rhwng gofynion cyfreithiol ac argymhellion arfer da trwy osgoi camau drud di-angen a 'chynnydd mewn baich rheoleiddio'. Yn gallu rhoi cyngor a gorfodi yn seiliedig ar lefelau cydymffurfio o ran cysondeb a chymesuredd yn seiliedig ar yr hierarchaeth risg. |
| 5.3 | • Yn deall y fframwaith cyfreithiol o ran defnyddio pwerau gorfodi gan gynnwys rôl Awdurdodau Cartref a Phrif Awdurdodau |
| 5.4 | • Yn gallu dangos dealltwriaeth o sut i gyflwyno Hysbysiadau; casglu tystiolaeth; paratoi achosion i erlyn a chymhwyso gwybodaeth i gydymffurfio â gofynion PACE a Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (RIPA) 2000[20], lle bo hynny'n briodol. |

[20] https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/23/contents

#### 4.2.2.3 Samplu

| Rhif 6 | Datganiad Cymhwysedd – Swyddog Awdurdodedig |
|---|---|
| 6.1 | • Yn deall methodolegau samplu a rôl y Dadansoddwr Cyhoeddus a'r Archwiliwr Bwyd. |
| 6.2 | • Yn ymwybodol o flaenoriaethau samplu cenedlaethol a lleol. Yn gallu defnyddio cronfa ddata chwiliadwy, lle bo hynny'n briodol. |
| 6.3 | • Yn gallu dehongli canlyniadau samplu a gwneud dyfarniad ar weithredu priodol yn seiliedig ar risg. |

#### 4.2.2.4 Rheolaethau Mewnforio/Allforio

| Rhif 7 | Datganiad Cymhwysedd – Swyddog Awdurdodedig |
|---|---|
| 7.1 | • Yn deall y fframwaith cyfreithiol o ran bwyd wedi'i fewnforio/allforio a sut i asesu cydymffurfiaeth. |
| 7.2 | • Yn gallu penderfynu ar y camau gweithredu mwyaf priodol a'r ystod o gosbau gorfodi sydd ar gael. |
| 7.3 | • Yn gallu adnabod rhywogaethau bwyd a rhoi sylwadau ar addasrwydd mewn Arolygfeydd Ffin (gweler Pennod 4.6) |
| 7.4 | • Yn gallu dangos dealltwriaeth o reolaethau ar bwyntiau mynediad gan gynnwys cynnal gwiriadau dogfennol systematig, gwiriadau hunaniaeth ar hap a samplu i'w dadansoddi fel sy'n briodol. |

Gweler y nodyn yn 4.2

#### 4.2.2.5 Ymchwiliadau Adweithiol

| Rhif 8 | Datganiad Cymhwysedd – Swyddog Awdurdodedig |
|---|---|
| 8.1 | • Yn deall sut i gynnal ymchwiliad a chasglu tystiolaeth yn unol â PACE a RIPA. Yna, yn gallu dadansoddi gwybodaeth a phenderfynu ar gam gweithredu priodol. |
| 8.2 | • Yn gallu nodi pryd y mae'n briodol ymgysylltu ag asiantaethau a rhanddeiliaid eraill yn arbennig wrth ymchwilio i ddigwyddiadau bwyd ac achosion o glefydau heintus. |

### 4.2.3 Swyddog Cefnogi Rheoleiddiol

Mae angen y cymwyseddau canlynol gan swyddog sy'n cyflawni rôl Swyddog Cefnogi Rheoleiddiol ar gyfer yr Awdurdod Bwyd. Rhaid i swyddog allu dangos eu bod yn bodloni'r cymhwysedd perthnasol rhif 9 cyn iddynt ddechrau ymgymryd â'r swyddogaeth hon. **Ni ddylid awdurdodi'r swyddogion hyn i gyflwyno rheolaethau swyddogol.**

| Rhif | Math o rôl |
|---|---|
| 9 | Swyddog Cefnogi Rheoleiddiol |

#### 4.2.3.1 Casglu Gwybodaeth

| Rhif 9 | Datganiad Cymhwysedd – Swyddog Cymorth Rheoleiddiol |
|---|---|
| 9.1 | • Yn deall methodolegau samplu ac yn gallu casglu samplau yn ôl protocol Iechyd Cyhoeddus Cymru/ASB. |
| 9.2 | • Yn gallu dangos dealltwriaeth o sut i adnabod peryglon bwyd a chasglu gwybodaeth gywir. Yn gallu nodi pan fo angen i swyddogion awdurdodedig priodol ymyrryd. |
| 9.3 | • Yn gallu dangos y sgiliau cyfathrebu sydd eu hangen i ymgysylltu â rhanddeiliaid a chyfeirio at ffynonellau gwybodaeth a chanllawiau. |
| 9.4 | • Yn gallu lleoli ffynonellau canllawiau cyfredol ar gyfer hylendid a safonau bwyd. |

### 4.2.4 Rheolaethau Mewnforio (Gofyniad i benodi Swyddog Iechyd yr Amgylchedd mewn Arolygfeydd Ffin)

Os yw'r gymeradwyaeth ar gyfer Arolygfeydd Ffin yn caniatáu mewnforio unrhyw gynnyrch (heblaw malwod) i'w fwyta gan bobl a restrir ym Mhennod 3 o Atodiad I i Benderfyniad y Comisiwn 2007/275 / CE, gall Awdurdodau Bwyd benodi Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd sydd wedi'u hyfforddi'n briodol i fod yn arolygwyr pysgod swyddogol ar gyfer y swydd honno mewn perthynas â chynhyrchion pysgod a physgodfeydd. Bydd gan yr arolygydd holl bwerau milfeddyg swyddogol mewn perthynas â'r cynhyrchion hynny[21].

### 4.2.5 Cynhyrchu Cynradd

Dylai swyddogion Awdurdodau Bwyd sy'n gorfodi hylendid bwyd ar lefel cynhyrchu cynradd, os nad ydynt eisoes yn meddu ar y cymwysterau a restrir uchod, gael un o'r canlynol:

- **Dyfarniadau'r Fframwaith Cymwysterau Safonau Masnach (TSQF)**, sy’n cynnwys:

  Diploma mewn Materion Defnyddwyr a Safonau Masnach (DCATS) neu Uwch Ddiploma mewn Materion Defnyddwyr a Safonau Masnach (HDCATS) gyda modiwl darparu gwasanaeth Safonau Bwyd a/neu Amaethyddiaeth a/neu Iechyd a Lles Anifeiliaid; Diploma mewn Safonau Masnach (DTS); neu
  Ddiploma mewn Materion Defnyddwyr (DCA Rhan II) ar yr amod ei fod yn cynnwys y Papur Bwyd ac Amaethyddiaeth, neu fersiynau blaenorol.

Yn ogystal

- **Cymhwyster Sicrhau Ansawdd** e.e. Prif Archwilydd neu'r Uwch Ddiploma mewn Materion Defnyddwyr a Safonau Masnach neu brofiad proffesiynol cyfatebol neu'n cyflawni cymwysterau o'r fath, ac wedi'u hawdurdodi i orfodi

[21] Rheoliadau Masnach Anifeiliaid a Chynhyrchion Cysylltiedig 2011

pob deddfwriaeth berthnasol.

Dylai’r swyddogion allu adnabod ac ymateb i beryglon hylendid bwyd yn ystod ymweliad â sefydliad cynhyrchu sylfaenol.

Hefyd, dylai swyddogion sydd wedi'u hawdurdodi i ymgymryd â rheolaethau hylendid bwyd swyddogol ar ffermydd feddu ar wybodaeth fanwl am y canlynol:

- natur y sefydliadau cynhyrchu sylfaenol a'r mathau o sefydliadau cynhyrchu sylfaenol yn eu hardal a'r dechnoleg a ddefnyddir gan y busnes sy'n dod o dan reolaeth swyddogol y swyddog, Deddfwriaeth hylendid a diogelwch bwyd perthnasol.

### 4.2.6 Hyfforddiant

Dylai Awdurdodau Bwyd sicrhau bod swyddogion awdurdodedig yn cael hyfforddiant parhaus strwythuredig perthnasol. Dylai hyfforddiant o'r fath esbonio deddfwriaeth a gweithdrefnau newydd a datblygiadau technolegol sy'n berthnasol i fusnesau bwyd sydd o dan eu rheolaeth. Dylai'r rhaglen hyfforddi fynd i'r afael â bylchau sy'n atal swyddog rhag cyflawni rheolaethau swyddogol yn effeithiol.

### 4.2.7 Oriau Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)

Rhaid i Awdurdodau Bwyd adolygu anghenion hyfforddiant a gofynion DPP eu swyddogion bob blwyddyn.

Rhaid i brif swyddogion bwyd a swyddogion awdurdodedig gael isafswm o 20 awr o DPP bob blwyddyn, wedi'u rhannu'n:

- O leiaf 10 awr o DPP ar faterion bwyd craidd perthnasol yn ymwneud yn uniongyrchol â chyflwyno rheolaethau swyddogol y mae'r Swyddog wedi'i hawdurdodi ar eu cyfer;
- 10 awr ar faterion proffesiynol eraill. Gallai hyn gynnwys anghenion hyfforddi a nodwyd gan y Prif Swyddog Bwyd yn ystod asesiadau/arfarniadau cymhwysedd.

Mae canllawiau ar hyfforddiant y gellir ei ystyried fel 'materion proffesiynol eraill' i'w gweld yn yr adran berthnasol.

# Pennod 5 – Trefnu'r Rheolaethau Swyddogol

## 5.1 – Cynlluniau Gwasanaeth Bwyd

### 5.1.1 Gofyniad am Gynllun Gwasanaeth Ysgrifenedig

Rhaid i bob Awdurdod Bwyd feddu ar Gynllun Gwasanaeth Bwyd wedi'i ddiweddaru, wedi'i ddogfennu, sydd ar gael yn hawdd i weithredwyr busnesau bwyd a defnyddwyr. Rhaid i'r Cynllun gael ei adolygu'n rheolaidd a dylai nodi'n glir y cyfnod y mae'r Cynllun mewn grym.

Rhaid i'r Cynllun ymdrin â phob maes cyfraith bwyd sydd o dan ddyletswydd gorfodi'r Awdurdod Bwyd a nodi sut mae'r Awdurdod yn bwriadu cyflawni rheolaethau swyddogol yn ei ardal. Rhaid iddo gynnwys cyfrifoldebau bwyd wedi'i fewnforio a'r trefniadau rheoli sydd ar waith a chyfeirio at ddull gorfodi'r Awdurdod, fel y nodir ym Mhennod 7.1.2. Rhaid hefyd cynnwys Strategaethau Gorfodi Amgen ar gyfer ymdrin â safleoedd wedi'u cofrestru fel risg isel o dan Gynllun Sgorio Ymyrraeth y Sefydliad Bwyd a nodir yn Atodiad V.

Rhaid i Awdurdodau Bwyd ystyried unrhyw gyngor a gyhoeddir gan yr ASB a Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrth ddrafftio eu Cynllun Gwasanaeth Bwyd.

## 5.2 – Cyflenwi Rheolaethau Swyddogol ac Ymyriadau

Mae'r adran hon yn diffinio'r gwahanol fathau o ymyriadau y gall Awdurdodau Bwyd eu defnyddio a'r amgylchiadau y dylid eu defnyddio.

Mae ymyriadau yn allweddol i wella cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd ymhlith gweithredwyr busnesau bwyd. Mae'r ystod o ymyriadau posibl yn caniatáu i swyddogion awdurdodedig ddefnyddio eu barn broffesiynol i gymhwyso lefel gymesur o weithgareddau rheoleiddio a gorfodi i bob busnes bwyd. Dylid cymhwyso ymyriadau ar sail risg fel y bydd y gwaith rheoleiddio mwyaf dwys yn cael ei anelu at y busnesau bwyd hynny sy'n peri'r risg fwyaf i iechyd y cyhoedd.

Diffinnir ymyriadau fel gweithgareddau sydd â'r nod o fonitro, cynorthwyo a chynyddu cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd o fewn sefydliad bwyd. Maent yn cynnwys "rheolaethau swyddogol" ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt.

Diffinnir "rheolaethau swyddogol" ar lefel yr UE yn Erthygl 2(1) o Reoliad (CE) Rhif 882/2004. Maent yn unrhyw fath o reolaeth ar gyfer dilysu cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd anifeiliaid a bwyd, rheolau iechyd anifeiliaid a lles anifeiliaid. Rhaid cael ymyriadau o'r fath yn unrhyw un o'r camau cynhyrchu, prosesu a dosbarthu i sefydlu a yw gofynion cyfraith bwyd perthnasol yn cael eu bodloni, yn unol ag Erthygl 3(3) o Reoliad (CE) Rhif 882/2004.

Nodir y dulliau a'r technegau ar gyfer cyflawni tasgau sy'n ymwneud â rheolaethau swyddogol yn Erthygl 10 o Reoliad (CE) Rhif 882/2004. Mae'r rhain yn cynnwys:

- arolygu;
- monitro;
- gwyliadwriaeth;
- gwirio;
- archwilio;
- samplu lle mae angen dadansoddi/archwilio. Bydd Labordy Swyddogol yn cynnal y rhain.

Rhaid i ymyriadau rheolaethau swyddogol ddarparu digon o wybodaeth i Awdurdodau Bwyd i sefydlu bod gweithgareddau sy'n gysylltiedig â bwyd a wneir mewn sefydliadau bwyd neu mewn cysylltiad â sefydliadau bwyd yn cydymffurfio â chyfraith bwyd.

Yn ogystal â rheolaethau swyddogol, mae ymyriadau hefyd yn cynnwys gweithgareddau eraill sy'n effeithiol wrth gefnogi busnesau bwyd er mwyn cydymffurfio â chyfraith bwyd. Mae hyn yn cynnwys:

- darparu addysg a chyngor wedi'i dargedu sy'n digwydd mewn sefydliadau bwyd; neu
- gwybodaeth a chasglu gwybodaeth (gan gynnwys samplu nad yw'n cynnwys rheolaeth swyddogol). Yn yr achosion hyn, nid oes rhaid i'r samplau gael eu cymryd gan swyddog awdurdodedig ac nid oes rhaid iddynt gael eu dadansoddi/eu harchwilio gan Labordy Swyddogol.

Cydnabyddir y gellid cynnal mwy nag un math o ymyriad yn ystod un ymweliad â sefydliad busnes bwyd. Cydnabyddir hefyd y gallai'r canfyddiadau yn ystod ymweliad â sefydliad ddylanwadu ar y dull ymyrryd a ddefnyddir. Yn yr achosion hyn, mae'n rhaid i Awdurdodau Bwyd gofnodi'r sail ar gyfer y dewis o ymyriad(au) a ddefnyddir yn ffeil y sefydliad.

Mae Rhaglen Ymyriadau yn ganolog i drefn reoleiddio a gorfodi lleol. Rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau bod rhaglen o'r fath yn cael digon o adnoddau.

Wrth gynllunio rhaglen ymyrryd, dylai Awdurdodau Bwyd roi mecanweithiau ar waith i sicrhau bod swyddogion awdurdodedig yn ystyried cyngor sicrwydd Prif Awdurdodau a mynediad at gynlluniau arolygu, yn ôl yr angen.

### 5.2.1 Ymyriadau safonau bwyd

Mae ymyriadau safonau bwyd yn rhan o'r system o sicrhau bod bwyd yn bodloni gofynion y gyfraith safonau bwyd, gan gynnwys cyflwyno, labelu a hysbysebu priodol er mwyn osgoi drysu neu gamarwain pobl, sicrhau cydymffurfiaeth â safonau cyfansoddol, a sicrhau nad ydynt yn cynnwys lefelau gormodol o ychwanegion, halogion a gweddillion nas caniateir.

Rhaid i bob Awdurdod Bwyd gofnodi, cynnal a gweithredu Rhaglen Ymyriadau Safonau Bwyd sy'n cynnwys yr holl sefydliadau y mae'r Awdurdod Bwyd yn gyfrifol amdanynt o ran gorfodi cyfraith safonau bwyd.

Rhaid i'r rhaglen fod yn seiliedig ar y sgoriau ymyrryd safonau bwyd a bennwyd yn unol â Phennod 5.2.7.1 isod neu yn unol â Strategaeth Orfodi Amgen yr awdurdod mewn perthynas â sefydliadau cofrestredig risg isel fel y'u diffinnir ym Mhennod 5.2.7.1.3 isod.

### 5.2.2 Ymyriadau hylendid bwyd

Mae Rheoliad (CE) Rhif 852/2004 yn diffinio "hylendid bwyd" fel a ganlyn (yn yr iaith wreiddiol):

***“the measures and conditions necessary to control hazards and to ensure fitness for human consumption of a foodstuff, taking into account its intended use.”***

Mae ymyriadau hylendid bwyd yn rhan o'r system o sicrhau bod bwyd yn bodloni gofynion cyfraith hylendid bwyd, gan gynnwys ansawdd microbiolegol; absenoldeb micro-organebau pathogenig; a diogelwch i'w fwyta.

Rhaid i bob Awdurdod Bwyd gofnodi, cynnal a gweithredu Rhaglen Ymyriadau Hylendid Bwyd sy'n cynnwys yr holl sefydliadau y mae'r Awdurdod Bwyd yn gyfrifol amdanynt o ran gorfodi cyfraith hylendid bwyd.

Rhaid i'r rhaglen fod yn seiliedig ar y sgoriau ymyrryd hylendid bwyd a bennwyd yn unol â Phennod 5.2.7.1 isod neu yn unol â Strategaeth Orfodi Amgen yr Awdurdod Bwyd mewn perthynas â sefydliadau cofrestredig risg isel fel y'u diffinnir ym Mhennod 5.2.7.1.3 isod.

Yr eithriad i hyn yw sefydliadau ar lefel cynhyrchu cynradd. Mae canllawiau pellach ar amlder ar gyfer y math hwn o sefydliad wedi'u cynnwys yn adran 5.2.7.1.6 ac yn y Canllaw Ymarfer Cyfraith Bwyd.

### 5.2.3 Arolygiadau ac archwiliadau

#### 5.2.3.1 Arolygiadau – Cyffredinol

Dylai arolygiadau fod yn seiliedig ar y ffurflen arolygu berthnasol[22], os yw un wedi'i ddatblygu, ar gyfer y busnes dan sylw, er y gall Awdurdodau Bwyd ddatblygu un eu hunain er mwyn cefnogi'r arolygu.

Bwriedir i'r ffurflen arolygu gynorthwyo swyddogion a busnesau drwy gyflwyno dull strwythuredig i'r broses arolygu sy'n gyson ag arferion sicrhau ansawdd. Efallai na fydd angen arolygu pob agwedd ar fusnes bwyd ym mhob arolygiad, e.e. arddangos cynhyrchion aer-sefydlog ar y silff mewn archfarchnad.

Dylai'r broses arolygu ddechrau drwy adolygu'r wybodaeth yng nghofnodion yr Awdurdod Bwyd mewn perthynas â'r sefydliad busnes bwyd sydd i'w arolygu.

Ar ddechrau'r arolygiad, dylai'r swyddog drafod pwrpas a chwmpas yr arolygiad gyda'r gweithredwr busnes bwyd neu gynrychiolydd, p'un a fu unrhyw newidiadau yn y gweithgareddau ers yr ymweliad diwethaf, a'r hyn y mae'r swyddog yn bwriadu ei wneud.

Dylai arolygiad nodi'r holl weithgareddau sy'n ymwneud â bwyd a gynhelir gan y busnes, yr ardaloedd yn y sefydliad a ddefnyddir i baratoi, cynhyrchu a storio deunyddiau bwyd, unrhyw brosesau a ddefnyddir a'r staff dan sylw.

Dylid cwblhau ffurflenni arolygu'n llawn, er mwyn sicrhau bod ganddynt gofnod digonol i ddangos a yw'r busnes yn cydymffurfio â chyfraith bwyd, ac os felly, sut. Lle na chafodd unrhyw feysydd a amlygwyd ar ffurflenni arolygu eu harolygu neu eu hasesu, dylid cofnodi'r rhain yn glir ar y ffurflenni. Dylai swyddogion gofnodi unrhyw wybodaeth ynghylch pa benderfyniadau a wnaed wrth benderfynu ar y sgôr risg fel bo'r angen.

Gellir holi staff busnesau bwyd sydd wedi cael cyfrifoldebau penodol am sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol perthnasol er mwyn cadarnhau eu bod yn deall eu dyletswyddau a'u bod yn eu cyflawni'n effeithiol.

Dylai asesiad o b'un a ddylid cymryd samplau, ac os felly, beth i'w samplu, fod yn rhan annatod o arolygiad, yn enwedig mewn busnesau gweithgynhyrchu bwyd, pecynnu ac arlwyo.

Gellir cynnal arolygiadau hefyd at ddibenion sy'n gysylltiedig â Chynllun Egwyddor yr Awdurdod Cartref a'r Prif Awdurdod, er enghraifft, cynghori gweithredwyr busnesau bwyd ar y gyfraith a ffyrdd y gallant gydymffurfio â hi.

Dylai swyddogion gynnig cyngor lle y bo'n briodol neu ar gais, a dylent annog gweithredwyr busnesau bwyd drwy ddulliau addysgol i fabwysiadu arferion da.

Ar ôl pob arolygiad, dylai'r swyddog drafod unrhyw achosion o dorri cyfraith bwyd a ddarganfuwyd a nodi:

- unrhyw gamau unioni sydd eu hangen;
- yr amserlen ar gyfer rhoi'r camau unioni ar waith;
- unrhyw gamau pellach y mae'r swyddog yn bwriadu eu cymryd ac unrhyw argymhellion o arfer da sy'n briodol ym marn y swyddog.

Yn y drafodaeth hon i gloi, ac mewn adroddiadau neu ohebiaeth ddilynol, dylai swyddogion wahaniaethu'n glir rhwng camau y mae angen eu cymryd i gydymffurfio â gofynion cyfreithiol ac argymhellion o arfer da.

Dylai'r swyddog, ar gais, gynghori a thrafod yr ymyriad a/neu'r sgôr a roddwyd i'r busnes gyda'r gweithredwr busnes bwyd.

Efallai y bydd y swyddog am ystyried a yw strategaethau ymyrryd pellach yn briodol e.e. addysg neu hyfforddiant.

#### 5.2.3.2 Arolygiadau Hylendid Bwyd

Bydd y dull arolygu yn dibynnu ar y gofynion cyfreithiol ac i ba raddau y mae'r busnes wedi cofnodi ei system rheoli diogelwch bwyd.

Yn gyffredinol, dylai swyddog sy'n cynnal arolygiad hylendid bwyd:

- sefydlu a yw bwyd yn cael ei drin a'i gynhyrchu'n hylan, ac yn ddiogel i'w fwyta, gan ystyried unrhyw brosesu dilynol; asesu'r peryglon a achosir gan weithgarwch y busnes a dealltwriaeth y gweithredwr busnes bwyd o'r peryglon hynny;
- cadarnhau bod gweithredwyr busnesau bwyd yn cyflawni eu rheolaethau a'u gwiriadau eu hunain, yn seiliedig ar egwyddorion HACCP (ac eithrio yn achos cynhyrchu cynradd) ac mae'r rhain yn cael eu gweithredu'n effeithiol ac mae camau cywiro priodol yn cael eu cymryd lle bo angen;
- asesu effeithiolrwydd y rheolaethau sydd ar waith i reoli'r risg o groeshalogi rhwng bwydydd parod i'w bwyta a bwydydd y mae angen eu prosesu ymhellach;
- asesu'r risg y bydd y busnes bwyd yn methu â bodloni gofynion hylendid bwyd; o ran cynhyrchu cynradd, sefydlu bod gweithredwyr busnesau bwyd a'u gweithwyr yn deall y peryglon a berir gan weithgareddau'r busnes, ac asesu a gwirio bod y camau atal/cywiro angenrheidiol i ddiogelu diogelwch bwyd sy'n dod i mewn i'r gadwyn fwyd ddynol yn digwydd;
- argymell arferion da ym maes hylendid bwyd yn unol â Chanllawiau Diwydiant yr UE a'r DU, codau perthnasol i sectorau penodol, a safonau technegol perthnasol eraill, a hyrwyddo gwelliannau parhaus mewn safonau hylendid drwy fabwysiadu arferion da;

- cadarnhau tarddiad ac unrhyw nodau iechyd neu adnabod deunyddiau crai, a nodau adnabod cynhyrchion gorffenedig a ble y bwriedir eu dosbarthu. Lle nodir diffygion mewn marciau iechyd neu adnabod, dylai swyddogion gyfeirio at unrhyw ddarpariaethau perthnasol yn adran 2.2 o'r Cod hwn ac Egwyddor yr Awdurdod Lleol/Awdurdod Cartref, ac ystyried defnyddio eu pwerau o dan Reoliad 9 Deddf Diogelwch Bwyd 1990, a Rheoliad 27 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 (gweler hefyd Reoliad 23 yn hyn o beth) a/neu Reoliad 34(e) o Reoliadau Masnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Cysylltiedig (Cymru) 2011 a/neu reoliad 31 o'r Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid a Rheoliadau Rheolaethau Bwyd (Cymru) 2009 i dynnu'r cynhyrchion yr effeithir arnynt o'r gadwyn fwyd;
- gwirio cydymffurfiaeth â deddfwriaeth sy'n benodol i gynhyrchion, er enghraifft mewn perthynas â busnesau manwerthu ac arlwyo sy'n gwerthu neu'n defnyddio molysgiaid dwygragennog byw, yn sicrhau, lle mae parseli molysgiaid dwygragennog byw wedi'u rhannu cyn eu gwerthu i'r defnyddiwr terfynol, cedwir y wybodaeth honno ar farciau adnabod am o leiaf 60 diwrnod.

Yn ogystal â'r gofynion cyffredinol a nodir uchod, dylai arolygiad hylendid bwyd gynnwys, os yw'n briodol:

- trafodaeth gydag unrhyw staff sy'n gyfrifol am fonitro a chymryd camau unioni ar bwyntiau rheoli critigol i gadarnhau bod mesurau rheoli yn effeithiol;
- arolygiad ffisegol i benderfynu a yw rheolaethau critigol wedi'u nodi ac a yw'r rheolaethau ar waith, ac i asesu cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd berthnasol;
- asesiad o gydymffurfiaeth â gofynion Erthygl 18 o Reoliad 178/2002 ynglŷn â'r gallu i olrhain bwyd;
- trafodaeth o ran unrhyw beryglon a nodwyd gan y swyddog nad ydynt wedi'u cynnwys yn systemau'r busnes; a,
- trafodaeth o ran unrhyw fethiant i weithredu neu fonitro unrhyw reolaethau critigol a nodwyd gan y busnes.

Gall Canllawiau Diwydiant y DU ar Ymarfer Hylendid Da (Canllawiau'r Diwydiant) fod yn arbennig o berthnasol i rai sefydliadau sy'n ddarostyngedig i gyfraith bwyd fel y bydd codau ymarfer eraill y diwydiant. Gall swyddogion dynnu sylw gweithredwyr busnesau bwyd at y rhain pan fo'n briodol.

Nodir cwmpas llawn yr arolygiad hylendid bwyd yn y ffurflen arolygu berthnasol, lle mae un wedi cael ei datblygu, i'r busnes dan sylw.

### 5.2.3.3 Arolygiadau Safonau Bwyd – Cwmpas

Dylid rhoi sylw arbennig i bwyntiau rheoli allweddol perthnasol, cyfnodau cymysgu pan ychwanegir cynhwysion, gweithdrefnau monitro a gwirio, camau unioni a dogfennaeth.

Dylai swyddog sy'n cynnal arolygiad safonau bwyd:

- ystyried bodolaeth ac effeithiolrwydd systemau rheoli i sicrhau y bodlonir gofynion safonau bwyd a, lle byddant yn bodoli, profi eu heffeithiolrwydd;

- asesu cydymffurfiaeth â gofynion cyfansoddiadol, cyflwyno a labelu drwy archwilio hysbysebion, labeli, disgrifiadau, bwydlenni, honiadau, ryseitiau a chofnodion eraill;
- asesu cydymffurfiaeth â gofynion olrhain Erthygl 18 o Reoliad (CE) 178/2002 fel y'i darllenir gyda Rheoliad (UE) 931/2011;
- asesu cydymffurfiaeth â manylebau cyflenwyr;
- asesu'r risg y bydd y busnes bwyd yn methu â bodloni gofynion safonau bwyd;
- argymell arfer da yn unol â chodau diwydiant perthnasol a safonau technegol perthnasol eraill.

Mae cwmpas llawn yr arolygiad safonau bwyd wedi'i nodi yn y ffurflen arolygu berthnasol, lle mae un wedi'i datblygu, ar gyfer y busnes dan sylw.

#### 5.2.3.4 Cynnal arolygiad neu archwiliad

Bydd arolygiad yn ystyried yr elfennau priodol a nodir yn y ffurflen arolygu berthnasol ar gyfer y busnes dan sylw. Gall Awdurdodau Bwyd neu eu grwpiau rhanbarthol ddatblygu a defnyddio ffurflenni arolygu bwyd, ar yr amod eu bod yn cynnwys yr holl elfennau arolygu sy'n briodol i'r math o fusnes sy'n cael ei arolygu. Rhaid i swyddogion awdurdodedig ddefnyddio eu barn broffesiynol wrth ddewis pa elfennau o'r ffurflen arolygu i'w harchwilio'n fanwl. Bydd hyn yn dibynnu ar y ffordd y cynhelir yr arolygiad:

- arolygiad llawn, sy'n wiriad o gydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol, a bydd yn ystyried pob agwedd ar fusnes bwyd, gan gynnwys strwythur, mesurau rheoli diogelwch bwyd a threfniadau rheoli; neu
- arolygiad rhannol, sef arolygiad sy'n cynnwys rhai elfennau o'r arolygiad yn unig.

Lle mae cynllun arolygu Prif Awdurdod yn berthnasol yng Nghymru, rhaid i swyddogion awdurdodedig dalu sylw iddo wrth benderfynu ar eu dull arolygu. Rhaid i swyddogion roi adborth i'r Prif Awdurdod os oes angen.

Nid oes angen arolygu pob agwedd ar fusnes bwyd ym mhob arolygiad. Lle mae cwmpas arolygiad yn gyfyngedig, fodd bynnag, rhaid cofnodi'r rhesymau dros fabwysiadu'r dull hwn yn ffeil y sefydliad, a rhaid nodi cwmpas yr arolygiad rhannol yn yr adroddiad arolygu a roddir i'r gweithredwr busnes bwyd.

Gellir cynnal archwiliad lle mae gweithredwr busnes bwyd wedi sefydlu system rheoli diogelwch bwyd cofnodedig i fynd i'r afael â gofynion Erthygl 5 o Reoliad (CE) Rhif 852/2004. Bydd angen i swyddogion fod yn ymwybodol o'r system rheoli diogelwch bwyd a weithredir gan y busnes, er mwyn cynllunio archwiliad priodol.

Gall archwiliad gynnwys:

- archwilio system rheoli diogelwch bwyd gyflawn;
- archwilio elfennau penodol o system rheoli diogelwch bwyd, pan fydd y system yn gymhleth;

- archwilio rhan o system mewn perthynas â chynnyrch penodol; neu
- archwiliad o drefniadau sefydliadol penodol sefydliad, er enghraifft, monitro tymereddau.

Yn dilyn arolygiad, arolygiad rhannol neu archwiliad, dylai swyddog ystyried adolygu sgôr ymyrryd y sefydliad yn unol ag Atodiad V.

#### 5.2.3.5 Arolygiad Cychwynnol o Sefydliad Newydd

Nid yw'r adran hon yn gymwys i sefydliadau ar lefel cynhyrchu sylfaenol.

Rhaid i Awdurdodau Bwyd ddefnyddio gwybodaeth a roddir iddynt gan weithredwyr busnesau bwyd mewn cysylltiad â chofrestru neu gais cymeradwyo yn unol ag Erthygl 31 Rheoliad (CE) Rhif 882/2004 (Pennod 3.2), er mwyn penderfynu pryd i gynnal arolygiad cychwynnol.

Rhaid i sefydliadau bwyd newydd a/neu sefydliadau sy'n dod at sylw'r Awdurdod Bwyd am y tro cyntaf fod yn destun arolygiad cychwynnol. Bydd sgôr ymyrryd yn cael ei phennu ar gyfer y sefydliad wedi hynny.

Mae'n rhaid i swyddog sy'n cynnal arolygiad cychwynnol mewn sefydliad bwyd newydd:

- bennu cwmpas y busnes a'r gyfraith bwyd berthnasol sy'n gymwys i'r gweithrediadau a gynhelir;
- casglu a chofnodi gwybodaeth yn drylwyr ac yn systematig wrth arsylwi ar arferion, gweithdrefnau a phrosesau, gan gynnwys gweithdrefnau sy'n seiliedig ar egwyddorion HACCP, a thrafod â'r bobl sy'n trin a thrafod bwyd, contractwyr, gweithredwyr busnesau bwyd a rheolwyr;
- penderfynu a oes angen casglu samplau o ddeunyddiau crai, cynhwysion, ychwanegion, rhan-gynhyrchion, cynhyrchion gorffenedig, neu ddeunyddiau ac eitemau sy'n dod i gysylltiad â bwyd i'w dadansoddi a/neu eu harchwilio;
- nodi unrhyw achosion gwirioneddol neu bosibl o dorri cyfraith bwyd ac, os yw'n briodol, casglu a chadw tystiolaeth;
- penderfynu ar gamau gorfodi perthnasol a dweud wrth y gweithredwr busnes bwyd am fwriad i gymryd camau o'r fath.

### 5.2.4 Cynllunio a Rhoi Gwybod am Ymyriadau

Rhaid i Gynllun Gwasanaeth Bwyd yr Awdurdod Bwyd gynnwys manylion ar sut y bydd sefydliadau bwyd newydd yn cael eu cynnwys yn rhaglen ymyrryd arfaethedig yr Awdurdod Bwyd.

Rhaid cynllunio rhaglenni ymyrryd fel bod sefydliadau yn cael ymyriad dim hwyrach na 28 diwrnod ar ôl y dyddiad perthnasol fel y manylir ym Mhennod 5.2.7.1 isod. Mewn amgylchiadau y tu allan i reolaeth yr Awdurdod Bwyd, fel busnesau sy'n cau yn dymhorol, mae gan Awdurdodau Bwyd y disgresiwn i ohirio ymyriad.

Lle bo'n bosibl, rhaid cynnal yr ymyriad mewn sefydliad bwyd heb hysbysiad ymlaen llaw. Mae'r egwyddor gyffredinol ynghylch hysbysu am ymyriad ymlaen llaw wedi'i hamlinellu yn Rheoliad (CE) Rhif 882/2004, sy'n nodi yn Erthygl 3(2) (yn yr iaith wreiddiol):

*“Official controls shall be carried out without prior warning, except in cases such as audits where prior notification of the feed or food business operator is necessary.*

*Official controls may also be carried out on an ad hoc basis”.*

Fodd bynnag, o dan rai amgylchiadau, bydd yn fanteisiol hysbysu ymlaen llaw, yn enwedig os mai pwrpas ymyrryd yw gweld proses benodol ar waith. Rhaid i swyddogion awdurdodedig arfer disgresiwn yn y maes hwn dan arweiniad y nod gyffredinol o sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth bwyd (gweler hefyd Pennod 3.1.2 uchod ar gael mynediad at Adeiladau'r Goron).

**5.2.5 Camau gorfodi ac ailymweliadau**

Mae'n rhaid i fusnesau bwyd sy’n methu â chydymffurfio â gofynion statudol sylweddol fod yn destun camau gorfodi priodol ac ailymweliad(au). Rhaid i ailymweliadau ganolbwyntio ar y troseddau a nodwyd yn yr ymyriad arferol a sicrhau bod camau unioni wedi'u cymryd cyn penderfynu nad oes angen unrhyw gamau pellach.

Pennir amseriad yr ailymweliad gan y camau a gymerir o ganlyniad i’r ymyriad cynharach. Rhaid i ailymweliad o'r fath, pan fo'n ymarferol, gael ei gynnal gan y swyddog a gynhaliodd yr ymyriad gwreiddiol.

Rhaid i dull yr Awdurdod Bwyd o gynnal ailymweliadau a chamau gorfodi fod yn rhan o'i Gynllun Gwasanaeth Bwyd neu Bolisi Gorfodi cofnodedig (gweler 5.1.1 uchod).

**5.2.5.1 Y gofyniad i ailymweld â Hylendid Bwyd**

Bydd busnesau o'r fath yn cael eu nodi gyda sgôr gydymffurfio o 15 neu uwch ar gyfer hylendid a/neu strwythur a/neu sgôr hyder mewn rheolwyr/gweithdrefnau rheoli o 20 neu uwch fel yr amlinellir yn y Cynllun Sgorio Ymyriadau a nodir yn Atodiad V.

**5.2.5.2 Y gofyniad i ailymweld â Safonau Bwyd**

Bydd busnesau o'r fath yn cael eu nodi gyda sgôr gydymffurfio (cyfredol) o 40 a /neu hyder mewn rheolwyr/systemau rheoli o 30 fel y'i nodir yn y Cynllun Sgorio Ymyriadau a nodir yn Atodiad V.

**5.2.6 Gofynion ar gyfer Dillad ac Offer Addas**

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau bod swyddogion sy'n cynnal ymyriad mewn sefydliadau yn gwisgo dillad diogelwch glân, gan gynnwys penwisg sydd yn cyd-fynd ag arfer da yn y diwydiant.

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau bod swyddogion yn gwisgo dillad diogelwch, yn

rhoi unrhyw wybodaeth berthnasol am eu statws iechyd pan ofynnir amdano, ac yn cadw at unrhyw ragofalon rhesymol sy'n ofynnol gan y busnes lle mae'r ymyriad yn cael ei gynnal. Rhaid i swyddogion wisgo dillad diogelwch priodol ac ati, os bydd y busnes yn darparu'r offer hwnnw.

Rhaid i Awdurdodau Bwyd ddarparu'r offer a'r cyfleusterau angenrheidiol i'w swyddogion i'w galluogi i arolygu'n ddigonol, ac yn unol â chyfraith bwyd a'r safonau yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd hwn.

### 5.2.7 Amlder Rheolaethau a Gofynion Dull Seiliedig ar Risg

#### 5.2.7.1 Cynlluniau Sgorio Ymyriadau mewn Sefydliadau Bwyd

Mae'r Adran hon yn ymdrin â sgoriau ymyriadau hylendid bwyd a safonau bwyd, a'r amlder lleiaf ar gyfer ymyriadau mewn sefydliadau bwyd. Mae gwybodaeth am sefydliadau ar lefel cynhyrchu cynradd wedi'i chynnwys yn 5.2.7.1.6. Ceir manylion am y ddau gynllun sgorio ymyriadau yn Atodiad V.

##### 5.2.7.1.1 Cynllun Sgorio Ymyriadau Hylendid Bwyd

Dylai awdurdodau bwyd sy'n gyfrifol am orfodi cyfraith hylendid bwyd benderfynu ar amlder ymyriadau hylendid bwyd arfaethedig pob sefydliad bwyd cofrestredig a chymeradwy o dan eu hawdurdod, gan ddefnyddio'r meini prawf asesu risg yn Atodiad V.

Mae'r cynllun yn cynnwys opsiwn strategaethau gorfodi eraill ar gyfer sefydliadau cofrestredig "risg isel", lle nad yw'r peryglon cynhenid yn arwyddocaol yn rhinwedd eu gweithrediadau ymdrin â bwyd neu'r nifer o ddefnyddwyr y maent yn eu cyflenwi.

Mae'r cynllun wedi'i osod ar ffurf dogfen asesu y gall swyddogion yn y maes ei defnyddio. Dylid cwblhau asesiad ar ddiwedd arolygiad cychwynnol pob sefydliad newydd ac ar ôl pob arolygiad llawn. Dylid hefyd cwblhau asesiad ar ôl arolygiad rhannol neu archwiliad lle casglwyd digon o dystiolaeth i gwblhau asesiad.

Dylai swyddogion ddefnyddio’r amrediad lawn o sgoriau sydd ar gael o fewn y system, gan y bydd diben y system sgorio’n cael ei lesteirio gan farcio gor-ofalus neu amharodrwydd i gydnabod rheolwyr/systemau rheoli effeithiol.

Dylid rhoi'r sgôr uchaf o'r rheiny sy'n berthnasol i sefydliadau sy'n dod o dan fwy nag un categori sgorio.

Dylai rheolwyr adolygu'r ffordd y gweithredir y cynllun sgorio ymyriadau hwn o fewn yr Awdurdod Bwyd o bryd i'w gilydd i sicrhau bod staff yn defnyddio’r cynllun yn gywir ac yn gyson.

Rhaid i’r awdurdodau bwyd sicrhau bod ymyriadau mewn busnesau uwch eu risg, neu’r rheiny y mae’n debygol y byddant yn uchel eu risg, bob amser yn cael blaenoriaeth dros ymyriadau mewn busnesau risg isel. Dylai awdurdodau bwyd sicrhau bod camau gorfodi ac ail-ymweliadau yn cael eu cynnal yn unol â 5.2.5 y Cod.

Fel arfer, dylid cwblhau ymyriadau a raglennir erbyn y dyddiad dyledus fel y

penderfynir gan y sgôr ymyrryd, ond mewn unrhyw achos, dim mwy na 28 diwrnod ar ôl y dyddiad hwnnw, ar wahân i amgylchiadau y tu allan i reolaeth yr Awdurdod Bwyd h.y. cau busnes yn dymhorol.

Fel arfer, dylid cwblhau'r arolygiadau cychwynnol cyn pen 28 diwrnod ar ôl i'r sefydliad gofrestru neu ar ôl i'r awdurdod ddod i wybod bod y sefydliad yn gweithredu. Efallai y bydd y gofyniad i gynnal arolygiadau cychwynnol o fewn 28 diwrnod yn arwain at wrthdaro am adnoddau i gwblhau gweithgareddau blaenoriaeth uwch eraill. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylid blaenoriaethu ymyriadau o fewn rhaglen yr awdurdod mewn ffordd sy'n seiliedig ar risg.

Efallai y gofynnir i Awdurdodau Bwyd gyflwyno ymyriad sefydliad yn dilyn cyfarwyddyd gan yr ASB mewn ymateb i ddigwyddiad sy'n dod i'r amlwg neu raglen waith genedlaethol. Dylai Awdurdodau Bwyd gysylltu â'r ASB os yw'r cyfarwyddyd hwnnw'n amharu'n sylweddol ar eu gallu i gyflwyno rhaglen ymyrraeth yn seiliedig ar risg.

### 5.2.7.1.2 Cynllun Sgorio Ymyriadau Safonau Bwyd

Dylai Awdurdodau Bwyd sy'n gyfrifol am orfodi deddfwriaeth safonau bwyd benderfynu ar amlder ymyriadau safonau bwyd mewn busnesau bwyd yn eu hardaloedd gan ddefnyddio'r meini prawf asesu risg yn Atodiad V i bennu eu rhaglenni ymyrryd safonau bwyd.

Mae'r cynllun wedi'i osod ar ffurf dogfen asesu y gall swyddogion yn y maes ei defnyddio. Dylid cwblhau asesiad ar ddiwedd yr arolygiad cychwynnol o bob sefydliad newydd ac ar ôl pob arolygiad llawn. Dylid hefyd cwblhau asesiad ar ôl arolygiad rhannol neu archwiliad lle casglwyd digon o dystiolaeth i wneud hynny.

Mae'r cynllun yn cynnwys opsiwn ar gyfer strategaethau gorfodi amgen ac eithrio arolygiadau ar gyfer busnesau cofrestredig "risg isel" lle nad yw'r peryglon cynhenid yn arwyddocaol yn rhinwedd eu gweithgareddau masnachu na'r nifer o ddefnyddwyr y maent yn eu cyflenwi (gweler isod). Fel arall, os bydd gwaith gorfodi hylendid bwyd a safonau bwyd yn cael ei gynnal gan adrannau ar wahân o fewn yr un awdurdod bwyd, e.e. Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach, gellir seilio'r asesiad risg o safonau bwyd ar ganllawiau'r Bwrdd Safonau Masnach Cenedlaethol (NTSB)[22] ar asesu risg ar gyfer safonau masnach. Lle mae asesiadau yn seiliedig ar gynllun yr NTSB, ni ddylid cyflawni'r ymyriadau at ddibenion safonau bwyd yn llai aml nag sy'n ofynnol o dan y cynllun hwn.

Gall Awdurdodau Bwyd ddewis sefydlu eu rhaglen ymyrryd â raglennir ar y cynllun asesu risg hylendid bwyd o dan y Cod hwn. Rhaid i Awdurdodau Bwyd sy'n arfer y dewis hwn sicrhau bod eu hymyriadau yn ystyried materion hylendid bwyd a safonau bwyd ill dau, nad yw ymyriadau yn y materion hynny'n digwydd yn llai aml nag y byddent wedi digwydd pe baent yn defnyddio'r ddau gynllun, a bod yr asesiad risg o safonau bwyd yn cael ei gwblhau a'i gofnodi.

Dylai swyddogion ddefnyddio'r ystod lawn o sgoriau sydd ar gael o fewn y system, gan y

[22] http://www.actso.org.uk/ntsb

bydd diben y system sgorio’n cael ei lesteirio drwy farcio gor-ofalus neu amharodrwydd i gydnabod rheolwyr/systemau rheoli effeithiol.

O'r sgoriau sy'n gymwys, dylid dyrannu'r sgôr uchaf i sefydliadau sy'n dod o dan fwy nag un categori sgorio am ffactor sgorio.

Dylai rheolwyr adolygu'r ffordd y gweithredir y cynllun sgorio ymyriadau hwn o fewn yr Awdurdod Bwyd o bryd i'w gilydd i sicrhau bod staff yn defnyddio’r cynllun yn gywir ac yn gyson.

Rhaid i’r awdurdodau bwyd sicrhau bod ymyriadau ar gyfer busnesau uwch eu risg, neu’r rheiny y mae’n debygol y byddant yn uchel eu risg, bob amser yn cael blaenoriaeth dros ymryiadau mewn busnesau risg isel. Dylai Awdurdodau Bwyd sicrhau bod camau gorfodi ac ail-ymweliadau yn cael eu cynnal yn unol â'r cyngor a ddarperir yn y Canllaw Ymarfer Cyfraith Bwyd.

Fel arfer, dylid cwblhau ymyriadau a raglennir erbyn y dyddiad dyledus fel y penderfynir gan y sgôr ymyrryd, ond mewn unrhyw achos, dim mwy na 28 diwrnod ar ôl y dyddiad hwnnw, ar wahân i amgylchiadau y tu allan i reolaeth yr Awdurdod Bwyd, fel busnes yn cau yn dymhorol.

Fel arfer, dylid cwblhau’r arolygiadau cychwynnol cyn pen 28 diwrnod ar ôl i’r sefydliad gofrestru neu ar ôl i’r awdurdod ddod i wybod bod y sefydliad yn gweithredu. Efallai y bydd y gofyniad i gynnal arolygiadau cychwynnol o fewn 28 diwrnod yn arwain at wrthdaro am adnoddau i gwblhau gweithgareddau blaenoriaeth uwch eraill. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylid blaenoriaethu ymyriadau o fewn rhaglen yr awdurdod mewn ffordd sy'n seiliedig ar risg.

Efallai y gofynnir i Awdurdodau Bwyd ymyrryd mewn sefydliad yn dilyn cyfarwyddyd gan yr ASB mewn ymateb i ddigwyddiad sy'n dod i'r amlwg neu raglen waith genedlaethol. Dylai Awdurdodau Bwyd gysylltu â'r ASB os yw'r cyfarwyddyd hwnnw'n amharu'n sylweddol ar eu gallu i gyflwyno rhaglen ymyrryd yn seiliedig ar risg.

#### 5.2.7.1.3 Strategaeth Orfodi Amgen

Rhaid i bob Awdurdod Bwyd gynllunio Strategaeth Orfodi Amgen i benderfynu sut y byddant yn cynnal dyletswyddau rheolaethau swyddogol mewn busnesau cofrestredig a ystyrir i beri risg isel (h.y. Categori E ar gyfer hylendid bwyd a Categori C ar gyfer safonau bwyd) yn unol â'r gofynion a nodir yn Atodiad V.

Rhaid i hyn gynnig dull o gadw gwyliadwriaeth ar fusnesau bwyd perthnasol i bennu/nodi a oes unrhyw newidiadau ers yr ymyriad diwethaf sy'n golygu bod yn rhaid i'r sefydliad gael ymyriad neu arolygiad rheolaeth swyddogol.

#### 5.2.7.1.4 Amlder Ymyriadau Hylendid Bwyd

Rhaid i'r ymyriad a gynlluniwyd yn briodol ar gyfer sefydliad sydd wedi cael sgôr ymyrryd o A neu B ar gyfer hylendid bwyd fod yn arolygiad, arolygiad rhannol, neu archwiliad fel y'i diffinnir ym Mhennod 5.2 uchod, y mae'n rhaid ei gynnal ar adegau priodol yn unol â'r amlder rhagnodedig a bennir yn Atodiad V.

Rhaid cofnodi unrhyw ymyriad ychwanegol arall, megis samplu neu addysg a hyfforddiant, yn erbyn y sefydliad at ddibenion monitro camau gorfodi, ond ni ddylid ei ddefnyddio fel yr ymyriad rheolaidd yn unol â'r amlder ymyrryd fel yr amlinellir yn Atodiad V.

**5.2.7.1.4.1 Ymyriadau mewn Sefydliadau Categori C ar gyfer Hylendid Bwyd**

Rhaid i sefydliadau sydd wedi cael sgôr ymyrryd C ar gyfer hylendid bwyd gael ymyriad ar adegau priodol yn unol â'r amlder rhagnodedig a bennir yn Atodiad V. Gall ymyriadau o'r fath gynnwys arolygiad, arolygiad rhannol neu archwiliad hyd nes y bydd yr Awdurdod Bwyd yn ystyried bod y sefydliad yn "cydymffurfio i raddau helaeth" â chyfraith bwyd berthnasol. Unwaith y bydd y busnes yn cydymffurfio i raddau helaeth, gall ymyriadau rheolaidd fod naill ai'n arolygiadau neu'n arolygiadau rhannol, neu archwiliad neu fath arall o reolaeth swyddogol fel y'u diffinnir ym Mhennod 5.2 uchod.

**5.2.7.1.4.2 Ymyriadau mewn Sefydliadau Categori D ar gyfer Hylendid Bwyd**

Rhaid i sefydliadau sydd wedi cael sgôr ymyrryd D ar gyfer hylendid bwyd gael ymyriad ar adegau priodol, yn unol â'r amlder rhagnodedig a bennir yn Atodiad V. Gall ymyriadau amrywio o'r fath rhwng ymyriad sy'n rheolaeth swyddogol ac ymyriad nad yw'n rheolaeth swyddogol.

Mae Awdurdodau Bwyd wedi'u cyfyngu o ran y math o reolaeth swyddogol ar gyfer sefydliadau categori D, ond sydd hefyd â sgôr 30 neu 40 ar gyfer "math o fwyd a dull o drin" o fewn Atodiad V. Rhaid i'r rheolaeth swyddogol ar gyfer y sefydliadau hyn fod yn arolygiad, arolygu rhannol, neu archwiliad.

**5.2.7.1.4.3 Ymyriadau mewn Sefydliadau Categori E ar gyfer Hylendid Bwyd**

Dylai sefydliadau cofrestredig "risg isel" fod yn destun Strategaeth Orfodi Amgen neu ymyriad, o leiaf unwaith yn ystod unrhyw gyfnod o dair blynedd.
Rhaid i Awdurdodau Bwyd sy'n penderfynu y dylai sefydliadau cofrestredig "risg isel" fod yn destun strategaethau gorfodi amgen amlinellu eu strategaethau ar gyfer cadw gwyliadwriaeth o sefydliadau o'r fath naill ai yn eu Cynllun Gwasanaeth Bwyd neu Bolisi Gorfodi.

Ni fwriedir i'r strategaeth gymryd lle arolygiad, arolygiad rhannol neu archwiliad mewn sefydliadau risg isel lle mae'r Awdurdod Bwyd yn ffafrio defnyddio un o'r opsiynau hyn. Yn yr achosion hynny, pennir yr amlder ymyrryd lleiaf gan y sgôr ymyrryd.

Pan fo'r sefydliad dan sylw yn destun cymeradwyaeth o dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004, nid yw defnyddio Strategaethau Gorfodi Amgen yn ddull ymyrryd priodol. Rhaid dewis yr ymyriad ar gyfer sefydliad o'r fath o'r rhai a nodir ym Mhennod 5.2 uchod.

Mae rhagor o fanylion am Strategaethau Gorfodi Amgen posibl wedi'u nodi yn y Canllaw Ymarfer Cyfraith Bwyd.

#### 5.2.7.1.5 Amlder Ymyriadau Safonau Bwyd

##### 5.2.7.1.5.1 Ymyriadau mewn Sefydliadau Categori A ar gyfer Safonau Bwyd

Mae'n rhaid i'r ymyriad rheolaidd priodol ar gyfer sefydliad sydd â sgôr ymyrryd categori A ar gyfer safonau bwyd fod yn arolygiad, yn arolygiad rhannol, neu'n archwiliad fel sy'n cael ei ddiffinio ym Mhennod 5.2.7.1.2 uchod. Mae'n rhaid ei gynnal ar adegau priodol yn unol â'r amlderau rhagnodedig a bennir yn Atodiad V.

Rhaid cofnodi unrhyw ymyriad ychwanegol arall, megis samplu neu addysg a hyfforddiant, yn erbyn y sefydliad at ddibenion monitro camau gorfodi, ond ni ddylid ei ddefnyddio fel yr ymyriad rheolaidd yn unol â'r amlder ymyrryd a amlinellir yn Atodiad V.

##### 5.2.7.1.5.2 Ymyriadau mewn Sefydliadau Categori B ar gyfer Safonau Bwyd

Rhaid i sefydliadau sydd â sgôr ymyrryd B ar gyfer safonau bwyd gael ymyriad ar adegau priodol yn unol â'r amlderau rhagnodedig a bennir yn Atodiad V. Gall ymyriadau o'r fath gynnwys arolygiad, arolygiad rhannol neu archwiliad *(audit)* hyd nes y bydd yr Awdurdod Bwyd yn ystyried bod y sefydliad yn "cydymffurfio i raddau helaeth" â chyfraith bwyd berthnasol. Unwaith y bydd cydymffurfiaeth eang wedi'i gyflawni, gall ymyriadau a gynlluniwyd fod yn wahanol rhwng naill ai arolygiad, arolygiad rhannol, neu archwiliad neu fath arall o reolaeth swyddogol fel y'i diffinnir ym Mhennod 5.2 uchod.

##### 5.2.7.1.5.3 Ymyriadau mewn Sefydliadau Categori C ar gyfer Safonau Bwyd

Gallai sefydliadau cofrestredig sydd wedi cael sgôr ymyrryd categori C ar gyfer safonau bwyd fod yn destun Strategaeth Orfodi Amgen, o leiaf unwaith yn ystod unrhyw gyfnod o bum mlynedd.

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sicrhau bod y sefydliadau hyn yn parhau i fod yn destun rheolaethau swyddogol. Un rheswm pwysig am hyn yw bod modd ymchwilio i gwynion. Rhaid i Awdurdodau Bwyd sy'n penderfynu y dylai sefydliadau cofrestredig "risg isel" fod yn destun strategaethau gorfodi amgen amlinellu eu strategaethau ar gyfer cadw gwyliadwriaeth o sefydliadau o'r fath yn eu Cynllun Gwasanaeth Bwyd a/neu Bolisi Gorfodi.

Ni fwriedir i'r hyblygrwydd a gynigir i weithredu Strategaethau Gorfodi Amgen gymryd lle arolygiad llawn, arolygiad rhannol neu archwiliad mewn sefydliadau o'r fath lle mae'r Awdurdod Bwyd yn ffafrio defnyddio un un o'r opsiynau hyn i gadw gwyliadwriaeth. Yn yr achosion hynny, pennir yr amlder ymyrryd lleiaf gan y sgôr ymyrryd.

Pan fo'r sefydliad dan sylw yn destun cymeradwyaeth o dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004, nid yw defnyddio Strategaethau Gorfodi Amgen yn ddull ymyrryd priodol. Rhaid dewis yr ymyriad ar gyfer sefydliad o'r fath o'r rhai a nodir ym Mhennod 5.2.

Mae rhagor o fanylion am Strategaethau Gorfodi Amgen wedi'u nodi yn y Canllaw Ymarfer Cyfraith Bwyd.

#### 5.2.7.1.6 Amlder Cynhyrchu Cynradd

Wrth bennu ymyriadau ar lefel cynhyrchu cynradd, rhaid i'r Awdurdod Bwyd wneud y defnydd gorau posibl o'r dystiolaeth sydd ar gael. Dyma enghreifftiau o wybodaeth leol neu wybodaeth arall y gall yr Awdurdod Bwyd ei defnyddio wrth flaenoriaethu ymyriadau ac ystyried a oes angen arolygiad:

- a oes cynnyrch ffres yn cael ei dyfu sy'n barod i'w fwyta, er enghraifft; llysiau gwyrdd deiliog fel dail salad, egin bychain, berwr dŵr (*watercress*), perlysiau ffres, coesau llysiau a llysiau bwlb fel radis, seleri, nionod/winwns salad, aeron fel mefus a mafon, tomatos a madarch;
- aelodaeth o gynllun sicrwydd fferm 'cydnabyddedig';
- newid mewn gweithgarwch;
- hanes cydymffurfio;
- mathau o gyflenwad dŵr ar gyfer dyfrhau ac ati;
- defnydd o gompost neu wrtaith sydd heb ei drin ddigon neu o gwbl;
- gwybodaeth a ddaw i'r amlwg drwy arolygiadau statudol eraill;
- problemau defnyddwyr a chwsmeriaid (diwydiant);
- cynllun arolygu a gyhoeddwyd fel rhan o Bartneriaeth Prif Awdurdod;
- gwybodaeth wyliadwriaeth ar gynhyrchion a chynhyrchion trafferthus sy'n gysylltiedig â salwch a gludir gan fwyd;
- arall (i adlewyrchu gwybodaeth *(intelligence)* leol).

Mae rhagor o wybodaeth am arolygiadau o safleoedd cynhyrchu cynradd i'w gweld yn y Canllaw Ymarfer Cyfraith Bwyd. Dylid nodi nad oes gofyniad i gynnal ymweliad cychwynnol â safle cynhyrchu cynradd cyn cynnwys y safle mewn Rhaglen Ymyriadau.

Mae rhestr gyfredol o gynlluniau sicrwydd cymeradwy hefyd ar gael yn y Canllaw Ymarfer Cyfraith Bwyd.

### 5.2.8 Adolygu'r Amlder

Dim ond ar ôl arolygiad, arolygiad rhannol neu archwiliad y dylid diwygio sgôr(iau) ymyrryd busnesau bwyd, ac yn unol ag Atodiad V (neu unrhyw ddiwygiad a hysbyswyd i'r Awdurdodau Bwyd gan yr ASB). Rhaid i swyddog fod wedi casglu digon o wybodaeth i gyfiawnhau diwygio'r sgôr ymyrryd, a rhaid cofnodi'r rhesymau dros adolygu'r sgôr ar ffeil y sefydliad.

Pan fo gwybodaeth newydd yn dod i'r amlwg, yn achos digwyddiad, cwyn gyfiawn neu ganlyniad samplu anfoddhaol, rhaid i'r Awdurdod Bwyd ystyried a yw'n briodol cynnal arolygiad, arolygiad rhannol neu archwiliad i ymchwilio i'r

mater.

Rhaid cofnodi esboniad am y dewis o ymyriad yn ffeil y sefydliad ym mhob achos.

Os, wrth gynnal ymyriad rheolaidd, ac eithrio arolygiad, arolygiad rhannol neu archwiliad, mae swyddog yn sefydlu bod natur busnes bwyd wedi newid yn sylweddol, neu fod y lefel gydymffurfio wedi dirywio, rhaid newid yr ymyriad i arolygiad neu arolygiad rhannol, a diwygio'r sgôr ymyrryd yn ôl yr angen.

### 5.2.9 Gohirio ymyriad

Gallai amgylchiadau godi pan fo'r ASB yn mynnu bod Awdurdodau Bwyd yn gohirio'r ymyriadau a raglennir er mwyn cymryd camau brys eraill dros gyfnod o amser.

Gallai sefyllfaoedd o'r fath gynnwys rhai lle mae tystiolaeth:

- bod arfer anniogel yn digwydd neu wedi digwydd sy'n berygl sylweddol i iechyd y cyhoedd;
- bod arfer trin bwyd neu baratoi bwyd penodol yn achosi perygl i iechyd y cyhoedd nas amheuwyd cyn hynny;
- bod bwyd a ystyriwyd i fod yn ddiogel yn flaenorol yn beryglus i iechyd y cyhoedd;
- bod bwyd a ddosberthir yn eang wedi'i halogi ac felly'n berygl sylweddol i iechyd y cyhoedd;
- bod bwyd a ddosberthir yn eang yn destun twyll o ran labelu neu gyflwyno;
- yn achos cynhyrchu sylfaenol, bod clefyd anifail heintus (megis y Tafod Glas) wedi'i ganfod ar fferm neu fod trychineb naturiol (megis llifogydd mawr) yn ei gwneud yn anymarferol cynnal arolygiad ar fferm.

Pan fo sefyllfa o'r fath yn codi, gallai'r ASB (trwy gyfrwng cyfathrebiad a gyhoeddir yn unol â Phennod 2.2.2) ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Bwyd gymryd camau penodol. Mae'n ofynnol i Awdurdodau Bwyd ystyried a gweithredu ar unrhyw gyfathrebiad o'r fath. Ym mhob achos, bydd yr ASB, cyn cymryd camau o dan y paragraff hwn, yn ystyried a oes angen i Awdurdodau Bwyd weithredu ar frys i ddiogelu iechyd y cyhoedd neu fuddiannau defnyddwyr.

Efallai y gofynnir i Awdurdodau Bwyd roi gwybodaeth i'r ASB am y camau a gymerwyd ganddynt, mewn ymateb i geisiadau o dan y paragraff hwn, ac mae'n rhaid cofnodi unrhyw gamau a gymerir.

### 5.2.10 Gwybodaeth a ddarperir gan Awdurdodau Cymwys eraill

Dylai awdurdodau bwyd ystyried gwybodaeth a ddarperir gan eraill, gan gynnwys Awdurdodau Cymwys, cyrff masnach ac archwiliadau trydydd parti wrth bennu sgôr ymyrryd sefydliad.

### 5.2.11 Rheolaethau Mewnforio

Rhaid i weithdrefnau'r Awdurdod Bwyd sicrhau bod y rheolaethau ar fwyd wedi'i fewnforio yn rhan o arolygiadau sefydliadau bwyd. I gynorthwyo swyddogion gorfodi, dylai gweithdrefnau arolygu a ffurflenni *aide-memoire* gynnwys digon o elfennau i brocio trafodaethau ar fwyd wedi'i fewnforio. Yn ystod arolygiadau arferol ac ymweliadau eraill â safleoedd busnes bwyd (e.e. ymweliadau ar gwynion, ymweliadau samplu) rhaid i swyddogion ystyried y bwyd sydd ym meddiant y busnes neu sy'n cael ei gynnig i'w werthu, ac os caiff ei fewnforio, sicrhau ei fod hefyd yn cydymffurfio â gofynion perthnasol ar gyfer bwyd wedi'i fewnforio. Er enghraifft, gall hyn gynnwys ymgymryd â gwiriadau olrhain cynnyrch neu mewn safle sy'n gyrchfan cyntaf ar y tir ar ôl ei fewnforio, cadarnhau presenoldeb Dogfen Mynediad Milfeddygol Gyffredin (CVED) neu Ddogfen Mynediad Gyffredin (CED), fel y bo'n briodol.

Yn ogystal ag asesu addasrwydd i'w fwyta, rhaid cymryd camau rhesymol i wirio cyfreithlondeb mewnforio unrhyw gynnyrch o darddiad anifeiliaid a bwydydd nad yw'n dod o anifeiliaid o drydedd wlad.

### 5.2.12 Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd/Awdurdodau Lleol ar Bwyntiau Mynediad

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sy'n gyfrifol am fwydydd nad ydynt yn dod o anifeiliaid wedi'u mewnforio ar bwyntiau mynediad fonitro llwythi o'r bwydydd hynny sy'n mynd i borthladdoedd sy'n deillio o du allan i'r UE. Mae'r rheolaethau ar bwyntiau mynediad yn cynnwys cynnal archwiliadau dogfennol systematig, gwiriadau hunaniaeth ar hap a samplu i'w dadansoddi fel sy'n briodol (Erthyglau 15-25, Rheoliad (CE) Rhif 882/2004).

Rhaid i reolaethau swyddogol fod yn gymesur ac yn seiliedig ar risg. Lle na nodir amlder gwirio yn y ddeddfwriaeth, rhaid rhoi blaenoriaeth i nodi llwythi o fwydydd nad ydynt yn dod o anifeiliaid sy'n mynd i mewn i bwynt mynediad a'i wlad wreiddiol. Rhaid i amlder mathau eraill o reolaethau swyddogol gael ei hysbysu yn ôl:

- hanes cydymffurfio ar gyfer y wlad wreiddiol, yr allforiwr a/neu'r mewnforiwr;
- unrhyw risgiau a nodwyd sy'n gysylltiedig â'r cynnyrch;
- unrhyw faterion sy'n ymwneud â dibynadwyedd unrhyw wiriadau a allai fod eisoes wedi'u cyflawni;
- blaenoriaethau samplu blynyddol yr ASB ar gyfer bwyd; neu
- gwybodaeth flaenorol am y cynnyrch; a yw'n newydd neu'n anarferol.

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sy'n gyfrifol am gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid wedi'u mewnforio mewn Arolygfeydd Ffin gyfeirio at y canllawiau canolog a gynhyrchir gan Defra, sydd ar gael yn y Llawlyfr Arolygfeydd Ffin sydd ar gael drwy:

https://www.gov.uk/government/publications/border-inspection-post-bip-manual

Dylai Awdurdodau Bwyd weithredu trefniadau seiliedig ar risg ac adolygu a dadansoddi'r wybodaeth a gesglir o'r porthladdoedd hyn, gan weithredu lle bo angen. Dylai Awdurdodau Bwyd gynnal archwiliadau chwarterol ar y lleiaf, neu yn

ôl yr angen ar adegau mynediad anaml. Gallai hyn gynnwys ymweliad neu holiadur sy'n cael ei anfon, cysylltu â gweithredwyr porthladdoedd neu archwiliadau amlygu.

### 5.2.13 Trefniadau ar gyfer pwyntiau mynediad heb bresenoldeb parhaol yr Awdurdod Bwyd

Lle nad oes presenoldeb Awdurdod Bwyd parhaol mewn maes awyr neu borthladd, ac ni ystyrir ei fod yn bwynt mynediad ar gyfer bwyd, rhaid i'r Awdurdod Bwyd (o leiaf unwaith bob tri mis) gysylltu â gweithredwr y porthladd, HMRC a/neu weithredwyr masnachol eraill i gadarnhau statws y porthladd mewn perthynas â gweithgareddau bwyd a/neu gael gwybodaeth am symiau, mathau, gwledydd tarddiad a statws arferion bwyd sy'n dod i mewn i'r porthladd ers ymchwiliad diwethaf yr Awdurdod Bwyd. Rhaid i Awdurdodau Bwyd gadw cofnod o'r cyfnewidiadau hyn am gyfnod o dair blynedd.

Diben y trefniadau hyn yw sicrhau bod gan Awdurdodau Bwyd yr wybodaeth ddiweddaraf am fwyd sy'n cael ei fewnforio. Bydd hyn yn galluogi penderfyniadau seiliedig ar risg ar dargedu camau gorfodi a sicrhau bod rheolaethau neu gyfyngiadau brys ar rai bwydydd risg uwch yn cael eu gorfodi.

Gellir dod o hyd i gyngor pellach ar fesurau rheoli bwyd wedi'i fewnforio ar bwyntiau mynediad lle daw llwythau achlysurol a/neu lefelau isel o fwyd nad yw'n dod o anifeiliaid i mewn drwy:

https://fsa.riams.org/resource/folders/6

### 5.2.14 Gorfodi ar Bwyntiau Mynediad ac yn Fewndirol

Mewn achosion lle mae gan swyddog awdurdodedig, at ddibenion archwilio ar bwyntiau mynediad, neu lle caiff yr archwilio ei ohirio yn ETSF, gorsafoedd trenau terfynol rhyngwladol neu gyrchfan arall, amheuon o ran cydymffurfiaeth, hunaniaeth neu'r gyrchfan a nodir ar gyfer y llwyth, mae Erthygl 18 o Reoliad (CE) Rhif 882/2004 a Rheoliad 31 o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) (CE) Rhif 2009 yn caniatáu i'r cynnyrch gael ei gadw'n ôl yn ddibynnol ar ganlyniadau unrhyw archwiliad sy'n gysylltiedig â'r rheolaethau swyddogol.

Pan fo swyddog awdurdodedig wedi cadw llwyth bwyd yn ddibynnol ar unrhyw ganlyniadau archwilio, rhaid iddynt hysbysu'r person/mewnforiwr sy'n gyfrifol amdano yn ysgrifenedig, gan gyflwyno rhybudd o dan reoliad 32 o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009. Rhaid i'r hysbysiad nodi na ddylid symud y bwyd o'r lle a nodir, hyd nes bod y swyddog wedi ystyried canlyniadau'r archwiliad yn iawn.

Nid yw Erthygl 18 o Reoliad 882/2004 a Rheoliad 31 o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009 yn pennu terfyn amser ar gyfer archwilio ac ymchwilio i lwythi. Fodd bynnag, rhaid cyflymu archwiliadau, a/neu gyfnodau cadw o'r fath, cyn gynted ag sy'n ymarferol i osgoi amharu'n afresymol ar y masnachu.

Pan gyflwynir samplau i'w dadansoddi neu eu harchwilio, a bod y llwyth yn cael ei gadw gan ddibynnu ar y canlyniadau, mae'n rhaid i Awdurdodau Bwyd hysbysu'r dadansoddwr neu'r archwiliwr o'r ffaith honno a sicrhau bod y llwyth yn cael ei storio'n briodol ac yn ddiogel. Rhaid hysbysu'r mewnforiwr neu asiant y mewnforiwr o'r canlyniadau dadansoddi/archwilio cyn gynted ag y bo modd, a dylid rhoi copi o'r dystysgrif dadansoddi/archwilio iddynt.

Os yw'n ymddangos i swyddog awdurdodedig ar ôl arolygu neu archwilio bwyd, nad yw swp, lot neu lwyth o fwyd yn cydymffurfio â chyfraith bwyd, gan gynnwys gofynion diogelwch bwyd (Erthygl 14 o Reoliad 178/2002), mae Rheoliad 3 o'r Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009 yn caniatáu i Awdurdodau Bwyd orchymyn:

- bod y swp, y lot neu'r llwyth perthnasol yn cael ei ddinistrio;
- bod y bwyd yn destun triniaeth arbennig;
- bod y bwyd yn cael ei ailddosbarthu y tu allan i'r UE;
- bod y bwyd yn cael ei ddefnyddio at ddibenion gwahanol i'r dibenion gwreiddiol.

Mae Rheoliad 32 o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Bwyd, ar ôl clywed gan weithredwr y busnes bwyd, gyflwyno rhybudd i'r gweithredwr hwnnw cyn cymryd y camau hyn.

Yn ymarferol, rhaid i'r opsiynau a bennir yn yr hysbysiad gael eu llunio ar ôl ymgynghori'n briodol gyda'r person sy'n mewnforio'r bwyd, neu ei gynrychiolydd. Rhaid i unrhyw un sy'n destun hysbysiad gael ei hysbysu'n ysgrifenedig gan y swyddog awdurdodedig am unrhyw ddarpariaethau apelio perthnasol, a hynny wrth gyflwyno'r hysbysiad. Os yw'r posibilrwydd o ailddosbarthu yn cael ei ystyried, ond nad yw'n digwydd o fewn y cyfnod o 60 diwrnod, mae'n rhaid dinistrio'r llwyth, oni bai bod yr oedi wedi'i gyfiawnhau.

Mae Rheoliad 36 o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009 yn caniatáu i gostau sy'n gysylltiedig â chamau o'r fath gael eu hadennill gan y person sy'n gyfrifol am y llwyth.

Gallai triniaeth arbennig gynnwys triniaeth neu brosesu sy'n sicrhau bod y bwyd yn cydymffurfio â gofynion yr UE, neu ofynion y drydedd wlad lle mae'n cael ei ailddosbarthu. Gall triniaeth arbennig hefyd gynnwys ac eithrio defnydd gan bobl neu anifeiliaid. Pan ganiateir triniaeth arbennig, rhaid trafod ag unrhyw awdurdod gorfodi neu sefydliad perthnasol arall i sicrhau bod y prosesu angenrheidiol wedi'i gynnal. Gellir defnyddio'r broses hon hefyd lle mae cynnyrch nad yw'n cydymffurfio yn cael ei fewnforio'n benodol er mwyn cael ei drin i gydymffurfio â chyfraith yr UE.

Dim ond lle mae'r mewnforiwr wedi cytuno i'r gyrchfan arfaethedig ac wedi rhoi gwybod i awdurdod cymwys y trydydd wlad pam ei fod wedi'i wrthod i'w fewnforio i'r UE y gellir ailddosbarthu llwyth. Pan fo'r llwyth yn cael ei ailddosbarthu i wlad ac eithrio'r wlad tarddiad, rhaid i awdurdod cymwys y wlad newydd roi gwybod i'r awdurdod cymwys sy'n rheoli'r cynnyrch ei fod yn fodlon derbyn y llwyth. Rhaid cadw'r llwyth yn swyddogol hyd nes y caiff ei ailddosbarthu.

Dylid gwneud unrhyw benderfyniad ar gymeradwyo defnydd amgen o nwyddau a wrthodwyd yn unol â chanllawiau perthnasol a gyhoeddir gan yr UE neu'r ASB ar briodoldeb defnydd amgen neu ail-allforio.

Pan fo rheolaethau swyddogol yn dangos bod llwyth yn niweidiol i iechyd neu'n anniogel, rhaid cadw'r llwyth nes ei fod naill ai'n cael ei ddinistrio neu ei fod yn destun mesurau priodol i ddiogelu iechyd.

Gall mewnforio bwyd nad yw'n cydymffurfio â gofynion diogelwch bwyd hefyd fod yn destun darpariaethau Deddf Diogelwch Bwyd 1990 i sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd. Mae darpariaethau o'r fath yn cynnwys pwerau cadw ac atafael (*seize*), a roddir ar waith yn unol â'r Cod hwn.

Rhaid i swyddogion roi sylw i Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009, Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2013 ac unrhyw Reoliadau Rheoli Argyfwng perthnasol, a allai ddarparu ar gyfer pwerau cadw a darpariaethau hysbysu penodol mewn perthynas â bwydydd penodol. Rhaid i unrhyw borthladd dynodedig fod â chyfleusterau digonol i sicrhau bod cynhyrchion yn gallu cael eu samplu'n effeithiol, yn hylan ac o dan amodau priodol.

Rhaid bod trefniadau ar waith i sicrhau bod bwyd nad yw'n dod o anifeiliaid sy'n cael ei gadw neu ei atafael yn cael ei storio'n briodol, yn enwedig er mwyn osgoi croeshalogi nwyddau eraill. Rhaid ymdrin â bwyd sydd i'w ddinistrio neu ei waredu i sicrhau nad oes posibilrwydd y bydd yn ailymuno â'r gadwyn fwyd e.e. claddu'n ddwfn mewn safle gwaredu gwastraff cymeradwy. Rhaid cadw copïau o nodiadau gwaredu gwastraff ar ffeil.

### 5.2.15 Archwiliad gohiriedig o fwyd nad yw'n dod o anifeiliaid – rheolaethau mewndirol

Mae Rheoliad 27 o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009 yn caniatáu (mewn amgylchiadau eithriadol a lle mae gan yr awdurdod iechyd porthladd/awdurdod lleol resymau dilys) ar gyfer gohirio rheolaethau mewnforio wrth archwilio llwythi bwyd nad yw'n dod o anifeiliaid ac iddynt gael eu cynnal gan yr Awdurdod Bwyd mewndirol sy'n ymdrin â'r ETSF neu orsaf drenau derfynol rhyngwladol neu mewn unrhyw le arall yn y DU.

### 5.2.16 Cludo Ymlaen

Mae Erthygl 8 o Reoliad (CE) 669/2009 yn caniatáu cludo llwyth(i) o gynhyrchion bwyd nad ydynt yn dod o anifeiliaid, sydd wedi bod yn destun archwiliad o ran dogfennau, hunaniaeth ac archwiliad ffisegol (gan gynnwys samplu) ar Bwynt Mynediad Dynodedig, hyd nes y daw canlyniadau'r prawf/dadansoddiad i law.

### 5.2.17 Arolygu Llongau ac Awyrennau

#### 5.2.17.1 Cyflwyniad

Mae’r diffiniad o safle yn Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 yn cynnwys unrhyw long neu awyren. Fodd bynnag, nid yw Atodlen 4 i'r Rheoliadau hyn sy'n nodi gofynion rheoli tymheredd penodol, yn rhinwedd paragraff 1(b) o'r Atodlen honno, yn gymwys i'r dulliau cludo hyn. Fodd bynnag, mae’r gofynion tymheredd

perthnasol yn Atodiad II i Reoliad 852/2004 yn gymwys.

Dylai Awdurdodau Bwyd hefyd ystyried Gorchymyn Diogelwch Bwyd (Llongau ac Awyrennau) (Cymru) 2003, sy'n pennu'r amgylchiadau lle mae llongau ac awyrennau penodol yn cyfrif fel "safle" at ddibenion Deddf Diogelwch Bwyd 1990 a rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf honno. Bydd gan swyddogion awdurdodedig bwerau mynediad i'r safle hwnnw lle caiff yr amodau rhagnodedig eu bodloni.

Mae'r ystod a'r amrywiaeth o longau yn ffactor pwysig wrth gynllunio gweithgareddau arolygu llongau. O ran awyrennau, dylid rhoi ystyriaeth sylfaenol I darddiad y bwyd ar yr awyren, gan gynnwys dŵr a diodydd eraill, a'r cludiant i'r awyren, a'r llwytho arni.

Y ffordd orau o gyflawni nod y ddeddfwriaeth yw mabwysiadu dull cytbwys o arolygu, a barn broffesiynol.

### 5.2.17.2 Cefndir a Pherthynas ag Arolygiadau

Dylai swyddogion awdurdodedig gofio bod rhannau eraill o'r Cod hwn a'r Canllawiau Ymarfer Cyfraith Bwyd cyfatebol wedi'u dylunio'n bennaf ar gyfer arolygu safleoedd sefydlog, a bod gwahaniaethau sylweddol rhwng y rhain a llongau ac awyrennau. Wrth gynnal arolygiadau o longau ac awyrennau, dylai swyddogion awdurdodedig felly ystyried, a rhoi blaenoriaeth i, gynnwys y Bennod hon a Phennod gyfatebol y Canllaw Ymarfer Cyfraith Bwyd.

Dylid mabwysiadu strategaeth ar gyfer amlder arolygiadau, yn seiliedig ar wybodaeth am wahanol fathau o longau/awyrennau, eu tarddiad a'u hanes. Cyn ystyried arolygiadau llongau neu awyrennau, a lle bo'n ymarferol, dylid cael yr holl wybodaeth berthnasol gan yr awdurdodau perthnasol eraill, y gweithredwr llongau, y cwmni hedfan neu asiant llongau fel sy'n briodol.

Dylid cynnal arolygiadau o longau ac awyrennau, ac ymweliadau, yn unol â phenodau perthnasol y Cytundeb Fframwaith.

### 5.2.17.3 Materion gorfodi

Dylai Awdurdodau Bwyd drefnu i gael cliriad diogelwch priodol i'w staff fel bod ganddynt fynediad heb ei gyfyngu, yn amodol ar gydymffurfio â gweithdrefnau diogelwch arferol y cyfleuster dan sylw.

Dylai safonau hylendid bwyd ar longau ac awyrennau fodloni gofynion perthnasol Rheoliad (CE) Rhif 852/2004 gan gynnwys y rhai ym Mhenodau II i X ac Atodiad II y Rheoliad hwnnw. Mae erthygl 5 o'r Rheoliad hwn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygu a gweithredu gweithdrefnau diogelwch bwyd yn seiliedig ar egwyddorion HACCP. Fodd bynnag, rhaid i'r gweithdrefnau hyn fod yn gymesur â maint a math y llong a natur y gweithgareddau dan sylw.

Gall swyddog awdurdodedig weithredu amrywiaeth o strategaethau gorfodi i sicrhau cydymffurfiaeth. Rhaid gweithredu camau gorfodi yn unol â pholisi gorfodi ysgrifenedig. Gall swyddog gyflwyno Hysbysiad Gwella Hylendid, Hysbysiad Camau Unioni neu Hysbysiad Gwahardd Brys at ddibenion Hylendid mewn perthynas ag unrhyw long neu awyren os yw'n destun cymeradwyaeth. Mae'r

amodau y mae'n rhaid eu bodloni cyn y gellir cyflwyno hysbysiad o'r fath yr un fath â'r rhai sy'n berthnasol mewn perthynas ag adeiladau sefydlog. Ar ôl cyflwyno

hysbysiad, dylai'r swyddog awdurdodedig gysylltu â'r Cwmni Rheoli neu'r Asiant Ymdrin/Cludo. Os ystyrir bod angen, mewn perthynas â llongau, dylai'r swyddog hefyd gysylltu ag Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau cyn gynted â phosibl.

Os yw'r llong/awyren wedi'i chofrestru mewn Aelod-wladwriaeth arall, dylid dilyn y gweithdrefnau priodol drwy gydlynu ag Aelod-wladwriaethau eraill. Dylid trafod unrhyw anawsterau gyda'r ASB.

Os yw'r llong neu'r awyren wedi'i chofrestru mewn trydydd wlad, dylai'r ASB gael y manylion llawn er mwyn gallu codi'r mater(ion) gyda'r Awdurdodau Bwyd yn y wlad berthnasol.

**5.2.17.4 Llongau ac Awyrennau Milwrol y DU**

Dylai swyddogion awdurdodedig dalu sylw i ystyriaethau diogelwch wrth ymweld â llongau ac awyrennau milwrol y DU. Dylid eu hystyried fel safleoedd Grŵp 3. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol rhoi gwybod ymlaen llaw am ymweliad arfaethedig. Dylid dwyn sylw unrhyw faterion diogelwch bwyd a ddarganfuwyd yn yr arolygiad, sy'n ymwneud â llongau ac awyrennau milwrol y DU, at sylw arweinwyr Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd unigol a'r awdurdod iechyd porthladd neu'r Prif Awdurdod perthnasol ar gyfer y Gwasanaeth penodol (manylion isod).

Rhaid i swyddogion awdurdodedig gofio diben llongau ac awyrennau milwrol yn y pen draw. Gall cynllun y gegin fod yn gyfyngedig am resymau gweithredol. Felly, dylid rhoi ystyriaeth briodol i bolisïau, gweithdrefnau ac arferion milwrol.

Dylai swyddogion awdurdodedig hefyd ystyried rhannau perthnasol o "*JSP 456 – Defence Catering Manual Vol. 3*", sydd ar gael ar wefan yr Awdurdod Cartref neu'r Prif Awdurdod perthnasol.

Dim ond awyrennau milwrol a ddefnyddir i symud personél anhactegol ('*Air Trooping*') y dylid eu cynnwys mewn rhaglenni arolygu. Nid oes unrhyw weithgareddau busnes bwyd yn digwydd ar gychod hwylio'r lluoedd arfog.

Dylai swyddogion awdurdodedig gysylltu â Chyngor Dinas Portsmouth, Prif Awdurdod y Llynges Frenhinol i gael cyngor ar weithdrefnau cyn unrhyw ymweliad arfaethedig â llong neu long danfor y Llynges Frenhinol. Dylid cysylltu â Chyngor Dosbarth Wycombe, Awdurdod Cartref yr Awyrlu Brenhinol (RAF), i gael cyngor cyn unrhyw ymweliad arfaethedig ag awyrennau'r RAF. Yn yr un modd, dylid cysylltu â Chyngor Bwrdeistref Rushmoor, Awdurdod Cartref y Fyddin, cyn unrhyw ymweliad arfaethedig â gorsaf y fyddin.

| | Prif Awdurdod | Arweinydd Iechyd yr Amgylchedd |
|---|---|---|
| Y Llynges Frenhinol | Cyngor Dinas Portsmouth<br><br>(02392) 834253 | SO2 Polisi Iechyd yr Amgylchedd<br><br>(02392) 623548 |
| Y Llu Awyr Brenhinol (RAF) | Cyngor Dosbarth Wycombe<br><br>(01494) 421710 | Swyddog Cadlywyddol Iechyd yr Amgylchedd<br><br>(01494 494334) |
| Y Fyddin | Cyngor Bwrdeistref Rushmoor<br><br>(01252) 398398 | SO1 Polisi Iechyd yr Amgylchedd<br><br>(01276) 412931 |

**5.2.17.4.1 Arolygiadau Hylendid Bwyd ar Longau**

**5.2.17.4.2 Paratoi**

Yn yr un modd â safleoedd mewndirol, mae nifer o wahanol fathau o longau neu gychod eraill, ac o'r herwydd, amrywiaeth eang o weithrediadau bwyd ar fwrdd y llongau hynny. Mae rhai llongau yn gwasanaethu aelodau'r cyhoedd (e.e. Fferïau a Mordeithiau) tra bod eraill yn gweithredu gyda chriw parhaol neu led-barhaol ar fwrdd y llong ac mae bwyd yn cael ei drin iddyn nhw ei fwyta yn unig. Mae gofyn i longau sy'n cynnal teithiau rhyngwladol gael Tystysgrif Glanweithdra Llong o dan Reoliadau Iechyd Rhyngwladol 2005, a ddyfernir gan Sefydliad Iechyd y Byd. Mae'r arolygiad ar gyfer y tystysgrifau hyn yn cynnwys arolygu'r gweithrediadau bwyd yn erbyn set o safonau technegol sy'n berthnasol yn fyd-eang (*WHO Technical Handbook*[23]), ond prif ddiben y tystysgrifau hyn yw diogelu rhag clefydau ac amodau sy'n peri pryder i iechyd y cyhoedd. Felly mae'n bosibl y gellir archwilio llongau at ddibenion deuol.

Er eglurder, yn y Cod hwn, mae'r arolygiadau y cyfeirir atynt at ddibenion diogelwch bwyd yn hytrach na dibenion glanweithdra llongau. Fodd bynnag, lle mae gorgyffwrdd posibl rhwng y ddau, cyfeirir at yr arfer gorau o dan y ddau fath o arolygiad.

Cyn dechrau arolygiad at ddibenion diogelwch bwyd, dylai swyddogion awdurdodedig ganfod a yw'n briodol arolygu'r llong yn seiliedig ar y meini prawf a awgrymir ym Mhennod 5.2.17.4.3.

Dylai'r swyddog sicrhau bod Meistr y llong (neu swyddog priodol mewn rheolaeth) yn ymwybodol o bwrpas yr arolygiad a hefyd yn pennu cwmpas y gweithgareddau busnes bwyd sy'n digwydd ar y llong.

Dylai trafodaethau cychwynnol gyda Meistr neu gynrychiolydd y llong gynnwys ystyriaeth o unrhyw ddogfennau sydd ar gael a nodi'r holl weithgareddau sy'n gysylltiedig â bwyd a diod a gynhelir ar y llong, gan gynnwys dŵr yfed, dŵr a ddefnyddir yng nghegінau'r llong, ac unrhyw ardaloedd eraill ar fwrdd y llong lle caiff bwyd a diod ei baratoi neu ei wasanaethu.

[23] http://whqlibdoc.who.int/publications/2011/9789241548199_eng.pdf

Pan fo trefniadau ar waith, dylai'r Awdurdod Iechyd Porthladd perthnasol sicrhau bod gweithredwyr llongau yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â darparu gwybodaeth berthnasol i Awdurdodau Bwyd eraill pan ofynnir iddynt wneud hynny. Lle bo hyn yn ymwneud â pholisi a gweithdrefnau gweithredu cyffredinol y gweithredwr llongau, dylid rhoi cyfrinachedd priodol i'r wybodaeth hon.

#### 5.2.17.4.3 Penderfyniad i Arolygu ac Amlder Arolygiadau

Dylai'r penderfyniad i archwilio llongau at ddibenion hylendid bwyd fod yn seiliedig ar y meini prawf canlynol:

**1.** A yw'r gweithrediad bwyd yn gwasanaethu'r cyhoedd (p'un a ydynt yn talu ai peidio)
**2.** P'un a oes gan y llong ei borthladd cartref yn y DU

Os yw'r ateb i'r ddau gwestiwn yn gadarnhaol, dylai'r llong gael ei harolygu mewn modd sy'n gymesur â safleoedd bwyd mewndirol. Dylai'r amlder arolygu, lle bo hynny'n ymarferol, fod yn seiliedig ar y sgôr risg yn Atodiad V. Dylid cofnodi arolygiad diogelwch bwyd y llong ar system gwybodaeth reoli awdurdod iechyd y porthladd a ffurfio rhan o wybodaeth LAEMS.

Os mai 'Na' yw'r ateb i'r naill neu'r llall o'r cwestiynau hyn, penderfyniad pob awdurdod iechyd porthladd unigol fydd p'un a ydynt yn ystyried arolygiad diogelwch bwyd yn briodol ar unrhyw adeg penodol yn seiliedig ar y meini prawf yn Atodiad V. Gellir cofnodi arolygiadau trwy LAEMS yn y sefyllfa hon.

Os mai 'Na' yw'r ateb i'r ddau gwestiwn, ni fydd fel rheol yn briodol cynnal arolygiadau diogelwch bwyd. Dylid parhau i gynnal arolygiadau yn unol â'r 3 senario a nodir yn Llawlyfr Technegol WHO. Bydd hwn yn arolygiad at ddibenion Glanweithdra Llongau ac ni ddylid ei gofnodi dan LAEMS.

Mae'n ddigon posibl y gallai arolygiadau at ddibenion diogelwch bwyd a dibenion glanweithdra llongau gael eu cynnal ar yr un pryd. Yn y senario hon, mae'n rhaid i'r swyddog awdurdodedig fod yn glir ynghylch pan fydd gofynion ar wahân yn dechrau ac yn dod i ben a rhaid iddynt wahaniaethu'r canfyddiadau gwahanol o bob arolygiad yn glir i feistr y llong.

Yna dylid cynnal ymyriadau sy'n angenrheidiol at ddibenion diogelwch bwyd yn unol â hynny, a rhoi gwybod i Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd eraill y DU beth yw'r canlyniad yn syth trwy unrhyw ddull priodol. Os oes angen cyfathrebu i awdurdodau iechyd porthladdoedd Ewropeaidd, gall system SIPS ACTS SHIPSAN hwyluso hyn.

#### 5.2.17.4.4 Arolygu llongau

Pan fo tystiolaeth neu amheuaeth o beidio â chydymffurfio, efallai y bydd angen i swyddogion archwilio rhannau perthnasol y llong.

Mae eitemau i'w hystyried yn cynnwys:

- manylebau a ffynonellau bwyd a dŵr;
- cludiant i'r llong, llwytho a storio dilynol;

- yn amodol ar y math o long, y cyfleusterau, gan gynnwys cyfarpar, ar gyfer paratoi/cynhyrchu/storio bwyd a storio dŵr, dosbarthu dŵr ac ansawdd dŵr a ddefnyddir yn y mannau bwyd neu sydd ar gael i'w yfed;
- digonoldeb gweithdrefnau yn seiliedig ar egwyddorion HACCP(dadansoddi peryglon a phwynt rheoli critigol), a fydd yn dibynnu ar y math o long;
- gofynion tymheredd bwyd yn Atodiad II i Reoliad 852/2004;
- yr hyn y mae'r rhai sy'n trin a thrafod bwyd yn ei wybod am statws hylendid bwyd/statws eu hiechyd eu hunain, yn gymesur â'u gweithgareddau trin bwyd;
- samplu bwyd a dŵr;
- trefniadau ar gyfer gwaredu gwastraff arlwyo rhyngwladol;
- gweithdrefnau rheoli pla;
- unrhyw adroddiad anffafriol neu achosion o salwch gastrig, ac ati, sy'n hysbys.

Dylid penderfynu ar ymweliadau â llongau eraill, megis cychod hwylio hyfforddi, sydd wedi'u lleoli mewn porthladdoedd penodol ar sail nifer y llongau, yr amodau lleol a gwybodaeth a gafwyd drwy arolygiadau blaenorol.

Bydd llongau a gofrestrir yng Nghymru fel busnes bwyd yn dod o dan gofynion Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 a rheoliadau cysylltiedig.

### 5.2.17.4.5 Camau ar ddiwedd yr arolygiad

Ar ôl cwblhau'r arolygiad, dylid trafod y canfyddiadau â Meistr y llong neu'r cynrychiolydd dirprwyedig, gan ddangos yr amserlen ddisgwyliedig ar gyfer unrhyw gamau unioni sy'n ofynnol.

Dylid hefyd paratoi tystysgrif arolygu[24] a'i rhoi i'r Meistr cyn gadael y llong. Os na ellir cwblhau tystysgrif lawn cyn i'r llong adael, dylid anfon y dogfennau at y Meistr ar y cyfle cyntaf posib. Dylai perchennog y llong gael copi hefyd. Dylid anfon copi arall at Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau cyn gynted â phosibl os darganfyddir diffygion difrifol, a'r Awdurdod Iechyd Porthladd yn y porthladd nesaf, os yn y DU ac, os dynodir ef, yr Awdurdod Iechyd Porthladd Cartref perthnasol. Dylid gwneud hyn cyn unrhyw ymweliad posibl â'r llong yn y porthladd galw dilynol.

### 5.2.17.4.6 Cydgysylltu ag Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau (AMGG)

Dylid cadw'r cysylltiad gyda'r AMGG yn unol â'r Memorandwm o Ddealltwriaeth rhwng Adolygiad Llywodraeth Leol Cymdeithas Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd a'r AMGG sy'n ymdrin â llongau nad ydynt yn filwrol (bydd y Memorandwm o Ddealltwriaeth yn cael ei ddiweddaru gan nad yw Llywodraeth Leol yn bodoli bellach ac mae'r Gymdeithas Llywodraeth Leol wedi cymryd ei swyddogaethau). Dylid cyfnewid copïau adroddiadau archwilio perthnasol sy'n ymwneud â diogelwch bwyd ar longau rhwng awdurdodau lleol/Awdurdodau Iechyd Porthladd a'r MCA, yn unol â'r Memorandwm o Ddealltwriaeth.

[24] Mae'r Dystysgrif Rheoli Glanweithdra Llongau a'r Dystysgrif Eithrio Rheoli Glanweithdra Llongau ar gael ar wefan LACORS (www.lacors.gov.uk). Gwefan LGG (https://knowledgehub.local.gov.uk/)

Pe bai anawsterau gyda diffygion difrifol yn ymwneud â bodolaeth cyflwr risg iechyd (fel y'i diffinnir gan Reoliad 7(2)/Rheoliad 8(4) o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 h.y. bod risg o anaf i iechyd ar fin digwydd) sy'n ymwneud â diogelwch bwyd a dŵr tra bod llong mewn porthladd, dylid ystyried cysylltu ag AMGG er mwyn annog camau i gadw'r llong yn unol â gweithdrefnau yn y Memorandwm o Ddealltwriaeth. Dylid hefyd roi gwybod am ddiffygion o'r fath i Awdurdod Cymwys y wladwriaeth sy'n cofrestru'r llong (gweler Adran 3.2.6.1).

### 5.2.17.4.7 Meini Prawf Risg Eraill

Gallai hefyd fod yn briodol ystyried y meini prawf canlynol wrth benderfynu a ddylid archwilio llong at ddibenion diogelwch bwyd:

- math o long, e.e. llong cargo/teithwyr cyffredinol, fferi teithwyr, llongau mordaith;
- porthladd cofrestru;
- oedran/cyflwr/hanes y llong;
- criw a nifer y teithwyr/proffil/"trosiant";
- patrwm masnachu'r llong/amserlen/porthladdoedd blaenorol;
- hyder mewn systemau rheoli diogelwch bwyd a dŵr;
- y ddogfennaeth sydd ar gael;
- adroddiadau arwyddocaol diweddar am broblemau cysylltiedig â bwyd ar y llong;
- tystysgrifau arolygiadau blaenorol – y lefel gydymffurfio (gallai'r rhain gynnwys tystysgrifau arolygu a gyflwynwyd gan awdurdodau cymwys yn yr UE neu mewn trydydd gwledydd).

### 5.2.17.4.8 Cymhwyso Rheoliadau Iechyd Rhyngwladol 2005 (IHR)

Nid oes dim yn y Cod hwn sy'n bwysicach nac yn cyfaddawdu dyletswyddau Awdurdodau Iechyd Porthladd i arolygu a sicrhau bod llongau yn cydymffurfio â'u dyletswyddau o dan Reoliadau Iechyd Rhyngwladol 2005, eu safonau technegol cysylltiedig a Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Llongau) 1979.

### 5.2.17.4.9 Archwilio awyrennau

### 5.2.17.4.10 Paratoi

Dylai swyddogion awdurdodedig fodloni eu hunain yn y lle cyntaf bod unrhyw wybodaeth a ddarperir gan y cwmni hedfan ynglŷn â'i gyflenwyr a'i gyflenwadau bwyd a dŵr yn foddhaol. Cyfrifoldeb y cwmni hedfan yw rhoi unrhyw dystiolaeth o gyflenwyr bwyd ag enw da i'r swyddog awdurdodedig.

Dylid penderfynu mynd ar awyren yn bennaf ar sail unrhyw wybodaeth a ddarperir gan y cwmni hedfan; cadarnhad o ddilysrwydd yr wybodaeth ac unrhyw gwynion sy'n gysylltiedig â bwyd neu hylendid bwyd oddi wrth y teithwyr neu'r criw. Os yw gwybodaeth o'r fath (fel y'i hamlinellir ym Mhennod 5.2.17.4.11) yn foddhaol, efallai na fydd angen mynd ar yr awyren, yn enwedig os yw'r wybodaeth yn dangos bod mathau penodol o awyrennau ac arferion diogelwch bwyd yn bodloni'r gofynion.

Fodd bynnag, mae'n hanfodol cadarnhau amodau ac arferion ar yr awyren yn

rheolaidd drwy gyfrwng arolygiad. Dylid gwirio'r wybodaeth a ddarperir gan y cwmni hedfan sy'n ymwneud â materion hylendid bwyd yn flynyddol ar y lleiaf, naill ai gan yr Awdurdod Cartref neu'r Prif Awdurdod, pa un bynnag sy'n berthnasol, neu yn absenoldeb y ddau, gan swyddog awdurdodedig o'r Awdurdod Bwyd gorfodi perthnasol. Dylai gwiriadau o'r fath gadarnhau, er enghraifft, na wnaed unrhyw

newidiadau i'r arlwywyr ar deithiau hedfan, ffynhonnell y cyflenwad dŵr, ac ati. Dylai gwiriadau o'r fath hefyd wirio bod cynllun HACCP yr arlwywyr yn cael ei weithredu ar yr awyren a bod systemau ar waith ar ôl i fwyd a diod adael y sefydliad arlwyo i ganfod a yw peryglon halogiad (yn cynnwys halogi microbiolegol, ffisegol, cemegol ac alergenaidd) yn cael eu rheoli hyd nes gweini i'r teithiwr.

Lle mae trefniadau ar waith, dylai Awdurdodau Cartref sicrhau bod cwmnïau hedfan yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran darparu gwybodaeth. Dylai Awdurdodau Cartref ddarparu gwybodaeth berthnasol i Awdurdodau Bwyd eraill, pan ofynnir iddynt wneud hynny, a phan fo hyn yn ymwneud â pholisi a gweithdrefnau hedfan cyffredinol, rhoddir cyfrinachedd priodol iddynt.

### 5.2.17.4.11 Gwybodaeth i'w chasglu i gynorthwyo gweithdrefnau arolygu

Os nad oes trefniant â'r Awdurdod Cartref neu Prif Awdurdod, mae'n hanfodol cysylltu â chwmnïau hedfan er mwyn deall sut y maent yn gweithredu rheolaethau diogelwch bwyd ar eu hawyren, ac er mwyn i swyddogion awdurdodedig allu gwirio systemau diogelwch bwyd.

Mae'r nifer fawr o gwmnïau hedfan ac, mewn rhai achosion, maint eu llyngesau, yn mynnu bod yr wybodaeth ganlynol yn cael ei chadw ac ar gael cyn penderfynu a ddylid arolygu:

- cyswllt wedi'i enwi a manylion cyswllt cwmni hedfan i ymdrin ag ymholiadau (gallai hwn fod yn gynghorydd diogelwch bwyd a gyflogir gan y cwmni hedfan);
- nifer yr awyrennau, eu math a'u rhifau cofrestru, lle y bo'n briodol;
- y llwybrau hedfan – teithiau hir, teithiau byr a'r gwledydd;
- dogfennau neu lawlyfr polisi/gweithdrefnau diogelwch bwyd y cwmni hedfan; y mathau o fwydlenni arlwyo a gweini bwydydd risg uchel;
- gwybodaeth i'r sawl sy'n trin bwyd (staff awyren) – nodiadau cyfarwyddyd/taflenni esboniadol a/neu hyfforddiant diweddar sy'n gymesur â'r gweithgaredd trin bwyd, gan gwmpasu hylendid personol; trin bwyd; materion croeshalogi sy'n codi o ddyletswyddau eraill; ymwybyddiaeth o blâu; rheoli tymheredd bwyd (yn unol â gofyniad Atodiad II o Reoliad 852/2004) os yw'n briodol, a monitro; eich statws iechyd eich hun a pholisi cadw o'r gwaith;
- cofnodion hyfforddi, safon yr hyfforddiant, gan gynnwys ailhyfforddi pan fo'n briodol;
- arlwywyr teithiau, a/neu gwmnïau enwebedig sy'n rhoi prydau at ei gilydd a/neu'n cludo prydau i'r awyren, a ddefnyddir gan bob cwmni hedfan. Dylai bwydlenni ar gyfer teithiau gynorthwyo wrth asesu a yw bwydydd risg uchel yn cael eu trin a/neu eu paratoi ar yr awyren. Cyfrifoldeb y cwmni hedfan yw rhoi tystiolaeth bod y bwyd yn deillio o ffynhonnell ag enw da;
- y manylebau ar waith gyda'r arlwywr ar gyfer cyflenwi bwyd i awyren a thymheredd derbyniol ar gyfer trosglwyddo, gan gynnwys ar gyfer bwydydd risg uchel;

- manylion am drefniadau diogelwch bwyd a dŵr pan gânt eu cyflenwi i awyren dramor;
- cyflenwad dŵr yfed – ffynhonnell, y defnydd o danceri, glanhau/diheintio tanciau storio – amlder/effeithiolrwydd. I'w gwirio cyn neu ar ôl yr arolygiad;
- teithiau neu lwybrau sydd â gwasanaeth arlwyo arlwyo wrth ddychwelyd gan gynnwys arlwyo amlsector, ac o ba feysydd awyr;
- contract rheoli a monitro plâu;
- y contractiwr glanhau, gyda manylion cytundebau, e.e. amserlenni glanhau, a monitro effeithiolrwydd y drefn lanhau;
- adroddiadau ar ddadansoddiad/archwiliad o fwyd a dŵr yfed ar awyren gan y cwmni hedfan, a ddylai fod yn gysylltiedig â threfn samplu'r Awdurdod Bwyd ei hun;
- p'un a yw'r cwmni hedfan yn ymgymryd â hunanarchwiliadau ac a oes unrhyw adroddiadau ar gael.

Dylai'r wybodaeth uchod gynorthwyo swyddog i asesu'r angen i arolygu awyren penodol. Yn ymarferol, gan ystyried Atodiad V, a gyda'r wybodaeth briodol gan y cwmni hedfan a/neu'r Awdurdod Cartref/Prif Awdurdod perthnasol, gallai hyn arwain at ymweld â mathau penodol o awyrennau, sy'n darparu prydau risg uchel unwaith bob deunaw mis i ddwy flynedd, oni bai bod rhesymau cryf dros gynnal ymweliadau o'r fath yn y cyfamser.

**5.2.17.4.12 Arolygu awyrennau**

O bryd i'w gilydd, bydd criw'r awyren yn paratoi bwyd ar yr awyren ac felly, drwy eu hyfforddiant, dylent fod yn ymwybodol o faterion croeshalogi posibl sy'n gysylltiedig â'u dyletswyddau eraill ar yr awyren, fel trafod bagiau chwydu a glanhau toiledau yn ystod taith. Dylid cynnal arolygiadau fel arfer cyn y daw teithwyr ar yr awyren, wedi i'r awyren gael ei glanhau yn ddelfrydol, pan fydd bwyd arni, a phan fydd staff y cwmni hedfan yn gallu rhoi cymorth a gwybodaeth. Dylid defnyddio barn broffesiynol a gellid cynnal arolygiadau ar adegau eraill fel bo'r angen. Pe bai unrhyw ansicrwydd ynghylch yr wybodaeth a ddarperir gan staff yr awyren, dylid cysylltu â'r pencadlys (neu'r Awdurdod Cartref) perthnasol am eglurhad.

**5.2.17.4.13 Eitemau i'w hystyried mewn perthynas â diogelwch bwyd ar awyrennau**

Ar ôl gwirio dogfennau, dylid ystyried/cadarnhau'r materion canlynol, fel y'u rhestrir ym Mhennod 5.2.17.4.11 pan fo'n briodol:

- arlwywyr teithiau – cadarnhau'r wybodaeth a gafwyd ynglŷn â ffynhonnell prydau ac ati;
- cludiant a llwytho'r awyren, gan gynnwys y dull o reoli tymheredd y bwyd yn y cerbyd dosbarthu;
- cyfleusterau storio bwyd ar yr awyren, gan gynnwys y ddarpariaeth o gynwysyddion wedi'u hinswleiddio a/neu becynnau iâ a'r cyfnod hiraf o amser a nodir nes gweini a/neu ailgynhesu, gan ystyried y math o awyren, e.e. teithiau hir neu fyr, a'r bwyd a weinir;
- a yw bwyd yn cael ei baratoi ar yr awyren a'r cyfleusterau sydd ar gael ar gyfer gweithrediadau o'r fath, e.e. hylendid personol; osgoi croeshalogi; darparu menig tafladwy ar gyfer dyletswyddau penodol a wipes diheintio;
- prydau ar gyfer y daith yn ôl gan ystyried am faint o amser y bydd y bwyd yn para;

- rheoli tymheredd (yn unol â gofyniad Atodiad II i Reoliad 852/2004) a monitro yn ystod teithiau;
- ailgynhesu/coginio;
- rheoli plâu;
- cyflenwad dŵr – ffynhonnell a'r gallu i yfed dŵr/glendid tanciau;
- gweithdrefnau ar gyfer glanhau mannau trin bwyd, troliau/cartiau; a,
- samplu bwyd a dŵr.

#### 5.2.17.4.14 Camau ar Ddiwedd yr Arolygiad

Dylid anfon adroddiad i'r cwmni hedfan yn dilyn arolygiad, gyda chopïau i'r Awdurdod Cartref neu'r Prif Awdurdod perthnasol lle mae trefniant o'r fath yn bodoli, mewn perthynas ag awyrennau cofrestredig y DU. Pan gaiff awyrennau o gwmni hedfan penodol eu gwirio a phan ganfyddir eu bod yn torri'r gyfraith berthnasol, dylid darparu manylion llawn i ganiatáu camau dilynol digonol, e.e. y math o awyren; rhif y daith; gwybodaeth annigonol am faterion hylendid bwyd ymhlith criw'r awyren ac ati.

# Pennod 6 – Samplu a Dadansoddi

## 6.1 – Cyflwyniad

Mae samplu arferol effeithiol yn rhan hanfodol o wasanaeth gorfodi cytbwys. Felly, dylai fod yn rhan o Bolisi Samplu pob Awdurdod Bwyd. Mae canllawiau i helpu i sicrhau bod gwaith samplu Awdurdodau Bwyd yn cael ei gynnal yn effeithiol i'w cael yn y Canllawiau Ymarfer a'r canllawiau samplu microbiolegol a nodir yng nghyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Mae Deddf Diogelwch Bwyd 1990, Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013 a Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 yn darparu fframwaith ar gyfer gwaith samplu Awdurdod Bwyd, sy'n benodol er mwyn dilyn camau cyfreithiol. Os yw'r canlyniadau'n dangos bod trosedd wedi'i chyflawni, mae'n bwysig cydnabod y gellir cymryd samplau at ddibenion gwyliadwriaeth, monitro a darparu cyngor i weithredwyr busnesau bwyd. Dylai Polisi a Rhaglen Samplu Awdurdod Bwyd gwmpasu’r holl fathau o waith samplu yr ymgymerir ag ef.

### 6.1.1 Polisi Samplu a Rhaglen Samplu

Rhaid i Awdurdodau Bwyd baratoi a chyhoeddi Polisi Samplu bwyd a sicrhau ei fod ar gael i fusnesau a defnyddwyr. Rhaid i'r Polisi nodi dull cyffredinol yr Awdurdod Bwyd o samplu bwyd a'i ddull gweithredu mewn sefyllfaoedd penodol megis monitro prosesau, monitro bwyd wedi'i fewnforio, Egwyddor yr Awdurdod Cartref, arolygiadau, cwynion, ymchwiliadau arbennig a rhaglenni cydlynol cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Rhaid i'r Polisi Samplu hwn gynnwys pob sampl a gymerir, gan gynnwys y rhai na ddarperir ar eu cyfer yn y Cod hwn.

Rhaid i Awdurdodau Bwyd baratoi Rhaglen Samplu hefyd sy'n manylu eu blaenoriaethau samplu bwyd arfaethedig. Rhaid i'r Rhaglen ystyried nifer, math a sgoriau ymyrraeth y busnesau bwyd, y math o fwyd a gynhyrchir yn yr ardal, bwyd wedi'i fewnforio, cyfrifoldebau Awdurdod Bwyd Gwreiddiol neu Awdurdod Cartref a'r angen i sicrhau bod darpariaethau'r gyfraith bwyd yn cael eu gorfodi. Fel arfer nid oes rhaid cyhoeddi'r Rhaglen Samplu.
Rhaid i'r Polisi Samplu ymrwymo'r Awdurdod Bwyd i ddarparu'r adnoddau angenrheidiol i gyflawni ei Raglen Samplu bwyd.

Rhaid paratoi'r Polisi Samplu a'r Rhaglen Samplu mewn ymgynghoriad â'r Archwiliwr Bwyd a'r Dadansoddwr Cyhoeddus, a all ddigwydd yn lleol neu'n rhanbarthol.

Mae rhagor o gyngor ar samplu i'w weld yn y Canllaw Ymarfer Cyfraith Bwyd.

### 6.1.2 Ceisiadau am wybodaeth oddi wrth weithgynhyrchwyr neu fewnforwyr

Dylai Awdurdodau Bwyd fodloni pob cais rhesymol am wybodaeth am ddewis y sampl, y dull samplu a’r dull o archwilio microbiolegol neu ddadansoddi cemegol i alluogi gweithgynhyrchwr neu fewnforiwr y bwyd i asesu canlyniad neu i ailadrodd yr archwiliad neu’r dadansoddiad.

### 6.1.3 Samplu – Cyffredinol

Nid yw’r darpariaethau samplu yng ngweddill yr adran hon yn berthnasol i:

- Samplau o fwyd sy’n destun cwyn ac sy’n dod i sylw’r Awdurdod Bwyd drwy ddefnyddwyr neu asiantaethau eraill;
- Samplau o fwyd a gyflwynir i’r Dadansoddwr Cyhoeddus at ddibenion monitro neu wyliadwriaeth yn unig, h.y. nid oes bwriad adeg y samplu y bydd unrhyw gamau gorfodi yn dilyn o’r canlyniad;
- Samplau o fwyd a gafwyd yn unol â chyfraith bwyd na chânt eu cymryd i’w dadansoddi neu eu harchwilio, e.e. samplau a gyflwynwyd i gael barn arbenigwyr eraill e.e. nodi plâu ac ati;
- Samplau o fwyd a gymerir fel tystiolaeth yn eu rhinwedd eu hunain e.e. dyddiadau defnyddio erbyn.

#### 6.1.3.1 Samplau i’w dadansoddi (Deddf Diogelwch Bwyd 1990, adran 29)

Dylid cyflwyno’r holl samplau i’w dadansoddi, a gymerir o dan adran 29 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 yn unol â Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013 a gofynion y Cod hwn i’r Dadansoddwr Cyhoeddus penodedig mewn labordy sydd wedi’i achredu at ddiben dadansoddi ac sy’n ymddangos ar y rhestr o labordai rheoli bwyd swyddogol. Gall samplau sydd o dan adran 29 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 fod yn destun archwiliad os ystyrir yn briodol.

#### 6.1.3.2 Rhannu samplau i'w dadansoddi

Oni bai bod y sampl yn bodloni'r meini prawf ar gyfer eu cyflwyno i'w dadansoddi heb eu rhannu'n dair rhan (gweler y Bennod ar Samplu a Dadansoddi yn y Canllaw Ymarfer Cyfraith Bwyd), dylai'r sampl gael ei rannu yn 3 rhan gynrychiadol. Yn ddarostyngedig i Reoliad 7(4), Rheoliad 7(1) o Reoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013, mae'n ofynnol bod y sampl yn cael ei rannu'n 3 rhan gynrychiadol. Cyfeirir at y rhannau canlyniadol o’r samplau yn y Cod hwn fel rhannau terfynol. Lle bo’n ymarferol, dylid rhannu'r sampl yn sefydliad y gweithredwr busnes bwyd a ddylai, os yw’n bresennol, gael cyfle i arsylwi ar y samplu a’r rhannu cyn cael ei wahodd i ddewis rhan i’w chadw.

Gall samplu bwydydd sy’n cael eu mewnforio yn y porthladd mynediad beri anawsterau penodol. Dan yr amgylchiadau arbennig[25] a ddarganfyddir gan Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd, nid oes angen rhannu sampl ar y safle neu ym mhresenoldeb unrhyw gynrychiolydd y gwerthwr/perchennog neu fewnforiwr, oni bai bod y ddeddfwriaeth y mae'r sampl yn cael ei gymryd fel rhan ohoni yn nodi fel arall yn benodol.

Nid oes angen rhannu'r samplau bwyd a gaiff eu caffael trwy werthu o bell fel archebu ar-lein neu drwy'r post ym mhresenoldeb gweithredwr y busnes bwyd neu unrhyw gynrychiolydd ar ran y gweithredwr busnes bwyd, oni bai bod y ddeddfwriaeth y mae'r sampl yn cael ei gymryd fel rhan ohoni yn nodi fel arall yn benodol.

[25] Mae enghreifftiau o amgylchiadau yn cynnwys pan fydd cyfaint, pecynnu a/neu natur y cynnyrch yn ei gwneud hi'n anodd cael tri sampl gynrychioladol.

### 6.1.3.3 Hysbysu am weithgarwch samplu ffurfiol (dadansoddi)

Dylid hysbysu perchennog y bwyd am unrhyw weithgarwch samplu ffurfiol. Dylai’r hysbysiad gael ei roi cyn gynted ag y mae’n ymarferol wedi cynnal y gwaith samplu a dylai gynnwys enw’r bwyd.

Os yw hunaniaeth partïon eraill â diddordeb fel y gweithgynhyrchwr, y pecynnwr neu'r mewnforiwr, neu ei asiant ac ati, bwyd sydd gan swyddog i'w dadansoddi ar gael ar y pecyn bwyd, ac mae'r cyfeiriad yn y DU, dylai'r swyddog hysbysu'r person hwnnw o'r caffael, yn ysgrifenedig.

### 6.1.3.4 Tystysgrifau Dadansoddi

Yn unol â rheoliad 10 o Reoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013, rhaid i'r tystysgrifau dadansoddi fod yn y fformat a osodir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau hynny, er y gall fod yn destun addasiad o'r fath os bydd gofyn yn ôl amgylchiadau rhesymol.

### 6.1.3.5 Hysbysu am ganlyniadau (dadansoddi)

Ar ôl cael tystysgrif dadansoddi sy'n nodi nad yw'r bwyd yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, dylai'r Awdurdod Bwyd gyfeirio at unrhyw ddarpariaethau perthnasol ym Mhennod 2.2 ac Egwyddor yr Awdurdod Cartref.

Yn unol â Rheoliad 10 o Reoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013, rhaid darparu copi o'r dystysgrif dadansoddi, ar gais, i berchennog y bwyd a ddadansoddwyd. Os credir bod y tramgwydd honedig yn gysylltiedig â'r gweithgynhyrchwr, dylid eu hysbysu cyn gynted â phosibl drwy'r modd cyflymaf posibl (e.e. ffôn, wedi'i gadarnhau'n ysgrifenedig yn dilyn hynny) ynghyd â'r Awdurdod Bwyd perthnasol. Rhaid hefyd hysbysu’r pecynnwr, neu yn achos bwyd sydd wedi’i fewnforio, y mewnforiwr, neu eu hasiant.

Fodd bynnag, os yw’r Awdurdod Bwyd yn cynnal ymchwiliad, gellir gohirio rhyddhau’r dystysgrif pe bai ei rhyddhau’n gynnar yn peryglu’r ymchwiliad.

### 6.1.3.6 Samplau i’w harchwilio (Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, Rheoliad 14)

Dylai’r holl samplau i’w harchwilio, a gymerwyd yn unol â Rheoliad 12 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 a gofynion y Cod hwn gael eu cyflwyno i’r Archwiliwr Bwyd mewn labordy a achredwyd at ddibenion archwilio ac sy’n ymddangos ar y rhestr o labordai rheoli bwyd swyddogol.

Yn unol â rheoliad 13(10) o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, mae Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013 yn gymwys mewn perthynas â sampl a gafwyd gan swyddog awdurdodedig awdurdod bwyd o dan Reoliad 12 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 fel petai’n sampl a gafwyd gan swyddog awdurdodedig o dan Adran 29 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990.

### 6.1.3.7 Hysbysu am weithgarwch samplu ffurfiol (archwilio)

Dylid hysbysu perchennog y bwyd am unrhyw weithgarwch samplu ffurfiol. Dylai’r hysbysiad gael ei roi cyn gynted ag y mae’n ymarferol wedi cynnal y samplu a dylai gynnwys enw’r bwyd.

Os yw hunaniaeth partïon eraill â diddordeb fel y gweithgynhyrchwr, y pecynnwr neu'r mewnforiwr, neu ei asiant bwyd sydd wedi'i gaffael gan swyddog i'w ddadansoddi ar gael ar y pecyn bwyd, ac mae'r cyfeiriad yn y DU, dylai'r swyddog roi gwybod i'r person hwnnw o'r caffael, yn ysgrifenedig.

### 6.1.3.8 Tystysgrifau Archwilio

Yn unol â Rheoliad 13(11) o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, rhaid i dystysgrifau archwilio fod yn y fformat a osodir yn Atodlen 3 i Reoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013.

### 6.1.3.9 Hysbysu am Ganlyniadau (Archwilio)

Ar ôl cael tystysgrif archwilio sy'n nodi nad yw'r bwyd yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, dylai'r Awdurdod Bwyd gyfeirio at unrhyw ddarpariaethau perthnasol ym Mhennod 2.2 ac Egwyddor yr Awdurdod Cartref.

Yn unol â Rheoliad 10 o Reoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013, rhaid darparu copi o'r dystysgrif archwilio, ar gais, i berchennog y bwyd a archwiliwyd. Os credir bod y tramgwydd honedig yn gysylltiedig â'r gwneuthurwr, dylid eu hysbysu cyn gynted â phosibl drwy'r dulliau cyflymaf posibl (e.e. ffôn, wedi eu cadarnhau yn ysgrifenedig wedyn), ynghyd â'r Awdurdod Bwyd perthnasol. Rhaid hefyd hysbysu’r pecynnwr, neu yn achos bwyd sydd wedi’i fewnforio, y mewnforiwr, neu eu hasiant.

Fodd bynnag, os yw’r Awdurdod Bwyd yn cynnal ymchwiliad, gellir gohirio rhyddhau’r dystysgrif pe bai ei rhyddhau’n gynnar yn peryglu’r ymchwiliad.

# Pennod 7 – Sancsiynau gorfodi a chosbau

## 7.1 Ymdrin ag achosion o ddiffyg cydymffurfio

### 7.1.1 Cymesuredd a Chysondeb

Dylai Awdurdodau Bwyd sicrhau bod y camau gorfodi a gymerir gan eu swyddogion awdurdodedig yn rhesymol, yn gymesur, yn seiliedig ar risg ac yn gyson ag arfer da.

Dylai swyddogion awdurdodedig ystyried yr holl opsiynau gorfodi sydd ar gael. Mae hyn yn cynnwys:

- addysgu gweithredwyr busnesau bwyd;
- rhoi cyngor;
- camau anffurfiol;
- samplu;
- cadw ac atafael bwyd;
- cyflwyno Hysbysiadau Gwella Hylendid/Hysbysiadau Gwella;
- cyflwyno Gweithdrefnau Gwahardd Hylendid/Gweithdrefnau Gwahardd;
- gweithdrefnau erlyn.

Lle mae Partneriaeth Prif Awdurdod yn bodoli, dylai Awdurdodau Bwyd geisio datrys achos o ddiffyg cydymffurfiaeth trwy gysylltu â'r Prif Awdurdod lle bo'n briodol.

Ac eithrio pan fo amgylchiadau'n dangos tramgwydd difrifol neu risg sylweddol, dylai swyddogion weithredu dull graddedig ac addysgol (hierarchaeth gorfodi) gan ddechrau ar waelod y pyramid h.y. cyngor/addysg a gweithredu anffurfiol, ac fel arfer, dim ond symud i weithredu fwy ffurfiol lle nad yw'r camau anffurfiol yn cyflawni'r effaith a ddymunir.

Wrth ystyried p'un a ddylid cymryd camau gorfodi, dylai Awdurdodau Bwyd ystyried y canlynol:

- y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron – https://www.cps.gov.uk/publications/docs/code_2013_accessible_english.pdf;
- Polisi Gorfodi'r Awdurdod Bwyd.

### 7.1.2 Gofyniad am Bolisi Ysgrifenedig

Dylai fod gan bob Awdurdod Bwyd Bolisi Gorfodi cyfraith bwyd cyfoes, cofnodedig sydd ar gael yn rhwydd i weithredwyr busnesau bwyd a defnyddwyr.

Dylai'r Polisi gynnwys yr holl feysydd cyfraith bwyd y mae gan yr Awdurdod Bwyd ddyletswydd i'w gorfodi, a chynnwys meini prawf ar gyfer defnyddio'r holl ddewisiadau gorfodi sydd ar gael.

Dylai Awdurdodau Bwyd ystyried unrhyw gyngor a gyhoeddwyd gan yr ASB a Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrth ddrafftio eu Polisïau Gorfodi Cyfraith Bwyd.

Gall Polisi Gorfodi Cyfraith Bwyd Awdurdod Bwyd fod yn rhan o bolisi cyffredinol, neu gall fod wedi'i gyfuno â pholisïau gorfodi eraill, e.e. bwydydd anifeiliaid, cyhyd â bod cymhwysedd y Polisi i orfodi cyfraith bwyd yn eglur.

Dylai swyddogion awdurdodedig weithredu Polisi Gorfodi Cyfraith Bwyd yr Awdurdod Bwyd. Dylai gwyriadau o'r Polisi fod yn eithriadau, a dylid cofnodi'r rhesymau dros unrhyw wyriad.

Wrth benderfynu ar y math o gamau gorfodi i'w cymryd, dylai swyddog awdurdodedig ystyried:

- natur y tramgwydd a hanes cydymffurfio'r gweithredwr busnes bwyd; neu
- asesiad o barodrwydd gweithredwr busnes bwyd i ymgymryd â'r gwaith a nodwyd gan y swyddog.

Mae'n bwysig bod yr holl ddewisiadau gorfodi yn parhau i fod yn agored i swyddog awdurdodedig. Ni ddylai Awdurdod Bwyd fabwysiadu polisïau lle mae nifer yr hysbysiadau gwella (hylendid) a gyflwynir neu nifer y prosesau cyfreithiol eraill, fel erlyniadau neu rybuddion ffurfiol, yn ddangosyddion perfformiad.

Os oes Partneriaeth Prif Awdurdod ar waith, mae'n rhaid i Awdurdodau Bwyd gysylltu â'r Prif Awdurdod wrth ystyried camau ffurfiol ac eithrio mewn amgylchiadau lle mae risg ar fin digwydd.

### 7.1.3 Defnyddio Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 ar gyfer y rhai sy'n gwerthu neu'n cyflenwi bwyd ond nad ydynt yn 'ymgymeriadau' (*undertakings*)

Rhaid i Awdurdodau Bwyd gymryd camau gorfodi diogelwch ar brydiau o dan Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 yn erbyn y rhai sy'n trin bwyd i'w werthu neu ei gyflenwi ac, yn rhinwedd Adolygiad (9) ac Erthygl 1(2) o Reoliad (CE) Rhif 852/2004, y tu allan i gwmpas y Rheoliad hwnnw oherwydd na fyddent yn cael eu hystyried yn 'ymgymeriadau' ac nad oes angen eu cofrestru o dan Erthygl 6 o Reoliad (CE) Rhif 852/2004, ond maent yn parhau i fod yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliad (CE) Rhif 178/2002.

Enghraifft fyddai gorfodi mewn perthynas â digwyddiad untro, fel bwyd sy'n cael ei weini mewn brecwast priodas a arweiniodd at achos o wenwyn bwyd ac a oedd yn mynd yn groes i'r darpariaethau gwerthu neu gyflenwi bwyd anniogel yn Erthygl 14 (1) o Reoliad (CE) Rhif 178/2002. Gellir dod o hyd i gyngor pellach ynghylch pa gyflenwyr bwyd neu werthwyr nad ydynt efallai yn cael eu cyfrif fel 'ymgymeriadau' yn nogfen ganllaw'r ASB: Canllawiau ar gymhwyso cyfraith hylendid bwyd yr UE i ddarparu bwyd cymunedol ac elusennol, drwy https://www.food.gov.uk/sites/default/files/hall-provision-guidance.pdf

## 7.2 – Dull Anffurfiol

Lle penderfynir mabwysiadu dull anffurfiol, rhaid esbonio i'r gweithredwr busnes bwyd pa gamau sydd eu hangen i sicrhau cydymffurfiaeth.

Rhaid i bob gohebiaeth nodi pob toriad a'r mesurau y gellir eu cymryd, ym marn y swyddog, i sicrhau cydymffurfiaeth. Rhaid i ohebiaeth nodi amserlen a awgrymir ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth.

Rhaid i ddogfennau safonol, cylchlythyrau, llyfrynnau a chyhoeddiadau eraill a gyhoeddir gan yr Awdurdod Bwyd fod yn gywir ac adlewyrchu'r arferion cyfredol. Rhaid i Awdurdodau Bwyd fod yn barod i drafod llythyrau, cylchlythyrau, ac ati gydag unrhyw weithredwr busnes bwyd y maent wedi'u hanfon ato.

## 7.3 – Cosbau Ffurfiol

### 7.3.1 Hysbysiadau Gwella Hylendid

Mae'r adran hon yn ymdrin â'r defnydd o Hysbysiadau Gwella Hylendid o dan Reoliad 6 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006.

- Rhaid i'r Hysbysiadau Gwella Hylendid a gyflwynir o dan Reoliad 6 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 gael eu llofnodi gan swyddogion sydd wedi'u hawdurdodi i wneud hynny gan yr Awdurdod Bwyd ac sy'n bodloni'r gofynion cymhwysedd a nodir ym Mhennod 4.

Rhaid i'r swyddog sy'n llofnodi'r hysbysiad fod yn fodlon bod y gweithredwr busnes bwyd yn methu â chydymffurfio â rheoliadau hylendid bwyd.

#### 7.3.1.1 Pryd y dylid defnyddio Hysbysiadau Gwella Hylendid

Gall Hysbysiadau Gwella Hylendid fod yn briodol dan unrhyw un o’r amgylchiadau canlynol neu gyfuniad ohonynt:

- lle bydd camau ffurfiol yn gymesur â’r perygl i iechyd y cyhoedd;
- lle mae cofnod o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau hylendid;
- lle bydd gan y swyddog awdurdodedig reswm i gredu na fydd dull anffurfiol yn llwyddiannus.

#### 7.3.1.2 Pryd i beidio â defnyddio Hysbysiad Gwella Hylendid

Ni fyddai’r weithdrefn Hysbysiad Gwella Hylendid yn briodol o dan yr amgylchiadau canlynol:

- lle gallai'r tramgwydd fod yn barhaus, er enghraifft, glendid hysbysiad, a byddai rhybudd ond yn sicrhau gwelliant ar un adeg mewn amser;
- mewn sefyllfaoedd byrhoedlog, lle ystyrir bod angen cymryd camau gorfodi cyflym, er enghraifft, gŵyl neu ddigwyddiad chwaraeon undydd.
- lle mae achos o ddiffyg cydymffurfio ag arfer hylendid da ond nid o ran rheoliad priodol.

### 7.3.2 Hysbysiadau Gwella

Mae'r adran hon yn ymdrin â defnyddio Hysbysiadau Gwella o dan adran 10 Deddf Diogelwch Bwyd 1990.

Rhaid i Hysbysiadau Gwella a gyflwynir o dan adran 10 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 gael eu llofnodi gan swyddogion sydd wedi'u hawdurdodi i wneud hynny gan yr Awdurdod Bwyd a bodloni'r gofynion cymhwysedd a nodir ym Mhennod 4.

Rhaid i'r swyddog sy'n llofnodi'r hysbysiad fod yn fodlon bod y perchennog yn methu â chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol a wnaed o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990.

Rhaid i Awdurdodau Bwyd barhau i ddefnyddio'r ffurflenni a nodir yn Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Gwelliannau a Gwahardd - Ffurflenni Rhagnodedig) 1991 wrth ddefnyddio pwerau o dan adran 10 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990.

#### 7.3.2.1 Pryd i ddefnyddio Hysbysiad Gwella

Dylai Awdurdodau Bwyd ymdrin ag achosion lle caiff Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 eu torri drwy ddefnyddio’r pwerau gorfodi a ddarperir gan y Rheoliadau hynny (megis yr Hysbysiadau Gwella Hylendid o dan Reoliad 6). Fodd bynnag, lle mae'r ddeddfwriaeth dan sylw yn cael ei gwneud o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, fel Rheoliadau Labelu Pysgod (Cymru) 2013, dylai swyddogion awdurdodedig gyhoeddi Hysbysiad Gwella o dan adran 10 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990. I'r perwyl hwn, yn y rhan fwyaf o achosion, mae rheoliadau a wneir o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 yn cymhwyso ac yn addasu adran 10 Deddf 1990.

#### 7.3.2.2 Pryd i beidio â defnyddio Hysbysiad Gwella

Byddai'r weithdrefn hysbysiad gwella yn amhriodol gydag achosion o ddiffyg cydymffurfio mewn perthynas â diogelwch bwyd sy'n peri risg bosibl ac uniongyrchol i iechyd ac fe ystyrir bod angen gorfodi ar unwaith. Hysbysiad Gwahardd Brys yw’r unig gam unioni ffurfiol sy’n cael effaith ar unwaith.

### 7.3.3 Hysbysiadau Gwella Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd

Mae Rheoliad 12 o Reoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014 (FIR 2014) yn cymhwyso'r darpariaethau yn adran 10 Deddf Diogelwch Bwyd 1990 er mwyn gallu cyflwyno Rhybuddion Gwella am fynd yn groes i ddarpariaethau penodol Rheoliad (UE) Rhif 1169/2011 ar ddarparu gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr (FIC yr UE) a darpariaethau eraill FIR 2014. At y dibenion hyn, mae adran 10 Deddf Diogelwch Bwyd 1990 wedi'u haddasu gan FIR 2014. Gweler Rhan 1 o Atodlen 4 FIR 2014 am fanylion yr addasiadau.

#### 7.3.3.1 Pryd i ddefnyddio Hysbysiad Gwella Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd

Dylai Awdurdodau Bwyd ymdrin ag achosion o ddiffyg cydymffurfio â Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014 trwy ddefnyddio'r pwerau gorfodi a ddarperir gan y Rheoliadau hynny (megis Hysbysiadau Gwella). Dylid defnyddio Hysbysiadau Gwella yn unol â pholisi gorfodi Awdurdod Bwyd a rhaid eu hystyried fel rhan o gynyddu'r camau gorfodi yn unol â'r hierarchaeth gorfodi.

Gellir cyflwyno Hysbysiad Gwella ar berson sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gydymffurfio â'r darpariaethau a restrir yn is-adran (1A) o'r fersiwn ddiwygiedig o adran 10 Deddf Diogelwch Bwyd 1990 a osodwyd allan yn Rhan 1 o Atodlen 4 i FIR 2014. Maent fel a ganlyn:

- darpariaethau Gwybodaeth am Fwyd i Ddefnyddwyr yr UE a restrir yn Atodlen 5 Rheoliadau 2014, (prif ddarpariaethau 1169/2011), ac eithrio i'r graddau y maent yn ymwneud â maint net (adran 10(1A)(a) i (c));
- y darpariaethau yn Rheoliadau 2014 a restrir yn adran 10(1A) (d). Mae'r rhain yn ymwneud â'r gofynion cenedlaethol ar gyfer bwyd nad yw wedi'i becynnu ymlaen llaw sydd angen labelu QUID cig ar gyfer bwyd sy'n cynnwys cig (Rheoliad 7(1), (4) a (5)); a, labelu arbelydru bwyd (darpariaethau Rheoliad 8(1) a (3));
- y gofynion cenedlaethol o dan Reoliad 6 FIR 2014 i ddarparu enw bwyd ar

gyfer bwydydd nad ydynt wedi'u pecynnu ymlaen llaw. (Adran 10(1A)(d)(ii)).

#### 7.3.3.2 Pryd i beidio â defnyddio Hysbysiad Gwella'r Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd

Byddai Hysbysiad Gwella Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd yn amhriodol lle mae achosion o ddiffyg cydymffurfio mewn perthynas â hylendid bwyd, neu ddiffyg cydymffurfio safonau bwyd, sy'n achosi risg posibl ac anaf i iechyd, ac ystyrir bod angen camau gorfodi cyflym. Yr unig ddull gorfodi a fyddai'n cael effaith ar unwaith o dan ddeddfwriaeth diogelwch bwyd fyddai'r Hysbysiad Gwahardd Brys.

Mae FIR 2014 yn cynnwys cosbau troseddol am fethu â chydymffurfio â rhai gofynion labelu a gwybodaeth am alergenau (mae'r rheiny wedi'u rhestru yn Rheoliad 10 o'r Rheoliadau) ond, lle mae methiant i gydymffurfio â'r darpariaethau hynny, bydd angen i swyddogion gorfodi ddewis, yn seiliedig ar yr amgylchiadau, rhwng gweithredu erlyniad troseddol mewn perthynas â'r tramgwydd neu gyflwyno Hysbysiad Gwella. Bydd yn bosibl, mewn rhai achosion, i Awdurdod Bwyd erlyn am y tramgwydd ei hun ac ar ôl penderfynu ar yr achos, cyhoeddi Hysbysiad Gwella os nad yw'r gweithredwr busnes bwyd wedi cymryd camau digonol i gydymffurfio. Mae methu â chydymffurfio â Hysbysiad Gwella yn drosedd. Yn achos dyddiadau 'defnyddio erbyn', gellir cyflwyno Hysbysiad Gwella am fethu â dangos un, ond nid am werthu bwyd ar ôl i'r dyddiad 'defnyddio erbyn' ddod i ben; sy'n golygu mynd yn groes i Erthygl 14 o Reoliad (CE) Rhif 178/2002.

### 7.3.4 Hysbysiadau Camau Unioni

Darperir pwerau i gyhoeddi Hysbysiadau Camau Unioni a Hysbysiadau Cadw Bwyd gan Reoliad 9 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006.

Mae Hysbysiad Camau Unioni model, Hysbysiad Dal Bwyd model a Hysbysiad o dynnu Hysbysiad Camau Unioni/Hysbysiad Cadw Bwyd yn ôl model, ar gael yn y Canllaw Ymarfer Cyfraith Bwyd.

Gellir rhoi Hysbysiad Camau Unioni mewn perthynas ag unrhyw Hysbysiadau Cadw Bwyd sefydliad bwyd o dan Reoliad 9 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 mewn sefydliadau sy'n destun cymeradwyaeth. Ar gyfer cadw a thrin bwyd mewn sefydliadau heb eu cymeradwyo, gweler Pennod 7.3.7.

Rhaid i swyddogion awdurdodedig geisio datrys achos o ddiffyg cydymffurfio mewn sefydliadau trwy ddull gorfodi graddedig. Pan fo angen, rhaid ystyried y darpariaethau Hysbysiad Gwella Hylendid yn rheoliad 6. Rhaid i swyddogion awdurdodedig ystyried yr opsiynau hyn cyn cychwyn unrhyw gamau gorfodi eraill. Fodd bynnag, gellir defnyddio Hysbysiadau Camau Unioni a/neu Hysbysiadau Cadw Bwyd fel y darperir ar eu cyfer gan Reoliad 9 o'r Rheoliadau hyn, pan fo hynny'n briodol.

#### 7.3.4.1 Pryd i ddefnyddio Hysbysiad Camau Unioni

Mae Rheoliad 9 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 yn darparu ar gyfer swyddogion awdurdodedig i gyflwyno Hysbysiad Camau Unioni lle mae'n ymddangos bod gofynion y "Rheoliadau Hylendid", fel y'u diffinnir gan Reoliad 2 o Reoliadau 2006 yn cael eu torri, neu mae arolygiad o dan y "Rheoliadau Hylendid" yn cael ei rwystro. Yn fwy penodol, mae'r ddarpariaeth hon yn darparu, trwy gyflwyno Hysbysiad Camau Unioni, ar gyfer gwahardd defnyddio unrhyw offer neu unrhyw ran o'r sefydliad, gosod amodau ar unrhyw brosesau neu wahardd defnyddio'r prosesau hynny, a hefyd yn caniatáu lleihau cyfradd gweithred neu ei hatal yn gyfan gwbl.
Mae Rheoliad 9 hefyd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cadw unrhyw fwyd, gan gynnwys cymryd samplau at ddibenion archwilio, trwy gyflwyno Hysbysiad Cadw mewn sefydliad a gymeradwyir o dan Reoliad 853/2004.

Mae amgylchiadau sy'n gallu arwain at gyhoeddi Hysbysiad Camau Unioni o ran sefydliad yn cynnwys:

- unrhyw offer neu unrhyw ran o sefydliad nad yw'n cydymffurfio â gofynion y 'Rheoliadau Hylendid' fel y'u diffinnir gan Reoliad 2 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006;
- yr angen i osod amodau ar unrhyw brosesau, neu i wahardd unrhyw brosesau sy'n mynd yn groes i ofynion y Rheoliadau neu sy'n llesteirio arolygiad iechyd digonol yn unol â'r Rheoliadau;
- lle bydd cyfradd gweithrediad y busnes yn niweidiol i'w allu i gydymffurfio â'r Rheoliadau.

Mae amgylchiadau a allai arwain at gyflwyno Hysbysiad Cadw Bwyd yn cynnwys lle mae arwyddion neu amheuon bod bwyd mewn sefydliad yn anniogel ac felly mae angen archwiliad, gan gynnwys cymryd samplau.

Rhaid i'r camau hyn fod yn gymesur â'r risg i iechyd y cyhoedd a lle mae angen gweithredu ar unwaith i sicrhau diogelwch bwyd. Gellir defnyddio Hysbysiad Camau Unioni os bydd trosedd barhaus yn gofyn am weithredu ar frys oherwydd risg i ddiogelwch bwyd neu pan fydd gweithredwr y busnes bwyd wedi anwybyddu mesurau cywiro ac mae perygl i iechyd y cyhoedd.

Cyn gynted ag y bydd y swyddog awdurdodedig a gyflwynodd yr Hysbysiad Camau Unioni yn fodlon bod y camau a bennir mewn Hysbysiad Camau Unioni wedi'u cymryd, rhaid tynnu'r hysbysiad yn ôl trwy hysbysiad ysgrifenedig pellach. Yn yr un modd, o ran Hysbysiad Cadw Bwyd, os yw'r Swyddog Awdurdodedig yn fodlon nad oes angen cadw'r bwyd mwyach, rhaid tynnu'r hysbysiad perthnasol yn ei ôl hefyd trwy hysbysiad ysgrifenedig arall.

### 7.3.5 Hysbysiadau Gwahardd Brys Hylendid a Materion Perthnasol

Mae'r adran hon yn ymdrin â defnyddio Gweithdrefnau Gwahardd Brys Hylendid o dan reoliad 8 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, gan gynnwys:

- y Gweithdrefnau Cau Gwirfoddol cysylltiedig;
- gwahardd Personau o dan reoliad 7(4);

- defnyddio Gweithdrefnau Gwahardd Brys o dan adran 12 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 a'r Gweithdrefnau Cau Gwirfoddol cysylltiedig;
- gwahardd Personau o dan adran 11(4) o'r Ddeddf.

Rhaid i Awdurdodau Bwyd barhau i ddefnyddio'r ffurflenni a ragnodir yn Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Gwelliant a Gwahardd – Ffurflenni Rhagnodedig) 1991[26] wrth ddefnyddio pwerau o dan adrannau 11 a 12 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990.

Dylai Hysbysiadau Gwahardd Hylendid Brys a gyflwynir o dan Reoliad 8 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 neu Hysbysiadau Gwahardd Brys a gyflwynir o dan adran 12 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 ond gael eu llofnodi gan swyddogion sydd wedi'u hawdurdodi'n benodol i gyflwyno'r hysbysiadau hyn a bodloni'r gofynion cymhwysedd a nodir ym Mhennod 4.

### 7.3.5.1 Pryd i ddefnyddio Hysbysiadau Gwahardd Hylendid Brys

Oni bai bod y defnydd o weithdrefnau gwirfoddol yn fwy priodol o dan yr amgylchiadau, rhaid defnyddio gweithdrefnau Hysbysiad Gwahardd Hylendid Brys os oes gan swyddog awdurdodedig dystiolaeth bod yr amod risg iechyd yn cael ei gyflawni. Er enghraifft, cyflwr strwythurol gwael iawn a chyfarpar gwael a/neu cynnal a chadw neu trefn lanhau wael a/neu gasgliad difrifol o sbwriel, fethdal neu fater allanol arall, gan arwain at halogiad gwirioneddol o fwyd neu risg sylweddol o halogiad bwyd. Nid yw'r enghraifft hon yn rhagnodol, mae at ddibenion enghreifftiol yn unig.

Mae'r cyflwr risg iechyd yn cael ei ddiffinio gan reoliad 7(2) fel y'i darllenir gyda Rheoliad 8(4) o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 h.y bod risg o anaf i iechyd ar fin digwydd, a lle mae'n rhaid i swyddog awdurdodedig felly ystyried defnyddio pwerau gwahardd o'r fath.

Mae'r Canllaw Ymarfer Cyfraith Bwyd yn darparu enghreifftiau ychwanegol o amgylchiadau a allai ddangos bod yr amod risg iechyd yn bodoli.

Os deuir o hyd i'r dystiolaeth briodol, gellir cyflwyno Hysbysiad Gwahardd Hylendid Brys i weithredwr y busnes bwyd, wedi'i ddilyn gan gais i Lys Ynadon am Orchymyn Gwahardd Hylendid Brys.

#### 7.3.5.1.1 Amodau Risg i Iechyd

Mae amodau risg i iechyd lle gallai gwahardd proses fod yn briodol yn cynnwys:

- Risg ddifrifol o groeshalogi;
- Methu â chyrraedd tymheredd prosesu digon uchel;
- Gweithredu y tu allan i'r meini prawf rheoli critigol, er enghraifft, pH anghywir i gynnyrch a allai ganiatáu i Clostridium botulinum luosi;
- Defnyddio proses ar gyfer cynnyrch sy'n amhriodol ar ei gyfer.

#### 7.3.5.1.2 Amod sy'n risg i iechyd ddim yn bodoli mwyach

[26] http://www.legislation.gov.uk/uksi/27/1991/contents/made

O ran Hysbysiadau Gwahardd Hylendid Brys a Gorchmynion Gwahardd Hylendid Brys rhaid i'r Awdurdod Bwyd roi tystysgrif i'r gweithredwr busnes bwyd o fewn tri diwrnod, os yw'n fodlon nad yw'r amod risg iechyd yn bodoli mwyach.

Os yw’r gweithredwr busnes bwyd yn gwneud cais am y fath dystysgrif, rhaid i’r Awdurdod Bwyd bennu’r sefyllfa cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol a chyn pen cyfnod nad yw’n fwy na phedwar diwrnod ar ddeg. Os yw'r Awdurdod Bwyd yn penderfynu bod yr amod risg i iechyd yn bodoli, mae'n rhaid iddo roi hysbysiad o'r penderfyniad hwnnw i'r gweithredwr busnes bwyd, gan roi rhesymau dros y penderfyniad.

### 7.3.5.2 Gweithdrefnau gwirfoddol (Hylendid Bwyd)

Gellir defnyddio Gweithdrefnau Gwirfoddol i gael gwared ar amod risg i iechyd, wrth ysgogi gweithredwr y busnes bwyd, pan fydd gweithredwr y busnes bwyd yn cytuno bod amod risg iechyd yn parhau i fodoli fel y'i diffinnir gan Reoliad 7(2), â Rheoliad 8(4) h.y. bod risg o anaf i iechyd ar fin digwydd. Gallai swyddog awgrymu'r opsiwn hwn i'r gweithredwr busnes bwyd, ond dim ond pan fyddent fel arall yn gallu rhoi Hysbysiadau Gwahardd Hylendid Brys o dan Reoliad 8. Yn yr amgylchiadau hyn, rhaid cynghori'r gweithredwr busnes bwyd i gymryd cyngor cyfreithiol annibynnol.

Rhaid i unrhyw gytundeb cau gwirfoddol gael ei gadarnhau yn ysgrifenedig gan y gweithredwr neu'r rheolwr busnes bwyd a'r swyddog awdurdodedig, gydag ymrwymiad gan y gweithredwr busnes bwyd neu'r rheolwr i beidio ag ailagor heb gymeradwyaeth y swyddog ymlaen llaw.

#### 7.3.5.2.1 Pryd i ddefnyddio Gweithdrefnau Cau Gwirfoddol (Hylendid Bwyd)

Os yw rheolwr busnes bwyd yn cynnig cau'n wirfoddol, rhaid i'r swyddog gadarnhau bod gan y rheolwr awdurdod y gweithredwr busnes bwyd i gytuno i weithredu gwirfoddol o'r fath.

Rhaid i'r swyddog sicrhau bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal ar y sefydliad i sicrhau nad yw wedi ailagor.

#### 7.3.5.2.2 Pryd i beidio â defnyddio Gweithdrefnau Cau Gwirfoddol (Hylendid Bwyd)

Os yw'r gweithredwr busnes bwyd yn cynnig cau'n wirfoddol, rhaid i'r swyddog ystyried a oes risg i'r sefydliad gael ei ailagor heb wybodaeth a/neu gytundeb y swyddog (pe bai hyn yn achosi gwenwyn bwyd, efallai y byddai'r Awdurdod Bwyd yn cael ei feirniadu am beidio â defnyddio pwerau statudol). Dylai'r swyddog:

- gydnabod nad oes cosb cyfreithiol statudol yn erbyn gweithredwr busnes bwyd sy'n ail-agor busnes ar ôl cynnig cau, er bod camau gorfodaeth ar gyfer yr achosion gwreiddiol o ddiffyg cydymffurfio e.e. bwyd anniogel, prosesu tebyg fel o'r blaen, ac ati, yn parhau i fod ar gael; a,
- esbonio i'r gweithredwr busnes bwyd, trwy gau'n wirfoddol, fod unrhyw hawl i iawndal yn cael ei golli.

### 7.3.5.3 Pryd i ddefnyddio Gweithdrefnau Gwahardd Hylendid yn erbyn person

Pan fydd gweithredwr busnes bwyd/perchennog busnes bwyd yn cael ei ganfod yn euog am dramgwydd perthnasol, gall y swyddog awdurdodedig benderfynu ei bod yn briodol gofyn i'r Llys ystyried gwneud gorchymyn i atal y person hwnnw rhag gweithredu busnes bwyd. Gall amgylchiadau pan fo camau o'r fath fod yn briodol gynnwys troseddau ailadroddus fel methiant i lanhau, methu â chynnal cyfarpar, dim ystyriaeth o risgiau iechyd, neu roi iechyd mewn perygl trwy ddefnyddio bwyd anniogel yn fwriadol.

### 7.3.5.3.1 Camau pan fo Gorchymyn Gwahardd Hylendid wedi'i wneud yn erbyn person

Dim ond os rhoddir gwybod i Awdurdodau Bwyd eraill y gallu Gorchymyn Gwahardd Hylendid a gyhoeddir gan Lys fod yn gwbl effeithiol, gan y gall yr unigolyn perthnasol geisio cychwyn busnes mewn ardal arall.

Rhaid i'r Awdurdod Bwyd roi gwybod i Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd ar ôl i orchymyn gwahardd hylendid gael ei wneud yn erbyn person sy'n gwahardd y person hwnnw rhag rhedeg busnes bwyd, cyn belled nad yw'r Gorchymyn yn destun apêl, ac mae'r cyfnod a ganiateir ar gyfer apêl wedi dod i ben, gan gyflenwi'r wybodaeth ganlynol:

- rhif yr achos;
- manylion y llys;
- dyddiad y gorchymyn gwahardd;
- dyddiad(au)'r troseddu;
- natur y drosedd/troseddau;
- rhif y rheoliad/adran y cyflawnwyd y drosedd oddi tan;
- cosbau;
- enw rheolwr y busnes bwyd neu'r gweithredwr;
- enw'r busnes;
- cyfeiriad y sefydliad busnes bwyd, gan gynnwys cod post;
- math o fusnes/prif weithgaredd (e.e. arlwyo, manwerthu ac ati);
- manylion ffugenwau.

### 7.3.5.3.2 Codi Gorchmynion Gwahardd Hylendid yn erbyn personau

Yr unig ffordd y gall Gorchmynion Gwahardd Hylendid yn erbyn personau a weithredir gan Lys o dan Reoliad 7(4) beidio â bod mewn grym bellach yw, ar gais gan weithredwr y busnes bwyd, mae'r Llys yn rhoi cyfarwyddyd o'r fath, yn unol â darpariaethau Rheoliad 7(8). Dylid nodi na fydd unrhyw gais yn cael ei ystyried o fewn chwe mis i ddyddiad y gorchymyn gwreiddiol**.**

Rhaid i'r Awdurdod Bwyd hefyd hysbysu Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd erbyn y diwrnod gwaith nesaf ar ôl iddynt gael gwybod bod Gorchymyn Gwahardd Hylendid yn erbyn person wedi'i godi yn eu hardal.

### 7.3.6 Gweithdrefnau Deddf Diogelwch Bwyd 1990

Oni bai bod y defnydd o Weithdrefnau Gwirfoddol yn fwy priodol o dan yr amgylchiadau, rhaid defnyddio Gweithdrefnau Hysbysiad Gwahardd Brys os oes gan swyddog awdurdodedig dystiolaeth i nodi bod risg ar fin digwydd i iechyd. Os canfyddir y dystiolaeth briodol, gellir cyflwyno Hysbysiad Gwahardd Brys i'r perchennog o dan Adran 12 o'r Ddeddf. Effaith yr hysbysiad yw cau'r safle yn syth, neu atal y defnydd o'r offer neu'r prosesau. Dylai hyn gael ei ddilyn gan gais i Lys Ynadon am Orchymyn Gwahardd Brys.

#### 7.3.6.1 Pryd i ddefnyddio Gweithdrefnau Hysbysiad Gwahardd Brys (adran 12)

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o amgylchiadau a allai olygu bod risg ar fin digwydd i iechyd, ac felly gall swyddog awdurdodedig ystyried defnyddio pwerau gwahardd. Nid yw’r enghreifftiau hyn yn rhagnodol nac yn gyflawn mewn unrhyw ffordd, ac maent at ddibenion esbonio yn unig.

- Proses neu driniaeth sy'n cyflwyno cemeg teratogenig (un sy'n niweidio ffetws sy'n datblygu yn y groth) i fwyd, a allai achosi anaf i'r ffetws sy'n datblygu, ond na fydd y difrod yn amlwg hyd nes y caiff y babi ei eni;
- Proses neu driniaeth sy'n cyflwyno cemegyn genotocsig (un sy'n niweidio genynnau neu gromosomau) i fwyd, lle mae'n bosibl na fydd yr effeithiau yn dod i'r amlwg hyd nes y bydd plentyn i fam sydd wedi bwyta'r bwyd dan sylw yn datblygu, neu bod tiwmor malaen (*malignant*) yn datblygu yn y dyfodol.

#### 7.3.6.2 Gweithdrefnau Gwirfoddol (Safonau Bwyd)

Gellir defnyddio Gweithdrefnau Gwirfoddol i ddileu risg sydd ar fin digwydd i iechyd, a hynny gan naill ai perchennog neu reolwr y busnes, pan fydd perchennog neu reolwr y busnes yn cytuno bod risg ar fin digwydd i iechyd. Gallai swyddog awgrymu'r opsiwn hwn i'r perchennog neu'r rheolwr, ond dim ond pan fyddent fel arall yn gallu rhoi Hysbysiad Gwahardd Brys o dan Adran 12 Deddf Diogelwch Bwyd 1990. Os oes unrhyw amheuaeth, rhaid hysbysu'r perchennog neu'r rheolwr i gymryd cyngor cyfreithiol annibynnol.

Rhaid i unrhyw gytundeb cau gwirfoddol gael ei gadarnhau yn ysgrifenedig gan y perchennog neu'r rheolwr a'r swyddog awdurdodedig, gydag ymrwymiad gan y perchennog neu'r rheolwr i beidio ag ailagor heb gymeradwyaeth y swyddog ymlaen llaw.

##### 7.3.6.2.1 Pryd i ddefnyddio Gweithdrefnau Cau Gwirfoddol (Safonau Bwyd)

Os yw rheolwr busnes bwyd yn cynnig cau'n wirfoddol, rhaid i'r swyddog gadarnhau bod gan y rheolwr awdurdod y perchennog i gytuno i gamau gwirfoddol o'r fath.

Rhaid i'r swyddog sicrhau bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal ar y sefydliad i sicrhau nad yw wedi ailagor.

#### 7.3.6.2.2 Pryd i beidio â defnyddio Gweithdrefnau Cau Gwirfoddol (Safonau Bwyd)

Os yw perchennog busnes bwyd yn cynnig cau'n wirfoddol, rhaid i'r swyddog ystyried a oes risg y bydd y sefydliad yn cael ei ailagor heb wybodaeth a/neu gytundeb swyddog (pe bai hyn yn achosi gwenwyn bwyd, gallai'r Awdurdod Bwyd wynebu beirniadaeth am beidio â defnyddio pwerau statudol); dylid cydnabod nad oes cosb gyfreithiol statudol yn erbyn perchennog sy'n ailagor busnes ar ôl cynnig cau, er bod camau gorfodi ar gyfer yr achosion o ddiffyg cydymffurfio gwreiddiol e.e. bwyd anaddas, sefydliad nad yw'n lan ac ati, yn dal i fod ar gael; ac esboniwch i'r perchennog, wrth gau yn wirfoddol, maent yn colli unrhyw hawl i iawndal os bydd Llys yn gwrthod gwneud Gorchymyn Gwahardd Brys.

#### 7.3.6.3 Camau pan fo Gorchymyn Gwahardd wedi'i wneud yn erbyn Person

Dim ond os hysbysir Awdurdodau Bwyd eraill y gall Gorchymyn Gwahardd a ddyfernir gan Lys fod yn gwbl effeithiol, gan y gallai'r unigolyn dan sylw geisio cychwyn busnes mewn ardal arall.

Rhaid i'r Awdurdod Bwyd roi gwybod i Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd y diwrnod gwaith nesaf ar ôl cyflwyno Gorchymyn Gwahardd yn erbyn person i'w gwahardd rhag rhedeg busnes bwyd, ar yr amod nad yw'r gorchymyn yn destun apêl ac mae'r cyfnod a ganiateir ar gyfer apêl wedi dod i ben, gan gyflenwi'r wybodaeth ganlynol:

- rhif yr achos;
- manylion y llys;
- dyddiad y gorchymyn gwahardd;
- dyddiad(au)’r troseddu;
- natur y drosedd/troseddau;
- rhif y rheoliad/adran y cyflawnwyd y drosedd oddi tan;
- cosbau;
- enw rheolwr y busnes bwyd neu’r gweithredwr busnes bwyd;
- enw’r busnes;
- cyfeiriad y sefydliad busnes bwyd, gan gynnwys cod post;
- math o fusnes/prif weithgaredd (e.e. arlwyo, manwerthu ac ati);
- manylion ffugenwau (*assumed names*).

#### 7.3.6.3.1 Codi Gorchmynion Gwahardd yn erbyn Personau

Dim ond os yw llys, ar gais gan y perchennog, yn rhoi cyfarwyddwyd o'r fath y gellir dod a Gorchmynion Gwahardd yn erbyn personau, a orfodir o dan Adran 11(4) gan Lys, i ben, yn unol â'r darpariaethau yn Adran 11(8).

Rhaid i'r Awdurdod Bwyd hefyd roi gwybod i Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd erbyn y diwrnod gwaith nesaf ar ôl iddynt ddysgu bod Gorchymyn Gwahardd a wnaed yn erbyn person wedi'i godi yn eu hardal.

### 7.3.7 Atafael a chadw bwyd

Mae'r adran hon yn disgrifio'r amgylchiadau pan fo'r defnydd o bwerau cadw ac atafael o dan adran 9 Deddf Diogelwch Bwyd 1990 yn briodol, gan gynnwys ar ôl ardystio bwyd yn unol â Rheoliad 27 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006. Mae hefyd yn trafod y gweithdrefnau ar gyfer cyflwyno hysbysiadau a'u tynnu'n ôl; ildio'n wirfoddol; a dinistrio neu waredu bwyd.

Rhaid i Awdurdodau Bwyd barhau i ddefnyddio'r ffurflenni a nodir yn Rheoliadau Cadw Bwyd (Ffurflenni Rhagnodedig) 1990 wrth ddefnyddio pwerau o dan adran 9 Deddf Diogelwch Bwyd 1990, gan gynnwys ar ôl ardystio bwyd yn unol â Rheoliad 27 Deddf Hylendid Bwyd (Cymru) 2006.

Dim ond swyddogion sydd wedi'u hawdurdodi'n benodol i atafael a chadw bwyd a ddylid arolygu bwyd a gwneud unrhyw benderfyniad i gadw neu atafael bwyd trwy weithredu Adran 9 Deddf Diogelwch Bwyd 1990 (gan gynnwys yn unol â Rheoliad 27 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006), a dylid cyflwyno'r hysbysiadau priodol a bodloni'r gofynion cymhwysedd a nodir ym Mhennod 4.

O ran rheolaethau swyddogol mewn perthynas â mewnforio bwyd o drydydd gwledydd, mae Rheoliad 31 o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009 yn rhoi'r pŵer i Awdurdodau Cymwys gymryd camau o dan Erthyglau 18 i 21 a 24(3) o Reoliad 882/2004 os cyflawnir yr amodau a osodir yn yr Erthyglau hynny. Mae'r Erthyglau hyn yn ymwneud â chadw, dinistrio, triniaeth arbennig, ailddosbarthu a mesurau priodol eraill mewn perthynas â bwyd a fewnforir o drydydd gwledydd.

#### 7.3.7.1 Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 (Rheoliad 27)

Pan na fydd bwyd wedi cael ei gynhyrchu, ei brosesu neu'i ddosbarthu yn unol â'r "Rheoliadau Hylendid", fel y'u diffinnir yn Rheoliad 2 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, gall swyddog awdurdodedig ddefnyddio Rheoliad 27 (gweler Rheoliad 23 hefyd mewn cysylltiad â hyn) o'r Rheoliadau hynny i atafael y bwyd trwy ddefnyddio adran 9 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990. Yn dilyn yr ardystiad sy'n ofynnol gan Reoliad 27, dylai'r swyddog awdurdodedig ddilyn y cyngor a amlinellir yn y Bennod hon mewn cysylltiad ag adran 9 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990.

Mae tystysgrif enghreifftiol i ardystio, lle y bo'n briodol, nad yw'r bwyd hwnnw wedi'i gynhyrchu, ei brosesu neu ei ddosbarthu yn unol â'r "Rheoliadau Hylendid" i'w ddefnyddio mewn cysylltiad â Rheoliad 27 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 i'w gweld yn y Canllaw Ymarfer Cyfraith Bwyd.

#### 7.3.7.2 Pwerau Penodol ar gyfer Atafael a Chadw ar gyfer Awdurdodau Bwyd

Mae Awdurdodau Bwyd wedi cael pwerau atafael a chadw dan reoliadau penodol. Mae'r rheoliadau hyn wedi'u rhestru yn y Canllaw Ymarfer Cyfraith Bwyd.

Yn ogystal, gall swyddogion sydd wedi'u hawdurdodi'n briodol o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 atafael a chadw bwyd pan mae'r ASB yn rhoi cyfarwyddyd trwy gyfrwng Rhybudd Bwyd, neu pan nodir risg i iechyd trwy ddadansoddi a

hysbysu Awdurdod Bwyd drwy Ddadansoddwr Cyhoeddus, ar yr amod eu bod yn fodlon bod y trothwyon statudol a amlinellir yn Adran 9, fel y bo'n briodol, yn cael eu bodloni e.e. yn achos cadw, mae'n ymddangos nad yw'r bwyd yn cydymffurfio â gofynion diogelwch bwyd.

### 7.3.7.3 Cadw bwyd

Oni bai fod yr amgylchiadau'n gofyn am weithredu ar unwaith, dim ond os yw'r mater wedi'i drafod gyda'r perchennog neu'r person sy'n gyfrifol am y bwyd y dylid penderfynu cadw bwyd ac, os yw'n briodol, gyda'r gweithgynhyrchwr.

Pan fo'r swyddog awdurdodedig wedi cyflwyno Hysbysiad Cadw Bwyd, rhaid defnyddio barn broffesiynol i benderfynu a ddylid cadw'r bwyd yn y fan honno, neu ei symud i rywle arall. Os oes gan y swyddog unrhyw amheuon ynghylch diogelwch neu ofal ffisegol y bwyd, rhaid i'r hysbysiad cadw bennu i ble y dylid symud y bwyd.

Os yw bwyd yn cael ei symud i ardal Awdurdod Bwyd arall, rhaid i'r swyddog hysbysu'r Awdurdod Bwyd hwnnw a gwneud unrhyw drefniadau angenrheidiol ar gyfer gwirio'r bwyd tra'i fod yn cael ei gadw.

Ym mhob achos, ond yn enwedig gyda bwyd sy'n mynd yn ddrwg yn gyflym, rhaid i'r swyddog weithredu'n gyflym ar bob cam a rhoi gwybodaeth lawn i'r rheiny sy'n gorfod dadansoddi neu archwilio samplau o'r bwyd.

Os yw bwyd i'w gadw yn y man mae'n cael ei ganfod, rhaid i'r swyddog awdurdodedig fod yn fodlon y gellir gwneud trefniadau digonol i sicrhau ei fod yn ddiogel ac nad oes unrhyw un yn ymyrryd â'r bwyd.

Rhaid i'r swyddog drefnu bod y bwyd yn cael ei fonitro'n rheolaidd drwy gydol y cyfnod cadw. Cyn gwneud trefniadau o'r fath, dylid ystyried natur y bwyd, swm y bwyd, unrhyw berygl sy'n cael ei beri i iechyd, a phwy sy'n berchen ar y sefydliad lle cedwir y bwyd. Yn gyffredinol, rhaid i'r swyddog osgoi ei adael yng ngofal, neu mewn sefydliad sy'n eiddo i, unrhyw berson a allai gael ei erlyn am drosedd o dan gyfraith bwyd.

### 7.3.7.4 Atafael bwyd

Wrth ystyried a ddylid atafael bwyd sydd wedi'i gadw, rhaid i swyddogion awdurdodedig ystyried a all y bwyd dan sylw gael ei drin neu ei brosesu cyn ei fwyta, ac os felly, a fyddai'r bwyd yn bodloni gofynion diogelwch bwyd ar ôl ei drin neu ei brosesu.

Rhaid i'r swyddog awdurdodedig gytuno ar y trefniadau ar gyfer trin neu brosesu bwyd dan yr amgylchiadau hyn, yn ogystal â'r perchennog neu'r person sy'n rheoli'r bwyd, ac yn destun ymgymeriad ysgrifenedig wedi'i lofnodi.

Rhaid i unrhyw drefniant sy'n cynnwys bwyd yn cael ei symud i ardal Awdurdod Bwyd arall i'w drin neu ei brosesu gael ei dderbyn gan yr Awdurdod Bwyd sy'n cael y bwyd cyn llunio'r cytundeb.

Rhaid gwneud trefniadau i'r Awdurdod Bwyd hwnnw gymryd camau i sicrhau bod y prosesu neu'r driniaeth yn cael ei gynnal, gan gynnwys cyflwyno Rhybudd Cadw Bwyd os yw'n briodol.

Os na fydd yr Awdurdod Bwyd sy'n cael y bwyd yn gallu derbyn cyfrifoldeb am sicrhau bod y bwyd yn cael ei brosesu neu ei drin yn briodol, ni ddylai'r trefniant fynd rhagddo.

Oni bai bod paragraffau blaenorol yr adran hon yn gymwys, neu fod y defnydd o Weithdrefnau Gwirfoddol yn fwy priodol, rhaid atafael bwyd os oes gan swyddog awdurdodedig dystiolaeth nad yw'n bodloni gofynion diogelwch bwyd.

Os yw tystiolaeth yn dangos bod rhaid atafael bwyd sydd eisoes wedi'i gadw, dylai'r swyddog gyflwyno Hysbysiad Condemnio Bwyd yn rhoi rhybudd o'r bwriad i fynd â'r bwyd gerbron Ynad Heddwch a gwneud cais i'w gondemnio.

Rhaid i Ynad Heddwch ymdrin â bwyd sydd wedi'i atafael cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, fel arfer o fewn deuddydd. Fodd bynnag, gellir caniatau rhagor o amser er mwyn sicrhau y gall partïon fod yn bresennol a chael eu cynrychioli pe baent yn dewis gwneud hynny. Rhaid i Ynad Heddwch ymdrin â bwyd sy'n mynd yn ddrwg yn gyflym cyn gynted ag y bo modd.

Rhaid i'r person sy'n gyfrifol am y bwyd neu'r perchennog gael y cyfle i fod yn bresennol a chael eu cynrychioli pe baent yn dewis gwneud hynny pan fo'r Ynad Heddwch yn delio â'r bwyd, er na ddylid gohirio camau gweithredu os na ellir olrhain neu gysylltu â'r perchennog. Mae'n bwysig bod gan y perchennog neu'r person sy'n gyfrifol am y bwyd y cyfle i fod yn bresennol, a rhaid rhoi rhybudd da o'r gwrandawiad a chadw cofnod o hynny i ddangos i'r Llys ei fod wedi digwydd.

Rhaid i'r swyddog awdurdodedig sicrhau parhad y dystiolaeth p'un a fydd erlyniad dilynol ai peidio a rhaid iddo wneud pob ymdrech bosibl i beidio â gadael y bwyd heb ei ddiogelu unwaith y mae'n cael ei atafael.

#### 7.3.7.5 Hysbysiadau Cadw ac Atafael

Rhaid i Hysbysiad Atafael neu Gadw Bwyd gael ei lofnodi gan y swyddog sy'n gwneud y penderfyniad i atafael neu gadw'r bwyd.

Pan gaiff bwyd ei atafael, rhaid rhoi hysbysiad ysgrifenedig o'r atafael cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Rhaid i'r hysbysiad hwn gynnwys manylion o ran math a swm y bwyd sy'n cael ei atafael, gan gynnwys unrhyw farciau, codau, dyddiadau ac ati.

Rhaid rhoi Hysbysiad Condemnio Bwyd i'r person sy'n gyfrifol am y bwyd pan fydd y swyddog yn bwriadu cael Ynad Heddwch i ymdrin â'r bwyd. Lle bo'n bosibl, rhaid rhoi'r hysbysiad i berchennog y bwyd hefyd os yw'n wahanol i'r person wrth y llyw.

#### 7.3.7.6 Hysbysiad Tynnu'r Gorchymyn Cadw Bwyd yn ôl

Rhaid i'r swyddog awdurdodedig weithredu cyn gynted â phosibl pan fo tystiolaeth neu wybodaeth yn dangos bod modd rhyddhau bwyd sydd wedi'i gadw'n ôl, ac mewn unrhyw achos o fewn 21 diwrnod ar ôl i'r bwyd gael ei atafael neu ei gadw. Rhaid cyflwyno Hysbysiad Tynnu'r Gorchymyn Cadw Bwyd yn ôl.

Rhaid i'r penderfyniad i gyhoeddi Hysbysiad Tynnu Cadw Bwyd yn ôl naill ai gael ei wneud gan y swyddog a gyflwynodd yr hysbysiad neu'r camau gweithredu yn

wreiddiol, neu gan swyddog arall sydd â'r profiad a'r cymhwysedd perthnasol.

Mae'n rhaid cyflwyno'r Hysbysiad hwn cyn gynted â phosibl er mwyn atal dirywiad posibl y bwyd. Nid oes gofyn i'r swyddog a wnaeth y penderfyniad gyflwyno'r hysbysiad, gall unrhyw swyddog awdurdodedig ei gyflwyno.

### 7.3.7.7 Ymdrin â Sypiau, Lotiau neu Lwythi Bwyd

Mae Erthygl 14(6) o Reoliad 178/2002 yn pennu lle bydd “unrhyw fwyd sy'n anniogel yn rhan o swp, lot neu lwyth bwyd o'r un dosbarth neu ddisgrifiad, rhagdybir bod yr holl fwyd yn y swp, lot neu lwyth hwnnw'n anniogel hefyd, oni bai bod asesiad manwl yn dangos nad oes unrhyw dystiolaeth fod gweddill y swp, lot neu lwyth yn anniogel”.

Os yw swm o fwyd o wahanol fathau neu sypiau yn cael ei gadw, rhaid i'r swyddog awdurdodedig gyhoeddi Hysbysiad Cadw Bwyd ar wahân mewn perthynas â phob math neu swp.

Wrth ystyried p'un a ddylid atafael neu gadw swp, lot neu lwyth, rhaid i'r swyddog awdurdodedig ystyried y canlynol:

- y dystiolaeth sydd ar gael;
- natur yr halogiad;
- natur a chyflwr unrhyw gynhwysydd sy'n dal y bwyd;
- y risg i iechyd;
- swm y bwyd o dan sylw o ran unrhyw samplu sydd wedi'i gynnal.

### 7.3.7.8 Gweithdrefnau Gwirfoddol

Gellir defnyddio Gweithdrefnau Gwirfoddol i dynnu unrhyw fwyd nad yw'n addas i'w fwyta gan bobl o'r gadwyn fwyd, naill ai drwy berchennog y bwyd neu drwy awgrym y swyddog awdurdodedig pan fo perchennog y bwyd yn cytuno nad yw'r bwyd yn addas i'w fwyta gan bobl.

Rhaid rhoi derbynneb ar gyfer bwyd sy'n cael ei ildio yn wirfoddol i'r Awdurdod Bwyd i'w ddinistrio. Rhaid i'r derbynneb nodi bod y bwyd wedi'i ildio'n wirfoddol i'r Awdurdod Bwyd i'w ddinistrio a'i lofnodi a'i gydlofnodi gan y swyddog awdurdodedig a'r person sy'n ildio'r bwyd yn y drefn honno.

Rhaid i'r derbynneb gynnwys gofod ar gyfer cofnodi amser, lle a dull dinistrio'r bwyd, a rhaid cofnodi'r manylion hyn ar gopi'r swyddfa gan y swyddog awdurdodedig maes o law a'i gadw gan yr Awdurdod Bwyd.

Os na fydd yw'r Awdurdod Bwyd, fel rhan o'r ildio gwirfoddol, yn sicrhau cytundeb gan y perchennog i dalu treuliau dinistrio neu waredu rhesymol, byddai'n rhaid iddo dalu'r treuliau ei hun.

### 7.3.7.9 Dinistrio neu Gael Gwared ar Fwyd

Mae'r Awdurdod Bwyd yn gyfrifol am sicrhau ei fod yn dinistrio neu'n cael gwared ar fwyd sydd wedi'i gondemnio o dan adran 9(6) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 neu wedi'i ildio'n wirfoddol yn briodol, a rhaid gwneud trefniadau i oruchwylio'r bwyd hyd

nes y gellir ymdrin ag ef yn y modd priodol. Os yw'n bosibl ac os yw'n debygol y bydd rhywfaint o oedi cyn ei ddinistrio neu ei waredu, rhaid difetha'r bwyd er mwyn atal unrhyw bosibilrwydd ei fod yn dychwelyd i'r gadwyn fwyd.

Yn achos dinistrio, rhaid i'r Awdurdod Bwyd sicrhau bod y bwyd yn cael ei ddinistrio'n llwyr trwy losgi neu ryw ddull priodol arall. Os nad yw dinistrio'n llwyr yn bosibl, rhaid i'r Awdurdod Bwyd sicrhau ei fod yn cael ei ddifetha rhywfaint fel na all y bwyd fynd i mewn i'r gadwyn fwyd, e.e. trwy fflatio caniau tun i'w gwaredu mewn safle tirlenwi trwyddedig addas, gan roi sylw i ofynion gwastraff perthnasol deddfwriaeth gwaredu.

Rhaid cadw copi o'r hysbysiad trosglwyddo gwastraff a'i gadw ar ffeil ar gyfer unrhyw fwyd a waredwyd gan gontractiwr gwaredu gwastraff trwyddedig o dan y trefniadau hyn.

### 7.3.7.10 Pwerau Gorfodi ar gyfer Bwyd wedi'i Fewnforio

Mae Rheoliad 31 o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009 yn rhoi'r pŵer i Awdurdodau Bwyd weithredu o dan Erthyglau 18 i 21 a 24(3) o Reoliad 882/2004 os cyflawnir yr amodau a osodir yn yr erthyglau hynny. Mae'r Erthyglau hyn yn ymwneud â chadw, dinistrio, triniaeth arbennig, ailddosbarthu a mesurau priodol eraill mewn perthynas â bwyd a fewnforir o drydydd gwledydd. Mae Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009 yn rhoi'r pwerau gorfodi i Awdurdodau Bwyd wrth gyflawni rheolaethau swyddogol ar fwyd nad yw'n dod o anifeiliaid o drydydd gwledydd, naill ai ar y pwynt mynediad neu'n fewndirol.

### 7.3.7.11 Hysbysiadau o dan Reoliadau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009

Mae Rheoliad 32 o'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i swyddogion awdurdodedig gyflwyno hysbysiad i weithredwr y busnes bwyd:

- lle maent yn bwriadu gosod llwyth dan fesurau cadw swyddogol o dan Erthygl 18 neu 19(1) o Reoliad 882/2004;
- lle maent yn bwriadu gweithredu unrhyw un o'r mesurau yn Erthygl 19(1)(a) neu (b) o Reoliad 882/2004, ar ôl clywed gan y gweithredwr sy'n gyfrifol am y llwyth fel yr amlinellir yn Erthygl 19;
- lle maen nhw'n bwriadu cymryd unrhyw gamau y cyfeirir atynt yn Erthygl 19(2).

### 7.3.7.12 Cadw/Atafael mewnforion anghyfreithlon o gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid a ganfyddir yn fewndirol mewn safleoedd y tu allan i reolaeth Tollau.

Pan ddarganfyddir mewnforion anghyfreithlon o gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid yn fewndirol mewn ardal/safle y tu allan i reolaeth Tollau, yr Awdurdodau Cymwys lleol ar gyfer yr ardal honno sy'n gyfrifol am gamau gorfodi.

Pan fo swyddog awdurdodedig yn dymuno cadw unrhyw gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid sydd wedi'u darganfod yn fewndirol er mwyn ymchwilio ymhellach i bennu a ydynt yn ddiogel neu'n cydymffurfio, gellir ceisio cydweithrediad gwirfoddol yn y lle cyntaf. Mewn sefyllfaoedd lle nad yw hyn yn bosibl neu'n amhriodol oherwydd risg, mae yna ddarpariaeth o dan Erthygl 18 o Reoliad (CE) Rhif 882/2004 i swyddog

awdurdodedig gadw'r cynnyrch hyd nes y bydd yr ymchwiliad wedi dod i ben.

Pan fo'r swyddog yn fodlon bod cynnyrch sy'n dod o anifeiliaid wedi'i gyflwyno'n anghyfreithlon (mae archwiliadau mewn Arolygfa Ffin wedi'u hosgoi), rhaid iddynt gymryd camau priodol fel yr amlinellir yn Rheoliad 19 a Rheoliad 20(3) o Reoliadau Masnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Cysylltiedig (Cymru) 2011. Rhaid i'r swyddog atafael y llwyth o gynhyrchion a naill ai:

- sicrhau ei fod yn cael ei ddosbarthu er mwyn ei rendro neu ei losgi fel deunydd categori 1 yn unol â deddfwriaeth sgil-gynhyrchion anifeiliaid perthnasol.

neu

- sicrhau ei fod yn cael ei ailddosbarthu, yn unol â'r dull cludo a ddefnyddiwyd i'w gyflwyno i'r UE yn wreiddiol, i gyrchfan mewn trydydd wlad o fewn chwe deg diwrnod.

Er mai'r Awdurdod Bwyd gorfodi sydd â'r penderfyniad terfynol, yn y rhan fwyaf o amgylchiadau mae'n annhebygol y bydd ailddosbarthu'r cynhyrchion yn briodol neu'n ymarferol. Mae rhagor o ganllawiau ar gael ym Mhecyn Adnoddau'r ASB ar gyfer Gorfodi Rheolaethau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid a Fewnforir yn Fewndirol (a fydd ar gael o fis Awst 2018).

### 7.1.4 Erlyn

Dylai'r penderfyniad i erlyn gael ei wneud ar y cyfle cyntaf posibl.

Cyn penderfynu a ddylid erlyn achos, dylai Awdurdodau Bwyd ystyried nifer o ffactorau.

- P'un a oes digon o dystiolaeth (mae'r prawf ar gyfer hyn wedi'i osod yng Nghod Erlynwyr y Goron).

  Yn benodol, dylid nodi'r canlynol:

  – argyhoeddiad tebygol unrhyw dyst pwysig, a'u parodrwydd i gydweithredu
  – mae'r person neu'r personau cyfrifol honedig wedi cael eu hadnabod;

  – unrhyw esboniad a gynigir gan y sawl a amheuir – pa mor debygol yw hi y bydd y sawl a amheuir yn gallu sefydlu amddiffyniad

  – yn arbennig amddiffyniad diwydrwydd dyladwy.

• P'un a fodlonwyd prawf budd y cyhoedd (unwaith eto, mae'r prawf wedi'i nodi yng Nghod Erlynwyr y Goron). Mae'n rhaid i erlynwyr nodi bod Prawf Budd y Cyhoedd yn amherthnasol oni fodlonir y Prawf Tystiolaethol. Os nad oes tystiolaeth, ni fydd yr un ddadl o blaid budd y cyhoedd yn ddigon i gyfiawnhau erlyn achos, gan y bydd yr Erlynydd eisoes wedi penderfynu ei bod yn fwy tebygol na pheidio y bydd yn methu yn y Llys ar sail y dystiolaeth sydd ar gael.

• Gan ddefnyddio strwythur hierarchaeth gorfodi, p'un a yw erlyniad yn fwy priodol o'i gymharu â defnyddio camau anffurfiol neu hysbysiad gorfodi, er enghraifft. (Fodd bynnag, dylai swyddogion fod yn ymwybodol, os defnyddir Hysbysiad Gwella Hylendid neu rywbeth tebyg, bod hynny hefyd yn fater a all fynd gerbron y Llys, a dylai'r Swyddog fod yn gallu cyfiawnhau ei weithredoedd. Bydd y meini prawf isod o gymorth):

• P'un a yw'r Polisi Gorfodi wedi cael ei ddilyn.

• Pe bai unrhyw gamau eraill, megis rhoi rhybudd yn unol â chyngor y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar Rybuddion Syml i Droseddwyr sy'n Oedolion a gyhoeddwyd ym mis Ebrill

2015, yn fwy priodol.

Mae ffactorau o blaid erlyn yn cynnwys:

- difrifoldeb y drosedd;
- pa mor gyffredin yw'r math hwnnw o drosedd yn yr ardal lle mae wedi cael ei chyflawni (os nad yw'r drosedd ei hun yn ddifrifol);
- collfarnau neu rybuddion blaenorol y sawl dan amheuaeth.
- Mae ffactorau amrywiol yn erbyn erlyn gan gynnwys: Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) – Ebrill 2014 Tudalen 52
- tebygolrwydd o gosb enwol;
- cyflawnwyd y drosedd o ganlyniad i gamgymeriad neu gamddealltwriaeth wirioneddol (mae'n rhaid cydbwyso hyn yn erbyn difrifoldeb y drosedd).

Mae'n bwysig bod y swyddogion awdurdodedig yn briffio eu cynghorwyr cyfreithiol yn llawn ar yr agwedd ar yr achos dan sylw sy'n ymwneud ag iechyd y cyhoedd, gan gynnwys sail iechyd y cyhoedd dros y gofynion cyfreithiol a dorrwyd, fel y gallant, yn eu tro, bwyso ar y Llys pa mor ddifrifol yw'r cyhuddiadau.

Dylai swyddogion esbonio'r rheswm dros ddwyn achos a chofnodi'r rheswm hwnnw. Gellir cyfeirio ato yn nes ymlaen mewn Llys agored.

# Pennod 8 – Materion sy'n Ymwneud â Molysgiaid Dwygragennog Byw

## 8.1 – Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn ymdrin â sefydlu a chynnal grwpiau cyswllt pysgod cregyn lleol. Mae hefyd yn ymdrin â'r angen am ddogfennau cofrestru neu awdurdodiadau cludo parhaol, gwiriadau misol ar ardaloedd ailosod, a chyhoeddi gwybodaeth am ardaloedd gwaharddedig

### 8.1.1 Trefniadau Cyswllt

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sefydlu a chynnal grŵp cyswllt pysgod cregyn mewn ardaloedd lle mae gweithgarwch pysgod cregyn masnachol. Dylai'r grŵp gynnwys cynrychiolwyr o gyrff perthnasol i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chyfnewid yn amserol, gan gyfrannu data a fydd yn cael ei ddefnyddio i lywio penderfyniadau ar fesurau diogelu iechyd priodol. Gall hyn gynnwys pysgotwyr neu gasglwyr pysgod cregyn yn ôl disgresiwn yr Awdurdod Bwyd perthnasol. Mae'n debygol y bydd swyddogaeth y grŵp yn amrywio gan ddibynnu ar y diwydiant pysgod cregyn lleol (cymerwch gip ar adran berthnasol y Canllaw Ymarfer Cyfraith Bwyd).

### 8.1.2 Dogfennau cofrestru: Molysgiaid Dwygragennog Byw

O dan Reoliad (EC) Rhif 853/2004, mae gofyn i bawb sy'n casglu molysgiaid dwygragennog byw (gan gynnwys *Pectinidae*) i'w gosod ar y farchnad gael dogfen gofrestru (oni bai bod ganddynt awdurdodiad cludo parhaol) i nodi pob swp y maen nhw'n ei gynaeafu. Rhaid llenwi'r ddogfen gofrestru ar ôl glanio a dylai deithio gyda'r swp o'r ardal gynaeafu ddosbarthedig (neu yn achos *Pectinidae,* o'r rhan o'r môr y caiff ei gynaeafu) a rhwng sefydliadau, hyd at ac yn cynnwys yr adeg y mae'r swp yn cyrraedd ardal ailosod, canolfan ddosbarthu neu sefydliad prosesu.

Rhaid i Awdurdodau Bwyd roi dogfennau cofrestru o'r fath i gasglwyr cofrestredig, gan gynnwys llongau pysgota sy'n cynaeafu molysgiaid dwygragennog byw (gellir dod o hyd i ffurflen gofrestru enghreifftiol yn y Canllaw Ymarfer Cyfraith Bwyd). Er mwyn gallu monitro'r system ddogfennaeth, rhaid defnyddio rhif unigryw ar y ddogfen a roddir a rhaid rhoi'r rhif cod unigryw i'r cynaeafwr neu'r casglwr cyn iddynt fynd ati i gynaeafu.

Mae'n rhaid i Awdurdodau Bwyd ddarparu dogfennau cofrestru ar gais ac ni allant godi tâl am y dogfennau hynny, ac ni allant wrthod yn afresymol i gyflwyno'r dogfennau i gasglwr.

Mae'n ofynnol i Awdurdodau Bwyd wirio'r manylion a gofnodir ar ddogfen gofrestru pan fo molysgiaid dwygragennog byw yn dod i'r lan.

Rhaid i Awdurdodau Bwyd sy'n rhoi dogfennau cofrestru gadw cofnod o'r holl ddogfennau cofrestru a roddwyd ganddynt am o leiaf blwyddyn. Dylai'r cofnod gynnwys y rhif(au) unigryw a manylion y cynaeafwyr y maent wedi'u dosbarthu iddynt a'r ardaloedd cynhyrchu y mae'r cynaeafwr angen y dogfennau cofrestru ar eu cyfer.

Dim ond gyda chytundeb Awdurdod Bwyd arall y gellir rhoi dogfennau cofrestru i gasglwyr sy'n cynaeafu o fewn ardal Awdurdod Bwyd arall.

Yn yr un modd, anogir Awdurdodau Bwyd sy'n gyfrifol am sefydliadau sy'n cael sypiau o folysgiaid dwygragennog byw o du allan i'w hardal leol gysylltu â'r Awdurdod Bwyd wrth arolygu dogfennau cofrestru.

Mae manylion y gofynion ar gyfer Awdurdodau Bwyd i gymryd samplau microbiolegol i'w gweld yn y Canllaw Ymarfer Cyfraith Bwyd.

Rhaid i weithredwyr busnes bwyd hefyd gadw copïau o ddogfennau cofrestru ar gyfer pob swp a anfonir ac a dderbynnir am o leiaf deuddeg mis ar ôl ei anfon neu ei dderbyn, neu gyfnod hirach fel y nodir gan yr Awdurdod Bwyd.

#### 8.1.2.2 Archwilio Dogfennau Cofrestru

Rhaid i Awdurdodau Bwyd gynnal archwiliadau rheolaidd o ddogfennau cofrestru i wirio eu cywirdeb. Fel arfer, byddai dogfennau'n cael ei harchwilio ac unrhyw samplu dilysu yn cael ei gynnal fel rhan o'r arolygiad o ganolfannau dosbarthu neu buro (gweler adran berthnasol y Canllaw Ymarfer Cyfraith Bwyd) ond gellir ei gynnal ar unrhyw adeg yn ystod y broses gyflenwi.

### 8.1.3 Awdurdodiad Cludo Parhaol

Gall Awdurdod Bwyd roi Awdurdodiad Cludo Parhaol i gasglwyr fel dewis arall i ddogfennau symud ar wahân pan fydd y casglwr hefyd yn gweithredu'r ganolfan buro, yr ardal ailosod neu'r sefydliad prosesu lle mae'r molysgiaid dwygragennog byw yn cael eu dosbarthu. Fodd bynnag, mae'n rhaid i bob sefydliad a weithredir gan y casglwr fod o dan awdurdodaeth un Awdurdod Bwyd.

Wrth benderfynu a ddylid rhoi Awdurdodiad Cludo Parhaol, rhaid i Awdurdod Bwyd ystyried gofynion Rheoliad (CE) Rhif 853/2004, Atodiad III, Adran VII, Pennod 1, paragraff 7. Yn ychwanegol at y rhain, rhaid i hanes cydymffurfio'r gweithredwr â'r ddeddfwriaeth diogelwch bwyd berthnasol a gweithredu gweithdrefnau rheoli fod yn ffactor dylanwadol mewn unrhyw benderfyniad.

Lle nad yw Awdurdod Bwyd yn fodlon bod y gweithredwr yn cydymffurfio â deddfwriaeth hylendid ar ôl rhoi awdurdodiad, gall yr awdurdod ei dynnu'n ôl. Dylid rhoi Awdurdodiad Cludo Parhaol ar gyfer pob gwely casglu pysgod cregyn unigol.

### 8.1.4 Canolfannau Puro

Rhaid prosesu ffurflenni cymeradwyo ar gyfer canolfannau puro newydd, neu ar gyfer addasiadau i ganolfannau sy'n bodoli eisoes, yn unol ag Adran 3.3.6 o'r Cod hwn.

### 8.1.5 Samplu fel rhan o’r arolygiad

Gall arolygiadau o ganolfannau dosbarthu neu buro gynnwys cymryd samplau ar gyfer profion labordy. Rhaid i'r Awdurdod Bwyd ymchwilio i ganlyniadau profion sy'n dangos diffyg cydymffurfio â'r safonau ar gyfer y cynnyrch terfynol.

Os oes angen, dylid cynnal mwy o samplu a phrofion labordy yn yr ardal gynaeafu, yr ardal ailosod, y ganolfan ddosbarthu neu’r ganolfan buro berthnasol i ganfod achos y diffyg cydymffurfio ac unrhyw gamau unioni y mae gofyn eu cymryd.

Lle bo angen, dylai Awdurdodau Bwyd gyfathrebu canlyniadau profion nad ydynt yn cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cynnyrch terfynol i Awdurdodau Bwyd cyfagos sy'n gyfrifol am yr ardal gynaeafu, yr ardal ailosod, neu'r ganolfan buro berthnasol.

Dylai Awdurdodau Bwyd hefyd roi gwybod i weithredwr y ganolfan lle daeth y samplau ohoni am ganlyniadau unrhyw samplau molysgiaid dwygragennog byw. Dylai'r Awdurdod Bwyd hefyd hysbysu'r ASB o ganlyniadau unrhyw samplau a all ddangos amrywiad sylweddol yn ansawdd ardaloedd cynhyrchu neu ardaloedd ailosod.

### 8.1.6 Ardaloedd Ailosod

Cyfrifoldeb yr ASB yw dosbarthu gwelyau molysgiaid dwygragennog ac mae hyn hefyd yn berthnasol i ddosbarthu ardal ar gyfer ailosod molysgiaid dwygragennog byw. Rhaid i’r ardal hon fodloni’r meini prawf angenrheidiol ar gyfer dosbarthu gwelyau molysgiaid dwygragennog. Mae'r weithdrefn a'r meini prawf ar gyfer cymeradwyo a dosbarthu i'w gweld drwy:

https://www.cefas.co.uk/media/52553/classification-protocol-revised-version-07-june-2017-fsa-final.pdf

#### 8.1.6.1 Gwirio Ardaloedd Ailosod

Rhaid i swyddogion awdurdodedig gynnal archwiliadau o leiaf bob mis mewn ardaloedd ailosod er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r amodau ailosod a bennir gan yr ASB. Nodir yr amodau y mae'n rhaid eu bodloni pan fo molysgiaid dwygragennog yn cael eu hailosod mewn ardaloedd ailosod cymeradwy ym Mhennod II o Atodiad II i Reoliad (CE) Rhif 854/2004.

Mae molysgiaid dwygragennog byw sy'n cael eu mewnforio i'w bwyta gan bobl neu eu prosesu yn destun hysbysu a rheoli ar ôl mewnforio. Mae hyn i sicrhau nad ydynt yn cael eu hailosod yn nyfroedd yr UE.

Rhaid i lwythi o folysgiaid dwygragennog byw i'w bwyta gan bobl neu eu prosesu gael eu mewnforio gyda Dogfen Mynediad Milfeddygol Gyffredin (CVED) a bod yn destun gwiriadau milfeddygol mewn arolygfa ffin yr UE. Rhaid cwblhau blychau 33 (derbyniol os yw'n cael ei sianelu) a 37 (manylion cyrchfannau rheoledig) y CVED.

### 8.1.7 Hysbysiadau cau (cau ardaloedd cynaeafu dros dro)

Mae Atodiad II, Pennod II, Adran C.1 o Reoliad (CE) Rhif 854/2004 yn ei gwneud yn ofynnol, lle mae canlyniadau samplu yn dangos nad yw safonau iechyd ar gyfer molysgiaid wedi'u bodloni neu y gallai fod risg i iechyd pobl, mae'n rhaid i'r Awdurdod Bwyd gau'r ardal gynhyrchu dan sylw i atal cynaeafu molysgiaid dwygragennog byw neu, os yw'n briodol, i ail-ddosbarthu'r ardal yn unol â'r Rheoliad.

Mae Atodiad II, Pennod II, Adran E(b) a (c) o Reoliad (CE) Rhif 854/2004 yn y drefn honno, yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Bwyd hysbysu partïon â diddordeb, megis cynhyrchwyr, casglwyr a gweithredwyr canolfannau puro neu ganolfannau dosbarthu, ar unwaith i gau unrhyw ardal, ac i weithredu'n brydlon i gau, ail-ddosbarthu, neu ailagor ardaloedd cynhyrchu. Pan fydd angen cau ardal gynhyrchu, mae'r ASB yn argymell y dylid defnyddio Hysbysiad Cau fel modd i hysbysu partïon â diddordeb; gellir dod o hyd i Hysbysiad Cau enghreifftiol yn y Canllaw Ymarfer Cyfraith Bwyd.

Rhaid i'r Awdurdod Bwyd hefyd roi gwybod i'r ASB ar unwaith a chysylltu â'r ASB ynghylch rhoi Hysbysiad Cau. Gallai cysylltu â'r ASB gynnwys ystyried a ddylid cymryd unrhyw gamau i dynnu unrhyw folysgiaid dwygragennog byw sydd eisoes wedi'u dosbarthu'n lleol neu'n genedlaethol yn ôl o'r farchnad (i gael manylion cyswllt cymerwch gip ar y Canllaw Ymarfer Cyfraith Bwyd).

Rhaid i'r Awdurdod Bwyd sicrhau bod Hysbysiadau Cau, pan cânt eu defnyddio, yn cael eu gwneud yn gyflym, a bod yr holl weithredwyr busnesau bwyd hysbys yn eu hardal, sydd naill ai eisoes â dogfennau cofrestru, neu sydd ag Awdurdodiad Cludo Parhaol (a roddir gan yr Awdurdod Cymwys yn unol ag Atodiad III, Adran VII Pennod 1.7 o Reoliad (CE) Rhif 853/2004), yn cael gwybod am yr Hysbysiad Cau a'i effaith. Gellid gwneud hyn orau trwy anfon copi o'r Hysbysiad at bawb yr ydych chi'n gwybod sydd â diddordeb. Yn ogystal, mae'n rhaid i'r Awdurdod Bwyd arddangos Hysbysiadau Cau mewn man amlwg lle gellir disgwyl i fusnesau bwyd a chasglwyr achlysurol sy'n cynaeafu pysgod cregyn eu gweld.

Dylid rhoi gwybod hefyd i Awdurdodau Bwyd eraill sy'n rhannu awdurdodaeth, a rhaid iddyn nhw yn eu tro gyflawni eu cyfrifoldeb trwy hysbysu, fel y bo'n briodol, gweithredwyr yn eu hardal y mae'r Hysbysiad Cau yn effeithio oarnynt.

Ni all Hysbysiad Cau fod yn gyfyngedig o ran amser. Rhaid i'r Awdurdod Bwyd gysylltu â'r ASB cyn gynted â phosibl mewn perthynas â chynnal samplu ychwanegol o ddyfroedd cynaeafu neu folysgiaid dwygragennog byw, gan y gallai fod angen penderfynu pryd y gall yr ardal ailagor. Rhaid i'r Awdurdod Bwyd dynnu Hysbysiad Cau yn ôl yn syth unwaith y mae'n fodlon y gall cynaeafu ailddechrau yn unol â'r Rheoliad.

Mewn achos lle bydd Awdurdod Bwyd yn penderfynu peidio â defnyddio Hysbysiad Cau i hysbysu partïon â diddordeb, bydd angen iddo fodloni'i hun bod y dull cyfathrebu a ddewiswyd yn bodloni'r gofynion cyfreithiol.

Rhaid i'r Awdurdod Bwyd sicrhau bod yr holl bartïon sydd â diddordeb yn ymwybodol na ddylent gynaeafu yn ystod cyfnod cau. Mae unrhyw berson sy'n torri neu'n methu â chydymffurfio â'r cyfnod cau yn mynd yn groes i delerau Rheoliad 17(1) o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 ac felly yn troseddu.

# ATODIADAU

## Atodiad 1 – Geirfa

| | |
|---|---|
| APHA | Cymdeithas Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd |
| Achos o ddiffyg cydymffurfio | Yn golygu methiant i gydymffurfio ag un neu ragor o ofynion cyfraith bwyd. |
| Allforio | Golygu gweithred anfon neu gludo nwyddau dramor, yn enwedig ar gyfer masnach neu i'w gwerthu y tu allan i'r UE |
| Archwiliad | Yn golygu archwiliad systematig ac annibynnol i benderfynu a yw gweithgareddau a chanlyniadau cysylltiedig yn cydymffurfio â'r trefniadau a gynlluniwyd ac a yw'r trefniadau hyn yn cael eu gweithredu'n effeithiol ac yn addas i gyflawni amcanion. |
| Archwiliwr Bwyd | Mae'r ystyr wedi'i nodi yn adran 30(9) Deddf Diogelwch Bwyd 1990 a Rheoliad 5 Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013 |
| Arolygu | Archwilio unrhyw agwedd ar fwyd anifeiliaid, iechyd anifeiliaid a lles anifeiliaid er mwyn gwirio bod yr agweddau(au) o'r fath yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol y gyfraith bwyd anifeiliaid a bwyd a rheolau iechyd a lles anifeiliaid. |
| ASB | Yr Asiantaeth Safonau Bwyd |
| Awdurdod arolygu | Yr awdurdod bwyd sy'n cyflawni'r ymyriad rheolaeth swyddogol mewn perthynas ag unrhyw sefydliad |
| Awdurdod bwyd | Mae'r ystyr wedi'i nodi yn adran 5(1A) Deddf Diogelwch Bwyd 1990 |
| Awdurdod Cartref | Yn golygu'r awdurdod lle mae sylfaen gwneud penderfyniadau perthnasol y fenter wedi'i leoli |
| Awdurdod Cymwys | Mae'r ystyr wedi'i amlinellu yn Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009 |
| Awdurdod Cymwys Canolog | Mae'r ystyr wedi'i amlinellu yn Rheoliad 882/2004 hwn yw'r Asiantaeth Safonau Bwyd |

| | |
|---|---|
| Awdurdod Gorfodi | Mae'r ystyr wedi'i nodi yn Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 |
| Awdurdod Gwreiddiol | Yn golygu awdurdod yr ardal lle mae'r cynhyrchu bwyd terfynol yn digwydd |
| Awdurdod Iechyd Porthladd | Mae'r ystyr wedi'i nodi yn adran 2 Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 |
| Awdurdod lleol | Mae'r ystyr wedi'i nodi yn adran 270 Deddf Llywodraeth Leol 1972 ond nid yw'n cynnwys Cyngor Cymuned |
| BIS | Yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau |
| BRDO | Y Swyddfa Gwell Rheoleiddio (LBRO gynt) |
| Busnes bwyd | Mae'r ystyr wedi'i nodi yn Rheoliad (CE) 178/2002 – Erthygl 3.2 |
| Cadw gwyliadwriaeth | Cadw llygad ar un neu ragor o fusnesau bwyd neu weithredwyr busnesau bwyd neu'u gweithgareddau. |
| Camau anffurfiol | Yn golygu dwyn sylw gweithredwr busnes bwyd a rhoi cyngor ar ddiffyg cydymffurfio â chyfraith diogelwch bwyd er mwyn gallu cywiro unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn gyflym. |
| Camau ffurfiol | Yn golygu cymryd camau yn erbyn gweithredwr busnes bwyd fel y nodwyd yn y ddeddfwriaeth, gan gynnwys cyflwyno hysbysiad statudol i ddatrys achos o ddiffyg cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, rhoi Rhybudd Syml neu achos cyfreithiol oherwydd torri gofynion cyfreithiol. |
| Categori sgôr risg | Y Categori Risg a roddir i safleoedd yn dilyn arolygiad a sgorio'r safle yn unol â'r Cynllun Sgorio Ymyriadau a'i ddefnyddio i bennu amlder arolygu'r safle |
| CCDC | Ymgynghorydd Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy |
| CCP | Pwynt Rheoli Critigol |
| Cefas | Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu |
| CEN | Pwyllgor Ewropeaidd ar Safoni |
| CIEH | Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd |
| CIM | Hyder mewn Rheolwyr |

| | |
|---|---|
| Cofnodion | Yn golygu gwybodaeth sy'n cael ei chadw'n ysgrifenedig neu mewn modd tebyg. |
| Cofnodion Papur | Yn golygu gwybodaeth sy'n cael ei chadw ar bapur |
| Cofnodion Electronig | Yn golygu bod gwybodaeth yn cael ei chasglu trwy gyfrwng dulliau electronig, ac efallai y bydd cofnod papur wrth gefn neu beidio. Hefyd yn cael ei alw'n gofnod y gellir ei ddanfon gan beiriant. |
| Cosb | Y gosb a osodir gan lys ar euogfarn am dramgwydd o dan ddeddfwriaeth fwyd. |
| CPHM / EH) | Ymgynghorydd mewn Meddygaeth Iechyd y Cyhoedd (Clefydau Trosglwyddadwy/Iechyd yr Amgylchedd) |
| CSHB | Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd |
| Cydymffurfio | Cydymffurfiaeth â gofynion y gyfraith |
| Cyfathrebu electronig | Mae'r ystyr wedi'i amlinellu yn adran 15(1) Deddf Cyfathrebu Electronig 2000 |
| Cymeradwyaeth amodol | Mae'r ystyr wedi'i nodi yn Erthygl 31(2)(d) o Reoliad (EC) Rhif 882/2004 |
| Cymeradwyaeth lawn | Mae'r ystyr wedi'i nodi yn Erthygl 31(2)(d) o Reoliad (CE) Rhif 882/2004 |
| Cynhyrchu Cynradd (Bwyd) | Yn golygu cynhyrchu, magu neu dyfu cynhyrchion cynradd, gan gynnwys cynaeafu, godro a chynhyrchu anifeiliaid sy'n cael eu ffermio cyn eu lladd. Mae hefyd yn cynnwys hela a physgota a chynaeafu cynhyrchion gwyllt fel y'u diffinnir yn Rheoliad (CE) Rhif. 852/2004 |
| Cyrff dyfarnu | Mewn perthynas â'r Cod, y cyrff dyfarnu yw: Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd; Sefydliad Safonau Masnach a; Sefydliad Gwyddor a Thechnoleg Bwyd |
| Dadansoddi Risg | Yn golygu proses sy'n cynnwys tair cydran rhyng-gysylltiedig: asesiad risg, rheoli risg a chyfathrebu risg |
| Dadansoddwr Cyhoeddus | Mae'r ystyr wedi'i nodi yn adran 27 Deddf Diogelwch Bwyd 1990 a rheoliad 4 Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013 |
| DCA | Diploma mewn Materion Defnyddwyr |

| | |
|---|---|
| DCATS | Diploma mewn Materion Defnyddwyr a Safonau Masnach |
| Digwyddiad bwyd | Mae'r ystyr wedi'i nodi ym Mhennod 2.2.1 y Cod hwn |
| Dilysu | Yn golygu tystiolaeth cyn dechrau (neu newid) proses sy'n dangos bod y mesurau rheoli ystyriol (PRPs. OPRPs neu CCPs) yn effeithiol pan gaiff eu cymhwyso'n gywir a byddant yn amddiffyn iechyd pobl |
| Diogelwch | Yn golygu gwrthdroi neu beidio ag achosi anaf, perygl neu golled |
| DPP | Datblygiad Proffesiynol Parhaus |
| DTS | Diploma mewn Safonau Masnach |
| DU | Y Deyrnas Unedig |
| E. coli O157 | Escherichia coli O157 |
| E-bost | Yn golygu'r dull o gyfnewid negeseuon digidol gan awdur i un neu fwy o dderbynwyr |
| EEA | Ardal Economaidd Ewropeaidd |
| EHRB | Bwrdd Cofrestru Iechyd yr Amgylchedd |
| Elfen Sgorio Risg | Un o'r tair elfen, h.y. Risg Posibl, Lefel Cydymffurfiaeth Bresennol a Hyder mewn Rheolwyr sy'n ffurfio'r Cynllun Sgorio Risg a osodwyd yn Atodiad V y Cod |
| Elfennau Risg Cydymffurfio | Diffinnir y rhain yn y System Sgorio Risg Hylendid fel Cydymffurfio Strwythurol, Cydymffurfio Hylendid, Hyder mewn Rheolwyr a Risg Sylweddol |
| Elfennau Risg Cynhenid | Diffinnir y rhain yn y System Sgorio Risg Hylendid fel Peryglon Posibl, Dull Prosesu, Defnyddwyr mewn Perygl a Grwpiau Agored i Niwed |
| Ennill Cydnabyddiaeth | Fframwaith i leihau'r amlder a'r math o reolaethau swyddogol ar fusnesau sy'n dangos cydymffurfiaeth gynaliadwy lle bynnag y bo modd |
| FBO | Gweithredwr Busnes Bwyd |

| | |
|---|---|
| FCATS | Tystysgrif Sylfaen mewn Materion Defnyddwyr a Safonau Masnach |
| FHIS | Cynllun Gwybodaeth am Hylendid Bwyd (Yr Alban) |
| Ffacs | Yn golygu anfon deunydd print wedi'i sganio dros y ffôn (testun a delweddau), fel arfer i rif ffôn sy'n gysylltiedig ag argraffydd neu ddyfais allbynnu arall |
| Fframwaith | Cytundeb Fframwaith ar Orfodi Cyfraith Bwyd gan Awdurdodau Lleol |
| Gallai | Yn cael ei ddefnyddio i nodi'r darpariaethau hynny sy'n ganllawiau yn unig. |
| GIG | Gwasanaeth Iechyd Gwladol |
| Gorchymyn Gwahardd | Mae'r ystyr wedi'i amlinellu yn adran 11 Deddf Diogelwch Bwyd 1990 |
| Gorchymyn Gwahardd at Ddibenion Hylendid | Mae'r ystyr wedi'i nodi yn Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 |
| Gorchymyn Gwahardd Brys | Mae'r ystyr wedi'i nodi yn adran 12 Deddf Diogelwch Bwyd 1990 |
| Gorchymyn Rheolaeth Frys | Mae'r ystyr wedi'i nodi yn adran 13 Deddf Diogelwch Bwyd 1990 |
| Gweithredwr Busnes Bwyd | Mae'r ystyr wedi'i nodi yn Rheoliad (CE) 178/2002 – Erthygl 3.3 |
| Gwirio | Yn golygu gweithgaredd cyfnodol i ddangos bod y canlyniad a ddymunir yn cael ei gyflawni. |
| HACCP | Dadansoddi Peryglon a Phwyntiau Rheoli Critigol |
| HCATS | Diploma Uwch mewn Materion Defnyddwyr a Safonau Masnach |
| HPA | Yr Asiantaeth Diogelu Iechyd |
| HPA CDSC | Canolfan Goruchwylio Clefydau Trosglwyddadwy y HPA |
| Hylendid | Yn golygu'r mesurau a'r amodau sy'n angenrheidiol i reoli peryglon ac i sicrhau bod bwyd yn addas i'w fwyta gan bobl gan ystyried y defnydd a fwriadwyd ar gyfer y bwyd. |
| Hysbysiad Cadw | Mae'r ystyr wedi'i nodi yn Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 |

| | |
|---|---|
| Hysbysiad Camau Unioni | Mae'r ystyr wedi'i nodi yn Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 |
| Hysbysiad ffurfiol | Yn golygu hysbysiad fel y'i diffinnir yn y gwahanol Ddeddfau Seneddol neu offerynnau statudol sy'n ymwneud â chyfraith bwyd |
| Hysbysiad Gwahardd Brys (Hylendid) | Mae'r ystyr wedi'i nodi yn Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 |
| Hysbysiad Gwella | Mae'r ystyr wedi'i nodi yn adran 10 Deddf Diogelwch Bwyd 1990 |
| Hysbysiad Gwella Hylendid | Mae'r ystyr wedi'i nodi yn Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 |
| IFST | Sefydliad Gwyddor a Thechnoleg Bwyd |
| IMS | Cynllun Rheoli Gwybodaeth |
| Labordy Rheoli Swyddogol | Yn golygu labordy wedi'i achredu at ddibenion dadansoddi, ac sy'n ymddangos ar y rhestr o labordai rheoli bwyd swyddogol |
| LAEMS | System Monitro Gwaith Gorfodi Awdurdodau Lleol |
| LBRO | Swyddfa Gwell Rheoleiddio Lleol (BRDO erbyn hyn) |
| LGA | Cymdeithas Grwp Llywodraeth Leol |
| Llofnod | Yn golygu cael llofnod wedi'i osod naill ai'n ysgrifenedig neu drwy ddulliau electronig |
| Llofnod Electronig | Mae'r ystyr wedi'i nodi yn adran 7(2) Deddf Cyfathrebu Electronig 2000 |
| MCA | Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau |
| Mewnforio | Yn golygu'r weithred lle mae nwyddau a/neu wasanaethau yn dod o wlad arall y tu allan i'r UE |
| Monitro | Yn golygu cynnal trefniant o arsylwadau neu fesuriadau gyda'r bwriad o gael trosolwg o gyflwr cydymffurfio â chyfraith bwyd anifeiliaid neu gyfraith bwyd, iechyd anifeiliaid a lles anifeiliaid. |
| MoU | Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth |
| OFT | Y Swyddfa Masnachu Teg |
| PARNUTS | Bwydydd a fwriedir ar gyfer defnydd maethol penodol |

| | |
|---|---|
| Person Rheoledig | Mae'r ystyr wedi'i nodi yn adran 22A Deddf Gorfodi Rheoleiddio a Sancsiynau 2008 |
| Perygl | Unrhyw beth sy'n gallu achosi niwed |
| Perygl bwyd | Mae'r ystyr wedi'i nodi ym Mhennod 2.3.1 y Cod hwn |
| Prif Awdurdod | Mae'r ystyr wedi'i amlinellu yn Rhan 2 Deddf Rheoleiddio Gorfodi a Sancsiynau 2008 |
| PTA | Awdurdodi trafnidiaeth parhaol |
| RAF | Llu Awyr Brenhinol |
| REHIS | Sefydliad Brenhinol Iechyd Amgylchedd yr Alban |
| Risg | Y siawns neu'r tebygolrwydd y bydd person yn cael ei niweidio neu'n profi effaith iechyd andwyol os yw'n agored i berygl |
| RN | Y Llynges Frenhinol |
| Rhaid/Mae'n rhaid | Yn cael ei ddefnyddio i nodi'r darpariaethau hynny sy'n orfodol at ddibenion cydymffurfio â'r Cod hwn |
| Rheolaethau Swyddogol | Yn golygu unrhyw fath o reolaeth gan yr awdurdod cymwys ar gyfer dilysu cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd anifeiliaid a bwyd, rheolau iechyd anifeiliaid a lles anifeiliaid fel y'u nodir yn Erthygl 2(1) o Reoliad (EC) Rhif. 882/2004 |
| Rheoleiddiwr Dynodedig | Mae'r ystyr wedi'i amlinellu yn adran 37(1) fel y'i darllenir gydag Atodlen 5 Deddf Gorfodi a Chosbau Rheoleiddiol 2008. Yr ASB yw'r Rheoleiddiwr Dynodedig ar gyfer bwyd. |
| Rheoliad 27 | Yn golygu Tystysgrif a roddir o dan reoliad 27 Hylendid Bwyd |
| Rhybudd Bwyd | Mae'r ystyr wedi'i nodi ym Mhennod 2.2.2 y Cod hwn |
| Rhybudd Syml | Mae'r ystyr wedi'i nodi yn nodyn canllaw y Weinyddiaeth Gyfiawnder: “Rhybuddion Syml i Droseddwyr sy'n Oedolion” |
| RPA | Yr Asiantaeth Taliadau Gwledig |
| Safle Domestig | Yn golygu tŷ annedd neu adeilad arall a ddefnyddir yn bennaf, ond nid yn gyfan gwbl, fel annedd, a'i gwrtil; |


| | |
|---|---|
| Safonau | Yn golygu rheolau neu egwyddorion a ddiffinnir yn y gyfraith diogelwch bwyd fel sail ar gyfer dyfarniad |
| Samplu | Dulliau sy'n cymryd bwyd anifeiliaid neu fwyd neu unrhyw sylwedd arall (gan gynnwys yr amgylchedd) sy'n berthnasol i gynhyrchu, prosesu a dosbarthu bwyd anifeiliaid neu fwyd neu i iechyd anifeiliaid, er mwyn gwirio cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd anifeiliaid neu fwyd neu reolau iechyd anifeiliaid drwy ddadansoddi. |
| Sancsiwn / Cosb | Y ddarpariaeth o fewn deddfwriaeth i gymryd camau cosbi am fethu â chydymffurfio â darpariaethau'r ddeddfwriaeth |
| Sefydliad | Nid yw "Sefydliad" yn golygu "safle" yn unig, ond mae'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'r busnes sy'n meddiannu'r sefydliad ("mae sefydliad yn dynodi safle a'r modd y mae'r gweithredwr busnes bwyd yn defnyddio'r safle honno") |
| Sefydliad Cymeradwy | Yn golygu safleoedd sydd wedi'u cymeradwyo o dan Reoliad (CE) Rhif. 853/2004 ar gyfer trin, paratoi neu gynhyrchu cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid |
| Sefydliad Symudol | Yn golygu safleoedd heblaw safleoedd parhaol, ac mae "safleoedd symudol perthnasol" yn golygu safleoedd symudol, a ddefnyddir ar gyfer cludo neu baratoi bwyd neu fanwerthu bwyd am bum diwrnod neu fwy, boed yn olynol ai peidio, mewn unrhyw gyfnod o bum wythnos yn olynol, heblaw:<br><br>a. cerbydau modur sy'n cael eu hadeiladu'n unig at ddibenion cario dim mwy na 8 o deithwyr (gan gynnwys y gyrrwr) a'u heiddo personol,<br>b. pebyll, neu<br>c. safleoedd symudol sydd fel arfer yn cael eu cadw y tu allan i Brydain Fawr |
| SFBB | Bwyd Mwy Diogel, Busnes Gwell |
| SFSORB | Bwrdd Cofrestru Swyddogion Diogelwch Bwyd yr Alban |
| SIMS | System sy'n Rheoli Arolygiadau Llongau |
| Swyddogion Awdurdodedig | Mae'r ystyr wedi'i amlinellu yn Adran 5(6) Deddf Diogelwch Bwyd 1990 |

| | |
|---|---|
| Trydedd Wlad | Wedi'i bennu ym Mhennod V o Reoliad (CE) Rhif 882/2004 |
| TSI | Y Sefydliad Safonau Masnach |
| Tystiolaeth | Data modd (*means data*) a gyflwynir i lys neu reithgor sydd yn brawf o'r ffeithiau dan sylw ac a allai gynnwys tystiolaeth tystion, cofnodion, dogfennau neu wrthrychau – Nid yw hyn ar gyfer achosion erlynyn unig |
| Tystysgrif | Rheoliadau (Cymru) 2006 nad yw'r bwyd wedi'i gynhyrchu, ei brosesu na'i ddosbarthu yn unol â'r rheoliadau hylendid. |
| UE | Yr Undeb Ewropeaidd |
| UKAS | Gwasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig |
| UKFSS | System Arolygu Bwyd y DU |
| VTEC | Verocytotoxin sy'n cynhyrchu *Escherichia coli* |
| Wedi'i ffacsio | Yn golygu tudalen argraffedig neu ddelwedd a drosglwyddir neu a dderbynnir gan beiriant ffacs |
| Ymchwiliad | Yn golygu'r camau a gymerwyd gan yr awdurdod cymwys i gasglu tystiolaeth lle mae'n credu bod trosedd wedi digwydd |
| Ymyriadau Rheolaethau Swyddogol | Yn golygu arolygiadau, monitro, gwyliadwriaeth, dilysu, archwilio a samplu (lle mae'r dadansoddiad/archwiliad i'w gynnal gan Labordy Swyddogol) |
| Ymyrriad | Yn golygu camau rheoleiddiol a gymerir gan lywodraeth er mwyn effeithio ar neu ymyrryd â phenderfyniadau a wneir gan unigolion, grwpiau neu sefydliadau sy'n ymwneud â materion cymdeithasol ac economaidd |
| Yn cydymffurfio'n i raddau helaeth (Hylendid) | Sefydliad sydd â sgôr ymyrryd o ddim mwy na deg pwynt o dan bob un o'r tair rhan ganlynol o Bennod 5, Rhan 2 Lefel o Gydymffurfio (Gyfredol) – Hylendid a Lefel o Gydymffurfiaeth (Gyfredol) – Strwythur; a Rhan 3: Hyder mewn Rheolwyr. |

| | |
|---|---|
| Yn cydymffurfio'n i raddau helaeth (Safonau) | Sefydliad sydd â sgôr ymyrryd o ddim mwy na deg pwynt o dan bob un o'r rhannau canlynol o Bennod 5, Rhan 2 Lefel o Gydymffurfio (Gyfredol); a Rhan 3, Hyder mewn Rheolwyr/Systemau Rheoli |

## Atodiad 2 – Diagram Llif Digwyddiadau Bwyd

(gweler adran 2.2 a https://www.food.gov.uk/cy/about-us/awdurdodau-lleol)



# Atodiad 3 – Ffurflen Rhoi Gwybod am Ddigwyddiad Bwyd/Bwyd Anifeiliaid (Awdurdodau Bwyd)

## Ffurflen Rhoi Gwybod am Ddigwyddiad Bwyd/Bwyd Anifeiliaid

**Dylid rhoi gwybod am ddigwyddiadau bwyd a bwyd anifeiliaid i'r ASB ar-lein drwy: http://incidents.foodapps.co.uk/IncidentReportForm/login.aspx**

**Os nad oes modd rhoi gwybod ar-lein, dylai'r Swyddog/Cynrychiolydd Ymchwilio lenwi'r ffurflen a'i chyflwyno i'r cyswllt priodol yn yr ASB:**

| | |
|---|---|
| **Yng Nghymru** | wales.foodincidents@food.gov.uk<br><br>**Ffôn:029 2067 8961 neu du allan i oriau 07889 926 573**<br><br>**Ffacs: 029 2067 8918** (dim ond pan na allwch e-bostio neu gyflwyno ar-lein a thrwy gytundeb ymlaen llaw gyda'r ASB) |
| **Yn Lloegr:** | foodincidents@food.gov.uk<br><br>**Ffôn: 020 7276 8448**<br><br>**Ffacs: 020 7276 8788** (dim ond pan na allwch e-bostio neu gyflwyno ar-lein a thrwy gytundeb ymlaen llaw gyda'r ASB |
| **Yng Ngogledd Iwerddon** | incidents.ni@food.gov.uk<br><br>**Ffôn: 028 9041 7700 neu du allan i oriau 07884 473 022**<br><br>**Ffacs: 028 9041 7728** (dim ond pan na allwch e-bostio neu gyflwyno ar-lein a thrwy gytundeb ymlaen llaw gyda'r ASB) |

**1. Enw a chyfeiriad yr Awdurdod Cymwys sy'n rhoi gwybod:**

| |
|---|
| |

**2. Enw'r Swyddog, gan gynnwys rhif ffôn, rhif ffacs a chyfeiriad e-bost:**

| | |
|---|---|
| **Enw'r swyddog sy'n rhoi gwybod** | |
| **Manylion cyswllt (oriau busnes)** | **Ffôn:**<br><br>**E-bost:**<br><br>**Ffacs:** |
| **Manylion cyswllt**<br><br>**(tu allan i oriau busnes)** | **Ffôn:**<br><br>**E-bost:** |

**3. Dyddiad ac amser daeth yr wybodaeth i law'r Awdurdod Cymwys gyntaf:**

**4. Enw'r unigolyn a gafodd yr wybodaeth yn wreiddiol:**

**5. Wedi'i chael gan (cofiwch gynnwys Awdurdod Lleol, awdurdod diogelu iechyd ac ati, cyfeiriad, rhif ffôn ac enw cyswllt lle bo modd):**

**6. Dull (ffôn/ffacs/llythyr/arall):**

**7. Disgrifiad byr o'r digwyddiad:**

**8. Math o halogiad:**

**9. Disgrifiad o'r cynnyrch:**

**Math o gynnyrch:**

**Enw'r cynnyrch:**

**Enw'r brand:**

**Cod swp (*batch code*):**

**Disgrifiad o'r deunydd pecynnu:**

**Maint y pecyn neu becynnau:**

**Dyddiadau neu godau yn ymwneud â pharhad (*durability*):**

**Gwlad tarddiad:**

**Mewnforiwr/dosbarthwr yn y Deyrnas Unedig (gan gynnwys manylion cyswllt):**

**Gweithgynhyrchwr (gan gynnwys manylion cyswllt):**

**10. A yw wedi arwain at unrhyw salwch clinigol? Os felly, nodwch y manylion (math o salwch, symptomau, nifer y defnyddwyr yr effeithiwyd arnynt ac ati):**

**11. Manylion dosbarthu llawn (gan gynnwys yr Undeb Ewropeaidd a thrydydd gwledydd) e.e. niferoedd/ardaloedd, a lle rhoddwyd y cynnyrch/swp dan sylw ar y farchnad gyntaf:**

**12. A yw'r gweithgynhyrchwr/manwerthwr/cyflenwr yn ymwybodol o'r digwyddiad? Os felly, sut maen nhw'n bwriadu delio â'r mater?**

**13. Asesiad o berygl (nodwch):**

| | |
|---|---|
| **Lleol** | **Manwerthu** |
| **Rhanbarthol** | **Arlwyo** |
| **Gweithgynhyrchu** | **Cenedlaethol** |
| **Rhyngwladol** | **Mewnforio/Allforio** |

**14. Manylion cyswllt perthnasol eraill (e.e. awdurdod cartref a/neu awdurdod gwreiddiol/arall) Cofiwch gynnwys enw, cyfeiriad, rhif ffôn, rhif ffacs a chyfeiriad e-bost:**

**15. A oes unrhyw gamau gorfodi wedi'u cymryd eisoes? Er enghraifft, a oes unrhyw samplau wedi'u cymryd i'w harchwilio neu ddadansoddi, neu unrhyw hysbysiadau dal bwyd (*detention notices*) wedi'u rhoi neu fwyd wedi'i atafael (seize)? Anfonwch e-bost gydag unrhyw adroddiadau labordy neu hysbysiadau dal bwyd ac ati i'r ASB gyda'r ffurflen hon, neu cyn gynted â phosibl wedi hynny.**

**16. A yw'r wasg wedi dangos unrhyw ddiddordeb? Do/Naddo**

**Os oes unrhyw ddatganiad i'r wasg wedi'i gyhoeddi, anfonwch at yr ASB gyda'r ffurflen hon.**

**17. Unrhyw wybodaeth ychwanegol: Mae croeso i chi gynnwys tudalennau ychwanegol os oes angen.**

| |
|---|
| |

| | |
|---|---|
| **Llofnodwyd:** | |
| **Dyddiad:** | |
| **Teitl Swydd:** | |

# Atodiad 4 – Cofrestru Sefydliad Busnes Bwyd (Ffurflen Gais Enghreifftiol)

**Cais i Gofrestru Sefydliad Busnes Bwyd**

(Rheoliad (CE) Rhif 852/2004 ar hylendid bwydydd, Erthygl 6(2))

Dylai gweithredwyr busnesau bwyd lenwi'r ffurflen hon mewn perthynas â sefydliadau busnes bwyd newydd a'i chyflwyno i'r Awdurdod Bwyd perthnasol 28 diwrnod cyn i weithrediadau bwyd ddechrau. Ar sail y gweithgareddau a gyflawnir, mae'n ofynnol i rai sefydliadau busnes bwyd gael eu cymeradwyo yn hytrach na'u cofrestru. Os nad ydych yn sicr a yw'n ofynnol cymeradwyo unrhyw agwedd ar weithrediadau bwyd eich sefydliad chi, cysylltwch â [enw'r Awdurdod Bwyd] i gael cyngor.

**1. Cyfeiriad y sefydliad** ____________________
(neu'r cyfeiriad lle cedwir y sefydliad symudol)
____________________ **Cod post** __________

**2. Enw masnachu busnes bwyd**___**Rhif ffôn** __________

**3. Enw llawn y gweithredwr/gweithredwyr busnes bwyd** ____________________
(neu'r cwmni cyfyngedig os yw'n berthnasol)

**4. Cyfeiriad prif swyddfa'r gweithredwr busnes bwyd** ____________________
(os yw'n wahanol i gyfeiriad y sefydliad)
____________________ **Cod post** __________

**Rhif ffôn**______**E-bost** __________

**5. Math o weithgaredd bwyd** (Ticiwch BOB blwch sy'n berthnasol)

| | | | |
|---|---|---|---|
| Bwyty staff/ffreutur/cegin | □ | Ysbyty/cartref preswyl/ysgol | □ |
| Manwerthwr (gan gynnwys siop fferm) | □ | Dosbarthu/warysau | □ |
| Bwyty/caffi/bar byrbryd | □ | Gweithgynhyrchu/prosesu bwyd | □ |
| Marchnad/Stondin marchnad | □ | Mewnforiwr | □ |
| Tecawê | □ | Arlwyo | □ |
| Gwesty/tafarn/tŷ llety | □ | Pecynnwr | □ |
| Tŷ preifat a ddefnyddir ar gyfer busnes bwyd | □ | Sefydliad symudol e.e. fan hufen iâ | □ |
| Cyfanwerthu/talu a chludo | □ | Cynhyrchydd cynradd – da byw | □ |
| Brocer Bwyd | □ | Cynhyrchydd cynradd -– âr | □ |

Arall (rhowch fanylion):

**6. Os mai busnes newydd yw hwn, y dyddiad yr ydych yn bwriadu agor ____________________**

**Llofnod y gweithredwr busnes bwyd__Dyddiad: _______________**

**Enw: ____________________________________________**
(Llythrennau Bras)

> **Ar ôl cyflwyno'r ffurflen hon, mae'n rhaid i weithredwyr busnesau bwyd roi gwybod am unrhyw newidiadau sylweddol i'r gweithgarwch a nodir uchod (gan gynnwys cau'r busnes) i'r Awdurdod Bwyd. Dylent wneud hynny o fewn 28 diwrnod i'r newid(iadau).**

# Atodiad 5 – Cynlluniau Sgorio Ymyriadau'r Sefydliad Bwyd

## A5.1 System Sgorio Hylendid Bwyd Rhan

### 1: Y perygl posibl

Mae tri ffactor yn pennu'r perygl posibl:

### A. Y math o fwyd a'r dull trin a thrafod

| Sgôr | Arweiniad ar y system sgorio |
|---|---|
| **40** | Cynhyrchwyr bwyd risg uchel (gan gynnwys y rhai sy'n destun cymeradwyaeth o dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004), cyfanwerthwyr, a rheiny sy'n ail-lapio neu ail-becynnu bwydydd risg uchel. Yn y cyd-destun hwn, gellir ystyried bwydydd risg uchel fel bwydydd sy'n cynnal twf micro-organebau, a/neu y bwriedir eu bwyta heb driniaeth bellach a allai ddinistrio micro-organebau pathogenig neu eu tocsinau. |
| **30** | Paratoi, coginio neu drin a thrafod bwydydd risg uchel agored gan arlwywyr a manwerthwyr, ac eithrio arlwywyr sy'n paratoi llai nag 20 pryd ar ddiwrnod unigol (gweler isod). |
| **10** | Paratoi, coginio neu drin a thrafod bwydydd risg uchel agored gan arlwywyr bach sy'n gweini llai nag 20 pryd bwyd ar ddiwrnod unigol;<br>Trin a thrafod bwydydd risg uchel wedi'u pecynnu ymlaen llaw; Cyfanwerthwyr a dosbarthwyr eraill nad ydynt wedi'u cynnwys yn y categorïau uchod;<br>Gweithgynhyrchu neu becynnu bwydydd heblaw am fwydydd risg uchel;<br>Sefydliadau sy'n ymwneud â ffiledu, halltu neu mygu pysgod yn oer i'w manwerthu i'r defnyddiwr terfynol. |
| **5** | Trin a thrafod bwydydd gan fanwerthwyr heblaw am fwydydd risg uchel, fel ffrwythau, llysiau, cynhyrchion mewn caniau a chynhyrchion silff sefydlog.<br>Unrhyw fusnesau eraill nad ydynt wedi'u cynnwys yn y categorïau uchod. |

| **Sgôr:** | |
|---|---|

**B. Dull prosesu**

Dylid rhoi sgôr ychwanegol o dan yr adran hon i sefydliadau sy'n defnyddio dull prosesu penodol (gan gynnwys y rheiny sy'n ymestyn oes silff y cynnyrch) a allai gynyddu'r risg i iechyd y cyhoedd tu hwnt i'r risg arferol sy'n gysylltiedig â choginio neu storio. Fodd bynnag, dim ond unwaith y gellir dyrannu'r sgôr honno h.y. 20 yw'r sgôr uchaf y gellir ei rhoi o dan yr adran hon.

| Sgôr | Arweiniad ar y system sgorio |
|---|---|
| **20** | Yr egwyddor bwysicaf i'w hasesu yw p'un a yw'r broses ei hun yn creu risg gynyddol a/neu'r bwriad yw cynyddu oes silff y cynnyrch trwy roi'r broses ar waith.<br><br>Isod, ceir rhestr o'r mathau o ddulliau prosesu y dylid rhoi sgôr ychwanegol o 20 ar eu cyfer. Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn. Bydd angen i'r swyddogion awdurdodedig benderfynu ar ddulliau prosesu eraill nad ydynt wedi'u rhestru isod.<br><br>• Canio neu ddulliau aseptig eraill o becynnu bwyd asid isel;<br>• Pecynnu dan wactod;<br>• Coginio *sous-vide*;<br>• Gweithgynhyrchu bwyd sydd wedi'i goginio/oeri, h.y. prydau neu fwydydd wedi'u coginio a'u paratoi neu fwydydd y gellir eu bwyta'n oer neu ar ôl eu hailgynhesu. (Mae ailgynhesu prydau coginio-oeri yn syml wedi'i eithrio rhag cwmpas y paragraff hwn);<br>• Eplesu cigoedd e.e. i gynhyrchu salami a selsig eraill wedi'u heplesu;<br>• Aer sychu e.e. ham wedi'i sychu, biltong, jerky;<br>• Sychu drwy rewi;<br>• Ychwanegu halen a/neu sylweddau cyffeithio eraill;<br>• Coginio ac oeri cynhyrchion cig cyn eu gweini e.e. cynhyrchu ham gan fanwerthwyr, gan gynnwys cigyddion;<br>• Sefydliadau sy'n gweithgynhyrchu, yn paratoi neu'n gweini bwyd sy'n dod o anifeiliaid sy'n barod i'w fwyta heb ei goginio neu wedi'i goginio'n ysgafn, y mae ei natur yn achosi perygl diogelwch bwyd microbiolegol gweddilliol. Bwriad hyn yw cynnwys arlwywyr/gweithgynhyrchwyr sy'n cynhyrchu bwyd megis stêc 'tartare' a phrydau cig amrwd eraill, carpaccio pysgod a chig, mathau o sushi neu sashimi, ceviche a byrgyrs nad ydynt wedi'u coginio'n drylwyr. |
| **0** | Unrhyw achos arall nad yw wedi'i gynnwys uchod. |

| **Sgôr:** | |
|---|---|

**C.** **Defnyddwyr sy'n wynebu risg**

Nifer y defnyddwyr sy'n debygol o wynebu risg os bydd y gweithdrefnau hylendid a diogelwch bwyd yn methu.

| Sgôr | Arweiniad ar y system sgorio |
|---|---|
| **15** | Busnesau bwyd sy'n ymwneud â gweithrediadau gweithgynhyrchu, dosbarthu, pecynnu neu lapio bwyd sy'n cael ei gyflenwi'n genedlaethol neu'n rhyngwladol. |
| **10** | Busnesau sy'n gwasanaethu nifer sylweddol o gwsmeriaid gan gynnwys cyfran sylweddol o du allan i'r ardal leol e.e. archfarchnad enfawr, hyperfarchnad, arlwywr maes awyr, arlwywr ardal wasanaethau ar y draffordd;<br>Gweithgynhyrchwyr nad ydynt yn cael eu cynnwys yn y categori uchod. |
| **5** | Busnesau, y mae'r rhan fwyaf o'u cwsmeriaid yn debygol o fod yn byw, yn aros neu'n gweithio yn yr ardal leol, e.e. archfarchnad neu siop, siop hwylus leol neu fwyty ar y stryd fawr neu'r bwyty lleol. |
| **0** | Busnesau sydd fel rheol yn cyflenwi llai nag 20 o ddefnyddwyr y dydd. |

| **Sgôr:** | |
|---|---|

**<u>YN OGYSTAL</u>**

Dylid cynnwys sgôr **<u>ychwanegol</u>** o 22 (yn ychwanegol at y sgôr uchod) ar gyfer sefydliadau sy'n cynhyrchu neu weini bwyd **yn benodol** i'w fwyta gan bobl sy'n debygol o gynnwys grŵp risg bregus o fwy na 20 o bobl.

Yn y cyd-destun hwn, grwpiau sy'n agored i niwed yw'r bobl sy'n debygol o fod yn fwy agored i effeithiau salwch sy'n deillio o hylendid bwyd gwael fel y rheiny sydd dan 5 oed neu'n hŷn na 65 oed, pobl sydd eisoes yn sâl neu sydd â phroblemau imiwnedd.

| Sgôr | Arweiniad ar y system sgorio |
|---|---|
| **22** | Cynhyrchu a/neu weini bwyd risg uchel mewn sefydliadau lle mae'r bobl a fydd y bwyta'r cynnyrch yn y pen draw yn cynnwys grŵp o fwy nag 20 o bobl sy'n agored i niwed. |
| **0** | Unrhyw achos arall nad yw wedi'i gynnwys uchod. |

| **Sgôr:** | |
|---|---|

**Rhan 2:** **Lefel gydymffurfio (gyfredol)**

Dylid asesu gweithdrefnau hylendid a diogelwch bwyd (gan gynnwys arferion a gweithdrefnau trin a thrafod bwyd, a rheoli tymheredd) a strwythur y sefydliad (gan gynnwys glendid, cynllun, cyflwr y strwythur, goleuadau, awyru, cyfleusterau ac ati) **ar wahân** gan ddefnyddio'r system sgorio isod.

Dylai'r sgôr adlewyrchu'r lefel gydymffurfio a welwyd yn ystod yr arolygiad yn unol â'r canllawiau a nodir isod.

Mewn sefyllfaoedd pan fydd sefydliad yn methu â chydymffurfio o ran ei strwythur a'i weithdrefnau, dylai'r sgôr 'hylendid' a'r sgôr 'strwythurol' adlewyrchu'r diffyg cydymffurfio hwn.

| Sgôr | Arweiniad ar y system sgorio |
|---|---|
| 25 | Braidd dim cydymffurfio â'r rhwymedigaethau statudol. |
| 20 | Methiant cyffredinol i fodloni'r rhwymedigaethau statudol – safonau yn gyffredinol isel. |
| 15 | Peth diffyg cydymffurfio sylweddol â rhwymedigaethau statudol – mae angen mwy o waith i atal safonau rhag gostwng. |
| 10 | Peth diffyg cydymffurfio â rhwymedigaethau statudol a chodau ymarfer argymelledig y diwydiant* nad ydynt yn cael eu hystyried i fod yn sylweddol o ran risg (ond gallant fod yn sylweddol os na weithredir arnynt). Safonau'n cael eu cynnal neu'u gwella. |
| 5 | Safon gydymffurfio uchel â rhwymedigaethau statudol, a chodau ymarfer argymelledig y diwydiant, gyda dim ond mân doriadau. |
| 0 | Safon uchel o gydymffurfio â rhwymedigaethau statudol a chodau ymarfer argymelledig y diwydiant; cydymffurfio ag arferion da a dderbynnir yn y diwydiant. |

* Lle mae cod/canllawiau diwydiant perthnasol wedi'u datblygu.

| **Sgôr – Hylendid:** | |
|---|---|

| **Sgôr – Strwythurol:** | |
|---|---|

**Rhan 3: Hyder mewn rheolwyr/gweithdrefnau rheoli**

Dylai’r sgôr Hyder mewn Rheolwyr asesu a yw gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd busnes yn briodol, ac a ydynt yn nodi’r peryglon a’r rheolaethau cywir. Dylid asesu’r lefel gydymffurfio gyfredol drwy roi’r arferion ar waith wrth ystyried cydymffurfiaeth â gweithdrefnau hylendid a diogelwch bwyd yn Rhan 2.

Os yw’r rheolwyr wedi rhoi system rheoli diogelwch bwyd effeithiol ar waith a bod y gweithlu’n ei deall yn dda, dylent fod wedi cyrraedd safon dda yn Rhan 2, ac felly dylai fod ganddynt sgôr isel ar gyfer y ffactor risg hwnnw.

Ni fwriedir i’r adran hyder mewn rheolwyr ailystyried yr agwedd hon. Ei diben yw barnu pa mor debygol yw hi y bydd y sefydliad yn parhau i gydymffurfio’n foddhaol yn y dyfodol.

Gall yr asesiad o’r “Rheolwyr” gynnwys dwy elfen: rheolaeth gorfforaethol (unrhyw systemau a phrosesau rheoli bwyd sydd ar waith ar draws y cwmni) a mesurau rheoli lleol (y modd y mae rheolwyr lleol yn rhoi’r systemau corfforaethol ar waith a systemau a phrosesau eraill sydd ar waith mewn canghennau neu siopau).

Os oes gan y sefydliad Brif Awdurdod, gall y Prif Awdurdod ddarparu gwybodaeth y gellid ei hystyried wrth sgorio am Hyder mewn Rheolwyr yn seiliedig ar systemau rheoli corfforaethol sy'n cael eu gweithredu'n gywir. Ni ddylai’r swyddogion geisio ailasesu’r elfen rheolaeth gorfforaethol, ond dylent ystyried y sgôr ar sail y graddau y mae’r rheolwyr lleol yn rhoi’r systemau ar waith yn lleol. Dylent hefyd nodi y dylid ystyried cofnod gweithredwr busnes bwyd a hyfforddiant staff yn ogystal â gweithredu gweithdrefnau seiliedig ar HACCP.

Gall swyddogion hefyd adlewyrchu lefel y sicrwydd a ddarperir gan wiriadau a wneir ar y systemau rheoli diogelwch bwyd yn uniongyrchol mewn sefydliad unigol trwy drydydd parti annibynnol fel rhan o gynllun sicrwydd sy'n mynd i'r afael â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

Nid yw’r sgôr hyder mewn rheolwyr / gweithdrefnau rheoli yn ymwneud â gweithdrefnau dogfennol a’r modd y maent yn cael eu rhoi ar waith yn unig. Mae’r ffactorau a fydd yn dylanwadu ar farn yr arolygwr yn cynnwys:

- “hanes" y cwmni, ei barodrwydd i weithredu ar gyngor a gorfodi blaenorol, a’i hanes o ran cwynion;
- agwedd y rheolwyr presennol tuag at hylendid a diogelwch bwyd;
- gwybodaeth am hylendid a diogelwch bwyd, gan gynnwys dadansoddi peryglon/HACCP a rheoli pwyntiau critigol;
- gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd boddhaol;
- cymryd rhan mewn cynlluniau sicrwydd perthnasol sy’n mynd i’r afael â’r ddeddfwriaeth berthnasol.

Wrth bennu 'boddhaol' mewn perthynas â gweithdrefnau sy'n seiliedig ar HACCP, dylai swyddogion ystyried, yn seiliedig ar yr egwyddor o gymesuredd, yr angen am weithdrefn barhaol

neu weithdrefnau wedi'u seilio ar egwyddorion HACCP, h.y. sy'n gymesur â natur a maint y busnes bwyd. Mewn rhai busnesau bwyd, nid oes pwyntiau rheoli critigol ar gael, ac mewn rhai achosion gall gweithdrefnau hylendid da gymryd lle camau i fonitro pwyntiau rheoli critigol. Mae angen bod yn hyblyg hefyd o ran y gofynion bod busnesau'n cadw cofnodion, a hynny i osgoi rhoi baich gormodol ar fusnesau bach iawn.

Ar gyfer busnesau bach sy'n peri peryglon hylendid sylfaenol yn unig, gall fod yn ddigonol bod gan y busnes arferion hylendid da ar waith ac mae'n eu deall a'u defnyddio e.e. yn bodloni'r rhagofynion. Mae angen cydbwyso'r gofyniad am gofnodion gyda natur a maint y busnes. Efallai na fydd gofyn cadw dogfennau a chofnodion o dan yr hyblygrwydd a roddir gan Erthygl 5 o Reoliad (CE) 852/2004. Dylai swyddogion ystyried canllawiau mewn perthynas â chymhwyso Erthygl 5 er mwyn dyfarnu a yw'r busnes angen gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd cofnodedig, ac os felly, lefel y ddogfennaeth sydd ei hangen. Bydd lefel y ddogfennaeth yn amrywio rhwng busnesau gan ddibynnu ar y mathau o weithrediadau yr ymgymerir â nhw, pa mor gymhleth ydyn nhw a lefel y mesurau rheoli a weithredir.

| | **Arweiniad ar y system sgorio** |
|---|---|
| **30** | Hanes gwael o gydymffurfio.<br>Ychydig neu ddim gwybodaeth a dealltwriaeth o ddiogelwch bwyd. Ychydig neu ddim gwerthfawrogiad o beryglon, risgiau neu fesurau rheoli ansawdd. Dim gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd.<br>Nid yw'n cydnabod nac yn derbyn yr angen am reolaethau diogelwch bwyd a hylendid. |
| **20** | Hanes amrywiol iawn o gydymffurfio.<br>Gwybodaeth a dealltwriaeth annigonol o ddiogelwch bwyd. Gwerthfawrogiad gwael o beryglon a mesurau rheoli.<br>Dim gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd neu gynnydd anfoddhaol o ran datblygu, cofnodi a gweithredu gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd, sy'n gymesur â'r math o fusnes, ers y sgôr ymyrryd ddiwethaf.<br>Mae'r rheolwr braidd yn gyndyn o gydnabod neu dderbyn bod angen rheolaethau diogelwch a hylendid bwyd. |

| | |
|---|---|
| **10** | Hanes boddhaol o gydymffurfio.<br>Mynediad at ffynhonnell berthnasol o ran cyngor diogelwch bwyd a/neu ganllawiau ar arfer da neu gynllun sicrwydd sy'n gymesur â'r math o fusnes. Dealltwriaeth o beryglon sylweddol a mesurau rheoli ar waith.<br>Wedi gweithredu gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd boddhaol neu'n gwneud cynnydd boddhaol tuag at wireddu hynny, yn gymesur â'r math o fusnes bwyd.<br>Gwneud cynnydd boddhaol tuag at weithdrefnau rheoli diogelwch bwyd wedi'u cofnodi sy'n gymesur â'r math o fusnes.<br><br>Gellir dyfarnu sgôr o 10 am fwy nag un cylch ymyrryd os:<br>• mae wedi mynd i'r afael â'r achosion blaenorol o ddiffyg cydymffurfio, ond mae achosion gwahanol wedi codi;<br>• nid yw'r risg cyffredinol wedi cynyddu. |
| **5** | Hanes da o gydymffurfio.<br>Mae cyngor diogelwch bwyd ar gael yn fewnol neu mae ganddo fynediad at gyngor technegol, ac mae'n ei ddefnyddio, gan Brif Awdurdod neu Awdurdod Cartref, cymdeithasau masnach a/neu Canllawiau Arfer Da neu gynllun sicrwydd sy'n gymesur â'r math o fusnes.<br>Rheoli peryglon yn effeithiol.<br>Mae hunanwiriadau effeithiol ar waith, ynghyd â gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd boddhaol wedi'u cofnodi sy'n gymesur â'r math o fusnes.<br>Mae archwiliad gan Awdurdod Bwyd yn cadarnhau cydymffurfiaeth gyffredinol â gweithdrefnau â mân achosion o ddiffyg cydymffurfio nad ydynt wedi'u nodi'n i fod yn gritigol i ddiogelwch bwyd. |
| **0** | Hanes rhagorol o gydymffurfio.<br>Mae cyngor diogelwch bwyd technegol ar gael yn fewnol neu mae ganddo fynediad at gyngor technegol, ac mae'n ei ddefnyddio, gan Brif Awdurdod neu Awdurdod Cartref, cymdeithasau masnach a/neu Canllawiau Arfer Da neu gynllun sicrwydd sy'n gymesur â'r math o fusnes.<br>Gweithredwr/rheolwr busnes bwyd yn wybodus ac yn gymwys.<br>Mae hunanwiriadau effeithiol ar waith, ynghyd â gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd boddhaol wedi'u cofnodi sy'n gymesur â'r math o fusnes a gall fod prosesau archwilio allanol ar waith.<br>Mae archwiliad gan yr Awdurdod Cymwys yn cadarnhau cydymffurfiaeth dda â gweithdrefnau diogelwch bwyd. |

| **Sgôr:** | |
|---|---|

**YN OGYSTAL**

Dylid cynnwys sgôr **ychwanegol** o 20 (yn ychwanegol at y sgôr uchod) lle mae risg sylweddol:

- bod bwyd wedi'i halogi â *Clostridium botulinum* a bod y micro-organeb

yn goroesi unrhyw brosesu ac yn lluosi; neu

- bod bwyd parod i'w fwyta wedi'i halogi, neu bydd yn cael ei halogi, â micro-organebau neu eu tocsinau sy'n bathogenig i bobl, e.e. *E. coli* O157 neu VTEC arall, *Salmonela sp*.; *Bacillus cereus*.

Yn y cyd-destun hwn, ystyr risg sylweddol yw bod digwyddiad yn debygol o ddigwydd. Dylid ystyried y materion canlynol wrth asesu'r ffactor hwn:

- y posiblrwydd bod y micro-organebau penodedig yn halogi neu'n croeshalogi;
- y tebygolrwydd bod y micro-organebau penodedig yn goroesi ac yn tyfu;
- bodolaeth gweithdrefnau sy'n seiliedig ar egwyddorion HACCP a hyder yn y ffordd y cânt eu gweithredu, gan gynnwys dogfennaeth a chofnodion monitro'r rheolaethau;
- graddau a pherthnasedd yr hyfforddiant a roddir i reolwyr, goruchwylwyr a'r rhai sy'n trin a thrafod bwyd;
- p'un a oes angen i'r Awdurdod Bwyd ymyrryd fel bod digwyddiad yn llai tebygol.

Dylai'r sgôr ychwanegol gael ei chymhwyso fesul achos yn unig; ni ddylid ei chymhwyso'n gyffredinol i gategorïau cyfan o sefydliadau busnes bwyd, a rhaid ei dileu adeg yr arolygiad nesaf os nad yw'r risg sylweddol yn bodoli mwyach.

Mae'n rhaid i'r sgôr ychwanegol hefyd fod yn gyson â'r asesiad sylfaenol o Hyder mewn Rheolwyr/Systemau Rheoli. Os rhoddir sgôr o 0 neu 5 ar gyfer hyder mewn rheolwyr, ac os asesir hefyd bod risg sylweddol y caiff y bwyd ei halogi gan un o'r micro-organebau penodedig, rhaid bod un o'r asesiadau yn anghywir a dylid adolygu'r ddau. Os oes hyder uchel neu gymedrol mewn Rheolwyr/Systemau Rheoli, ni ddylai'r sefydliadau beri risg sylweddol.

| Sgôr | Arweiniad ar y system sgorio |
|---|---|
| **20** | Risg sylweddol o fwyd yn cael ei halogi â *Cl. botulinum*, a'r organeb yn goroesi unrhyw brosesu ac yn lluosi; neu<br>Risg sylweddol bod bwyd parod i'w fwyta yn cael ei halogi â micro-organebau neu eu tocsinau sy'n bathogenig i bobl. |
| **0** | Unrhyw achos arall nad yw wedi'i gynnwys uchod. |

| **Sgôr:** | |
|---|---|

| **Sgoriau Arolygu:** | | | | | | | | | **Cyfans wm:** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Rhan 4:** **Lleiafswm amlderau ymyrryd ar gyfer hylendid bwyd**

| Categori | Sgôr | Pa mor aml y mae'n ofynnol cyflawni ymyriadau |
|---|---|---|
| **A** | 92 neu uwch | O leiaf bob 6 mis |
| **B** | 72 i 91 | O leiaf bob 12 mis |
| **C** | 42 i 71 | O leiaf bob 18 mis |
| **D** | 31 i 41 | O leiaf bob 24 mis |
| **E** | 0 i 30 | Rhaglen o strategaethau neu ymyriadau gorfodi amgen bob tair blynedd |

*Nid oes angen cynnwys sefydliadau sydd wedi'u sgorio fel sefydliadau risg isel (30 neu lai) yn y rhaglen arolygiadau wedi'u cynllunio. Os na chânt eu cynnwys, mae'n rhaid eu cynnwys mewn strategaeth orfodi amgen o leiaf unwaith bob 3 blynedd*

## A5.2 System Sgorio Safonau Bwyd

### Rhan 1: Y risg bosibl

### A. Risg i ddefnyddwyr a/neu i fusnesau eraill

Mae'r ffactor hwn yn ystyried yr effaith andwyol bosibl ar ddefnyddwyr, a'r goblygiadau i fusnesau eraill, pe na bai'r busnes yn cydymffurfio â deddfwriaeth safonau bwyd. Mae effeithiau andwyol ar ddefnyddwyr yn cynnwys diogelwch ac anfantais economaidd. Ymhlith y goblygiadau i fusnesau eraill mae effeithiau economaidd masnachu annheg.

| Sgôr | Arweiniad ar y system sgorio |
|---|---|
| **30** | Cynhyrchwyr bwyd ar gyfer grwpiau penodol;<br>Cynhyrchwyr, mewnforwyr neu becynnwyr bwydydd gwerth uchel, neu fwydydd cyfaint uchel lle mae cymhelliant i ddifwyno bwyd yn dwyllodrus;<br>Gweithgynhyrchwyr bwydydd sy'n cynnwys ystod eang o ychwanegion;<br>Busnesau sy'n gwneud honiadau maeth, cynnwys maeth, neu iechyd ar labeli bwyd sydd wedi'i becynnu ymlaen llaw neu wrth hysbysebu.<br>Busnesau bwyd, gan gynnwys gweithgynhyrchwyr a mewnforwyr sy'n trin a thrafod cynhwysion bwyd neu fwydydd wedi'u mewnforio a all wynebu mwy o risg o gael eu halogi'n gemegol. |
| **20** | Gweithgynhyrchwyr neu becynnwyr bwyd sy'n destun safonau cyfansoddiadol statudol. |
| **10** | Busnesau lleol sy'n defnyddio labelu a gynhyrchir yn y siop, arddangosfeydd ffenestr, byrddau sialc, bwydlenni ac ati, e.e. cigyddion, pobyddion, siopau bwyd iach, bwytai, mannau bwyd parod, arlwywyr sy'n cyflenwi mwy na 10 pryd y diwrnod, a busnesau sy'n gwneud defnydd o honiadau er manteision marchnata. |
| **0** | Arlwywyr nad ydynt yn cyflenwi mwy na 10 pryd y diwrnod e.e. llety gwely a brecwast;<br>Unrhyw fusnes nad yw'n cael ei gynnwys yn y categorïau uchod |

| **Sgôr:** | |
|---|---|

### B. Y graddau y mae gweithgareddau'r busnes yn effeithio ar unrhyw berygl

Mae'r ffactor hwn yn ystyried y math o weithgareddau y mae'r busnes bwyd yn ymgymryd â nhw, yr angen i'r gweithgareddau hynny gael eu monitro a'u rheoli'n agos, a'u heffeithiolrwydd posibl o ran cynnal cydymffurfiaeth â deddfwriaeth safonau bwyd. Dylid ystyried a yw'r busnes yn cynhyrchu labeli neu'n hysbysebu cynhyrchion y mae cyfraith safonau bwyd yn gymwys iddynt. Os yw'r busnes yn cynhyrchu ei gynhyrchion ei hun, dylid ystyried y gwaith o fonitro a rheoli ryseitiau a chynhwysion.

Mae'r sgoriau isod yn cynnig enghreifftiau o fusnesau bwyd y gallai sgôr benodol gyfeirio atynt.

| Sgôr | Arweiniad ar y system sgorio |
|---|---|
| **30** | Gweithgynhyrchwyr bwyd, proseswyr, mewnforwyr sy'n trin a thrafod ystod eang o nwyddau. |
| **20** | Busnesau lleol sy'n labelu nwyddau rhydd y maen nhw'n eu harddangos, a/neu pecynnu ymlaen llaw er mwyn gwerthu'n uniongyrchol. |
| **10** | Manwerthwyr/arlwywyr nad ydynt yn gweithgynhyrchu sy'n gwerthu o'u sefydliad eu hunain yn unig. |
| **0** | Unrhyw fusnes nad yw'n cael ei gynnwys yn y categorïau uchod |

| **Sgôr:** | |
|---|---|

### C. Rhwyddineb cydymffurfio

Mae'r ffactor hwn yn ystyried maint a chymhlethdod y gyfraith safonau bwyd sy'n berthnasol i'r busnes ac y mae'n gyfrifol am gydymffurfio â hi. Dylid ystyried ystod a chymhlethdod cynhyrchion, prosesau a safonau gan gynnwys cysondeb deunyddiau crai. Dylid ystyried anhawster y dasg o safbwynt gweithredwr y busnes bwyd gan gynnwys pa mor hawdd yw adnabod perygl.

| Sgôr | Arweiniad ar y system sgorio |
|---|---|
| **30** | Gweithgynhyrchwr, pecynnwr neu fewnforiwr ystod eang o gynhyrchion. |
| **20** | Gweithgynhyrchwr, pecynnwr neu fewnforiwr ystod gyfyng o gynhyrchion. |
| **10** | Manwerthwyr sy'n gosod disgrifiadau ar fwyd fel cigyddion, pobyddion a siopau delicatessen;<br>Arlwywyr sydd â bwydlenni cymhleth. |
| **0** | Unrhyw fusnes nad yw'n cael ei gynnwys yn y categorïau uchod |

| **Sgôr:** | |
|---|---|

## D. Defnyddwyr sy'n wynebu risg

Mae'r ffactor hwn yn ystyried nifer y defnyddwyr sy'n debygol o wynebu risg os yw'r busnes yn methu â chydymffurfio â deddfwriaeth safonau bwyd.

| Sgôr | Arweiniad ar y system sgorio |
|---|---|
| 20 | Gweithgynhyrchwyr, cynhyrchwyr a phecynnwyr bwyd sy'n cael ei ddosbarthu'n genedlaethol neu'n rhyngwladol. |
| 10 | Busnesau y mae eu masnach yn estyn y tu hwn i'r ardal leol, e.e. archfarchnad/hyperfarchnad ranbarthol, gweithgynhyrchwyr lleol ar raddfa fach. |
| 5 | Busnesau sy'n cyflenwi'r ardal leol e.e. siop ar y stryd fawr neu siop y gornel; archfarchnad leol; bwyty lleol. |
| 0 | Busnesau sy'n cyflenwi llai na 30 o ddefnyddwyr y dydd. Unrhyw fusnes nad yw'n cael ei gynnwys yn y categorïau uchod. |

| Sgôr: | |
|---|---|

## Rhan 2: Lefel gydymffurfio (gyfredol)

Mae'r ffactor hwn yn ystyried y lefel gydymffurfio a welwyd yn ystod yr arolygiad. Dylid ystyried cydymffurfiaeth â Chanllawiau Diwydiant perthnasol y DU neu'r UE ar Arfer Da a chanllawiau tebyg eraill e.e. Yr ASB, Pwyllgor Cynghori ar Fwyd a'r Gymdeithas Llywodraeth Leol.

| Sgôr | Arweiniad ar y system sgorio |
|---|---|
| 40 | Methiant cyffredinol i fodloni rhwymedigaethau statudol. Safonau'n gyffredinol isel. |
| 10 | Busnes nodweddiadol gyda rhai elfennau bychain o ddiffyg cydymffurfio â rhwymedigaethau statudol. |
| 0 | Safon uchel o gydymffurfio â rhwymedigaethau statudol a chodau ymarfer a argymhellir ar gyfer y diwydiant, yn cydymffurfio ag arferion da perthnasol y diwydiant. |

| Sgôr: | |
|---|---|

## Rhan 3: Hyder mewn rheolwyr/systemau rheoli

Mae perfformiad gwirioneddol y rheolwyr yn cael ei sgorio yn Rhan 2 ar sail y canlyniadau a gyflawnir ac sy’n cael eu harsylwi. Dylai trefn reoli sy’n cyflawni perfformiad da o ran hylendid bwyd, y mae'r gweithlu yn ei deall yn dda, gyflawni safon dda yn Rhan 2, ac o ganlyniad, sgôr isel ar gyfer y ffactor hwnnw.

Ni fwriedir i’r adran hyder mewn rheolwyr ailystyried yr agwedd hon. Ei diben yw barnu pa mor debygol yw hi y bydd y sefydliad yn parhau i gydymffurfio’n foddhaol yn y dyfodol.

Mae’r ffactorau a fydd yn dylanwadu ar farn yr arolygwr yn cynnwys:

- “hanes" y cwmni, ei barodrwydd i weithredu ar gyngor a mesurau gorfodi blaenorol, a’i hanes o ran cwynion;
- agwedd y rheolwyr presennol tuag at ddeddfwriaeth safonau bwyd, a phresenoldeb neu ddiffyg presenoldeb trefniadau’r awdurdod cartref neu'r awdurdod gwreiddiol perthnasol;
- gwybodaeth dechnegol fewnol neu allanol ar faterion safonau bwyd sydd ar gael i’r cwmni;
- presenoldeb systemau ansawdd, gan gynnwys asesiadau o gyflenwyr a monitro perfformiad, sy’n briodol i faint y busnes a’r risgiau sy’n gysylltiedig, gyda chyfrifoldebau am reoli risg wedi’u diffinio’n glir;
- i fusnesau bach, ystyried y gwiriadau sy’n briodol i’r busnes hwnnw.

| Sgôr | Arweiniad ar y system sgorio |
|---|---|
| **30** | Dim gwybodaeth dechnegol neu wybodaeth dechnegol brin.<br>Prin neu ddim gwerthfawrogiad o beryglon neu o reoli ansawdd. Dim system rheoli safonau bwyd.<br>Nifer anghymesur o gwynion cyfiawnadwy ers yr arolygiad blaenorol.<br>Hanes gwael o gydymffurfio. |
| **20** | Staff â dealltwriaeth sylfaenol o gyfraith bwyd berthnasol. Mae’n bosibl nad oes system rheoli safonau bwyd ganddynt. Cofnod amrywiol o gydymffurfiaeth. |
| **10** | Sgôr o 10 neu well yn Rhan 2.<br>Staff yn arddangos ymwybyddiaeth o gyfraith bwyd berthnasol a’r rheolau angenrheidiol.<br>System rheoli safonau bwyd briodol.<br>Busnesau llai â system wedi’i dogfennu’n fras.<br>Hanes boddhaol o gydymffurfio. |

| | |
|---|---|
| **0** | Cyngor technegol ar gael. Yn destun archwiliad/gwiriadau mewnol.<br>System rheoli safonau bwyd dda, cofnodion wedi'u dogfennu o wiriadau critigol a gwiriadau cyflenwyr, a all fod yn destun archwiliad gan drydydd parti.<br>Tystiolaeth o gydymffurfiaeth â system reoli gofnodedig heb lawer o achosion o ddiffyg cydymffurfio.<br>Dim cwynion cyfiawnadwy ers yr arolygiad blaenorol. Hanes rhagorol o gydymffurfio. |

| | |
|---|---|
| **Sgôr:** | |

### A5.3 Amlder ymyrryd ar gyfer safonau bwyd

| Categori | Sgôr | Pa mor aml y mae'n ofynnol cyflawni ymyriadau |
|---|---|---|
| **A** | 101 i 180 | O leiaf bob 12 mis |
| **B** | 46 i 100 | O leiaf bob 24 mis |
| **C** | 0 i 45 | Strategaeth orfodi amgen neu ymyrryd bob pum mlynedd |

Nid oes angen cynnwys sefydliadau risg isel (45 neu lai) yn y rhaglen arolygu reolaidd, ond mae'n rhaid iddynt fod yn destun strategaeth orfodi amgen o leiaf unwaith pob 5 mlynedd.